Law Commission
Reforming the law
Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith

# Adroddiad Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru

Comisiwn y Gyfraith, Rhif 403

Comisiwn y Gyfraith, Rhif 403

# Adroddiad Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru

Cyflwynwyd i Senedd Cymru

8 Rhagfyr 2021

© Hawlfraint y Goron 2021

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: mpsi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications.

# Comisiwn y Gyfraith

Sefydlwyd Comisiwn y Gyfraith gan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 er mwyn hyrwyddo diwygio'r gyfraith.

Comisiynwyr y Gyfraith yw:

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Nicholas Green, Cadeirydd

Yr Athro Sarah Green

Yr Athro Nick Hopkins

Yr Athro Penney Lewis

Nicholas Paines CF

Prif Weithredwr Comisiwn y Gyfraith yw Phil Golding.

Cyfeiriad Comisiwn y Gyfraith yw 1st Floor, Tower, 52 Queen Anne's Gate, London, SW1H 9AG.

Cytunwyd ar delerau'r adroddiad hwn ar 13 Hydref 2021.

Mae testun yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith yn http://www.lawcom.gov.uk/cymraeg.

# Cynnwys


**GEIRFA** ix

**PENNOD 1: CYFLWYNIAD** 1

Tarddiad y prosiect hwn 1

Ein cylch gorchwyl 1

Datblygu'r tribiwnlysoedd datganoledig 3

Y system dribiwnlysoedd datganoledig 3

Adolygiadau blaenorol o'r system dribiwnlysoedd yng Nghymru 5

Tribiwnlysoedd Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017 7

Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru (2019) 8

Egwyddorion sy'n sail i'n dadansoddiad 9

Digwyddiadau ymgynghori 9

Ymatebion i'r ymgynghoriad 9

Golwg gyffredinol ar ein hadroddiad a'n hargymhellion 9

Paneli apêl derbyn i ysgolion 11

Yr asesiad effaith 12

Cydnabyddiaeth 12

Y tîm sy'n gweithio ar y prosiect 12

**PENNOD 2: CYMHWYSEDD DATGANOLEDIG A THRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG** 13

Tribiwnlysoedd datganoledig 13

Y diffiniad o "dribiwnlys" 13

Cyrff sy'n dod o fewn cwmpas ein prosiect 14

Cyrff ychwanegol 15

Cyrff sydd y tu allan i gwmpas y prosiect 17

Trafodaeth 19

Y diffiniad o dribiwnlys 19

Ein casgliad ynghylch pa gyrff yng Nghymru sy'n dribiwnlysoedd datganoledig 20

Cymhwysedd datganoledig 22

**PENNOD 3: SYSTEM TRIBIWNLYSOEDD AR GYFER CYMRU** 23

System tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru 22

Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru 22

Rhannu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn siambrau 26

Trafodaeth 27

Tribiwnlys Prisio Cymru 29
Safbwyntiau cefnogol 29
Rhwystrau posibl rhag uno 29
Trafodaeth 32

Paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion 34
Paneli apêl gwahardd o ysgolion 34
Paneli apêl derbyn i ysgolion 41

Paneli Gofal Cymdeithasol Cymru 44

Ad-drefnu awdurdodaeth o fewn Tribiwnlys Haen Gyntaf 45
Arolygwyr cofrestredig addysg ysgol a meithrinfeydd 47
Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru 47
Siambr Rheoleiddio Cyffredinol? 48
Siambr eiddo 52
Awgrymiadau eraill 54
Ein strwythur arfaethedig 55

**PENNOD 4: APELIADAU 57**

Y sefyllfa ar hyn o bryd 58

Apeliadau o'r tribiwnlysoedd 60
Llwybr apêl unffurf 60
Pen y daith i apeliadau pellach 62
Llwybr apêl diofyn 66
Cynsail 67
Trafodaeth 69
Casgliad 74

Tribiwnlys Prisio Cymru 76
Trafodaeth 77

Pwyllgorau asesu rhenti – caniatâd i apelio 77

Paneli apêl derbyn i ysgolion 78
Awdurdodaeth apeliadol dros Dribiwnlys Addysg Cymru 78
Seiliau dros apelio ymlaen o'r Tribiwnlys Addysg 81
Trafodaeth 82

**PENNOD 5: LLYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU 87**

Rôl farnwrol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru 87
Trafodaeth 89

Goruchwylio’r broses o baneli apêl derbyn i ysgolion ac (os y cedwir nhw) paneli apêl gwaharddiadau ysgolion 91
Ymatebion 92
Trafodaeth 93
Casgliad 95

Goruchwylio Tribiwnlys Prisio Cymru 96
Ymatebion i’r ymgynghoriad 96
Trafodaeth 96

**PENNOD 6: RHEOLAU GWEITHDREFNAU** 99
Cyflwyniad 99
Y gyfraith ar hyn o bryd 99
Terminoleg 99
Pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol 100
Pwyllgorau gweithdrefnau tribiwnlysoedd 100
Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 100
Yr Alban 102
Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru 102
Sefydlu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru 102
Cyfansoddiad a swyddogaethau Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru 104
Strwythur Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru 104
Cadeirio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru 105
Cyfansoddiad 105
Pŵer i wneud rheolau 106
Mwyafrif Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd 107
Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 108
Cyfuniadau eraill 108
Casgliad 109
Safoni rheolau gweithdrefnau 110
Safoni nodweddion cyffredin 111
Setiau ar wahân o reolau ar gyfer pob siambr 111
Casgliad 112
Dargyfeirio rhwng y rheolau 113
Uno rheolau Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru 115
Materion penodol mewn rheolau gweithdrefnol 115
Prif amcan 115
Rhestr o esiamplau enghreifftiol 117
Dyletswydd i gydweithredu a chynorthwyo'r tribiwnlys 120
Cyflwyno dogfennau 122
Pŵer i adolygu penderfyniadau 125
Gwrandawiadau o bell 127

**PENNOD 7: PENODIADAU** 131
Awdurdodau penodi 131
Awdurdod penodi unffurf 131
Pwy yw'r awdurdod penodi 133
Llywyddion a Dirprwy Lywyddion Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru 134
Trafodaeth: penodiadau i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru 136
Tribiwnlys Prisio Cymru 140
Trafodaeth: Tribiwnlys Prisio Cymru 142
Penodi aelodau i'r paneli apêl derbyn ac, os cedwir nhw, paneli gwahardd ysgolion 143
Gweithdrefnau dethol 139

Trefniadau ar gyfer dethol ar gyfer penodi gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol 145
Tribiwnlys Prisio Cymru 147
Dewis aelodau paneli apêl derbyn i ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli gwaharddiadau 149

**PENNOD 8: CWYNION A DISGYBLU 151**

Diwygio prosesau cwyno 151
Polisïau a gweithdrefnau cwynion unffurf 152
Argaeledd polisïau cwyno 153
Cwynion yn erbyn aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru 154
Gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion ynghylch gweinyddu 154
Gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig 155

Ymchwilio i gwynion am ymddygiad 157
Ymchwilio i gwynion am aelodau tribiwnlysoedd adran 59 157
Ymchwilio i gwynion am arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd adran 59 159
Cwynion ynghylch ymddygiad aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru 160
Cwynion ynghylch ymddygiad Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru 161
Ymchwilio i gwynion ynghylch aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru 162

Diwygio pwerau disgyblu 163
A ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau o'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017? 164
Disgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru 165
Disgyblu a diswyddo arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd adran 59 166
Disgyblu a diswyddo Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru 168
Disgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru 170
Mesurau diogelu pellach ar bwerau disgyblu 171

Paneli apêl derbyn i ysgolion: cwynion a disgyblu 172
Y sefyllfa bresennol 172
Y broblem 173
Polisi cwynion ar gyfer paneli apêl derbyn i ysgolion 174
Pwy ddylai ymchwilio i gwynion a wneir ynghylch ymddygiad aelodau'r paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion? 175
A ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion? 176
Trafodaeth 177

**PENNOD 9: GWEINYDDU TRIBIWNLYSOEDD 179**

Y modelau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd 179
Yr asiantaeth weithredol 180
Yr adran anweinidogol 181
Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru 183

Ymatebion i'r ymgynghoriad 184
Adran anweinidogol neu asiantaeth weithredol? 185
Rhwymedigaethau o ran y Gymraeg 186

Trafodaeth 186
Annibyniaeth ac atebolrwydd 186
Hyd a lled cyfranogiad barnwrol 187
Maint 188
Casgliad 189

**PENNOD 10: ANNIBYNIAETH FARNWROL 191**

Dyletswydd statudol i gynnal annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig 191
Ymestyn y warant annibyniaeth i aelodau o farnwriaeth y tribiwnlys 192
Dyletswydd y weithrediaeth 193
Ymatebion i'r ymgynghoriad 193

Llw Barnwrol 194
Cydraddoldeb â'r tribiwnlysoedd a gedwir 195
Amheuon 195
Trafodaeth 197
Casgliad 198

**PENNOD 11: ARGYMHELLION 201**

**ATODIAD 1: RHESTR O'R RHAI A OEDD YN BRESENNOL YNG NGHYFARFODYDD Y GRŴP YMGYNGHOROL 213**

**ATODIAD 2: RHESTR O DDIGWYDDIADAU YMGYNGHORI 215**

**ATODIAD 3: RHESTR O YMATEBWYR 217**

**ATODIAD 4: TRIBIWNLYSOEDD SY'N DOD O FEWN CWMPAS Y PROSIECT HWN 219**

# Geirfa

**Adolygiad/Adroddiad Leggatt:** Comisiynwyd Syr Andrew Leggatt i adolygu'r system tribiwnlysoedd ar y pryd yn 2000. Arweiniodd yr adolygiad at yr adroddiad "Tribunals for Users; One System, One Service: Report of the Review of Tribunals" ym mis Mawrth 2001. Yn y pen draw, roedd yr Adroddiad yn rhan o sail y diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Ni wnaeth argymhellion mewn perthynas â'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru.

**Aelodau'r Tribiwnlys:** Yng nghyd-destun y papur ymgynghori hwn, mae aelod o dribiwnlys yn golygu pawb sy'n eistedd ar banel tribiwnlys (cyfreithiol a lleyg) ar wahân i'r arweinydd barnwrol.

**Arweinydd barnwrol:** Barnwr lefel uchaf tribiwnlys y cyfeirir ato fel arfer fel Llywydd neu, yn llai cyffredin, fel Cadeirydd tribiwnlys.

**Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd:** Sefydlwyd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd gan adran 44 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, gyda phedwar prif nod: adolygu'r system cyfiawnder gweinyddol gyffredinol a'r rhan fwyaf o dribiwnlysoedd ac ymchwiliadau statudol yn barhaus; cynghori gweinidogion ar ddatblygiad y system cyfiawnder gweinyddol; cyflwyno cynigion ar gyfer newidiadau, a gwneud cynigion ar gyfer ymchwil. Olynodd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd y Cyngor Tribiwnlysoedd.

**'Cyfiawnder gweinyddol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru' ("Adroddiad 2016") Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru:** Yn 2016, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, dan y teitl "Cyfiawnder gweinyddol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru". Mae'n cynnwys trosolwg o gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, yn ogystal â rhoi cipolwg ar y datblygiadau yn y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru er 2010.

**'Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru':** Cynhaliodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ("Comisiwn Thomas"), dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd, adolygiad cynhwysfawr o weithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru. Cyhoeddodd ei adroddiad ym mis Hydref 2019.

**'Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Pwyllgor Cymreig*, Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru'* ("Adroddiad 2010"):** Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2010 gan Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Darparodd drosolwg cynhwysfawr o effeithiolrwydd tribiwnlysoedd a gweinyddu gwasanaethau cyhoeddus y maent wedi datganoli tribiwnlysoedd iddynt sy'n gweithredu yng Nghymru a gwnaeth argymhellion ar gyfer diwygio.

**Deddf Cymru 2017 ("Deddf 2017"):** Fe wnaeth Deddf Cymru 2017 newidiadau i setliad datganoli Cymru. Yn bwysig o ran y prosiect hwn, mae adran 59(1) yn rhestru'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru sy'n cael eu goruchwylio gan Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ("Deddf 2005"):** Roedd Deddf 2005 yn ceisio diwygio rhannau o'r farnwriaeth, ac mae atodlen 14 Deddf 2005 yn cynnwys rhestr o ddeiliaid swyddi barnwrol. Rhestrir rhai o aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn atodlen 14.

**Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007:** Creodd Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 strwythur unedig newydd ar gyfer tribiwnlysoedd, yn cynnwys y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi:** Mae GLITEM yn gyfrifol am weinyddu llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theuluol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon:** Mae'r Gwasanaeth hwn yn gweinyddu holl lysoedd Gogledd Iwerddon a'r rhan fwyaf o'i dribiwnlysoedd. Un o asiantaethau gweithredol yr Adran Gyfiawnder yw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Gogledd Iwerddon.

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban:** Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban yn darparu cymorth gweinyddol i lysoedd a thribiwnlysoedd yn yr Alban. Mae'n gorff corfforaethol ac yn adran anweinidogol, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2015 dan Ddeddf y Farnwriaeth a'r Llysoedd (yr Alban) 2008.

**Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru:** Sefydlwyd swyddfa Llywydd y Tribiwnlysoedd gan Ddeddf Cymru 2017. Y Llywydd yw'r barnwr uchaf yn y system tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am hyfforddiant, arweiniad a lles llywyddion ac aelodau tribiwnlysoedd, yn ogystal â chynrychioli barn y tribiwnlysoedd datganoledig yn y Senedd.

**Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban:** Penodir y Llywydd gan yr Arglwydd Lywydd. Y Llywydd yw uwch aelod tribiwnlysoedd yr Alban (Tribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban ac Uwch Dribiwnlys yr Alban). Pennaeth tribiwnlysoedd yr Alban yw'r Arglwydd Lywydd, a all ddirprwyo rhai cyfrifoldebau dros dribiwnlysoedd yr Alban i'r Llywydd.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:** Sefydlwyd swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005. Mae'r Swyddfa yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus a darparwyr gofal annibynnol yng Nghymru, yn ogystal â honiadau bod aelodau o gyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod.

**Panel apelio annibynnol:** Term torfol a ddefnyddir i gyfeirio at baneli apelau derbyn ysgolion a phaneli apelau gwahardd ysgolion.

**Panel Dyfarnu Cymru:** Mae'r Panel yn gwrando ar achosion sy'n ymwneud â chyhuddiadau o dorri codau ymddygiad awdurdodau gan aelodau o gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned, awdurdod tân a pharc cenedlaethol yng Nghymru.

**Paneli apêl derbyn i ysgolion:** Mae'r paneli hyn yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau awdurdodau derbyn (awdurdodau lleol gan amlaf) ynghylch dyrannu lleoedd ysgol. Mae adran 94(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gwneud awdurdodau derbyn yn gyfrifol am weinyddu'r paneli.

**Paneli apelio gwaharddiadau ysgol:** Sefydlwyd paneli apêl gwaharddiadau ysgolion gan Ddeddf Addysg 2002, ac maent yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau disgyblu cyrff llywodraethu ynghylch gwahardd disgyblion yn barhaol. Awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r paneli.

**Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru:** Sefydlwyd Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru gan Weinidogion Cymru yn 2013, fel pwyllgor olynol i'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Ei rôl oedd gweithredu fel gwarcheidwad er budd y cyhoedd yng nghyswllt cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, darparu cyngor arbenigol a cheisio sicrhau bod anghenion defnyddwyr y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru yn parhau i fod yn hollbwysig. Peidiodd Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru weithredu yn 2016, pan gyhoeddwyd adroddiad terfynol (adroddiad 2016).

**Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd:** Mae'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd yn gwneud rheolau sy'n llywodraethu'r arferion a'r gweithdrefnau yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys.

**Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol:** Mae'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol yn swyddfa annibynnol sy'n cynorthwyo'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus wrth iddynt ystyried cwynion am ymddygiad personol deiliaid swyddi barnwrol.

**Traws-docynnu:** Dyma'r arfer o ganiatáu i farnwr a benodir i un corff barnwrol eistedd mewn corff barnwrol arall, fel arfer gyda chytundeb barnwr uwch. Defnyddiwyd "traws-docynnu" yn wreiddiol yn strwythur Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 i olygu bod barnwr yn gallu eistedd mewn gwahanol awdurdodaethau mewn un siambr, ond mae'n cael ei ddefnyddio'n fwy eang erbyn hyn. Roedd traws-docynnu o dan strwythur Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yn rhoi'r modd i'r barnwr eistedd mewn siambr wahanol. Mae Deddf Cymru 2017 yn cyfeirio at drawsleoli, sy'n golygu (a) gallu aelod o un tribiwnlys adran 59 i eistedd mewn tribiwnlys arall, a (b) gallu barnwyr tribiwnlysoedd adran 59 i eistedd yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (ac i'r gwrthwyneb; i farnwyr y Tribiwnlys Haen Gyntaf eistedd mewn tribiwnlys adran 59).

**Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru:** Mae'r Tribiwnlys yn gwrando ceisiadau gan ac yng nghyswllt unigolion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007.

**Tribiwnlys Addysg Cymru:** Mae'r Tribiwnlys yn gwrando ar apeliadau yn erbyn y penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol ynghylch addysg plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Tan 31 Awst 2020, fe'i hadwaenid fel Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru.

**Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru:** Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gwrando ar apeliadau gan blant, eu rhieni neu bobl ifanc, yn erbyn y penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol am eu haddysg. Cafodd y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru ar 1 Medi 2021.

**Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig a Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig:** Mae rhain yn dribiwnlysoedd gyfansoddedig yn unol â atodlen 3 i'r holl arolygwyr addysg feithrin wedi eu cynnwys mewn cofrestr a ddarperir yn Neddf Addysg 2005 i wrando apeliadau sy'n ymwneud â'r cofrestri o Arolygwyr yng Nghymru

yn unol â adran 25 o’r Deddf. Mae adran 27 o Ddeddf Addysg 2005 yn caniatáu i arolygwyr anghytuno â phenderfyniad i'w tynnu oddi ar y gofrestr, neu i roi cofrestriad amodol, drwy wneud cais i’r Tribiwnlys Apêl Addysg Feithrin Cofrestredig.

**Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig:** Mae holl arolygwyr ysgolion wedi eu cynnwys mewn cofrestr a ddarperir yn Neddf Addysg 2005. Mae adran 27 o Ddeddf Addysg 2005 yn caniatáu i arolygwyr anghytuno â phenderfyniad i'w tynnu oddi ar y gofrestr, neu i roi cofrestriad amodol, drwy wneud cais i’r Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig.

**Tribiwnlys Apêl Cymru:** Ym Mhennod 4 yr Adroddiad rydym yn argymell creu tribiwnlys apeliadol newydd i wrando achosion gan Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Rydym yn galw’r tribiwnlys apeliadol hwn yn Dribiwnlys Apêl Cymru.

**Tribiwnlys datganoledig:** Mae Atodlen 7A, paragraff 9(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn diffinio tribiwnlys datganoledig fel tribiwnlys, y mae ei holl swyddogaethau (a) yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig, a (b) nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Rydym yn defnyddio “tribiwnlys datganoledig yng Nghymru” lle bo angen i wahaniaethu rhwng y tribiwnlysoedd hynny a thribiwnlysoedd datganoledig mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.

**Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru:** Mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn dribiwnlys “ymbarél”, sy’n cynnwys tri thribiwnlys gwahanol (pob un wedi eu lleoli mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol); pwyllgorau asesu rhenti, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau a thribiwnlysoedd eiddo preswyl.

**Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru:** Ym Mhennod 3 o’r Adroddiad rydym yn argymell y dylai tribiwnlysoedd adran 59 a Thribiwnlys Prisio Cymru gael eu hymgorffori mewn tribiwnlys haen gyntaf unedig newydd, a elwir yn Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Tribiwnlys Haen Gyntaf:** Lefel gyntaf y strwythur tribiwnlysoedd unedig a grëwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

**Tribiwnlys Prisio Cymru:** Mae’r Tribiwnlys Prisio yn gwrando’n bennaf ar apeliadau sy’n ymwneud â prisiadau phenderfyniadau ynghylch ardrethu annomestig a gwerthusiadau’r dreth gyngor. Nid yw’r Tribiwnlys Prisio wedi ei gynnwys yn y rhestr o dribiwnlysoedd yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017.

**Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru:** Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn gwrando ar anghydfodau rhwng landlordiaid amaethyddol a thenantiaid ac anghydfodau draenio.

**Tribiwnlys y Gymraeg:** Mae Tribiwnlys y Gymraeg yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau’r Gymraeg.

**Tribiwnlysoedd adran 59:** Y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017 (ac y cyfeirir atynt fel “tribiwnlysoedd Cymru” yn y Ddeddf honno). Maent yn cael eu goruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac yn cael eu gweinyddu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

**Uned Tribiwnlysoedd Cymru:** Un o unedau Llywodraeth Cymru yw Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'n gyfrifol am weinyddu'r tribiwnlysoedd hynny a restrir yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru.

**Uwch Dribiwnlys:** Ail lefel y strwythur tribiwnlysoedd unedig a grëwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Mae'n gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, ymysg hawliadau eraill.

**Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd:** Cafodd swydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd ei chreu gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Mae dyletswyddau'r Llywydd yn cynnwys sicrhau bod y tribiwnlysoedd yn hygyrch ac yn deg, a bod gan aelodau'r tribiwnlysoedd yr wybodaeth angenrheidiol i ganiatáu iddynt benderfynu ar achosion. Mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn llywyddu dros y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys.

**Y Coleg Barnwrol:** Mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer hyfforddi aelodau a barnwyr y tribiwnlysoedd hynny sy'n dod o fewn cwmpas Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Cynhelir yr hyfforddiant hwn gan y Coleg Barnwrol.

**Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol:** Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn gorff statudol annibynnol sy'n dethol ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol mewn llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr.

**Y Senedd:** Y Senedd yw'r corff a etholir yn ddemocrataidd sy'n deddfu dros Gymru (o fewn meysydd penodol). Mae'n cael ei alw'n Senedd Cymru a Welsh Parliament yn Saesneg. Yn yr adroddiad papur hwn rydym yn cyfeirio ati wrth ei henw Cymraeg cyffredin, y Senedd.

**Yr Arglwydd Brif Ustus:** Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr yw Pennaeth Barnwriaeth Cymru a Lloegr a Llywydd Llysoedd Cymru a Lloegr.

**Yr Arglwydd Ganghellor:** Mae'r Arglwydd Ganghellor yn un o Weinidogion Cabinet y Deyrnas Unedig (a than Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, bu hefyd yn farnwr). Mae'r rôl fel arfer yn cael ei chyfuno â rôl yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

**Yr Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol:** Mae'r Ombwdsmon Penodiadau ac Ymddygiad Barnwrol yn gyfrifol am ymchwilio i'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion am brosesau penodiadau barnwrol a disgyblaeth neu ymddygiad barnwrol.

# Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Esblygodd y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru ar hap. Cafodd y rhan fwyaf eu creu ar wahanol adegau yn yr 20fed ganrif, wrth i'r ffordd o feddwl am dribiwnlysoedd a'u perthynas â'r Llywodraeth ddatblygu. Cawsant eu creu cyn datganoli hefyd. O ganlyniad, mae eu prosesau a'u rheolau gweithdrefnol yn amrywio'n sylweddol, ac mae bylchau ac anghysondebau.

1.2 Mae gan y tribiwnlysoedd berthynas gyfyngedig â'i gilydd. Er 2017 mae'r rhan fwyaf wedi dod o dan oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ac fe'u gweinyddir gan yr un uned o Lywodraeth Cymru (Uned Tribiwnlysoedd Cymru). Ond yn y bôn maent yn gyrff annibynnol, pob un â'i ddeddfwriaeth sylfaenol ei hun. Ar hyn o bryd, mae'n anodd eu galw'n "system".

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion i unioni'r bylchau a'r anghysondebau. Yn bwysicach na hynny, mae ein hargymhellion wedi eu cynllunio i greu strwythur ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig a fydd yn helpu i'w cadw'n gyfredol a sicrhau eu bod yn gallu ymateb yn hyblyg i anghenion cyfiawnder tribiwnlysoedd yn y dyfodol. Rydym yn gobeithio, maes o law, y bydd ein hargymhellion yn cael eu rhoi ar waith mewn Bil Tribiwnlysoedd (Cymru).

## TARDDIAD Y PROSIECT HWN

1.4 Roedd 13eg rhaglen diwygio'r gyfraith Comisiwn y Gyfraith yn rhagweld y byddai Comisiwn y Gyfraith yn ymgymryd â gwaith sy'n ymwneud â chyfraith ddatganoledig yng Nghymru, ond nid oedd yn nodi maes penodol o gyfraith. Yn dilyn trafodaethau, cytunodd y Comisiwn a Llywodraeth Cymru mai Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru fyddai'r prosiect hwnnw.

1.5 Fe wnaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford AS, ddatganiad ysgrifenedig i'r Senedd ym mis Awst 2020 i ddatgan bod y prosiect wedi dechrau.[1] Gwnaeth ddatganiad pellach ym mis Rhagfyr 2020 i gyhoeddi bod y Papur Ymgynghori wedi ei gyhoeddi.[2]

## EIN CYLCH GORCHWYL

1.6 Gofynnwyd i ni ystyried materion sy'n ymwneud â Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru, a luniwyd i reoleiddio gweithrediad un system tribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori ar gynlluniau i gynnwys rheoleiddio tribiwnlysoedd mewn Cod Gweinyddiaeth Gyhoeddus i Gymru. Mae ein Memorandwm

---

1 Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Prosiect Comisiwn y Gyfraith: Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru, (Awst 2020). Gweler https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-prosiect-comisiwn-y-gyfraith-tribiwnlysoedd-datganoledig-yng-nghymru (Cyrchwyd yr holl hyperddolenni ddiwethaf ar 1 Rhagfyr 2021).

2 Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Prosiect Comisiwn y Gyfraith: Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru, (Awst 2020). Gweler https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-prosiect-comisiwn-y-gyfraith-tribiwnlysoedd-datganoledig-yng-nghymru

Cyd-ddealltwriaeth â Llywodraeth Cymru yn cofnodi bod ein hadolygiad yn cynnwys materion fel:

(1) cwmpas system dribiwnlysoedd ar gyfer Cymru;

(2) swyddogaethau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru;

(3) penodi a disgyblu barnwyr tribiwnlysoedd ac aelodau eraill;

(4) penodi Llywyddion a Dirprwyon;

(5) y pŵer i wneud a safoni rheolau gweithdrefnol;

(6) prosesau apelio;

(7) prosesau cwyno; a

(8) gwarchod annibyniaeth farnwrol.

1.7 Nid yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi'r tribiwnlysoedd sy'n rhan o gylch gwaith y prosiect. Nid yw nodi'r rhain wedi bod yn gwbl ddidrafferth. Buom yn ymgynghori ar ein dull gweithredu ar gyfer y cwestiwn hwn, ac rydym yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw ym Mhennod 2.

1.8 Y cyrff amlwg i'w cynnwys oedd "tribiwnlysoedd Cymru" a restrir yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017 ("Deddf 2017"). Y rhain yw:

(1) Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru;

(2) Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru;

(3) Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru;[3]

(4) Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (sydd bellach wedi ei ailenwi yn Dribiwnlys Addysg Cymru);[4]

(5) tribiwnlys sydd â chyfansoddiad sy'n unol ag Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 (cofrestru arolygwyr yng Nghymru);[5]

(6) tribiwnlys a dynnir o blith Panel Dyfarnu Cymru; a

---

3 Diffiniwyd yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017 fel "pwyllgor asesu rhenti sydd â chyfansoddiad sy'n unol ag Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 (gan gynnwys tribiwnlys prisio lesddaliadau a thribiwnlys eiddo preswyl)".

4 Cafodd Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021 Rhif 373, rheoliad 8(h); Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ei ailenwi ar 1 Medi 2021.

5 Sefydlir dau dribiwnlys yn unol â'r darpariaethau hyn. Y rhain yw Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a Thribiwnlys Apêl Arolygwyr Meithrinfeydd Cofrestredig. Mae apeliadau i'r tribiwnlysoedd hyn yn brin iawn; ni chafwyd yr un apêl yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gall aelodau o'r Tribiwnlys Addysg gyflawni eu swyddogaethau.

(7) Thribiwnlys y Gymraeg.

1.9 Yn ogystal â'r "tribiwnlysoedd adran 59" hyn, daethom i'r farn dros dro yn y Papur Ymgynghori y dylai unrhyw dribiwnlys a oedd yn bodloni diffiniad Deddf Llywodraeth Cymru 2006 o "dribiwnlys datganoledig" ddod o fewn cwmpas y prosiect. Ym Mhennod 2 o'r Papur Ymgynghori a'r Adroddiad hwn, rydym yn cymhwyso'r prawf hwn i gyrff y gellid eu dosbarthu fel tribiwnlysoedd. Rydym wedi dod i'r casgliad bod cwmpas y prosiect, yn ogystal â thribiwnlysoedd adran 59, yn cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru, sy'n penderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau ynghylch y dreth gyngor a threthi annomestig, paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion a sefydlwyd yng Nghymru yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Deddf Addysg 2002, a phaneli apêl a sefydlwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

1.10 Ein dull gweithredu drwy gydol y prosiect hwn fu canolbwyntio ar y tribiwnlysoedd presennol, a'r strwythurau cyffredinol sy'n eu rheoli. Ni fu'n bosibl adolygu'r sefyllfa cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru a llunio barn ynghylch a oes angen tribiwnlysoedd neu awdurdodaethau ychwanegol. Yn hytrach, rydym wedi canolbwyntio ar wneud argymhellion a fydd yn gwella gweithrediad y tribiwnlysoedd presennol, gan greu strwythur cadarn, hyblyg sy'n gallu esblygu dros amser. Byddai ein hargymhelliad ym Mhennod 3 ar gyfer tribiwnlys unedig newydd yn ei gwneud yn haws creu siambrau ychwanegol, heb orfod ailddyfeisio prosesau ar gyfer materion fel penodiadau, disgyblaeth a rheolau gweithdrefnol.

## DATBLYGU'R TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG

1.11 Er mwyn deall patrwm presennol tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, mae'n ddefnyddiol deall sut maent wedi datblygu. Yn yr adran hon rydym yn rhoi trosolwg byr o ddatblygiad y system tribiwnlysoedd datganoledig bresennol, gan gynnwys argymhellion blaenorol ar gyfer diwygio. Mae'r adran yn canolbwyntio ar "dribiwnlysoedd adran 59". Fodd bynnag, rydym yn cyffwrdd â'r tribiwnlysoedd eraill sydd, yn ein barn ni, yn dod o fewn cwmpas y prosiect.

### Y system dribiwnlysoedd datganoledig

1.12 Sefydlwyd y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd adran 59 yn ystod yr 20fed ganrif, fel rhan o rwydwaith ehangach o dribiwnlysoedd ledled Cymru a Lloegr. Hyd yn oed cyn datganoli, roedd nifer o'r tribiwnlysoedd yn gweithredu ar sail ranbarthol, ac roedd ganddynt elfen benodol yn ymwneud â Chymru. Er enghraifft, roedd olynydd Deddf Iechyd Meddwl 1959, sef Deddf Iechyd Meddwl 1983, yn darparu ar gyfer tribiwnlys adolygu iechyd meddwl i Gymru, yn ogystal â thribiwnlysoedd rhanbarthol eraill (un ar gyfer pob awdurdod iechyd rhanbarthol) yn Lloegr. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys Tribiwnlys Addysg Cymru a Thribiwnlys Prisio Cymru (a oedd gynt yn rhan o rwydwaith rhanbarthol ehangach o dribiwnlysoedd prisio).[6] Tribiwnlys y Gymraeg yw'r Tribiwnlys a grëwyd yn fwyaf diweddar o dribiwnlysoedd adran 59, ac fe'i sefydlwyd yn 2015.

[6] Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Pwyllgor Cymru, *Review of Tribunals Operating in Wales* (2010), tudalen 43.

1.13 Fel y dywed Dr Huw Pritchard, datganolwyd y cyfrifoldeb dros weinyddu'r rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd datganoledig (ac eithrio Panel Dyfarnu Cymru a Thribiwnlys y Gymraeg, nad oedd yn bodoli eto) pan ddaeth Deddf Cymru 1998 i rym:

> Trosglwyddwyd swyddogaethau gweithredol dros 18 o feysydd datganoledig, a restrir yn Atodlen 2 Deddf [Llywodraeth Cymru 1998], i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cafodd pwerau dros dribiwnlysoedd gweinyddol yn y meysydd hynny eu datganoli hefyd. Er enghraifft, bu i Orchymyn [Cynulliad Cenedlaethol Cymru] (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ddatganoli swyddogaethau o dan Ddeddf Rhenti 1977 a oedd yn cynnwys cyfrifoldeb dros Bwyllgorau Asesu Rhenti.[7]

1.14 Digwyddodd datganoli tribiwnlysoedd ynghyd â phwerau gweithredol mewn meysydd penodol yn bennaf oherwydd bod y tribiwnlysoedd yn dal i gael eu hystyried yn ategiad i'r weithrediaeth, yn hytrach nag yn rhan o'r farnwriaeth. Un o ganlyniadau datganoli oedd nad oedd tribiwnlysoedd sydd eisoes wedi eu datganoli yn dod o fewn cwmpas yr adolygiad o dribiwnlysoedd a gynhaliwyd gan Syr Andrew Leggatt. Cyflwynodd yr adolygiad hwnnw adroddiad yn 2001, ac arweiniodd at y diwygiadau a ddaeth i rym wedyn yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.[8] Roedd y diwygiadau'n disodli tribiwnlysoedd unigol gyda thribiwnlys unedig, a oedd yn cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys apeliadol, pob un wedi ei rannu'n siambrau.

1.15 Fel rhan o'r diwygiadau hyn, diddymwyd fersiynau cyfatebol y tribiwnlysoedd yn Lloegr, a throsglwyddwyd eu swyddogaethau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Ac eithrio Tribiwnlys y Gymraeg, roedd gan bob un o'r tribiwnlysoedd adran 59 fersiynau cyfatebol yn Lloegr yn y gorffennol. Diddymwyd yr hyn sy'n cyfateb yn Lloegr i Dribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a Thribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig gan Ddeddf Addysg 2005 cyn i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ddod i rym. Cafodd fersiynau cyfatebol y tribiwnlysoedd eraill eu diddymu a'u disodli gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

1.16 Mae gan dribiwnlysoedd datganoledig eraill fersiynau cyfatebol yn Lloegr o hyd. Yr enghraifft amlycaf yw Tribiwnlys Prisio Lloegr, nad yw wedi ei gynnwys yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Yn yr un modd, mae paneli apeliadau gwaharddiadau a derbyn i ysgolion yn dal i fodoli yn Lloegr (er y cyfeirir at baneli apeliadau gwaharddiadau ysgolion fel paneli adolygu annibynnol erbyn hyn, ac maent yn gweithredu ychydig yn wahanol). Trefnir Paneli Apêl sy'n ymwneud â chofrestru gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr gan Social Work England.[9]

1.17 O ganlyniad i Adroddiad Leggatt, trosglwyddwyd swyddogaethau gweithredol o'r Cynulliad Cenedlaethol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"). Yn 2010, pan gyhoeddodd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a

---

7 H Pritchard, "Building a Welsh Jurisdiction Through Administrative Justice" (2017) yn *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives*, tudalen 225.

8 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001). Gweler https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/+/http:/www.tribunals-review.org.uk/leggatthtm/leg-00.htm.

9 Sefydlwyd Social Work England o dan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017, Atodlen 3. Darperir y paneli apêl cofrestru a gyfansoddwyd gan Social Work England gan y Rheoliadau Gweithwyr Cymdeithasol Offeryn Statudol Rhif 893, rheoliad 19.

Thribiwnlysoedd, y Pwyllgor Cymreig ("Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd") ei adolygiad o dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru (a drafodir yn fanylach isod), gweinyddwyd y tribiwnlysoedd datganoledig gan adrannau amrywiol Llywodraeth Cynulliad Cymru.[10]

1.18 O 2010 ymlaen, daeth rhai o'r tribiwnlysoedd hyn i gael eu gweinyddu gan yr Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a oedd yn rhan o Lywodraeth Cymru (trafodir hyn yn fanylach ym mharagraffau 9.7 i 9.9 ein Papur Ymgynghori). Cafodd yr uned honno ei hailenwi'n Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn ddiweddarach, sy'n dal i weinyddu tribiwnlysoedd adran 59.

1.19 Y sefyllfa sy'n deillio o hyn yw bod y tribiwnlysoedd datganoledig:

> Wedi eu sefydlu ar wahanol gamau yn y broses ddatganoli, sy'n golygu bod eu sail statudol a'r gwaith o'u rheoleiddio'n cael eu llywodraethu gan sawl ffynhonnell yn y Deyrnas Unedig, Cymru a Lloegr, a deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth Cymru yn unig.[11]

## Adolygiadau blaenorol o'r system dribiwnlysoedd yng Nghymru

1.20 Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o adolygiadau blaenorol o dribiwnlysoedd yng Nghymru, ac adolygiadau o'r system gyfiawnder ehangach yng Nghymru a oedd yn cynnwys trafodaeth ar y tribiwnlysoedd datganoledig. Rydym yn defnyddio'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiadau hynny'n fwy manwl yn y penodau a ganlyn.

### Adolygiad o dribiwnlysoedd sy'n gweithredu yng Nghymru (2010)

1.21 Roedd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn gorff statudol a sefydlwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2008 ac a ddiddymwyd yn 2013. Roedd ganddo gyfrifoldeb eang dros gyfiawnder gweinyddol. Yn ei adroddiad yn 2010 adolygodd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd y modd y gweithredir tribiwnlysoedd yng Nghymru. Roedd yr adolygiad yn cynnwys y cyrff hynny a restrwyd yng Ngorchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007,[12] ynghyd â'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'r Tribiwnlys Cosbau Traffig (wrth gynnal gwrandawiadau yng Nghymru).

1.22 Nododd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd y ffordd ad hoc roedd y system tribiwnlysoedd datganoledig wedi datblygu, a beirniadodd y diffyg annibyniaeth rhwng tribiwnlysoedd ac adrannau Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am eu gweinyddu. Roedd yn amlinellu set o egwyddorion y gellid

---

10 Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Pwyllgor Cymru, *Review of Tribunals Operating in Wales* (2010), tudalen 12.

11 S Nason a H Pritchard, "Administrative Justice and the Legacy of Executive Devolution: Establishing a Tribunals System for Wales" (2020) 26 *Australian Journal of Administrative Law* 233.

12 Roedd y Gorchymyn yn rhestru'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a oruchwylir gan y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Mae bellach wedi ei ddiddymu ond mae'n cynnwys pwyllgorau asesu rhenti, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, tribiwnlysoedd a dynnwyd o Banel Dyfarnu Cymru, Panel Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a'r Panel Apêl Arolygwyr Cofrestredig Addysg Feithrin, paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion, Tribiwnlys Prisio Cymru a nifer o'r cyrff eraill a drafodir ym Mhennod 2.

eu defnyddio i werthuso'r tribiwnlysoedd datganoledig, sydd wedi eu nodi'n fwy manwl isod ym mharagraff 1.39.

1.23 Gwnaed nifer o argymhellion yn yr adroddiad, gan gynnwys sefydlu canolbwynt ar gyfer cyfiawnder gweinyddol (yn ddelfrydol o fewn Adran y Prif Weinidog a'r Cabinet) a chyfuno tribiwnlysoedd. Argymhellodd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd hefyd y dylid sefydlu egwyddorion cyffredin er mwyn sicrhau mwy o gydlyniaeth rhwng y tribiwnlysoedd, gan gynnwys hawliau apelio a gweithdrefnau cwyno cyson.

1.24 Arweiniodd argymhelliad adolygiad 2010 am "ganolbwynt" ar gyfer cyfiawnder gweinyddol at greu'r Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ym mis Mawrth 2010, y cyfeirir ato ym mharagraff 1.18 above.

### Adolygiad o dribiwnlysoedd datganoledig sy'n gweithredu yng Nghymru (2014)

1.25 Yn 2014, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn ei adroddiad yn 2010.

1.26 Nododd yr adroddiad er bod yr Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd wedi ei sefydlu fel "un canolbwynt" ar gyfer cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd, roedd nifer o faterion pwysig nad oedd yr Uned yn gallu rhoi sylw iddynt. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud ag adnoddau barnwrol, ymddygiad ac arweinyddiaeth o fewn Tribiwnlysoedd Cymru, penodiadau a hyfforddiant aelodau tribiwnlysoedd.

1.27 Gan adleisio argymhellion Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, roedd yr adroddiad yn argymell y dylid datblygu dull cyson ac unedig ar draws tribiwnlysoedd datganoledig Cymru mewn meysydd fel prosesau cwynion, hyfforddiant, apeliadau a phenodiadau. Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell creu Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, i oruchwylio'r tribiwnlysoedd datganoledig a throsglwyddo swyddogaethau polisi'r Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd i'r Tîm Polisi Cyfiawnder yn Llywodraeth Cymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau polisi'r Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd i'r Tîm Polisi Cyfiawnder ddiwedd 2014, ac ailenwyd yr Uned yn Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

### Cyfiawnder gweinyddol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru (2016)

1.28 Yn 2016, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, olynydd Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, adroddiad ar sefyllfa cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Yn yr un modd ag adolygiad Llywodraeth Cymru yn 2014, argymhellodd y Pwyllgor y dylid cael uwch arweinydd barnwrol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig a gweithdrefn safonol ar gyfer penodiadau.[13]

1.29 Rhoddwyd sylw i'r mater hwn yn Neddf Cymru 2017, a greodd rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.[14] Rydym yn trafod rôl y Llywydd yn fanylach ym Mhennod 5.

---

[13] Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru, *Cyfiawnder gweinyddol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* (2016) paragraff 31.

[14] Deddf Cymru 2017, adran 60.

1.30 Problem arall a nodwyd yn Adroddiad 2016 oedd mai dim ond cytundebau ffurfiol rhannol oedd yn bodoli rhwng Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Farnwrol, y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, y Coleg Barnwrol a'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol.[15] Unwaith eto, mae cynnydd wedi ei wneud tuag at hyn. Bellach mae cytundeb ffurfiol yn ei le gyda'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer y penodiadau hynny mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt.

1.31 O ganlyniad i'r adolygiadau a amlinellir uchod, mae rhai camau wedi eu cymryd i ddod â'r tribiwnlysoedd datganoledig ynghyd. Fodd bynnag, fel y nodwyd gan Dr Huw Pritchard, er bod hyn wedi dod â rhyw gymaint o gydlyniaeth, mae'n dal yn anodd dod i'r casgliad bod y tribiwnlysoedd datganoledig yn 'system' mewn gwirionedd.[16]

1.32 Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar y gwaith blaenorol hwn. Fel y nodwyd yn 1.6 uchod, mae ein cylch gorchwyl yn cynnwys materion sy'n ymwneud â Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru, a luniwyd i reoleiddio gweithrediad un system tribiwnlysoedd yng Nghymru.

### Tribiwnlysoedd Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017

1.33 Gwnaed y newidiadau mwyaf sylweddol i'r tribiwnlysoedd datganoledig er 1998 gan Ddeddf Cymru 2017. Yn ogystal â gwneud diwygiadau sylweddol i'r setliad datganoli, sefydlodd swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyda rôl oruchwyliol mewn perthynas â'r "tribiwnlysoedd Cymreig" a restrir yn adran 59 y Ddeddf; yn gyffredinol, rydym yn cyfeirio at y tribiwnlysoedd hyn fel "tribiwnlysoedd adran 59", er mwyn osgoi dryswch gyda thribiwnlysoedd eraill sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'r Llywydd yn gyfrifol am y tribiwnlysoedd adran 59 yn unig, gyda chyfuniad o ddyletswyddau "mewnol" (gan gynnwys lles aelodau, hyfforddiant, a sicrhau bod tribiwnlysoedd yn hygyrch) a dyletswyddau "allanol" (cynrychioli'r tribiwnlysoedd adran 59 mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru).

1.34 Roedd Deddf 2017 hefyd yn cyflwyno "trawsleoli" ar draws y tribiwnlysoedd adran 59 (y cyfeirir ato'n aml fel "traws-docynnu"). Mae hyn yn galluogi aelod o un o'r tribiwnlysoedd i eistedd fel aelod o un arall, ar gais arweinydd barnwrol yr ail dribiwnlys a chyda chymeradwyaeth y Llywydd.[17] Mae Deddf 2017 hefyd yn caniatáu i aelodau tribiwnlysoedd adran 59 eistedd yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, ac i aelodau a barnwyr y Tribiwnlys Haen Gyntaf eistedd yn y tribiwnlysoedd adran 59.[18]

1.35 Mae'r rhestr o dribiwnlysoedd yn adran 59 o Ddeddf 2017 yn cynnwys y tribiwnlysoedd a oedd eisoes yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru, paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion na phaneli

---

15 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru, *Cyfiawnder gweinyddol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* (2016) paragraff 24.

16 H Pritchard, "Building a Welsh jurisdiction through administrative justice" yn *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives*, S Nason (ed) (2017) tudalen 229. Am ragor o fanylion, gweler paragraffau 3.52 i 3.56 isod.

17 Deddf Cymru 2017, adran 62. Mae'r ddeddfwriaeth yn defnyddio amrywiaeth o derminoleg i gyfeirio at aelodau llywyddol y tribiwnlysoedd; yn gyffredinol, rydym yn defnyddio'r ymadrodd "arweinwyr barnwrol".

18 Deddf Cymru 2017, adran 63.

apêl Gofal Cymdeithasol Cymru, y mae pob un ohonynt, yn ein barn ni, yn dod o fewn y diffiniad o “dribiwnlys datganoledig” ac yn dod o fewn cwmpas y prosiect hwn.[19]

### Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru (2019)

1.36 Cynhaliodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru adolygiad eang o’r system gyfiawnder yng Nghymru a gwnaeth argymhellion ar gyfer ei ddyfodol hirdymor. Gwnaeth y Comisiwn argymhellion ar draws nifer o feysydd gan gynnwys mynediad at gyfiawnder, cyfiawnder troseddol, cyfiawnder teuluol, cyfiawnder sifil a gweinyddol a’r iaith Gymraeg.

1.37 Mewn perthynas â thribiwnlysoedd, argymhellodd y Comisiwn y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am oruchwylio’r holl gyrff cyhoeddus, ombwdsmyn neu dribiwnlysoedd eraill a sefydlwyd o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru. Ar ben hynny, argymhellodd y Comisiwn y dylai Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael annibyniaeth strwythurol ar Lywodraeth Cymru ac y dylid defnyddio tribiwnlysoedd datganoledig ar gyfer datrys anghydfodau sy’n ymwneud â deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol.[20]

1.38 Yn rhannol mewn ymateb i gynigion y Comisiwn, cynhaliodd Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Pumed Senedd ymchwiliad i weithrediad swyddogaethau cyfiawnder a sut gallai’r system gyfiawnder weithredu’n fwy effeithiol yng Nghymru. Cyhoeddodd adroddiad gwaddol ym mis Mawrth 2021.[21] Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried gweithredu rhannau o gynigion y Comisiwn.

## EGWYDDORION SY’N SAIL I’N DADANSODDIAD

1.39 Wrth baratoi ein Papur Ymgynghori, ac yn ddiweddarach wrth ddadansoddi ymatebion iddo, rydym wedi gweld ei bod yn ddefnyddiol cyfeirio at yr “Egwyddorion ar gyfer tribiwnlysoedd Cymru” a baratowyd fel rhan o Adroddiad 2010 Pwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.[22] Dyma'r egwyddorion:

(1) **Annibyniaeth ac amhleidioldeb**. Roedd adroddiad 2010 yn pwysleisio y “Dylai tribiwnlysoedd fod yn annibynnol a diduedd, a chael eu canfod i fod yn annibynnol a diduedd”. Roedd hynny’n golygu bod angen i aelodau’r tribiwnlys fod yn annibynnol hefyd, ac y dylai’r “gweithdrefnau ar gyfer eu dewis a’u penodi fod yn deg, yn agored ac yn seiliedig ar deilyngdod”. Mae ein cylch gorchwyl hefyd yn ein cyfarwyddo’n benodol i ystyried annibyniaeth y farnwriaeth.

(2) **Dylid cynllunio a threfnu tribiwnlysoedd mewn perthynas ag anghenion y dinesydd**. Aeth adroddiad 2010 i gryn fanylder ynghylch sut gellid cyflawni hyn.

---

19 Gweler paragraffau 2.17 i 2.30, a 2.34 i 2.36 isod.

20 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru (Hydref 2019) paragraffau 6.50 a 6.59.2.

21 Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, *Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd* (Mawrth 2021) tudalennau 55 i 62 https://senedd.cymru/media/gb1fzy1b/cr-ld14319-w.pdf

22 Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Pwyllgor Cymru, Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru (2010) tudalennau 24 a 25.

Rhan arbennig o bwysig o’r adolygiad hwn oedd yr egwyddorion bod “rhaid rhoi gwybodaeth am brosesau a gweithdrefnau tribiwnlysoedd i ddefnyddwyr”, ac y dylai’r gweithdrefnau hynny fod yn anffurfiol ac yn rhai sy’n galluogi.

(3) **Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd**. Unwaith eto, mae Adroddiad 2010 yn rhoi nifer o ffyrdd o gyflawni’r egwyddor hon. Mae hyn yn cynnwys cael strwythur ac arweinyddiaeth farnwrol glir ar dribiwnlysoedd.

(4) **Cydlyniaeth**. Dyma’r egwyddor olaf a nodwyd yn adroddiad 2010. Awgrymodd y dylai tribiwnlysoedd gael “strwythur cydlynol” ac y “Dylai fod fframwaith neu egwyddorion cyffredin i lywio’r ffordd y caiff tribiwnlysoedd newydd eu sefydlu”. Argymhellodd hefyd y dylid cael “llwybrau priodol a chyson ar gyfer apelio neu adolygu penderfyniadau tribiwnlysoedd”.

## DIGWYDDIADAU YMGYNGHORI

1.40 Cynhaliwyd ein hymgynghoriad rhwng 16 Rhagfyr 2020 a 31 Mawrth 2021. Yn ystod y cyfnod hwnnw, buom yn bresennol (o bell) mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd er mwyn gwrando ar ymatebion i’r cwestiynau a godwyd yn y Papur Ymgynghori. Mae Atodiad 2 yr adroddiad hwn yn rhestru’r digwyddiadau a’r cyfarfodydd y buom yn rhan ohonynt yn ystod y cyfnod hwn.

1.41 Rhoddodd Nicholas Paines CF, Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a’r Gyfraith yng Nghymru, dystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad y Pumed Senedd ar 22 Chwefror 2021. Roedd y sesiwn dystiolaeth hon yn rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i “Gwneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru”.[23]

## YMATEBION I’R YMGYNGHORIAD

1.42 Derbyniasom gyfanswm o 42 ymateb i’n hymgynghoriad. Mae’r ymatebion hyn (ac eithrio’r rhai sydd wedi eu nodi fel rhai “cyfrinachol”) ar gael ar wefan Comisiwn y Gyfraith. Fe’u cynhyrchir yn y ffurf ac yn yr iaith y’u cyflwynwyd.

## GOLWG GYFFREDINOL AR EIN HADRODDIAD A’N HARGYMHELLION

1.43 Mae’r adroddiad wedi ei rannu’n naw pennod arall, sy’n cyfateb yn fras i gylch gorchwyl y prosiect.

(1) Mae Pennod 2 yn ymdrin â rhai o gysyniadau cefndirol y prosiect hwn. Rydym yn trafod beth mae “tribiwnlys” yn ei olygu, a pha gyrff ddylai fod yn rhan o’r adolygiad hwn. Rydym hefyd yn trafod sut mae’r fframwaith datganoli yn effeithio ar y prosiect hwn. Rydym yn nodi ein casgliad (y cyfeirir ato uchod) ynghylch pa gyrff yng Nghymru sy’n dribiwnlysoedd datganoledig.

(2) Mae Pennod 3 yn ystyried strwythur y system dribiwnlysoedd ar lefel yr haen gyntaf. Yn fwyaf arwyddocaol, rydym yn argymell y dylai’r tribiwnlysoedd adran 59 presennol gael eu disodli gan Dribiwnlys Haen Gyntaf unedig, wedi ei rannu’n siambrau. Rydym hefyd yn argymell y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru a

[23] Mae’r trawsgrifiad a recordiad fideo o’r sesiwn dystiolaeth honno i’w gweld ar wefan y Senedd: https://busnes.senedd.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=434&MId=11065&Ver=4

swyddogaethau paneli apêl gwaharddiadau ysgolion gael eu cynnwys yn y strwythur hwn, ond na ddylai paneli apêl derbyn i ysgolion na’r paneli apêl a sefydlwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru fod yn rhan o'r strwythur.

(3) Mae Pennod 4 yn ystyried apeliadau pellach o’r tribiwnlysoedd datganoledig. Mae’n ystyried a ddylai’r llwybrau apêl fod yr un fath o bob tribiwnlys, ac ymhle dylid gwrando ar apeliadau. Ar ôl gwerthuso manteision yr Uchel Lys a’r Uwch Dribiwnlys presennol fel cyrff apelio ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig, daw i’r casgliad mai’r dewis hirdymor gorau ar gyfer y system tribiwnlysoedd datganoledig fyddai creu Tribiwnlys Apêl i Gymru. Rydym hefyd yn argymell creu hawl newydd i apelio ar bwynt cyfreithiol o baneli apeliadau derbyn i ysgolion i’r Tribiwnlys Addysg, ac yn y man i siambr addysg y Tribiwnlys Haen Gyntaf unedig.

(4) Mae Pennod 5 yn edrych yn benodol ar rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru (pwnc yr ymhelaethir arno mewn penodau diweddarach ar benodiadau a disgyblaeth). Rydym yn argymell y dylai’r Llywydd fod â’r hawl i eistedd fel barnwr yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Rydym hefyd yn ystyried pa rôl gallai’r Llywydd ei chwarae mewn perthynas â goruchwylio paneli apeliadau derbyn i ysgolion.

(5) Mae Pennod 6 yn ystyried sut gwneir rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig, ac i ba raddau y dylid eu safoni. Rydym yn argymell creu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd, i fod yn gyfrifol am gyflwr rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.

(6) Mae Pennod 7 yn edrych ar y dull amrywiol a ddefnyddir i benodi i’r tribiwnlysoedd datganoledig (arweinydd barnwrol a gwahanol fathau o aelodau), ac mae’n ystyried pa egwyddorion ddylai fod yn sail i system ddiwygio. Rydym yn argymell y dylai aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, tra dylai Llywyddion siambrau’r tribiwnlys hwnnw gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Gweinidogion Cymru. Rydym hefyd yn ystyried sut dylid dethol aelodau, a rôl y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

(7) Mae Pennod 8 yn ymdrin â disgyblaeth farnwrol. Pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddisgyblu Llywyddion ac aelodau eraill Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, a pha fath o broses y dylid ei mabwysiadu? Rydym hefyd yn gwneud argymhellion am brosesau cwyno yn y tribiwnlysoedd datganoledig, a sut gellid gwella’r rhain.

(8) Mae Pennod 9 yn ystyried mater gweinyddiaeth tribiwnlysoedd, a sut dylid trefnu hynny i fod yn strwythurol annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Argymhellwn y dylid cyflwyno adran anweinidogol newydd, Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i Gymru, i ddisodli Uned Tribiwnlysoedd Cymru a swyddogaeth cymorth gweinyddol Tribiwnlys Prisio Cymru.

(9) Yn olaf, mae Pennod 10 yn ystyried egwyddor annibyniaeth farnwrol a sut gellir ei diogelu o fewn y tribiwnlysoedd datganoledig. Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru ac eraill sy’n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i ddyletswydd statudol i barchu

annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig ac y dylai Llywyddion ac aelodau eraill o dribiwnlysoedd dyngu'r llw barnwrol.

### PANELI APÊL DERBYN I YSGOLION

1.44 Un o'r tribiwnlysoedd allanol yn y prosiect hwn oedd y paneli apêl derbyn i ysgolion. Er ein bod ni'n credu, am y rhesymau a nodir ym Mhennod 2, eu bod yn cael eu categoreiddio'n gywir fel tribiwnlysoedd, maent yn gweithredu'n wahanol i lawer o dribiwnlysoedd datganoledig eraill. Yn hytrach na ffurfio un corff cenedlaethol (fel y tribiwnlysoedd adran 59 a Thribiwnlys Prisio Cymru), mae pob awdurdod derbyn yn gyfrifol am redeg ei banel ei hun. Mae'r paneli'n cynnwys aelodau lleyg, wedi eu cynghori gan glerc (a ddarperir gan yr awdurdod derbyn).

1.45 Yn y Papur Ymgynghori, rydym yn nodi ein casgliad dros dro y gellid categoreiddio'r paneli hyn yn gywir fel tribiwnlysoedd. Fodd bynnag, nid oeddem o'r farn y dylid eu cynnwys felly mewn system ganolog. Roedd eu baich achosion mawr, wedi eu crynhoi ar adeg penodol yn y flwyddyn ysgol, a phwysigrwydd gwybodaeth leol ar ran aelodau'r panel yn ein harwain i gynnig y dylid eu gadael i gael eu trefnu'n rhanbarthol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno; mae eu hymatebion yn cael eu dadansoddi ym Mhennod 3.

1.46 Serch hynny, aeth y Papur Ymgynghori ymlaen i ofyn cwestiynau am rai agweddau ar eu gweithrediad a oedd yn rhan o'n cylch gorchwyl. Roedd gennym amheuon ynghylch faint o ddylanwad sydd gan yr awdurdod derbyn dros gyfansoddiad y paneli. Gan hynny, fe wnaethom ofyn cwestiynau am benodiadau i'r paneli (Pennod 7 o'r Papur Ymgynghori), a sut dylid disgyblu aelodau'r panel (Pennod 8 o'r Papur Ymgynghori). Buom yn ystyried a ddylent fod dan oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Yn olaf, gofynnwyd a ddylid cael llwybr apêl ffurfiol o'r paneli i'r system tribiwnlysoedd.

1.47 Rydym wedi cael ein darbwyllo bod y cynnig olaf hwn yn un cadarn, ac rydym yn argymell ym Mhennod 4 y dylid creu llwybr apêl newydd. Fodd bynnag, dim ond un argymhelliad arall a wnawn ynghylch gweithrediad y paneli: y dylid ymgynghori â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ynghylch unrhyw newid i'r canllawiau statudol sydd ar gael i'r paneli (Pennod 5). Rydym wedi dod i'r casgliad, ar ôl dadansoddi'r ymatebion a gafwyd yn yr ymgynghoriad, nad yw ein cylch gorchwyl ac amserlen y prosiect yn ein galluogi i wneud argymhellion cynhwysfawr a chydlynol ynghylch dull gweithredu tribiwnlysoedd penodol; rydym wedi dilyn yr un agwedd mewn perthynas â Thribiwnlys Prisio Cymru, y mae ei ddull dyfarnu hefyd yn wahanol i ddull tribiwnlysoedd adran 59.

1.48 Yn yr un modd â Thribiwnlys Prisio Cymru, byddai arfarniad trylwyr o weithrediad paneli apeliadau derbyn i ysgolion yn ffurfio prosiect ynddo ei hun, gan godi cwestiynau anodd sy'n haeddu sylw yn eu rhinwedd eu hunain (fel y pwysleisiwyd i ni yn ymatebion Keith Bush CF a Huw Williams i'r ymgynghoriad). Ffocws y prosiect hwn fu creu system newydd ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru, ac ni fu'n bosibl o fewn ei ffiniau i roi sylw i'r paneli apêl derbyn a fyddai'n angenrheidiol cyn argymell eu hailstrwythuro neu newidiadau sylweddol eraill.

1.49 Er ein bod wedi dod i'r casgliad na ddylid cymathu'r paneli i mewn i system y tribiwnlysoedd ar hyn o bryd, mae'n bosibl y gellid ailadrodd rhai o fanteision bod yn aelod o strwythur mwy. Mae rhai awgrymiadau sydd wedi eu cyflwyno i ni yn cynnwys

consortiwm cenedlaethol o aelodau paneli, a allai helpu i gynrychioli'r paneli i'r byd y tu allan a chydlynu'r paneli, gan sicrhau eu bod yn gweithredu mewn ffordd gyson. Mae'n bosibl y bydd achos hefyd dros gael cronfa genedlaethol o aelodau panel, sy'n caniatáu i rai gael eu dewis ar sail gwybodaeth leol ond i eraill gael eu dewis ar sail eu profiad mwy cyffredinol o addysg. Rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu sefyllfa paneli derbyn i ysgolion, gan gynnwys y posibilrwydd o'u cyfuno yn strwythur newydd y tribiwnlysoedd.

## YR ASESIAD EFFAITH

1.50 Rydym yn cyhoeddi asesiad effaith mewn perthynas â'n hargymhellion, a fydd ar gael ar-lein ochr yn ochr â'r Adroddiad hwn. Fe fydd hefyd yn cynnwys ein asesiad o'r effaith ddisgwyliedig ein hargymhellion ar y Gymraeg.

## CYDNABYDDIAETH

1.51 Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhannu eu safbwyntiau â ni yn ystod y cyfnod ymgynghori ar ôl cyhoeddi ein Papur Ymgynghori ym mis Rhagfyr 2020. Mae rhestr lawn o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar gael yn Atodiad 3.

1.52 Mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Syr Wyn Williams, tîm Cyfiawnder a Pholisi Llywodraeth Cymru, staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru a'i phennaeth, Rhian Davies Rees, ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig i gyd wedi bod yn hael wrth rannu eu hamser a'u harbenigedd. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Lywydd ac ysgrifenyddiaeth Tribiwnlys Addysg Cymru, a ganiataodd i ni wylio dau wrandawiad o Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (fel roedd yn cael ei alw bryd hynny) ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2020.

1.53 Rydym hefyd yn ddiolchgar am gymorth aelodau Pwyllgor Cynghori Cymru Comisiwn y Gyfraith a'n grŵp cynghori tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, a gyfarfu ar 1 Hydref 2020 ac ar 8 Mehefin 2021. Rhestrir y rhai a ddaeth i gyfarfodydd y grŵp llywio yn Atodiad 1.

## Y TÎM SY'N GWEITHIO AR Y PROSIECT

1.54 Hoffai'r Comisiynwyr gofnodi eu diolch i'r aelodau a ganlyn o staff a fu'n gweithio ar yr Adroddiad hwn: Henni Ouahes (rheolwr tîm); Sarah Smith (cyfreithiwr yn y tîm cyfraith gyhoeddus a chyfraith yng Nghymru); ac Awen Edwards a Tess McGovern (cynorthwywyr ymchwil).

# Pennod 2: Cymhwysedd datganoledig a thribiwnlysoedd datganoledig

2.1 Yn y Bennod hon o'r Papur Ymgynghori, fe wnaethom ystyried rhai o'r cwestiynau rhagarweiniol a oedd yn ein hwynebu wrth ddechrau'r prosiect hwn. Beth yn union yw tribiwnlys? A sut mae unrhyw ddiffiniad cyffredinol yn berthnasol i'r cyrff gwneud penderfyniadau datganoledig sy'n bodoli yng Nghymru?

2.2 Gofynnwyd a oedd y darllenwyr yn cytuno â'r diffiniad cyffredinol a gynigiwyd gennym, ac â'n defnydd ohono. Fe wnaethom hefyd ddadansoddi'r fframwaith datganoli mae'r prosiect yn rhan ohono.

2.3 Yn y Bennod hon rydym yn trafod yr ymatebion a gawsom i'n hymgynghoriad ac yn nodi ein casgliadau ar y cyrff rydym yn eu hystyried yn dribiwnlysoedd datganoledig at ddibenion y prosiect.

## TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG

2.4 Dros dro, rydym wedi mabwysiadu'r diffiniad o dribiwnlys datganoledig sydd ym mharagraff 9(2) o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006: tribiwnlysoedd y mae eu swyddogaethau i gyd yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig ac nad ydynt yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Ni wrthwynebodd neb yr agwedd hon ar ein cynigion. Mae cymhwyso'r diffiniad, fodd bynnag, yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gael ei adnabod fel tribiwnlys.

### Diffinio "tribiwnlys"

2.5 Nodwyd yn ein Papur Ymgynghori y byddai'n rhaid i unrhyw ddiffiniad o dribiwnlys fod yn gyd-destunol: er ei bod yn gymharol hawdd gwahaniaethu rhwng tribiwnlys a llys, roedd yn fwy anodd gwahaniaethu rhwng tribiwnlysoedd a dulliau dyfarnu llai ffurfiol. Daethom i'r casgliad dros dro mai'r prawf mwyaf defnyddiol at ddibenion y prosiect hwn oedd gofyn a oedd corff yn dyfarnu ar anghydfodau rhwng partïon drwy wneud penderfyniadau rhwymol.[24]

2.6 Denodd y diffiniad hwn gefnogaeth unfrydol, bron. O'r 28 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o blith y rhai yr ymgynghorwyd â nhw, roedd pob un yn cytuno ar wahân i Gymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, a atebodd "arall". Dywedodd Dr Sarah Nason (uwch ddarlithydd mewn cyfraith weinyddol a chyfreitheg ym Mhrifysgol Bangor) ac Ann Sherlock (cymrawd ymchwil ym Mhrifysgol Bangor 2018-2020) ei fod yn "ddull synhwyrol". Roedd cylchdaith Cymru a Chaer o'r farn ei fod yn cynnwys 'nodweddion diffiniol sylfaenol tribiwnlysoedd' a hefyd 'yn ddeniadol oherwydd symlrwydd ac eglurder canlyniad'.

2.7 Fodd bynnag, barn Cymdeithas y Gyfraith oedd:

---

[24] Papur Ymgynghori, paragraffau 2.52 i 2.55.

> ... dylid gwahaniaethu rhwng cyrff gwneud penderfyniadau sy'n dyfarnu anghydfodau ar ffurf cyhoeddi dyfarniadau rhwymol ar sail gyfreithiol a'r rhai sy'n dyfarnu ynghylch anghydfodau o'r fath ar sail ffeithiol. Mae cyrff llywodraethu ysgolion, er enghraifft, yn gwneud penderfyniadau ar sail ffeithiau achos ond nid ydynt yn dehongli nac yn cymhwyso'r gyfraith yn yr un modd â thribiwnlysoedd ffurfiol. Mae nodweddion o'r fath yn tynnu sylw at yr angen i ddiwygio rhai cyrff y gellir eu hystyried yn allanolion yn nhirwedd gyffredinol y tribiwnlysoedd datganoledig fel y mae cyn iddynt gael eu hymgorffori mewn un system unedig.[25]

2.8 Roedd Richard Payne, Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru hefyd o'r farn bod ein diffiniad yn hepgor rhai meini prawf pwysig ar gyfer tribiwnlysoedd. Wrth gytuno'n rhannol, ychwanegodd:

> ...mae cyfansoddiad corff tribiwnlys, fel arfer gyda chadeirydd â chefndir ym myd y gyfraith ynghyd ag arbenigedd annibynnol ychwanegol ac aelodaeth lleyg yr un mor bwysig â'r pŵer syml i wneud penderfyniadau rhwymol. Nid wyf yn siŵr a ddylid gofyn y cwestiwn a ofynnir, ynghylch swyddogaeth yn unig, ar ei ben ei hun fel sail i'r hyn sy'n cael ei ystyried yn dribiwnlys.

### Cyrff sy'n dod o fewn cwmpas ein prosiect

2.9 Ar ôl nodi'r meini prawf roeddem o'r farn y gellid eu defnyddio i ddynodi tribiwnlys datganoledig, roedd Cwestiwn Ymgynghori 2 yn rhestru'r cyrff gwneud penderfyniadau yng Nghymru a oedd, yn ein barn ni, yn bodloni'r diffiniad hwn. Y rhain oedd:

(1) y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017;

(2) Tribiwnlys Prisio Cymru;

(3) paneli apêl derbyn i ysgolion; a

(4) phaneli apêl gwaharddiadau ysgolion.

2.10 O'r 31 a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o blith y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, roedd 24 yn cytuno, ac roedd pump yn anghytuno a dewisodd dau ateb "arall". Nid yw'n syndod nad oedd neb yn anghytuno y dylai'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 ddod o fewn cwmpas ein hadolygiad.

2.11 Lle cafwyd anghytundeb, roedd hyn yn ymwneud â statws Tribiwnlys Prisio Cymru a phaneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion. Cytunodd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio fod y tribiwnlys yn dod o fewn cwmpas yr adolygiad. Cytunodd Cyngor y Bar yng Nghymru a Lloegr hefyd, gan ddweud:

---

25 Mi oedd pob ymateb, ond am rheini gan Keith Bush CF, yr Athro Thomas Watkin, Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi eu cyflwyno yn Saesneg. Mae dyfyniadau o ymatebion a gyflwynwyd yn Gymraeg yn ymddangos yn eu ffurf wreiddiol yn y ddogfen hon, a'r rhai a gyflwynwyd yn Saesneg wedi eu cyfieithu. Mae'r ymatebion i gyd (ond am rheini a gyflwynwyd ar sail gyfrinachol neu ddienw) ar gael ar ein gwefan: https://www.lawcom.gov.uk/project/devolved-tribunals-in-wales/

Yn ogystal â'r Tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, mae gan Dribiwnlys Prisio Cymru, paneli apêl derbyn i ysgolion a phaneli apeliadau gwaharddiadau ysgolion y nodweddion cymwys o fod yn gyrff sy'n dyfarnu mewn anghydfodau rhwng partïon drwy gyhoeddi dyfarniadau rhwymol. Maent yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â materion datganoledig. Maent yn gymwys fel tribiwnlysoedd datganoledig.

2.12 Roedd eraill, fodd bynnag, o'r farn bod natur leol neu ranbarthol y Tribiwnlys Prisio a'r paneli apeliadau gwahardd a derbyn i ysgolion yn eu gwneud yn anghymwys i gael eu categoreiddio fel "tribiwnlysoedd". Roedd Cymdeithas y Gyfraith o'r farn:

> Er budd tegwch gweithdrefnol a chyfiawnder naturiol, rydym o'r farn y dylai'r dynodiad "tribiwnlys" fod yn berthnasol i gyrff sy'n arfer swyddogaethau ar sail genedlaethol yn unig. Mae paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion a Thribiwnlys Prisio Cymru yn gweithredu ar raddfa leol/rhanbarthol ac felly ni ddylid eu categoreiddio felly yn ein barn ni.

2.13 Roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn rhannu'r farn hon hefyd, gan deimlo mai "dim ond cyrff sydd â darpariaeth genedlaethol ddylai gael eu categoreiddio fel tribiwnlysoedd". Pwysleisiodd Cyngor Sir Penfro hefyd fod swyddogaeth paneli derbyn ysgolion yn cael ei "gyflwyno'n briodol yn uniongyrchol drwy Awdurdodau Lleol sydd â'r cysylltiadau rhwng yr ysgol, y rhiant/plentyn a'r ardal leol".

2.14 Roedd eraill yn canolbwyntio nid yn unig ar natur ranbarthol y paneli apêl derbyn a gwaharddiadau ond yn hytrach yn dadlau bod y paneli'n llai ffurfiol na thribiwnlysoedd. Fel y dywedodd Cyngor Dinas Caerdydd:

> ... mae'r panel apêl derbyn i ysgolion a'r panel apeliadau gwaharddiadau ysgolion yn fforwm lled-gyfreithiol. Mae hyn yn sicrhau bod strwythur yn cael ei ddilyn i gydymffurfio â'r canllawiau a'r ddeddfwriaeth bresennol, ond mae aelodau'r panel hefyd yn gallu sicrhau bod rhieni'n gyfforddus. Gall y defnydd o'r Tribiwnlys yn hytrach na'r panel fod yn brofiad brawychus i rieni a gall atal apeliadau gan fod y canfyddiad o Dribiwnlys yn fwy ffurfiol ac anhyblyg.

2.15 Roedd dau ymgynghorai, Keith Bush CF (Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd) a Huw Williams (Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd, a oedd yn ymateb fel unigolyn) yn cytuno bod paneli derbyn a gwahardd ysgolion yn dod o fewn cwmpas y prosiect ond o'r farn bod angen eu diwygio, serch hynny, cyn y gellid eu cynnwys mewn unrhyw system tribiwnlysoedd ehangach.

### Cyrff ychwanegol

2.16 Awgrymodd Richard Payne ddau gorff arall y gellid eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae ei ymateb wedi ei nodi'n llawn isod.

> Un corff nad yw'n cael ei ystyried yn yr adroddiad, ac rwyf wedi bod yn rhan ohono yn y gorffennol (ond nid yn ddiweddar) yw corff i wrando ar Apeliadau Fferylliaeth yn erbyn penderfyniadau byrddau iechyd lleol yng Nghymru ... a gynullwyd ac a gyllidwyd gan Weinidogion Cymru. Yn sicr, roedd yn teimlo fel tribiwnlys, gyda chadeirydd sy'n gyfreithiwr, aelod fferyllol arbenigol ac aelod lleyg. Byddai

penderfyniadau ysgrifenedig ar ôl gwrandawiad llafar yn cael eu gwneud a byddai argymhelliad yn cael ei wneud i Weinidogion Cymru. Gan hynny, Gweinidogion Cymru fyddai'n gwneud y penderfyniad yn y pen draw (ond dan arweiniad y Panel) a byddai penderfyniadau Gweinidogion Cymru wedyn yn agored i adolygiad barnwrol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos i mi y dylai'r corff hwn gael ei gydnabod fel tribiwnlys a gwneud penderfyniadau sy'n rhwymo ac wedyn yn destun apêl yn hytrach na gwneud cyfeiriadau at Weinidogion Cymru. Nid wyf yn sicr o statws presennol y cyrff hyn, ond os yw Apeliadau Fferylliaeth yn dal i gael eu gwrando fel hyn, mae'n bosibl y dylid edrych arnynt, yn yr un modd, gellid dadlau, â Gofal Cymdeithasol Cymru, sydd, yn ôl yr hyn a ddeallaf, yn cael ei gyllido'n llwyr gan Lywodraeth Cymru ac sy'n ymddangos ei fod yn bodloni'r diffiniad o dribiwnlys ac yn delio â materion yng Nghymru yn unig.

2.17 Rydym yn nodi rhagor o fanylion isod am weithrediad y paneli hyn.

### Apeliadau fferylliaeth

2.18 Yng Nghymru, mae'n ofynnol i fyrddau iechyd lleol baratoi a chynnal "rhestr fferyllol": rhestr o ddarparwyr sydd â hawl i gyflenwi gwasanaethau fferyllol y GIG.[26] Rhaid i'r rhai sy'n dymuno darparu gwasanaethau fferyllol drwy'r GIG, naill ai drwy ddarparu cyffuriau neu ddarparu cyfarpar, wneud cais i fod ar y rhestr. Cânt apelio i Weinidogion Cymru yn erbyn amryw o benderfyniadau a wneir gan y bwrdd iechyd lleol mewn perthynas â'u cynnwys ar y rhestr.[27] Caiff Gweinidogion Cymru wedyn drefnu gwrandawiad llafar, os ydynt o'r farn bod hynny'n angenrheidiol. Os cynhelir gwrandawiad llafar, caiff Gweinidogion Cymru benodi un neu ragor o unigolion i wrando'r apêl, ac yna adrodd yn ôl iddynt. Caiff yr unigolion a benodir benderfynu ar y weithdrefn sydd i'w dilyn yn y gwrandawiad.[28] Nid yw Gweinidogion Cymru wedi eu rhwymo gan unrhyw argymhelliad sy'n codi o wrandawiad llafar.[29]

### Paneli Gofal Cymdeithasol Cymru

2.19 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, a elwid gynt yn Gyngor Gofal Cymru, yn gorff corfforaethol. Mae ei swyddogaethau statudol ar gael yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Un o'i ddyletswyddau yw cadw cofrestr o'r holl weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.[30] Os bydd y cofrestrydd yn gwrthod cofrestru ceisydd neu'n gwrthod adnewyddu ei gofrestriad, caiff yr ymgeisydd apelio i'r panel apeliadau cofrestru, a sefydlir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Caiff panel gorchmynion interim benderfynu a ddylid gosod gorchymyn interim ar gais cofrestru os ydynt yn penderfynu bod risg i'r cyhoedd, neu

---

26 Deddf y GIG (Cymru) 2006, adrannau 83 a 84.

27 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) Offeryn Statudol 2020 Rhif 1073 (Cy 241). Rheoliad 25 ac atodlen 4.

28 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) Offeryn Statudol 2020 Rhif 1073 (Cy 241), atodlen 4 paragraff 2(2).

29 Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) Offeryn Statudol 2020 Rhif 1073 (Cy 241), atodlen 4 paragraff 2(5).

30 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, adran 80(2).

os yw er budd y cyhoedd nes ceir canlyniad ymchwiliad. Yn olaf, mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gweinyddu paneli addasrwydd i ymarfer.[31]

2.20 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am lunio rheolau ynghylch cyfansoddiad y paneli, sy'n cynnwys tri neu bump o aelodau. Mae aelodau naill ai'n aelodau lleyg (a ddiffinnir fel aelod o'r cyhoedd nad yw'n weithiwr cymdeithasol, neu'n ymwneud â gwaith cymdeithasol) neu'n aelodau gofal cymdeithasol (unigolyn sy'n weithiwr cymdeithasol cofrestredig neu sydd fel arall yn ymwneud yn broffesiynol â gofal cymdeithasol).[32] Mae apeliadau o'r paneli yn mynd i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal), sy'n rhan o'r Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol.

2.21 Gwneir rheolau ar gyfer y gwahanol fathau o wrandawiadau gan Gofal Cymdeithasol Cymru, er y gall Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi canllawiau ar eu cynnwys, gan gynnwys rheolau enghreifftiol.[33] Nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheolau enghreifftiol; ond pe bai'n gwneud hynny, byddai'n rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw atynt.[34]

### Cyrff sydd y tu allan i gwmpas y prosiect

2.22 Roedd Cwestiwn Ymgynghori 3 yn rhestru nifer o gyrff neu gynlluniau gwneud penderfyniadau y daethom i'r casgliad dros dro nad oeddent yn "ddarparwyr datganoledig". Roeddem o'r farn dros dro bod y rhain y tu allan i gwmpas y prosiect am amryw o resymau: nad oeddent yn gwneud penderfyniadau rhwymol, dim ond argymhellion; nad oeddent yn dilyn proses ddyfarnu; neu nad oedd eu swyddogaethau'n arferadwy mewn perthynas â Chymru'n unig. Dyma'r rhestr o gyrff yr oeddem yn bwriadu eu heithrio:

(1) ombwdsmyn, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;

(2) Arolygiaeth Gynllunio;[35]

(3) paneli adolygu annibynnol ar ddyfarniadau yng Nghymru;

(4) y gronfa cymorth dewisol ar gyfer Cymru;

(5) y broses apelio annibynnol ar gyfer ffermwyr a pherchnogion coedwigoedd;

(6) paneli adolygu gofal iechyd parhaus y GIG;

---

31 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, pwynt 8.

32 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, adrannau 174(2), (4), (8) a (9), Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Unigolion Rhagnodedig) Rheoliadau Offerynnau Statudol 2016 Rhif 1099 (Cy 263) rheoliadau 3, 4 a 5 ac atodlenni 1, 2 a 3, Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2020 rheoliad 7.

33 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) Offerynnau Statudol 2016 Rhif 1100 (Cy 264) rheoliadau 13 a 26.

34 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) Offerynnau Statudol 2016 Rhif 1100 (Cy 264) rheoliadau 13 a 37.

35 Ar 1 Hydref 2021 trosglwyddwyd holl staff a swyddogaethau Arolygiaeth Gynllunio Cymru i adran bwrpasol o fewn Llywodraeth Cymru fydd yn darparu gwasanaeth apeliadau cynllunio i Gymry a elwir yn Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

(7) byrddau canolwyr meddygol o dan gynlluniau pensiwn ac iawndal diffoddwyr tân yng Nghymru;

(8) Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru;

(9) y broses apelio annibynnol ar gyfer ffermwyr a thirfeddianwyr yng Nghymru; a'r

(10) Tribiwnlys Cosbau Traffig.

2.23 Ymatebodd 23 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, gyda phob un ond un ohonynt yn cytuno y dylai'r cyrff hyn fod y tu allan i gwmpas ein hadolygiad. Ni roddodd yr ymatebydd a oedd yn anghytuno resymau dros anghytuno. Roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cytuno ag eithrio'r ombwdsmon o'n hadolygiad, gan ddarparu'r esboniad cynhwysfawr a ganlyn:

> Mae fy mhwerau statudol wedi eu cynnwys yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019. Mae'r ddeddfwriaeth hon gan Senedd sydd newydd gael ei deddfu yn cael ei hystyried yn "arfer gorau" yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol o ran y broses benodi ar gyfer yr ombwdsmon gan y Senedd a'r pwerau deddfwriaethol yn y Ddeddf.
>
> Pan fyddaf yn dod o hyd i dystiolaeth o gamweinyddu sydd wedi achosi anghyfiawnder i unigolyn, mae gennyf y pŵer i wneud argymhellion i gyrff cyhoeddus. Yn gyffredinol, mae argymhellion o'r fath wedi eu cynllunio i:
>
> - unioni'r anghyfiawnder hwnnw er mwyn rhoi'r unigolyn yr effeithiwyd arno yn ôl yn y sefyllfa y byddai wedi bod ynddi pe na bai'r methiant wedi digwydd, ac
> - achosi newid yn narpariaeth gwasanaethau'r corff cyhoeddus lle canfuwyd methiannau systemig.
>
> Nid yw fy argymhellion yn rhwymo ac os nad yw corff cyhoeddus yn derbyn unrhyw un o'm hargymhellion, mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2019 yn darparu mecanwaith ar gyfer rhoi gweithdrefn adrodd arall ar waith. Mae'r mecanwaith hwn yn darparu system ar gyfer atebolrwydd democrataidd os nad yw corff cyhoeddus yn cydymffurfio â'm hargymhellion.
>
> Mae fy swyddfa'n rhoi dewis amgen i'r system Llysoedd a Thribiwnlysoedd i ddinasyddion yng Nghymru. Yn gyffredinol, ni allaf ymchwilio i gwynion lle bo gan achwynydd rwymedi ar gael iddo yn system y llysoedd neu'r tribiwnlysoedd. Yn ogystal, mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2019 yn rhoi disgresiwn eang i mi o ran sut rwyf yn ystyried cwynion a pha ganlyniadau sy'n briodol pan fydd unigolyn wedi dioddef anghyfiawnder o ganlyniad i gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gorff cyhoeddus.
>
> Nid yw fy swyddfa'n mabwysiadu dull deddfol wrth ymdrin â chwynion. Mae'r prosesau a'r gweithdrefnau rydw i'n eu mabwysiadu wedi eu dylunio i fod yn hygyrch i ddinasyddion yng Nghymru. Er enghraifft, mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus 2019 yn nodi y gallaf gymryd cwynion llafar gan ddinasyddion sy'n cysylltu â'm swyddfa.

Am y rhesymau hyn ac, oherwydd nad wyf yn gwneud penderfyniadau rhwymol ar y cyrff cyhoeddus sy'n rhan o'm hawdurdodaeth, nid wyf o'r farn bod rôl a chylch gwaith fy swyddfa fel y nodir yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 yn cyflawni rôl tribiwnlys datganoledig yng Nghymru.

2.24 Cytunodd Huw Williams â chwmpas arfaethedig ein hadolygiad, ond nododd:

> Byddai'r syniad o ddod â'r Arolygiaeth Gynllunio o fewn Tribiwnlysoedd Cymru yn golygu bod angen ystyried pa mor ddymunol fyddai sefydlu Siambr Amgylcheddol ("Llys Amgylcheddol Cymru") a fyddai'n newid sylfaenol i'r system apeliadau cynllunio yng Nghymru. Rwyf felly'n cytuno ei fod y tu allan i gwmpas y diffiniad gwaith at ddibenion yr ymarfer hwn – er y gallai fod yn gymwys yn y dyfodol. Wedi dweud hynny, mae'r gwahaniaeth yn gytbwys iawn yn ymarferol gan fod y rhan fwyaf o achosion yn cael eu dirprwyo i arolygwyr cynllunio i'w penderfynu. Er, mewn egwyddor, y gall y Gweinidog alw unrhyw achos yn ôl er mwyn iddynt benderfynu arnynt, dim ond nifer fach o achosion sy'n cael eu galw'n ôl i Weinidogion benderfynu arnynt bob blwyddyn.

### Cynlluniau gwneud iawn ad hoc

2.25 Ym Mhennod 2 y Papur Ymgynghori, gwelsom fod y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd wedi disgrifio amrywiol gynlluniau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel "cynlluniau gwneud iawn ad hoc" heb feddu ar holl nodweddion tribiwnlys.[36] Un o'r rhain oedd y broses o adolygu penderfyniadau'r gronfa cymorth dewisol. Roedd y Papur Ymgynghori, dros dro, yn cynnig eithrio'r rhain o gwmpas ein hadolygiad, ar y sail nad oedd y broses yn rhagfarnu anghydfod rhwng partïon.[37] Wrth gytuno â hyn, roedd Dr Sarah Nason a Huw Pritchard (darlithydd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd) yn gwrthgyferbynnu'r sefyllfa yn Lloegr a'r Alban, gan nodi eu pryder:

> nad oes llwybr clir i ddyfarnu ar wneud iawn ynghylch materion o hawl gyfreithiol yn y cyd-destun hwn, ac y dylai hynny ddigwydd.

2.26 Cyfeiriasant at bryderon a fynegwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng Nghymru a'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru ynghylch creu cynlluniau gwneud iawn ad hoc.

## TRAFODAETH

### Diffiniad o dribiwnlys

2.27 Rydym wedi ystyried yn ofalus y gwahanol addasiadau i'n prawf arfaethedig a awgrymwyd gan ymgyngoreion.[38] Nid ydym o'r farn y gall gwahaniaeth ymarferol fod yn seiliedig ar a yw'r corff yn dyfarnu ar sail gyfreithiol yn hytrach na ffeithiol; gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng y ddau.[39] Yn yr un modd, nid ydym o'r farn ei bod yn

---

[36] Papur Ymgynghori, paragraff 2.51.

[37] Papur Ymgynghori, paragraffau 2.79 a 2.80.

[38] Paragraffau 2.7, 2.8 a 2.10-2.15 uchod.

[39] Am enghraifft o hyn, gweler *Moyna v Secretary of State for Work and Pensions* [2003] UKHL 44. Credwn mai rhan ymhlyg o'r diffiniad o dribiwnlys at ein dibenion yw bod y tribiwnlys a'i gylch gorchwyl gwneud

hanfodol bod gan dribiwnlys gyfansoddiad penodol, nac elfen o aelodaeth sydd â chymwysterau cyfreithiol; nid yw'n ofynnol i fainc o ynadon lleyg gynnwys pobl sydd â chymwysterau cyfreithiol, ond ni ellid awgrymu nad llys mohono. Rydym yn cytuno â Richard Payne fod cyfansoddiad tribiwnlys yn fater pwysig, ond rydym o'r farn mai mater y tu allan i gwmpas y prosiect hwn yw ystyried a ddylid diwygio cyfansoddiad unrhyw un o'r tribiwnlysoedd.

2.28 Yn yr un modd, nid ydym wedi ein darbwyllo bod tegwch gweithdrefnol na chyfiawnder naturiol yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gwneud penderfyniadau gael ei drefnu ar sail genedlaethol er mwyn cael ei nodweddu fel tribiwnlys. Mae'n sicr yn wir mai ychydig iawn o dribiwnlysoedd sy'n cael eu trefnu'n lleol neu'n rhanbarthol erbyn hyn; gan fod tribiwnlysoedd ledled y Deyrnas Unedig wedi cael eu rhesymoli, cafwyd tuedd i'w cyfuno'n strwythurau cenedlaethol. Ond nid felly y bu erioed. Arferai'r tribiwnlysoedd iechyd meddwl a phrisio yng Nghymru a Lloegr gael eu trefnu'n rhanbarthol, ac ni phetrusodd Adroddiad Leggatt wrth eu categoreiddio fel tribiwnlysoedd. Nodwn hefyd fod Siambr Eiddo'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn gweithredu'n rhanbarthol.

2.29 Nid ydym ychwaith wedi ein darbwyllo na ddylai corff sy'n bodloni ein meini prawf gael ei nodweddu fel tribiwnlys ar y sail ei fod yn cael ei ystyried yn llai ffurfiol na thribiwnlys (o ganlyniad i'r ffaith y dylai paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion fod y tu allan i gwmpas ein hadolygiad). Mae'r tribiwnlysoedd sy'n rhan o'n hadolygiad yn gweithredu gyda gwahanol raddau o ffurfioldeb. Wrth arsylwi achosion, rydym wedi gweld tribiwnlysoedd yn gwneud ymdrech fawr i ddarparu ar gyfer ymgeiswyr nad ydynt yn cael eu cynrychioli, gan sicrhau eu bod yn deall gwaith y tribiwnlys ac yn eu helpu i wneud eu hachos gystal ag y bo modd. Wrth gwrs, mae'r canfyddiad o fod yn "hawdd i'w ddefnyddio" yn bwysig o safbwynt mynediad at gyfiawnder, ac mae'n berthnasol i gynllunio'r berthynas rhwng paneli derbyn a gwahardd ysgolion a strwythur y tribiwnlysoedd yn gyffredinol. Ond nid ydym o'r farn y gall orchymyn nad yw'r paneli, o ran sylwedd, yn dribiwnlysoedd.

2.30 Nid yw nodweddu cyrff fel tribiwnlysoedd o reidrwydd yn golygu y dylid eu trin yn yr un modd. Rydym yn ystyried cyfansoddiad a dyluniad system tribiwnlysoedd Cymru ym Mhennod 3.

### Ein casgliad ynghylch pa gyrff yng Nghymru sy'n dribiwnlysoedd datganoledig

2.31 Yn unol â hynny, rydym wedi dod i'r casgliad bod y cyrff sydd wedi eu rhestru ym mharagraff 2.9 uchod yn dribiwnlysoedd datganoledig sy'n dod o dan gwmpas ein hadolygiad. Ni roddodd yr un ymgynghorai resymau dros awgrymu y dylid cynnwys unrhyw rai o'r cyrff roeddem wedi eu heithrio dros dro (a restrir ym mharagraff 2.22 uchod); daethom i'r casgliad na ddylid eu cynnwys. Rydym yn awr yn troi at ystyried y cyrff ychwanegol a awgrymwyd i ni gan Richard Payne.

#### Paneli fferyllol

2.32 Fel y dywed Richard Payne, nid yw'r paneli hyn yn cyhoeddi penderfyniadau rhwymol; yn hytrach maent yn gwneud argymhellion i Weinidogion Cymru. Yn hyn o beth, maent yn debyg i nifer o gyrff eraill rydym wedi penderfynu eu heithrio - er enghraifft,

---

penderfyniadau yn cael eu sefydlu drwy gyfraith (yn wahanol, er enghraifft, i rai cyflafareddwyr masnachol); nid oes angen i ni ddod i farn derfynol ar hyn, gan na awgrymwyd unrhyw gorff sy'n methu â bodloni'r meini prawf hynny i ni eu cynnwys.

Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru a'r prosesau apelio annibynnol ar gyfer ffermwyr, perchnogion coedwigoedd a thirfeddianwyr yng Nghymru. Ein casgliad yw eu bod y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn am y rheswm hwnnw.

2.33 Awgrymodd Richard Payne y dylid rhoi grym rhwymol i benderfyniadau paneli fferyllol. Byddai hyn hefyd yn bosibilrwydd i gyrff eraill sy'n gwneud argymhellion yn unig ar hyn o bryd, a drafodir ym Mhennod 2 ein Papur Ymgynghori. Gallai fod yn anfoddhaol, os yw corff yn dilyn proses o natur farnwrol, i'r weithrediaeth allu diystyru ei benderfyniad. Fodd bynnag, mae'r cwestiwn hwn y tu allan i'n cylch gorchwyl ni, ac rydym yn ei adael i Lywodraeth Cymru ei ystyried wrth ddatblygu'r strwythur tribiwnlysoedd newydd.

### Gofal Cymdeithasol Cymru

2.34 Yn ein barn ni, mae paneli Gofal Cymdeithasol Cymru yn bodloni ein prawf ar gyfer eu categoreiddio fel tribiwnlys, gan eu bod yn dyfarnu mewn anghydfodau rhwng partïon (y cofrestrydd a'r ymgeisydd) ac yn gwneud penderfyniadau rhwymol. Maent hefyd yn debyg i baneli apeliadau derbyn a gwahardd ysgolion, neu'r Tribiwnlys Prisio, gan fod ganddynt baneli nad ydynt yn rhai cyfreithiol sy'n cael eu cynghori ar faterion cyfreithiol gan eraill (mewn sawl achos, clerc y panel).

2.35 Fodd bynnag, rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai'n briodol i ni argymell eu cynnwys mewn strwythur tribiwnlysoedd yng Nghymru. Pan gawsant eu creu gan ddeddfwriaeth y Senedd yn 2016, gwnaed penderfyniad polisi i greu llwybr apêl o'r paneli i dribiwnlys (yn yr achos hwnnw, y Tribiwnlys Haen Gyntaf a grëwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007). Seiliwyd y penderfyniad ar argymhellion a wnaed gennym ynghylch gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn Lloegr.[40]

2.36 Byddai ail-lunio paneli Gofal Cymdeithasol Cymru fel rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf yng Nghymru yn tarfu ar y strwythur apelio hwnnw ac yn creu anghysondeb gyda'r strwythur apêl sy'n berthnasol i reoleiddio gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a Lloegr. Yn achos gweithwyr cymdeithasol yn Lloegr, nid yw gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn cael eu cynnal gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf, ond gan Social Work England. Yn yr un modd, mae gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer ar gyfer ymarferwyr meddygol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu cynnal gan y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol, yn hytrach na'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.[41] Credwn mai dim ond fel rhan o ystyriaeth ehangach o reoleiddio gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch y lleoliad cywir ar gyfer gwaith paneli Gofal Cymdeithasol Cymru.

---

40 Rheoleiddio Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, Rheoleiddio Gweithwyr Proffesiynol Gofal Cymdeithasol yn Lloegr (2014) Law Com No 345) (Scot Law com No 237) (NILC 28 (2014)). Roedd hwn yn adroddiad ar y cyd a gyhoeddwyd gan dri Chomisiwn y Gyfraith yn y Deyrnas Unedig yn 2014. Er nad oedd yr argymhellion ar weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn berthnasol i Gymru, roeddent yn dylanwadu ar y polisi a weithredwyd gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Gweler paragraffau 3.166 a 3.187 memorandwm esboniadol y ddeddfwriaeth: https://senedd.wales/laid%20documents/pri-ld10106-em%20-%20regulation%20and%20inspection%20of%20social%20care%20(wales)%20bill/pri-ld10106-em-w.pdf

41 Yn y ddau achos hynny, mae'r apêl i'r Uchel Lys, yn hytrach nag i dribiwnlys.

## CYMHWYSEDD DATGANOLEDIG

2.37 Roedd Pennod 2 ein Papur Ymgynghori yn ystyried agweddau penodol ar y prosiect ac a oeddent o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

2.38 Ein casgliad dros dro cyffredinol oedd, oherwydd bod tribiwnlysoedd datganoledig yn cael eu heithrio o'r mater a gedwir o dan baragraff 9 atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006, bod y rhan fwyaf o'n cylch gorchwyl o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Un eithriad nodedig oedd rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, nad yw'n awdurdod datganoledig Cymreig at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Nid ydym yn ailadrodd y dadansoddiad hwnnw'n fanwl yma, ond yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am un pwynt.

2.39 Mae'r diweddariad yn ymwneud â drafftio paragraff 9 Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r atodlen honno'n darparu nad yw'r cyfyngiad sy'n atal y Senedd rhag rhoi neu bennu swyddogaethau ar awdurdodau a gedwir yn gymwys i weinyddu neu bennu swyddogaeth ddatganoledig ar lys.[42] Pan ysgrifennwyd y Papur Ymgynghori, roedd y Ddeddf yn hepgor diffiniad o "swyddogaeth ddatganoledig", er bod Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor wedi ei gyflwyno i gywiro'r hepgoriad. Daeth y Gorchymyn hwnnw i rym ar 11 Mawrth 2021. Mae paragraff 9(4A) o Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru yn awr yn diffinio swyddogaeth ddatganoledig fel a ganlyn:

> swyddogaeth sy'n ymwneud â phenderfynu ar gais neu apêl mewn perthynas â mater nad yw'n fater a gedwir, ond nid yw hyn yn cynnwys y swyddogaeth o benderfynu ar apêl gan lys neu gan dribiwnlys y mae paragraff 9 o Atodlen 7A yn gymwys iddo (tribiwnlysoedd heblaw tribiwnlysoedd datganoledig)

2.40 Mae hyn yn ei gwneud yn glir y gall y Senedd greu llwybrau apêl newydd o'r tribiwnlysoedd datganoledig i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf neu i'r llysoedd.

42 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, atodlen 7B, paragraffau 8(1)(a) a 9(4)(a).

# Pennod 3: System tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru

## SYSTEM TRIBIWNLYSOEDD AR GYFER CYMRU

3.1 Roedd ein Papur Ymgynghori yn edrych yn fanwl ar natur ddarniog y tribiwnlysoedd datganoledig presennol yng Nghymru. Ar ôl adolygu'r diwygiadau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 a Deddf Tribiwnlysoedd (Yr Alban) 2014, fe wnaethom nodi nifer o fanteision o ran uno'r tribiwnlysoedd datganoledig mewn un strwythur statudol. Mae'r rhain yn cynnwys:

(1) Cydlyniaeth. Gallai uno tribiwnlysoedd ddileu gwahaniaethau diangen sydd wedi datblygu dros amser rhwng y tribiwnlysoedd, o ran gweinyddiaeth ac arferion a gweithdrefnau eraill. Gallai uno alluogi tribiwnlysoedd i ddewis y gorau o'r trefniadau presennol, gan leihau cymhlethdod i ddefnyddwyr ac aelodau tribiwnlysoedd.

(2) Proffil cyhoeddus. Mae tribiwnlys unedig yn debygol o godi proffil y tribiwnlysoedd datganoledig. Gallai ymwybyddiaeth gynyddol o rôl tribiwnlysoedd hwyluso mynediad at gyfiawnder.

(3) Gallu darparu ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol yn y tribiwnlysoedd datganoledig. Byddai system gyfun yn hyblyg drwy ddyluniad, ac yn gallu ymdopi â siambrau neu apeliadau newydd heb fawr o darfu.

3.2 Gan hynny, fe wnaethom gynnig dros dro y dylid cyfuno'r tribiwnlysoedd adran 59 presennol yn Dribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru.

### Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru

3.3 Roedd y rhan fwyaf o'r 30 o ymatebwyr i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'n cynnig dros dro. Dim ond un oedd yn anghytuno, a thri a ddewisodd ateb "arall".

3.4 Roedd y rhai a gytunodd â'r cynnig dros dro yn cynnwys Cyfraith Gyhoeddus Cymru, a oedd yn "cefnogi'n llwyr" creu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, wedi ei rannu'n siambrau arbenigol ar wahân. Cytunodd y dylai'r rhain gyfateb yn fras i'r tribiwnlysoedd presennol. Daeth rhai themâu cyffredin i'r amlwg o'r ymatebion.

#### Cydlyniaeth a phrofiad y defnyddiwr

3.5 Canolbwyntiodd nifer o'r ymatebwyr ar fwy o gydlyniaeth yn y system a fyddai'n digwydd wrth uno'r tribiwnlysoedd presennol. Er enghraifft, gwnaeth Cyngor y Bar yng Nghymru a Lloegr y pwynt:

> Dylai creu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru arwain at fanteision darbodion maint, cydlyniaeth weinyddol, cydlyniaeth systemig, cydlyniaeth gyfreithadwy, a chynnydd mewn proffil cyhoeddus. Byddai hefyd yn haws darparu ar gyfer cynnydd tebygol yn y tribiwnlysoedd datganoledig yn y dyfodol.

3.6 Canolbwyntiodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar effaith y gydlyniaeth hon ar ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, gan ddadlau:

> Byddai system a dull gweithredu unffurf yn golygu bod system y tribiwnlysoedd yn llai cymhleth i ddinasyddion ei defnyddio ac yn gwella hygyrchedd y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru.

### Proffil cyhoeddus

3.7 Mantais arall cyfuno'r tribiwnlysoedd a nodwyd gan ymatebwyr oedd proffil cyhoeddus cynyddol Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru. Eglurodd Dr Sarah Nason, uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor, a Dr Huw Pritchard, darlithydd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd, fel a ganlyn:

> Mae amrywiaeth o ymchwil yn parhau i ddangos diffyg ymwybyddiaeth o hawliau cyfraith gyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys ymysg gweithwyr proffesiynol yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol. Os oes gan Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru bresenoldeb mwy penodol a gweladwy, ac os yw'n galluogi cyfleoedd mwy cydlynol ac eang i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac i gyfrannu at addysg gyfreithiol gyhoeddus, byddai hyn yn fantais allweddol i'r system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru.

3.8 Gwnaethpwyd y pwynt hefyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a ddywedodd "y gallai mwy o unffurfiaeth hefyd godi proffil cyhoeddus y tribiwnlysoedd a'r hawliau sydd gan ddinasyddion i ddefnyddio system y tribiwnlys".

### Cadw arbenigedd

3.9 Fel y nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori, un o'r risgiau sy'n gysylltiedig â system gyfun yw colli arbenigedd. Gall hyn olygu colli arbenigedd aelodau'r tribiwnlys, a cholli arferion a ffyrdd o weithio sydd wedi cael eu datblygu ar gyfer mathau penodol o waith. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod colli arbenigedd o'r fath yn peri risg rhy fawr.

3.10 Nododd Cyngor Ceredigion, er enghraifft, pa mor bwysig oedd hi i aelodau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (sydd bellach wedi ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru) barhau i feddu ar brofiad ac arbenigedd mewn anghenion dysgu ychwanegol (a elwid gynt yn anghenion addysgol arbennig).

3.11 Roedd Keith Bush CF (yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd) yn anghytuno â'r cynnig dros dro, gan gyflwyno model gwahanol i fynd i'r afael â'r broblem hon:

> Credaf y gellid sicrhau manteision y diwygiadau a argymhellwyd gan y Papur Ymgynghori ym meysydd trefniadaeth, gweithdrefnau, penodiadau, hyfforddiant a disgyblaeth trwy fabwysiadu trefniant ffederal a fyddai'n cadw hunaniaethau'r tribiwnlysoedd unigol. Teimlaf fod manteision ymarferol pwysig o fabwysiadu trefn felly yn hytrach na dileu'r tribiwnlysoedd penodol a gosod un tribiwnlys unedig yn eu lle, gan y byddai system ffederal yn:
>
> - parchu traddodiadau ac arferiadau y gwahanol dribiwnlysoedd, sydd wedi esblygu o'u gwahanol brofiadau o arfer swyddogaethau sy'n medru amrywio'n sylweddol yn ôl y pwnc;

- yn caniatáu cadw gwahaniaethau pwysig ym mhatrwm aelodaeth a gweithdrefnau y gwahanol dribiwnlysoedd (er enghraifft, cyfraniad aelodau “arbenigol” fel syrfewyr a meddygon);

- helpu i recriwtio aelodau sydd yn ymddiddori mewn maes tribiwnlys unigol – byddai’n haws denu aelodau lleyg i wasanaethu fel aelodau o Dribiwnlys y Gymraeg na bod yn aelodau o Dribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, hyd yn oed pe baent yn cael eu “haseinio” i “siambr iaith Gymraeg” y tribiwnlys hwnnw.

3.12 Roedd Noel Edwards, ymgynghorydd technegol a oedd wedi ymddeol o swydd yn yr Asiantaeth y Swyddfa Brisio, (gan nodi ei ateb fel “arall”) hefyd yn ffafrio model ffederal, gan ddadlau bod hyn yn gadael y tribiwnlysoedd:

> Yn annibynnol a thrwy hynny yn cadw eu harbenigeddau – byddent, i bob golwg, yn dribiwnlysoedd “Haen Gyntaf” ond byddent yn cadw eu hannibyniaeth o ran ethol llywyddion, gweinyddiaeth, aelodaeth ac ymddygiad/disgyblaeth ac ati.

3.13 Fodd bynnag, roedd eraill o’r farn y gallai system siambr ddarparu ar gyfer y gwahaniaethau y mae angen eu cadw. Esboniodd Llywydd presennol Tribiwnlysoedd Cymru, Syr Wyn Williams, pam ei fod yn cefnogi ein cynnig dros dro fel a ganlyn:

> Cytunaf â rhesymeg Comisiwn y Gyfraith ar y mater hwn. Rwyf wedi clywed y ddadl (yn fwyaf argyhoeddiadol gan Keith Bush CF) y bydd creu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru yn gwanhau cryfderau unigol y tribiwnlysoedd presennol ac, yn achos Tribiwnlys y Gymraeg yn benodol, yn arwain at golli hunaniaeth ddiwylliannol. Rwy’n parchu’r ddadl hon, ond nid wyf yn cytuno â hi. Bydd creu Siambrau o fewn strwythur Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cyfrannu’n helaeth at gadw’r hyn sy’n dda am y tribiwnlysoedd presennol. Bydd gan Lywyddion y Siambr rôl debyg iawn i arweinwyr barnwrol presennol y tribiwnlysoedd presennol, ac rwyf yn siŵr y byddant yn awyddus i gadw hunaniaeth ar wahân ar gyfer pob Siambr i’r graddau mae hynny’n gyson ag arferion da yn y system drwyddi draw. Mae union natur Tribiwnlys y Gymraeg a’r gwaith a neilltuir iddo yn golygu y bydd ei hunaniaeth ddiwylliannol a’i natur unigryw o reidrwydd yn cael eu cadw p’un ai a yw’n dribiwnlys annibynnol neu’n Siambr o fewn strwythur Tribiwnlys Haen Gyntaf.

3.14 Credai Cyngor y Bar hefyd:

> Byddai rhannu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn siambrau yn cydnabod yr awdurdodaethau gwahanol iawn sy’n cael eu cwmpasu gan y cyfan a dylai ganiatáu ar gyfer datblygu arbenigedd barnwrol a rheolau gweithdrefnol penodol, ym mhob un.

### Problemau ymarferol

3.15 Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr amhariad a fyddai’n cael ei achosi drwy gyfuno’r tribiwnlysoedd presennol. Roedd Cyngor Abertawe, gan nodi ei ateb fel “arall”, yn dadlau “mae risg o greu oedi pellach wrth grwpio tribiwnlys i Siambrau a risg o arbenigeddau mwy cul o’u mewn”.

3.16 Roedd ymateb Panel Dyfarnu Cymru, a nodwyd fel “arall”, yn dangos rhaniad barn ymysg ei aelodau:

Teimla rhai y byddai'r cynnig yn caniatáu i swyddogaethau tebyg gael eu grwpio gyda'i gilydd; cadw arbenigedd presennol; caniatáu i siambrau neu feysydd newydd gael eu cynnwys yn y dyfodol; sicrhau cydweithio rhwng y siambrau ac arweinwyr barnwrol; a byddai'n hawdd i aelodau'r cyhoedd ddeall a chael mynediad atynt. Mae aelodau eraill yn teimlo y byddai'r cynnig hwn yn golygu llawer iawn o ymdrech a gwaith i greu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, dim ond i wahanu'r siambrau ar ôl gwneud hynny, ac maent yn awgrymu y byddai'n fwy cymesur uno tribiwnlysoedd gyda swyddogaethau tebyg - er enghraifft, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Prisio Cymru, gan adael tribiwnlysoedd mwy penodol ar eu pen eu hunain. Mae rhai o staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru eisoes yn gweithio i fwy nag un tribiwnlys ar y tro, felly nid yw'n glir a fyddai strwythur y siambr yn atal hyn rhag parhau. Mae traws-docynnu eisoes yn bodoli i aelodau felly nid yw strwythur y siambr yn debygol o wneud unrhyw wahaniaeth ymarferol yn hyn o beth.

3.17 Roedd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard yn gyffredinol o blaid ein cynnig, ond roeddent hefyd yn annog dull gweithredu gofalus, yn enwedig o ystyried absenoldeb unrhyw dystiolaeth empirig bod diwygiadau Leggatt wedi cyflawni eu hamcanion arfaethedig. Roedden nhw'n dadlau:

Rhaid i'r dull a ddefnyddir i gyfuno a rhannu i siambrau gydbwyso'n briodol y graddau digonol o arbenigedd a chyffredinoli, gan gynnwys drwy rywfaint o hyblygrwydd o ran rheolau a gweithdrefnau, a rhaid cydbwyso buddiannau amrywiaeth o randdeiliaid, gyda'r 'defnyddiwr' wrth galon yr ymarfer cydbwyso hwn.

3.18 Argymellasant y dylai unrhyw gynigion a ddatblygir ddarparu ar gyfer proses werthuso barhaus, gan gynnwys datblygu amrywiaeth o ddangosyddion (ansoddol a meintiol) sy'n seiliedig ar ganlyniadau.

### Rhannu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn siambrau

3.19 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 5 roeddem yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru allu darparu ar gyfer isrannu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn siambrau, a dyrannu gwaith i'r siambrau hynny. Awgrymasom y dylai siambrau gael eu creu drwy is-ddeddfwriaeth, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

3.20 Cafodd y cynnig dros dro hwn gefnogaeth sylweddol, gyda 24 o'r 27 ymateb yn mynegi eu bod yn cytuno. Atebodd tri ymatebydd "arall", ac nid oedd yr un ohonynt yn anghytuno'n llwyr.

3.21 Awgrymodd sawl ymgynghorai amrywiadau ar y trefniant roeddem yn ei gynnig. Cytunodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard y gellid rhannu swyddogaethau i siambrau penodol dan arweinyddiaeth PWT, ond ychwanegodd y dylai'r broses hon ddigwydd ochr yn ochr ag ymgysylltu ag arweinwyr y tribiwnlys.

3.22 Awgrymodd Cyfraith Gyhoeddus Cymru rannu cyfrifoldeb rhwng rhoi swyddogaethau newydd i'r tribiwnlys, a dyrannu swyddogaethau i siambrau penodol:

Byddai angen i'r broses o drosglwyddo swyddogaethau i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, a rhoi swyddogaethau newydd iddo yn y dyfodol, gael ei chyflawni drwy ddeddfwriaeth (is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru) ond dylai dyrannu swyddogaethau i siambrau unigol yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, gan gynnwys Siambr

Reoleiddio Gyffredinol os teimlir bod hynny'n angenrheidiol, fod o fewn pwerau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i gyflawni'r rheolau, gorchymyn/gorchmynion neu gyfarwyddyd/gyfarwyddiadau ymarfer (yn dilyn ymgynghori priodol, wrth gwrs).

3.23 Awgrymodd dau ymgynghorai y dylid rhoi mwy o amlygrwydd i rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Awgrymodd yr Athro Thomas Watkin y gallai Gweinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth ar gyfer dyrannu gwaith i siambrau is Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ar argymhelliad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Roedd Huw Williams, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd, a oedd yn ymateb fel unigolyn, hefyd o'r farn y dylai'r Llywydd gael mwy o rôl, gan resymu fel a ganlyn:

> Credaf y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru arwain ar faterion fel y ffordd orau o ddyrannu gwaith rhwng siambrau a chreu siambrau newydd. Bydd y Llywydd yn y rôl ddiwygiedig yn bennaeth system Tribiwnlysoedd Cymru ac yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithlon o ddosbarthu gwaith er mwyn cyflawni amcanion cyffredinol Tribiwnlysoedd Cymru.
>
> Gan hynny, rwy'n awgrymu y dylid dosbarthu siambrau drwy offeryn statudol a wneir gan wasanaeth tribiwnlysoedd Cymru (fel adran anweinidogol), gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru yn dilyn cynnig gan y Llywydd ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Rheolau Tribiwnlysoedd Cymru a rhanddeiliaid eraill.

### Trafodaeth

3.24 Yng ngoleuni'r gefnogaeth gref gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, rydym yn argymell isod y dylid cyfuno tribiwnlysoedd adran 59 yn un tribiwnlys unedig, wedi ei rannu'n siambrau.

#### System ffederal

3.25 Yn ein barn ni, mae rhai manteision i'r system ffederal a gynigir gan Keith Bush CF. Byddai'n darparu gwarchodaeth arbennig o gryf i dribiwnlysoedd unigol, gan helpu i sicrhau bod arferion a phrosesau sydd ar waith ar hyn o bryd ac sy'n gweithio'n dda mewn perygl o gael eu newid er mwyn cydymffurfio â ffyrdd eraill o wneud pethau mewn tribiwnlysoedd eraill.

3.26 Yr anfantais allweddol, fodd bynnag, fyddai y byddai'n fwy anodd aildrefnu tribiwnlysoedd o fewn y strwythur. Byddai angen deddfwriaeth sylfaenol i ychwanegu awdurdodaethau newydd (boed hynny drwy greu tribiwnlys neu ychwanegu'r awdurdodaeth at dribiwnlys presennol). Byddai'n llai hawdd uno'r tribiwnlysoedd presennol wrth i'w gwaith ddatblygu. Yn fyr, mae'n fodel llai hyblyg yn ei hanfod. Yn ein barn ni, yr hyblygrwydd hwnnw yw un o rinweddau mwyaf deniadol y model unedig. Byddai'n galluogi system y tribiwnlysoedd i dyfu ac addasu i'r gwaith y gofynnwyd iddi ei wneud. Credwn nad yw'r budd ychwanegol o warchodaeth i dribiwnlysoedd unigol yn werth colli hyblygrwydd yn y model unedig, gyda'i fanteision i'r system tribiwnlysoedd drwyddi draw.

3.27 Am resymau tebyg, nid ydym yn cael ein denu at yr awgrym a gyflwynwyd gan Banel Dyfarnu Cymru (a nodir ym mharagraff 3.16uchod) y dylai tribiwnlysoedd presennol tebyg - er enghraifft, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru gael eu cyfuno a bod tribiwnlysoedd eraill yn cael eu gadael heb eu newid.

3.28 Yr hyn sy'n arbennig o bwysig yn ein barn ni yw'r hyblygrwydd i ehangu ac addasu'r system sy'n gynhenid mewn pŵer i greu siambrau drwy is-ddeddfwriaeth. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio cyfundrefn enwau tribiwnlys a siambrau am ein bod ni o'r farn mai dyna'r ffordd orau o ddisgrifio realiti'r hyn rydym yn ei argymell. Fel mater o ddrafftio deddfwriaethol, gellid sicrhau canlyniad tebyg drwy greu endid a ddisgrifir (yn y lluosog) fel "Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf Cymru" ynghyd â phwerau gwneud rheoliadau i greu "Tribiwnlys" o fewn y strwythur, a neilltuo gwaith iddo. Rydym yn gadael y cwestiwn ynghylch cyfundrefn enwi i Lywodraeth Cymru, a allai ddymuno ymgynghori ymhellach ag aelodau a defnyddwyr tribiwnlysoedd.

### Y pŵer i wneud rheoliadau

3.29 Dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, mae'r pŵer i drefnu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn siambrau yn cael ei arfer gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chydsyniad Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru arfer y pŵer yng Nghymru yn yr un modd gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Rydym yn ofni y byddai'r rhannu pwerau a awgrymir gan Gyfraith Gyhoeddus Cymru yn artiffisial, ac rydym yn rhagweld y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi sylw dyledus i farn Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

### Monitro cynnydd

3.30 Cytunwn y bydd yn bwysig monitro cynnydd wrth greu'r strwythur newydd, er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni'r buddion a nodir uchod. Os derbynnir un o'n hargymhellion pellach, gweinyddir y system gan Wasanaeth Tribiwnlysoedd newydd yng Nghymru.[43] Byddai corff o'r fath mewn sefyllfa dda i adolygu cynnydd yr uno cynnar (er enghraifft, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, a drafodir isod ym mharagraffau 3.141 i 3.150) a dysgu gwersi.

**Argymhelliad 1.**

3.31 Rydym yn argymell y dylai'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu disodli gan un Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, y bydd modd wedyn ei isrannu'n siambrau.

**Argymhelliad 2.**

3.32 Rydym yn argymell y dylai siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu harwain gan Lywyddion siambr, gyda chefnogaeth Dirprwy Lywyddion lle bo angen.

[43] Gweler argymhelliad 51 ym mharagraff 9.53.

**Argymhelliad 3.**

3.33 Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i isrannu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn siambrau, ac i ddyrannu gwaith i'r siambrau hynny, drwy is-ddeddfwriaeth a wneir gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

## TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

3.34 Roedd ein Papur Ymgynghori yn cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 6 y dylid dod â Thribiwnlys Prisio Cymru o fewn Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Awgrymasom y byddai nifer o fanteision i'r cyfuniad hwn, gan gynnwys:

(1) cyfuno gweinyddiaeth â thribiwnlysoedd adran 59 eraill, gan arwain at arbedion effeithlonrwydd posibl;

(2) codi proffil y tribiwnlys; ac

(3) arweinyddiaeth farnwrol ychwanegol, ar ffurf Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

3.35 Cawsom 19 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd mwyafrif bychan (10) o blaid y cynnig, ac roedd pedwar yn anghytuno, a phump yn mynegi barn arall.

### Safbwyntiau cefnogol

3.36 Roedd y rhai a gefnogodd y cynnig yn cynnwys Syr Wyn Williams, Llywydd presennol Tribiwnlysoedd Cymru, a ddywedodd:

> Nid wyf yn bychanu'r anawsterau ymarferol sy'n gysylltiedig ag integreiddio'r Tribiwnlys Prisio i strwythur Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, gan fod ganddo strwythur yn barod sy'n wahanol iawn i'r tribiwnlysoedd datganoledig. Fodd bynnag, rwyf wedi fy argyhoeddi o'r angen i ddod â'r Tribiwnlys Prisio i deulu'r tribiwnlysoedd datganoledig o ystyried natur y gwaith mae'n ei wneud ac am y rhesymau eraill a gyflwynwyd gan Gomisiwn y Gyfraith.

3.37 Roedd ymatebion Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard, a Chylchdaith Cymru a Chaer, ill dau yn pwysleisio pwysigrwydd dod â phob tribiwnlys at ei gilydd gyda Thribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru. Fel y dywedodd Cylchdaith Cymru a Chaer:

> Rydym o blaid cynnwys yr holl dribiwnlysoedd datganoledig yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru. Apêl hynny yw symlrwydd, cysondeb a thryloywder. Dylai cynnwys yr holl dribiwnlysoedd datganoledig yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru hefyd greu gwell arbedion maint, cydlyniant a phroffil cyhoeddus.

### Rhwystrau posibl rhag uno

3.38 Mynegodd ymatebwyr eraill eu cefnogaeth mewn egwyddor, ond roeddent yn poeni y dylid cadw ffyrdd penodol o weithio. Gallai Roger Handy, Cadeirydd Tribiwnlys Prisio Cymru, weld manteision o ran gweinyddu ar y cyd, ond nid oedd o'r farn y dylai uno ddigwydd ar draul rôl clercod tribiwnlys fel rheolwyr achos a ffynhonnell gwybodaeth a chyngor arbenigol, na newidiadau i gyfansoddiad presennol paneli Tribiwnlys Prisio

Cymru (gan gynnwys aelodau lleyg a'r rhai â gwybodaeth arbenigol). Eglurodd hefyd fod Tribiwnlys Prisio Cymru weithiau wedi gwrando ar nifer o apeliadau yn ymwneud ag eiddo tebyg, fel y gellir "ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael gyda'i gilydd a gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth". Nododd:

> Nid yw er budd y cyhoedd nac er budd trethdalwyr unigol i bob apêl gael ei thrin yn "gwbl unigryw", gyda newidiadau'n cael eu gwneud, o bosibl, i nifer o asesiadau ar ôl pob gwrandawiad.

3.39 Dadleuodd pe na ellid cynnwys y ffordd hon o weithio mewn Tribiwnlys Haen Gyntaf diwygiedig, yna byddai'n well i Tribiwnlys Prisio Cymru barhau i fod yn gorff ar ei ben ei hun.

3.40 Roedd gan Huw Williams bryderon hefyd. Credai pe byddai rhywun yn dylunio'r system o'r egwyddorion cyntaf, y gellid gwrando ar apeliadau y dreth gyngor a graddfeydd o fewn siambr drethu Tribiwnlys Haen Gyntaf. Fodd bynnag, roedd y graddau roedd strwythur Tribiwnlys Prisio Cymru yn seiliedig ar y llys ynadon:

> yn awgrymu y dylai ymgorffori Tribiwnlys Prisio Cymru i system Tribiwnlysoedd Cymru fod yn destun astudiaeth ar wahân ar ôl i ddyluniad cyffredinol system Tribiwnlysoedd Cymru gael ei setlo.

3.41 Roedd eraill yn canolbwyntio ar oblygiadau ariannol cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru o fewn y system ehangach, ac yn benodol ar ganlyniadau cyflwyno cyflog i aelodau lleyg sydd ar hyn o bryd yn gwirfoddoli eu hamser am ddim. Er enghraifft, roedd Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr, er nad oeddent yn gwrthwynebu'r cynnig mewn egwyddor, yn rhybuddio:

> Pe bai'r Tribiwnlys yn dod o fewn cwmpas Uned Tribiwnlysoedd Cymru, yna gallai ei aelodau, yn gwbl briodol, ddisgwyl cael eu talu yn unol ag aelodau tribiwnlysoedd datganoledig eraill. Mae perygl i hyn ymestyn cyllideb annigonol yr Uned hyd yn oed ymhellach, ac mae'n tynnu sylw at yr angen cyfatebol i "broffesiynoli" y Tribiwnlys, sy'n gweithredu ar hyn o bryd ar sail gwirfoddol.

3.42 Fe wnaeth Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru bwynt tebyg, gan ddadlau:

> Mae gennym bryderon mawr yn barod am yr adnoddau sydd ar gael i gwrdd â'r cynnydd sylweddol iawn yn llwyth gwaith ein tribiwnlys sy'n deillio o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ddiwygiedig sydd i'w chyflwyno cyn bo hir.

3.43 Cafwyd yr ymateb mwyaf manwl gan Gyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru ei hun, ac fe'i hatgynhyrchir isod.

> Er bod atyniad academaidd a rhesymeg bur yn gysylltiedig ag uno'r holl dribiwnlysoedd yng Nghymru, mae llawer o ystyriaethau a ffactorau ymarferol sy'n ychwanegu cymhlethdod at weithredu'r dewis hwn, a gallai graddfa'r newid effeithio ar ddarparu gwasanaethau ar adeg unrhyw newid.
>
> Mae'n debygol iawn y byddai cost llawer mwy sylweddol yn gysylltiedig ag uno Tribiwnlys Prisio Cymru i greu tribiwnlys Haen Gyntaf nag uno'r tribiwnlysoedd adran 59 i greu sefydliad ymbarél newydd. Mae angen cynnwys yr ystyriaethau ymarferol

hyn wrth werthuso a ddylid cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru, o leiaf ar y dechrau. Byddai ceisio uno tribiwnlysoedd sy'n wahanol iawn o ran eu trefn, eu trefniadaeth a'u cymorth gweinyddol heb ystyried yn fanwl sut bydd y materion hynny yn cael eu datrys (a fydd yn anochel yn siŵr o ddigwydd), yn gam dewr. Mae angen craffu ymhellach i sicrhau y byddai'r newid yn gweithio'n dda a hefyd i ganfod maint y costau. Byddai peidio â gwneud hynny ar hyn o bryd yn gyfystyr ag "ysgubo'r materion hyn o dan y carped" gan obeithio y gellir eu datrys yn ddiweddarach.

Mae'r Papur ei hun yn cydnabod bod Tribiwnlys Prisio Cymru yn gweithredu'n wahanol i dribiwnlysoedd eraill yng Nghymru ac yn meddu ar broses penodi aelodau a system lywodraethu unigryw. Mae gan Dribiwnlys Prisio Cymru ei weinyddiaeth annibynnol ei hun, sy'n darparu cymorth clercyddol a TG pwrpasol, ac sydd hefyd yn cael ei chyflogi ar delerau ac amodau gwahanol i'r cymorth gweinyddol a gynigir yn ddiweddarach yn y Papur hwn ar gyfer y tribiwnlysoedd unedig newydd. Lleygwyr yw ei aelodau ac fe'i darperir gyda chymorth cyfreithiol gan glercod sydd â gwybodaeth arbenigol. Nid yw'r aelodaeth yn cael ei thalu ychwaith; bydd y realiti allweddol hwn yn amlwg mewn unrhyw strwythur unedig o'i gymharu ag aelodau sy'n eistedd yn siambrau arfaethedig eraill Tribiwnlys Haen Gyntaf unedig sy'n cael ffioedd am wrando ar eu hachosion. Byddai cyflwyno talu ffioedd i aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru (a fyddai'n ymddangos yn briodol ac yn iawn o ran cydraddoldeb a chysondeb yn y cyd-destun unedig) yn golygu cost ychwanegol sylweddol pe bai un strwythur yn cael ei greu. Mae'r broses o dderbyn y rhan fwyaf o'i apeliadau hefyd yn wahanol iawn i dribiwnlysoedd eraill ac mae'n derbyn nifer fawr iawn o apeliadau. Mae'n wir bod yr ystyriaethau a'r ffactorau hyn wedi arwain at gorff cyfatebol Tribiwnlys Prisio Cymru yn Lloegr, Valuation Tribunal for England, i gael ei adael y tu allan i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn Lloegr pan ystyriwyd cynigion tebyg yno. Mae'n amlwg, yng ngoleuni'r ffaith honno, a'r ffaith bod Tribiwnlys Prisio Lloegr yn dal y tu allan i strwythur yr Haen Gyntaf flynyddoedd lawer yn ddiweddarach, fod y rhain yn ystyriaethau perthnasol y mae angen rhoi sylw iddynt yn awr yng nghyd-destun cynigion y Papur ar gyfer Cymru. Ni ddylid eu diystyru ar chwarae bach.

Wedi dweud hynny, fodd bynnag, mae ffyrdd y gallai Tribiwnlys Prisio Cymru elwa ar gael cysylltiad agosach â'r tribiwnlysoedd eraill yng Nghymru, ond mae cymhathu i mewn i strwythur unedig yn nod tymor hwy yn unig; mae'r sefyllfa gychwynnol yn wahanol iawn i'r sefyllfa yn y tribiwnlysoedd adran 59. Byddai'n anghywir anwybyddu'r ffaith hon a gobeithio wedyn y bydd pethau'n datrys eu hunain. Mae adeiladu polisi cyhoeddus ar ddyhead a gobaith heb roi sylw i realiti ymarferol yn debygol o arwain at anawsterau yn y dyfodol a chostau annisgwyl. Mae'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol yn beth da, ond rhaid mynd ati mewn ffordd bragmataidd a realistig i gyflawni hyn.

3.44 Arweiniodd y gwahaniaethau rhwng Tribiwnlys Prisio Cymru a thribiwnlysoedd eraill, a nodwyd uchod yn ymateb Tribiwnlys Prisio Cymru, at rai yn dadlau y dylid diwygio'n raddol. Roedd Huw Williams (mewn ymateb i Gwestiwn Ymgynghori 1), yn dadlau bod angen adolygu neu ddiwygio cyn y gellid cynnwys tribiwnlysoedd yn y cynllun unedig, ac na ddylai Tribiwnlys Prisio Cymru (a phaneli apeliadau derbyn a gwahardd ysgolion), a hwythau'n "allanolion", ddylanwadu'n ormodol ar ddyluniad cyffredinol system tribiwnlysoedd yng Nghymru.

## Trafodaeth

3.45 Rydym wedi ystyried barn ymatebwyr yn ofalus, ac yn enwedig safbwyntiau Tribiwnlys Prisio Cymru. Nid ydym yn bychanu'r rhwystrau ymarferol i ddod â Thribiwnlys Prisio Cymru yn agosach at dribiwnlysoedd adran 59. Rydym yn mynegi barn ar rai o'r rhain yma. Nid yw eraill yn rhai y gallwn roi sylwadau arnynt mewn ffordd ddefnyddiol. Ym mha ffurf bynnag y deuir â'r Tribiwnlys Prisio i mewn i'r strwythur unedig, bydd gwaith pellach yn ddi-os yn angenrheidiol ar ran Llywodraeth Cymru, Tribiwnlys Prisio Cymru a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Dylid hefyd amseru newidiadau'n ofalus er mwyn lleihau'r effaith ar waith Tribiwnlys Prisio Cymru. Rydym yn nodi, mewn cymhariaeth, bod newidiadau i'r pwyllgorau prisio yn yr Alban wedi cael eu cynllunio i gyd-fynd â chyfnodau tawelach o waith i'r pwyllgorau.

3.46 Serch hynny, rydym wedi ein darbwyllo gan y rhan fwyaf o'r ymatebion a gawsom y dylai cartref Tribiwnlys Prisio Cymru fod o fewn system dribiwnlysoedd unedig. Nid yw natur ei waith yn hynod wahanol i waith tribiwnlysoedd datganoledig eraill i'r graddau bod modd cyfiawnhau ei fod yn parhau i weithredu'n annibynnol arnynt. Mae ei fodolaeth bresennol ar wahân yn golygu ei fod yn mynd yn fwyfwy ynysig ac yn llai abl i gystadlu am waith, addasu a gwasanaethu ei ddefnyddwyr yn y pen draw.

3.47 Gyda'i nifer fawr o achosion, byddai Tribiwnlys Prisio Cymru yn cynrychioli elfen sylweddol o Dribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru. Fodd bynnag, mae'n debyg o ran maint i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, a dderbyniodd 1,790 o geisiadau neu atgyfeiriadau ar gyfer gwrandawiadau yn 2020/2021, ac a drefnodd 1,878 o wrandawiadau.[44] Er bod Tribiwnlys Prisio Cymru wedi derbyn 7,625 o geisiadau yn 2018/2019, dim ond 181 o gyfarfodydd tribiwnlys oedd y rhain yn ymarferol (mae'r nifer hwn o achosion yn fwy cynrychioliadol na'r nifer yn 2019/2020, a gafodd ei leihau oherwydd cytundeb gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio).[45] Deallwn fod hyn yn rhannol oherwydd y trefniadau a wnaed gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n golygu bod llawer o geisiadau'n cael eu cynhyrchu'n awtomatig a'u setlo cyn gwrandawiad (setlwyd 4,940 cais yn 2018/2019). Yn ein barn ni, mae'r swmp hwn o waith yn cyfiawnhau cadw gwaith y tribiwnlys prisio, i ddechrau o leiaf, mewn siambr ar wahân.[46] Fodd bynnag, nid ydym o'r farn ei fod ynddo ei hun yn cyfiawnhau bodolaeth Tribiwnlys Prisio Cymru ar wahân.

3.48 Y gwahaniaeth mwyaf trawiadol rhwng Tribiwnlys Prisio Cymru a'r tribiwnlysoedd adran 59, yn ein barn ni, yw'r model dyfarnu a ddefnyddir gan Dribiwnlys Prisio Cymru. Fel yr esboniwyd yn ein Papur Ymgynghori ac yn ymateb Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru, mae paneli Tribiwnlys Prisio Cymru ar hyn o bryd yn cynnwys aelodau lleyg a gynghorir gan glerc arbenigol. Mae'r model hwn yn

---

44 Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020 – 2021* (Mehefin 2021) tudalennau 9 ac 11. Gweler https://tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/sites/mentalhealthreview/files/2021-11/taimc-adroddiad-blynyddol-20-21.pdf

45 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad blynyddol 2018-19* (2019) tudalen 17. Gweler https://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/publications/cy/Adroddiad_Blynyddol_2018-19.pdf

46 Rydym yn nodi'r awgrym gan Huw Williams, o ddechrau â'r egwyddorion cyntaf, y gellid cynnwys rhywfaint o waith Tribiwnlys Prisio Cymru mewn siambr drethu yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Awgrymodd Cymdeithas y Gyfraith hefyd y gellid cyfuno Tribiwnlys Prisio Cymru gyda Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru mewn siambr eiddo.

debyg i fodel yr ynadaeth leyg, ond hyd y gwyddom, nid yw i'w gael mewn tribiwnlysoedd.[47]

3.49 Roeddem o'r farn dros dro yn ein Papur Ymgynghori fod newid dull dyfarnu Tribiwnlys Prisio Cymru y tu allan i gwmpas y prosiect hwn. Nid ydym wedi newid y farn honno; mae asesu manteision ac anfanteision y model dyfarnu hwnnw yn dasg sylweddol ynddo ei hun, ac nid yw'n dasg y gallem fod wedi ei chynnwys o fewn amserlen y prosiect hwn. Yn ein barn ni, byddai modd creu siambr brisio newydd mewn tribiwnlys unedig gan ddefnyddio'r model dyfarnu a ddilynir gan Dribiwnlys Prisio Cymru ar hyn o bryd.

3.50 Byddai rhai newidiadau i'w drefniadau presennol yn anochel. Fel corff a noddir gan Lywodraeth Cymru, mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn gyfrifol am ei lywodraethu a'i weinyddiaeth ei hun ar hyn o bryd. Caiff ei lywodraethu gan ei Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys ei Lywydd, cynrychiolwyr tribiwnlysoedd cenedlaethol a phenodeion Llywodraeth Cymru. Petai'n cael ei gynnwys yn y system tribiwnlysoedd ehangach, byddai llywodraethu'r tribiwnlys yn gyfrifoldeb yn lle hynny i Fwrdd Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru (sy'n cael ei drafod yn fanylach ym Mhennod 9). Byddai gweinyddiaeth y tribiwnlys hefyd yn cael ei chynnal gan y gwasanaeth hwnnw. Gan y byddai rhywfaint o'r weinyddiaeth yn parhau'n gyfrifoldeb i glercod y tribiwnlys, mae'n debygol y byddai'n rhaid iddynt aros mewn tîm ar wahân o fewn Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru. Nid ydym o'r farn bod modd rheoli hyn; nodwn fod Uned Tribiwnlysoedd Cymru, ar hyn o bryd, wedi ei rhannu'n dimau sy'n canolbwyntio ar dribiwnlysoedd penodol.

3.51 Mewn mannau eraill yn yr adroddiad hwn rydym yn gwneud argymhellion eraill ar gyfer newid trefniadau Tribiwnlys Prisio Cymru o ganlyniad i ddod yn rhan o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.[48] Gwelwn rym hefyd yn y pwynt a wnaed gan nifer o ymgyngoreion y byddai'n anghyson cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru o fewn y system tra'n gadael ei aelodau heb eu talu.

3.52 Mater i Lywodraeth Cymru ydy a yw'n cymryd bod creu'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn gyfle i ddiwygio'r ffordd mae trethi annomestig ac apeliadau treth gyngor yn cael eu dyfarnu, naill ai cyn neu ar ôl i'r gwaith gael ei ymgorffori yn y system unedig. Gallwn weld y gall fod manteision ynghlwm wrth symud i fodel lle mae gan y panel ei hun yr wybodaeth gyfreithiol arbenigol angenrheidiol yn ogystal â gwybodaeth dechnegol, yn hytrach na dibynnu ar glercod. Mae'n bosibl y gallai'r aelodau arbenigol hynny eistedd ochr yn ochr ag aelodau lleyg. Serch hynny, y brif ystyriaeth yw dewis model dyfarnu sy'n gweithio'n dda i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ac sy'n hwyluso'r broses o benderfynu ar achosion yn effeithlon.

### Terfyn oedran ar gyfer aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru

3.53 Un o ganlyniadau dod â Thribiwnlys Prisio Cymru i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yw y gallai ei aelodau ddod yn ddarostyngedig i oedran ymddeol gorfodol. Ar hyn o bryd, yr oedran ymddeol gorfodol yw 70 ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru,

47 Nodwn fod y gwaith a wnaed yn flaenorol gan Gomisiynwyr Cyffredinol Treth Incwm yn awr yn cael ei wneud gan farnwyr y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Dreth).

48 Gweler y drafodaeth ar apeliadau ym mharagraffau 4.90 a 4.91, ac argymhellion 34 a 35 o Bennod 7, a 46 a 48 o Bennod 8.

Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.[49] Petai terfyn tebyg yn cael ei osod ar aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru, gallai hynny arwain at ganlyniadau difrifol; mae adroddiad blynyddol 2019/20 Tribiwnlys Prisio Cymru yn nodi bod 50.6% o'i aelodaeth o fewn y grŵp oedran 70 – 79, gyda 9.4% o'i aelodaeth yn 80 oed neu'n hŷn. Fodd bynnag, cyhoeddodd yr Arglwydd Ganghellor ym mis Mawrth 2021 ei fod yn bwriadu codi'r oedran ymddeol gorfodol i 75.[50] Pe dilynid y duedd honno yn y tribiwnlysoedd datganoledig, gallai hynny leddfu'r effaith ar Dribiwnlys Prisio Cymru.

**Argymhelliad 4.**

3.54 Rydym yn argymell y dylid trosglwyddo awdurdodaethau Tribiwnlys Prisio Cymru i siambr brisio newydd Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

## PANELI APELIADAU DERBYN A GWAHARDD YSGOLION

3.55 Roedd Pennod 3 ein Papur Ymgynghori hefyd yn ystyried perthynas paneli apeliadau derbyn a gwahardd ysgolion (a elwir weithiau'n baneli apelio annibynnol) â gweddill y system tribiwnlysoedd datganoledig. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r paneli hyn yn cael eu cynnull a'u gweinyddu gan awdurdodau lleol (er bod rhai paneli apêl derbyn yn cael eu rhedeg gan yr ysgol dan sylw).

### Paneli apeliadau gwaharddiadau ysgolion

3.56 Roedd ein Papur Ymgynghori yn cynnig dros dro y dylai awdurdodaeth y paneli apeliadau gwaharddiadau ysgolion gael ei chyfuno i awdurdodaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (a ailenwyd yn Dribiwnlys Addysg Cymru ar 1 Medi 2021; rydym wedi cadw cyfeiriadau at Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn y Bennod hon lle mai dyna'r term a ddefnyddiwyd gan ymatebwyr).[51] Yn y pen draw, roeddem yn rhagweld y byddai'r tribiwnlys yn sail i siambr addysg o fewn Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

3.57 Dylanwadwyd ar ein cynnig dros dro gan y niferoedd cymharol isel o'r apeliadau hyn yng Nghymru. Er nad yw ystadegau cynhwysfawr yn cael eu cyhoeddi, mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu y gall fod oddeutu 40 y flwyddyn, wedi eu gwasgaru ar draws awdurdodau lleol.[52] Mae hyn yn awgrymu mai dim ond llond llaw o'r achosion hyn mae pob awdurdod lleol yn eu gwrando bob blwyddyn. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, buom yn siarad â nifer o awdurdodau lleol. Er bod rhai

---

49 Deddf Iechyd Meddwl 1983 atodlen 2, paragraff 2A; Deddf Amaethyddiaeth 1947, atodlen 9, paragraff 15; Deddf Rhenti 1977, atodlen 10, paragraff 2A.

50 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Judicial mandatory retirement age: response to consultation* (Mawrth 2021) tudalen 4. Gweler https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/967234/judicial-mandatory-retirement-age-consultation-response.pdf

51 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, adran 91(1).

52 Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2020) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith rhif 251, atodiad 1, paragraff 1.55.

awdurdodau mwy, megis Caerdydd a Chasnewydd, wedi cael nifer o apeliadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nid oedd eraill wedi cael yr un apêl. Mae hyn yn awgrymu mai ychydig o brofiad sydd gan baneli mewn rhai ardaloedd.

3.58 Roedd ein Papur Ymgynghori hefyd yn awgrymu bod yr angen am wybodaeth am ddarpariaeth addysgol leol yn llai ar gyfer paneli gwaharddiadau nag ar gyfer paneli derbyn. Mae gofyniad statudol bod paneli apêl derbyn yn cynnwys aelodau "sy'n gyfarwydd ag amodau addysgol yn ardal yr awdurdod", neu sy'n rhieni i blant mewn ysgol.[53] Nid oes gofyniad cyfatebol ar gyfer paneli gwahardd. Mae hyn yn gwneud synnwyr o ystyried y gwahanol faterion mae'r paneli'n eu hystyried; yn aml mae'n ofynnol i baneli derbyn asesu'r rhagfarn y gallai derbyn plentyn ei beri i ysgol, sy'n gofyn yn anochel am wybodaeth am amodau lleol. Mae apeliadau gwaharddiadau yn canolbwyntio ar amgylchiadau unigol yr apelydd yn hytrach na'r system addysg leol yn ei chyfanrwydd.

3.59 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (23 o 32) yn cefnogi'r cynnig dros dro. Roedd saith yn anghytuno a rhoddodd dau ymatebion eraill.

### Cydlyniad y system gyfan

3.60 Roedd rhai ymatebwyr o blaid y cynnig ar y sail ei fod yn gwneud y system tribiwnlysoedd gyfan yn fwy cydlynol. Er enghraifft, dywedodd Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer wrthym:

> Rydym o blaid cynnwys yr holl dribiwnlysoedd datganoledig sy'n delio â materion addysgol mewn siambr addysg yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Mae'n ymddangos bod y manteision sy'n gysylltiedig â chreu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru yr un mor berthnasol i gynnwys yr holl dribiwnlysoedd addysgol datganoledig nad ydynt yn rhan o adran 59 ynddi.

3.61 Roedd Syr Wyn Williams hefyd yn cefnogi'r cynnig, am y rhesymau a nodir yn ein Papur Ymgynghori.

### Arbenigedd

3.62 Canolbwyntiodd llawer o'r ymatebwyr ar yr arbenigedd sydd ei angen er mwyn i baneli apeliadau gwaharddiadau ysgolion redeg yn llwyddiannus. Roedd yr ymatebwyr yn anghytuno ynghylch a oedd hi'n bwysicach cael arbenigedd lleol, neu aelodau o'r panel a oedd â phrofiad o anghenion dysgu ychwanegol.

3.63 Dadleuodd dau ymatebydd yn benodol fod achosion gwahardd mewn ysgolion yn aml yn ymwneud â materion tebyg i apeliadau a wrandawyd gan Dribiwnlys Addysg Cymru: Credai Huw Williams fod y "rhesymau sylfaenol dros wahardd yn rhannu llawer o nodweddion â'r materion sy'n codi mewn achosion anghenion addysgol arbennig", tra dadleuodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru:

> Yn ein profiad ni, mae gwaharddiadau wedi digwydd o ganlyniad i anallu i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol dysgwr. Byddem yn croesawu symudiadau i sicrhau bod arbenigedd perthnasol yn cael ei ddarparu mewn achosion o'r fath. Rydym yn

---

53 Rheoliadau'r Addysg (Trefniadau Apeliadau Derbyn) (Cymru) Offeryn Statudol 2005 Rhif 1398 (Cy 112), atodlen 1 paragraff 1.

awyddus i sicrhau na fyddai symudiad o'r fath yn effeithio ar gapasiti TAAAC, ond rydym yn amau bod nifer yr achosion o'r math hwn yn isel.

3.64 Cytunodd y Gwasanaeth Addysg Catholig hefyd fod "apeliadau gwaharddiadau yn llai dibynnol ar arbenigedd lleol". Fodd bynnag, roedd aelod o banel ysgol yng Nghaerdydd yn anghytuno, gan ddadlau y dylai'r Tribiwnlys Addysg:

> gynnwys arbenigwyr addysg sydd wedi e'u hyfforddi'n dda ac a fyddai wedi eu hyfforddi'n ormodol ar gyfer apeliadau cyffredin. ... Yn ogystal, mae gan aelodau'r panel wybodaeth am yr ysgolion dan sylw a'r ardaloedd felly maent yn gallu rhoi barn arbenigol. ...Mae gwybodaeth am y gwahanol ysgolion a'r gwahanol ardaloedd yn hanfodol ym mhob penderfyniad.

3.65 Roedd ymateb Cyngor Dinas Caerdydd hefyd yn dangos bod gwybodaeth leol "yn gallu bod yn hanfodol wrth wneud penderfyniadau".

### Cysondeb a swmp yr apeliadau

3.66 Roedd nifer o'r ymatebion yn cytuno â'r farn a fynegwyd yn y Papur Ymgynghori; bod lefel isel o apeliadau'n arwain at bryderon ynghylch cysondeb. Er enghraifft, dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

> Credaf y byddai dod ag apeliadau o'r fath dan gylch gwaith Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gwella tryloywder ac unffurfiaeth y broses. Gallai penderfyniad i wahardd plentyn o'r ysgol arwain at ganlyniadau sylweddol i'r unigolyn. Mae hyder y cyhoedd ym mhroses y panel apêl yn hanfodol.

3.67 Cytunodd y Gwasanaeth Addysg Catholig, gan ddweud:

> Nod y cynnig hwn yw sicrhau bod apeliadau gwaharddiadau ysgolion yn cael eu clywed a'u penderfynu'n fwy cyson. Rydym yn llwyr gefnogi'r nod hwn ac rydym o'r farn y bydd datblygu Tribiwnlys Addysg a fyddai'n adeiladu corff o arbenigedd yn y maes hwn yn sicrhau bod modd clywed apeliadau o'r fath yn fwy teg a chyson nag a wneir ar hyn o bryd.

3.68 Roedd Dr Sarah Nason ac Ann Sherlock, cymrawd ymchwil ym Mhrifysgol Bangor 2018-2020, o'r farn y byddai'r nifer cymharol isel o apeliadau gwaharddiadau yn ei gwneud yn haws trosglwyddo'r awdurdodaeth i'r Tribiwnlys Addysg, gan ddweud y byddai hyn yn ei wneud yn "ychwanegiad mwy hylaw" nag apeliadau derbyn.

### Annibyniaeth ar yr awdurdod lleol

3.69 Cafwyd safbwyntiau croes gan ymatebwyr ynghylch i ba raddau mae paneli gwahardd yn ddigon annibynnol ar awdurdodau lleol. Eglurodd un aelod o'r tribiwnlys:

> Er fy mod i'n gwerthfawrogi bod gan y paneli awdurdodau lleol presennol yr arbenigedd perthnasol, a'r wybodaeth am yr ardal leol, teimlaf fod rhieni a'r disgybl (lle bo hynny'n briodol) yn teimlo bod ganddynt farn fwy annibynnol a diduedd drwy banel sy'n allanol i'r awdurdod lleol. O ganlyniad, mae'r rhieni a'r disgybl yn debygol o fod yn fwy parod i dderbyn y dyfarniad a wnaed. Rwy'n teimlo bod gan aelodau TAAAC yr wybodaeth a'r sgiliau priodol i fynd i'r afael â'r gwaith hwn.

3.70 Ar y llaw arall, eglurodd aelod o banel apeliadau ysgol o Gaerdydd:

> Mae pob panel rwyf wedi ei gadeirio wedi nodi'n glir iawn mai gwirfoddolwyr di-dâl sydd ar waith, heb unrhyw gysylltiad â'r Awdurdod Lleol na'r corff llywodraethu a'u bod yn gwbl annibynnol.

3.71 Defnyddiodd Dr Sarah Nason ac Ann Sherlock eu hymchwil eu hunain i gyflwyno darlun cymysg o annibyniaeth y paneli:

> Yn ystod ein hymchwil, cawsom adborth gan rai o gyfreithwyr yr awdurdodau lleol a oedd o'r farn bod y system yn gweithio'n dda: yn eu barn nhw, gallai unrhyw bryder gan rieni ynghylch annibyniaeth y paneli gael eu rheoli drwy gyflwyniad da gan gadeirydd y panel a pherfformiad priodol rôl y clerc, gan sicrhau nad oes unrhyw drafodaeth gyda'r ysgol cyn y panel. Clywsom gan rai awdurdodau lleol fod paneli apeliadau gwaharddiadau yn cael eu rheoli a'u trefnu gan y consortiwm rhanbarthol, a hefyd fod cydweithrediad rhwng awdurdodau fel bod pobl sydd â phrofiad ac arbenigedd yn gweithio ar draws awdurdodau ar y paneli. Roedd rhai o gyfreithwyr yr awdurdodau lleol yn teimlo y byddai rhywfaint o oruchwyliaeth ar y paneli gwahardd yn briodol ond nid mor bell â throsglwyddo'r broses i TAAAC - cam yr oeddent yn ei ofni y byddai'n arwain at broses fwy ffurfiol a cholli profiad lleol uniongyrchol. Ar y llaw arall, clywsom bryderon y gallai'r 'arbenigedd lleol' a werthfawrogir gan awdurdodau lleol gael ei weld gan rai rhieni fel diffyg annibyniaeth ar ysgolion. Nid yw'n glir pam fod cyn lleied o ddisgyblion / rhieni yn mynd ar drywydd apeliadau yn erbyn gwaharddiadau parhaol, ac felly mae'n anodd mesur a fyddai symud i'r Tribiwnlys yn effeithio ar eu tebygolrwydd o fynd ar drywydd achos.

3.72 Mewn ymateb ar wahân, tynnodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard sylw at Argymhelliad 11 o adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020 a oedd yn rhan o gorff mwy o waith, gyda'r nod o lywio'r gwaith o lunio polisïau cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru ystyried:

> a ddylai Clerc y panel annibynnol fod wedi ei hyfforddi'n gyfreithiol, neu, fel arall, lle nad yw Clerc y panel annibynnol wedi ei hyfforddi'n gyfreithiol, y dylai fod yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod ffynhonnell annibynnol o gyngor cyfreithiol yn cael ei darparu. [54]

### Adnoddau

3.73 Roedd rhai ymatebwyr yn poeni am yr amserlenni tynn sy'n gysylltiedig â gwrando ar yr achosion hyn, ac yn cwestiynu a fyddai'r Tribiwnlys Addysg yn gallu dygymod â'r rhain. Er enghraifft, nododd Cyngor Abertawe:

> Mae'r amserlenni byr sy'n gysylltiedig â delio ag apeliadau gwahardd yn mynnu bod paneli'n cyfarfod erbyn y pymthegfed diwrnod ysgol fan bellaf ar ôl y diwrnod y cyflwynwyd yr apêl. Rydym yn teimlo na fyddai TAAAC yn gallu cadw at y terfynau amser hyn ac y byddai'n achosi oedi diangen.

---

54 S Nason, A Sherlock, H Pritchard a H Taylor, *Public Administration and a Just Wales - Education* (Mawrth 2020) tudalen 71, argymhelliad 11(iii). Gweler https://www.nuffieldfoundation.org/wp-content/uploads/2019/11/Admin-Justice-Wales-Education-Full.pdf

3.74 Codwyd y cwestiwn hefyd gan Gyngor Dinas Caerdydd, gan nodi ei fod wedi derbyn 11 apêl yn ystod y 18 mis diwethaf.

### Materion ffurfiol

3.75 Roedd un ymatebydd, Cyngor Sir Penfro, yn poeni y gallai gwrando ar apeliadau yn genedlaethol fod yn fwy annymunol i rieni a phobl ifanc. Roedd yn dadlau bod y paneli'n "hygyrch", gan ddweud:

> Mae'n ddigon posibl y bydd apeliadau gwahardd mae TAAAC yn delio â nhw yn annog apelwyr i beidio ag arfer eu hawl i apelio, gan y gallai hyn gael ei ystyried yn ffordd fwy ffurfiol o apelio, ac mae'n bosibl y bydd goblygiadau o ran cost/adnoddau pe bai'r broses yn cael ei newid.

3.76 Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn bryderus ynghylch mynediad, ac yn benodol y dylai plant a phobl ifanc barhau i allu cyflwyno eu hapeliadau eu hunain:

> Mae canllawiau presennol Llywodraeth Cymru ar wahardd yn nodi bod yn rhaid i blant a phobl ifanc allu cyflwyno eu hapeliadau eu hunain ac, os oes angen, dylid darparu eiriolwr i'w cefnogi. Dylid cadw'r gofyniad hwn os gwneir unrhyw newid gan ei fod yn sylfaenol i hawliau plant. Yn ein hadroddiad yn 2018 dan y teitl A yw Cymru'n decach?, nodwn fod y cyfraddau gwahardd ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn tueddu i fod yn llawer uwch na'r cyfartaledd. Yn unol â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, dylai unrhyw newid i apeliadau gwaharddiadau ystyried hyn.

### Creu hawl i apelio i'r Siambr Addysg

3.77 Awgrymodd dau ymatebydd, pe bai apeliadau gwaharddiadau yn parhau i gael eu gweinyddu ar lefel awdurdod lleol, y gellid cyflwyno hawl i apelio i'r Siambr Addysg. Cyfeiriodd Dr Sarah Nason ac Ann Sherlock at eu hadroddiad yn 2020, a oedd yn argymell:

> ...os yw'r system bresennol o apeliadau gwaharddiadau i baneli annibynnol yn dal mewn grym, ystyrir a ddylid rhoi'r hawl i ddysgwyr ag AAA / ADY sydd wedi eu gwahardd yn barhaol apelio i'r Tribiwnlys Addysg, drwy eithriad.

3.78 Cafwyd awgrym tebyg gan Gyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru.

### Pwyntiau eraill

3.79 Gwnaeth Dr Sarah Nason ac Ann Sherlock y pwynt na ddylai diwygio'r paneli apeliadau gwaharddiadau ysgolion atal diwygio polisi'r system ehangach o waharddiadau o ysgolion, ac yn enwedig gwaharddiadau cyfnod penodol. Fe wnaethant egluro:

> Nid yw hyn yn rheswm dros wrthod symud cylch gwaith y panel apeliadau gwaharddiadau i TAAAC ond rydym yn tynnu sylw at y mater yn y gobaith na fydd diwygio un mater yn arwain at ymdeimlad o ddifaterwch ynghylch sut mae gweddill y broses wahardd yn gweithio.

3.80 Credai Keith Bush CF y dylai'r paneli aros o dan reolaeth awdurdodau lleol, ond cynigiodd y dylai swyddogaethau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Pwyllgor Rheolau Tribiwnlysoedd fod yn berthnasol iddynt. Rydym yn ystyried y cwestiynau hyn ymhellach ym Mhenodau 5 a 6.

3.81 Pwysleisiodd y Gwasanaeth Addysg Catholig bwysigrwydd ymgysylltu â rhieni drwy ddarparu canllawiau o ansawdd da i rieni ac i ysgolion.

> Rydym yn cefnogi hawliau rhieni, fel prif addysgwyr eu plant, i gefnogi eu plant ac i ofyn am adolygiad annibynnol o waharddiadau lle maent yn teimlo bod eu plentyn wedi cael ei drin yn anghyfreithlon neu'n annheg, ond mae'n bwysig nad yw ysgolion yn gorfod wynebu'r amser a'r gost o gymryd rhan mewn adolygiadau o'r fath lle nad oes gobaith realistig o lwyddo. Byddem yn cefnogi'n llawn unrhyw gynnig a fyddai'n galluogi rhieni ac ysgolion i ymgysylltu'n fwy effeithiol wrth wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylid cyflwyno apeliadau o'r fath ai peidio, ac os cyflwynir apeliadau, sut dylid ymateb iddynt. Bydd llwyddiant y cynnig hwn ac a yw'n arwain at wneud penderfyniadau mwy gwybodus ai peidio yn dibynnu i raddau helaeth ar y canllawiau a roddir i rieni ac ysgolion ynghylch y sail briodol ar gyfer y gwaharddiad ei hun ac wedyn ar herio'r penderfyniad hwnnw, a byddem yn fodlon iawn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddrafftio ac adolygu'r canllawiau hynny. Mae'n bwysig bod unrhyw gyfundrefn newydd yn cydnabod y rôl bwysig mae penaethiaid yn ei chwarae yn y gwaith o reoli disgyblaeth yn eu hysgolion ac yn cadw eu gallu i eithrio yn barhaol lle bo hynny'n briodol, yn gyfiawnadwy ac yn ddewis olaf ar ôl ystyried pob ateb arall...

### Trafodaeth

3.82 Ein man cychwyn wrth lunio ein cynnig dros dro oedd y dylai tribiwnlysoedd, yn ddelfrydol, fod yn strwythurol annibynnol ar y corff mae ei benderfyniadau'n cael eu herio. Mae hyn yn golygu na ddylai'r corff hwnnw ymgymryd â'u gwaith gweinyddol. Roedd yr egwyddor hon yn sail i Adroddiad Leggatt.

3.83 Er nad yw awdurdodau lleol yn penderfynu gwahardd myfyriwr (mae hynny'n digwydd yn gyntaf dan ofal y pennaeth, ac wedyn yn ddarostyngedig i adolygiad gan bwyllgor disgyblu a ffurfiwyd o blith llywodraethwyr yr ysgol), mae disgwyl iddynt gymryd rhan yn y broses serch hynny. Mae'r Canllawiau Gwahardd yn cynghori y dylai awdurdodau lleol anfon cynrychiolydd i bob cyfarfod o'r pwyllgor disgyblaeth os ydynt yn ystyried gwaharddiadau parhaol neu gyfnodau penodol hwy, lle gallant "wneud datganiad i'r pwyllgor disgyblu, er enghraifft, ynghylch sut mae ysgolion eraill yn yr ardal wedi delio â digwyddiadau tebyg ac i roi cyngor ar drefniadau amgen i'r dysgwr barhau â'i addysg os caiff y gwaharddiad ei gadarnhau."[55]

3.84 Roedd ymatebion awdurdodau lleol i'r cwestiwn hwn yn nodedig o ranedig, gyda mwyafrif bychan o blaid trosglwyddo paneli apêl gwahardd o ysgolion i ffwrdd oddi wrth awdurdodau lleol. Rydym yn nodi mai'r awdurdodau lleiaf (o ran poblogaeth) oedd yn tueddu i gefnogi'r cynnig dros dro, o'r ymatebion a gawsom. Yn anaml iawn mae'r awdurdodau hynny'n debygol o ddod ar draws achosion, ac felly maent yn ei

---

[55] Llywodraeth Cymru, *Canllawiau gwahardd*, paragraff 3.3.1. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gwahardd-o-ysgolion-ac-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf

chael yn fwy anodd cydymffurfio â’r terfynau amser tynn tra’n sicrhau bod aelodau’r panel wedi eu hyfforddi’n briodol a’u bod yn meddu ar y profiad iawn. Yn ein barn ni, mae hyn yn creu risg go iawn o gymryd camau anghyson gyda’r gwrandawiadau hyn ledled Cymru, a dim ond drwy ddefnyddio’r Canllawiau Gwahardd o Ysgolion y gellir lliniaru hyn yn rhannol.

3.85 Nid ydym wedi ein darbwyllo bod profiad lleol ar ran y panel yn rheswm digonol dros barhau i benderfynu ar yr apeliadau hyn ar lefel awdurdod lleol. Credwn ei bod yn arwyddocaol nad oes gofyniad statudol i aelodau paneli apeliadau gwaharddiadau fod â phrofiad lleol (yn wahanol i apêl derbyn i ysgolion). Bydd partïon mewn achos gerbron y tribiwnlys yn parhau i fod â phrofiad o amodau addysgol lleol, ac, i’r graddau mae hyn yn berthnasol, byddant yn gallu manteisio arno wrth gyflwyno sylwadau i’r panel.

3.86 Ar y llaw arall, dadleuodd sawl ymatebydd fod profiad o anghenion dysgu ychwanegol yn fantais. Mae’n ymddangos bod hyn wedi cael ei gydnabod yn Lloegr, lle mae gan rieni hawl mewn rhai amgylchiadau i fynnu bod awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth academi yn penodi arbenigwr anghenion addysgol arbennig i gynghori panel adolygu annibynnol.

3.87 Rydym yn cydnabod mai dim ond os bydd adnoddau priodol ar gael y gall y dybiaeth ynghylch awdurdodaeth paneli apeliadau gwaharddiadau ysgolion lwyddo. Mae’r angen i sicrhau sicrwydd i blant a phobl ifanc yn golygu bod y terfynau amser sy’n gysylltiedig â’r apeliadau hyn yn fyr, a hynny’n gwbl briodol. Bydd angen nifer digonol o aelodau tribiwnlysoedd a digon o adnoddau gweinyddol i sicrhau y gellir cwrdd â’r terfynau amser hynny. Ni ddylai hyn fod y tu hwnt i allu’r gwasanaeth tribiwnlys. Er enghraifft, rhaid i geisiadau a wneir o dan adran 2 Deddf Iechyd Meddwl 1983 gael eu rhestru yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru o fewn saith niwrnod i dderbyn y cais; cyrhaeddwyd y targed hwn ar gyfer bron pob cais a restrwyd yn 2019-2020.[56]

3.88 Sylwn hefyd ein bod ni, wrth wneud yr argymhelliad hwn, yn dilyn esiampl adroddiadau eraill ar dribiwnlysoedd a chyfiawnder gweinyddol. Argymhellodd Adroddiad Leggatt ei hun y dylid cynnwys paneli gwaharddiadau ysgolion yn y system dribiwnlysoedd unedig.[57] Roedd Adroddiad 2016 y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru (a drafodir ymhellach ym Mhennod 1 uchod) yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i archwilio rhinweddau ymestyn awdurdodaeth TAAAC i greu tribiwnlys cenedlaethol ar gyfer apeliadau derbyn a gwahardd ysgolion, ac yn fwyaf diweddar mynegodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru bryder bod y paneli apêl yn ‘gweithredu heb unrhyw fath o graffu barnwrol’.[58]

3.89 Credwn y bydd Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn darparu strwythur mwy priodol ar gyfer gwrando ar apeliadau gwaharddiadau ysgolion. Rydym felly’n

---

56 Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019 – 2020*, (Gorffennaf 2020), tudalen 12, Gweler https://tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/sites/mentalhealthreview/files/2020-08/taimc-adroddiad-blynyddol-2019-20.pdf

57 Syr Andrew Leggatt, *Tribunals for Users: One System, One Service: Report of the Review of Tribunals* (Mawrth 2001) argymhelliad 7 a pharagraff 3.15.

58 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru* (Hydref 2019) paragraff 6.47 Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf

argymell y dylid trosglwyddo eu hawdurdodaeth i Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Argymhelliad 5.**

3.90 Rydym yn argymell y dylid trosglwyddo apeliadau gwaharddiadau ysgolion i Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

## Paneli apêl derbyn i ysgolion

3.91 Yn ein Papur Ymgynghori roeddem wedi ystyried y ddadl dros gynnwys paneli apêl derbyn i ysgolion yn y system tribiwnlysoedd unedig. Mae'r paneli'n gwrando ar apeliadau gan rieni a phobl ifanc y gwrthodwyd lle iddynt yn yr ysgol o'u dewis ac, ar hyn o bryd, maent yn cael eu trefnu gan awdurdodau lleol. Gan fod yr awdurdodau lleol hyn yn y rhan fwyaf o achosion hefyd yn gwneud y penderfyniadau ynghylch dyrannu lleoedd mewn ysgolion, nid oes gan y system ddigon o annibyniaeth strwythurol, sy'n un o nodweddion allweddol y tribiwnlysoedd eraill.

3.92 Er gwaethaf hyn, roedd y Papur Ymgynghori yn cynnig dros dro y dylai paneli apeliadau derbyn i ysgolion aros y tu allan i system y tribiwnlysoedd. Roedd dau reswm dros y cynnig. Y cyntaf oedd bod swm a natur dymhorol y gwaith mewn perygl o lethu system ganolog, ac roedd yn haws ei gynnwys yng ngwaith awdurdodau lleol o ddydd i ddydd. Yr ail oedd bod y paneli'n dibynnu ar aelodau â phrofiad o'r system addysg leol, a fyddai'n anodd i'w hefelychu ar raddfa genedlaethol.

3.93 Roedd y cynnig yn rhannu'r 31 o ymatebwyr fel a ganlyn: roedd 18 yn cytuno, roedd 10 yn anghytuno, ac atebodd tri drwy nodi "arall".

### Safbwyntiau cefnogol

3.94 Roedd pump o'r chwe awdurdod lleol a gyflwynodd ymatebion i'n Papur Ymgynghori o blaid y cynnig hwn. Roedd nifer ohonynt yn cytuno bod swmp ac amseriad apeliadau, a'r angen am baneli â phrofiad lleol, yn awgrymu y dylid cadw'r system bresennol.

3.95 Er enghraifft, dadleuodd Cyngor Abertawe:

> Mae gennym nifer fawr o apêl derbyn yn dod drwodd ac rydym wedi datblygu paneli gwybodus da i ddelio â materion sy'n codi'n aml yn yr ardal leol. Byddai'r profiad a'r wybodaeth hon yn cael eu colli pe bai'r paneli'n cael eu cyfuno â TAAAC ac mae risg o oedi diangen a fyddai'n cael effaith negyddol yn y pen draw ar addysg y plentyn hwnnw.

3.96 Cytunodd Cyngor Dinas Caerdydd hefyd y dylai'r trefniadau presennol barhau. Yn ogystal â gwerth gwybodaeth leol, cyfeiriodd hefyd at gost isel y system bresennol, ac at fanteision ymarferol yr apeliadau sy'n cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol:

> Gwirfoddolwyr yw aelodau'r panel felly mae'r costau'n gyfyngedig. Mae mynediad i'r mannau lle mae'r apeliadau'n cael eu cynnal (cyn COVID-19) yn adeilad niwtral a chanolog. Mae cysylltu a chyfathrebu rhwng y tîm Derbyn, y rhieni a'r Clerc yn hanfodol er mwyn sicrhau bod apeliadau'n cael eu prosesu a'u trefnu'n ddidrafferth,

sy’n broses lyfn, ac mae adegau prysur o ran nifer yr apeliadau yn ystod cyfnodau’r prif rownd (yn fras, derbynnir oddeutu 300 o apeliadau rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf). A fyddai corff canolog yn gallu darparu adnoddau ac ymateb i ofynion o’r fath?

3.97 Mynegodd y Gwasanaeth Addysg Catholig hefyd gefnogaeth i’r system bresennol, gan ddweud bod y “prosesau cyfredol yn gweithio’n dda i rieni ac ysgolion” a’u bod yn darparu:

> cysondeb wrth wneud penderfyniadau, canlyniad amserol, a sicrwydd, cyn belled ag y bo modd, heb roi beichiau diangen ar rieni, ysgolion, cyrff llywodraethu, clercod nac aelodau’r panel.

3.98 Dadleuodd hefyd fod yr angen am baneli â gwybodaeth leol yn arbennig o bwysig i ysgolion Catholig:

> Gall y trefniadau derbyn amrywio o ysgol i ysgol ac, mewn gwirionedd, o ysgol Gatholig i ysgol Gatholig, ac mae'n bwysig bod aelodau o'r panel lleol yn cael eu defnyddio gan mai hwy sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu a yw trefniadau derbyn penodol wedi eu cymhwyso'n gywir ai peidio. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig mewn ysgolion Catholig lle mae’n bwysig bod aelodau’r panel yn deall trefniadau derbyn yng nghyd-destun ysgolion Catholig yn ogystal â’r cyd-destun addysg lleol.

3.99 Roedd eraill o blaid cynnal y trefniadau presennol am y tro, gyda golwg ar ddod â phaneli apêl derbyn i ysgolion o fewn y system ehangach yn y tymor hwy. Roedd Cymdeithas y Gyfraith, er enghraifft, yn ffafrio dull graddol. Dywedodd Huw Williams:

> Mae’r diffyg gwybodaeth am weithrediad apêl derbyn i ysgolion a’r angen am well dealltwriaeth o’r ffordd maent yn dod i’w penderfyniadau yn awgrymu y dylid cynnal astudiaeth fanylach cyn iddynt gael eu dwyn i mewn i system Tribiwnlysoedd Cymru. Mae’n bosibl y bydd angen diwygio’r system apêl derbyn cyn y gall hyn ddigwydd.

3.100 Roedd Cyfraith Gyhoeddus Cymru (a atebodd “arall”) hefyd yn dadlau y dylai diwygio ddigwydd yn ‘ofalus’, o ystyried y diffyg ystadegau cynhwysfawr ar weithgareddau paneli awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

### Safbwyntiau gwahanol

3.101 Roedd y rhai a oedd yn anghytuno â’r cynnig yn tueddu i fod o’r farn nad oedd y system bresennol yn rhoi digon o annibyniaeth strwythurol. Er enghraifft, dadleuodd Cyngor Sir Ddinbych:

> Er bod yr Awdurdod Lleol o’r farn eu bod yn gweithredu’n dda ar lefel leol, teimlir nad oes gwahanu pwerau na phroses gwneud penderfyniadau o safbwynt rhiant. Mae’r Awdurdod Lleol o’r farn y dylai’r paneli apêl derbyn fod yn rhan o’r Tribiwnlys gan nad oes rheswm dros beidio â chymryd y rhain ochr yn ochr â’r apeliadau gwahardd.

3.102 Yn wahanol i’r rhai a ddadleuodd fod y system bresennol yn darparu cyfiawnder cost-isel a chymesur, dadleuodd Cyngor Sir Ddinbych:

mae'n dod yn fwyfwy anodd i'r Awdurdod Lleol ddod o hyd i wirfoddolwyr sy'n fodlon eistedd fel aelodau o'r panel o ystyried eu bod yn gwneud hyn yn rhad ac am ddim. Yn yr amseroedd presennol, ac yn y dyfodol o bosibl, disgwylir i aelodau'r panel ddefnyddio eu technoleg eu hunain (gliniaduron, ipads, ffonau ac ati) i gynnal y gwrandawiadau o bell heb unrhyw ad-daliad.

3.103 Cawsom ddau ymateb gan aelodau'r panel a ddywedodd wrthym am eu hofn y gallai penderfynu yn erbyn yr awdurdod lleol beryglu eu lle ar y panel. Gwelodd y ddau ohonynt anhawster gyda phaneli'n gweithredu'n annibynnol pan ddarperid cyngor cyfreithiol gan staff o adran gyfreithiol yr awdurdod lleol.

3.104 Roedd eraill yn dadlau y byddai dod â phaneli apeliadau derbyn i ysgolion o fewn y system unedig yn dod â manteision gan gynnwys cysondeb a goruchwyliaeth farnwrol. Roedd ymateb Cylchdaith Cymru a Chaer (a ategwyd gan Gyngor y Bar) yn ffafrio dod ag apêl derbyn i siambr addysg ar y sail:

> Byddai'r symlrwydd, yr eglurder a'r tryloywder sy'n gysylltiedig â chynnwys yr holl dribiwnlysoedd datganoledig sy'n delio â materion addysgol o fewn Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru (a siambr addysgol ohono) yn ddeniadol.

3.105 Roedd yr ymateb yn awgrymu mai'r ateb i'r broblem logistaidd o weinyddu'r paneli oedd 'cynnal y system bresennol o gymorth gweinyddol ar gyfer y rhan honno o'r siambr addysgol'. Mewn perthynas â chyfansoddiad y paneli, dywedasant:

> Mae lleygwyr sydd wedi eu hyfforddi'n briodol yn chwarae rhan mewn sawl agwedd ar weinyddu cyfiawnder – rôl ynadon yn y llysoedd troseddol a'r Llys Teulu yw'r enghraifft amlycaf, o bosibl.

### Cytundeb amodol

3.106 Mynegodd nifer o ymatebwyr eu bod yn gymwys i gytuno â'r cynnig dros dro, gan awgrymu bod angen diwygiadau eraill o bosibl. Esboniodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei sefyllfa fel a ganlyn:

> Mae maint a natur dymhorol y penderfyniadau apêl hyn yn gofyn am benderfyniadau cyflym ac amserol ar lefel leol. Gan hynny, rwy'n cytuno na fyddai'r apeliadau hyn yn cyd-fynd yn dda â system TAAAC fel haen gyntaf o wneud penderfyniadau ynghylch apeliadau.
>
> Fodd bynnag, mae angen unffurfiaeth o ran dull gweithredu a thryloywder mewn prosesau apelio er mwyn i bawb sy'n cael eu derbyn i'r ysgol gynnal hyder yn y broses mewn perthynas â phenderfyniadau derbyn pob awdurdod lleol a'r rhai sy'n cael eu rhedeg yn annibynnol.

3.107 Credai Keith Bush CF hefyd y dylai'r paneli aros o dan ofal awdurdodau lleol, ond teimlai y dylai swyddogaethau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, y Pwyllgor Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd a Chyngor Cyfiawnder Gweinyddol wedi ei adfywio fod yn berthnasol iddynt.

### Apeliadau ychwanegol ar gyfer siambr addysg

3.108 Awgrymodd Cyngor Sir Ddinbych, a oedd o blaid cyfuno paneli derbyn o fewn tribiwnlys addysg, y gallai'r tribiwnlys wrando ar fath pellach o apêl addysg:

> Mae'r awdurdod lleol hefyd yn rheoli'r broses ar gyfer apeliadau cludiant i'r ysgol, sy'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n seiliedig ar Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Yng nghyd-destun y broses hon, mae'r awdurdod lleol yn awgrymu y gellid gwneud apeliadau o'r fath hefyd o dan weithdrefn tribiwnlys canolog. Gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn ystyried dewisiadau i ddiweddaru'r maes hwn o ddeddfwriaeth, mae'n bosibl y bydd modd cydlynu'r ddau faes gwaith hyn i sicrhau dull gweithredu cyfun ar gyfer apeliadau trafnidiaeth ysgol yn y dyfodol, sy'n cael ei adlewyrchu yn y ddeddfwriaeth newydd ddiweddaraf.

### Trafodaeth

3.109 Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai paneli apêl derbyn, am y tro o leiaf, barhau i fod yn gyfrifoldeb awdurdodau derbyn, yn hytrach na chael eu dwyn o fewn haen gyntaf system dribiwnlysoedd unedig.

3.110 Mae risg y gallai'r dull hwn arwain at ddiffyg cysondeb ar draws Cymru. I wneud iawn am hyn, ac i gyflwyno lefel o oruchwyliaeth farnwrol nad oes gan y system ar hyn o bryd, rydym yn argymell ym Mhennod 4 y dylid cyflwyno hawl i apelio ymhellach o'r paneli i'r hyn a fydd yn Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Ni fyddai hyn yn datrys problem annibyniaeth strwythurol yn llawn. Byddai'r awdurdod lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am benderfyniadau derbyn ac am ddewis y panel. Ond byddai'n darparu ar gyfer craffu annibynnol ar benderfyniadau paneli derbyn o leiaf.

**Argymhelliad 6.**

3.111 Rydym yn argymell y dylai paneli apeliadau derbyn i ysgolion yng Nghymru barhau i gael eu gweinyddu gan awdurdodau derbyn.

## PANELI GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU

3.112 Rydym eisoes wedi egluro ym mharagraffau 2.34 i 2.35 ym Mhennod 2, na ddylid cynnwys ein rhesymau dros argymell na ddylai paneli apêl a sefydlwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru gael eu cynnwys yn y strwythur tribiwnlysoedd unedig.


**Argymhelliad 7.**

3.113 Rydym yn argymell y dylai Gofal Cymdeithasol Cymru barhau i weinyddu paneli apêl gofal cymdeithasol.

## AD-DREFNU AWDURDODAETH O FEWN TRIBIWNLYS HAEN GYNTAF

3.114 Ar ôl cynnig dros dro creu Tribiwnlys Haen Gyntaf unedig i Gymru, symudodd ein Papur Ymgynghori ymlaen wedyn i ystyried pa siambrau y gellid eu creu o fewn y tribiwnlys hwnnw, a sut gellid dyrannu gwaith rhyngddynt. Fe wnaethom ddau gynnig dros dro. Roedd un yn ymwneud ag apeliadau gan arolygwyr cofrestredig mewn ysgolion ac addysg feithrin a'r llall yn ymwneud â chyfuno tribiwnlysoedd cyfansoddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn ffurfiol. Gofynasom hefyd dri chwestiwn agored yn ymwneud â chreu Siambr Reoleiddio Gyffredinol a'r posibilrwydd o gyfuno Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru neu unrhyw dribiwnlys arall. Dangoswyd y posibiliadau mewn diagram, ac fe'i hatgynhyrchir isod.

**Diagram 1**


Tribiwnlysoedd presennol
Siambrau cyfatebol yn ein system unedig arfaethedig
Posibiliadau pellach i ad-drefnu siambrau?
TTAC
Siambr Amaeth
Siambr Eiddo?
TEPC
Siambr Eiddo Preswyl
TPC
Siambr Brisio
PDC
Siambr Safonau Llywodraeth Leol
Siambr Rheoleiddio Cyffredinol?
TAIMC
Siambr Iechyd Meddwl
TAACY a TAACAF
TAAAC
Siambr Addysg
Paneli apelio gwaharddiadau ysgolion
TG
Siambr yr Iaith Gymraeg

3.115 Rydym yn trafod ymatebion ymgyngoreion ar y pynciau hyn cyn cyflwyno ein hargymhellion.

### Arolygwyr cofrestredig addysg ysgol a meithrinfeydd

3.116 Roedd Cwestiwn Ymgynghori 9 yn cynnig dros dro y dylai awdurdodaethau'r Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a Thribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig gael eu cyfuno â rhai Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (sydd bellach wedi ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru). Nid yw'r tribiwnlysoedd hyn wedi eu ffurfio yn y blynyddoedd diwethaf, ond gall aelodau'r Tribiwnlys Addysg wrando ar unrhyw achos.[59] Gan hynny, roedd yn ymddangos yn synhwyrol i'r awdurdodaeth gael ei chynnwys mewn siambr addysg. O'r 18 ymateb i'r cwestiwn hwn, dim ond un oedd yn anghytuno.

3.117 Roedd Cymdeithas y Gyfraith yn cefnogi'r cynnig dros dro, gan ddweud ei fod yn "gwbl rhesymol". Cytunodd Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer, gan ddadlau y dylid cynnwys pob tribiwnlys datganoledig sy'n delio â materion addysgol mewn siambr addysg.

3.118 Roedd yr ymgynghorai a fynegodd anghytundeb, Nadia Alabere (aelod annibynnol o'r panel apeliadau), yn anghytuno ar y sail bod gan y ddau dribiwnlys "agenda gwahanol". Nid ydym wedi ein darbwyllo bod lle gwell i leoli apeliadau'r arolygwyr, a chredwn y byddai'n ormodol creu siambr ar wahân i'w gwrando. Er ei bod yn wir bod awdurdodaethau'r Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a'r Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig yn wahanol i awdurdodaethau'r Tribiwnlys Addysg, maent i gyd yn ymwneud ag addysg.

3.119 O ystyried y gefnogaeth gref gan ymatebwyr ar gyfer yr uno hwn, rydym yn argymell isod y dylai awdurdodaethau'r Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a'r Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig gael eu cyfuno â Thribiwnlys Addysg Cymru i greu Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru. Oni phenderfynir nad oes angen yr awdurdodaeth dros apeliadau arolygwyr mwyach, credwn mai Siambr Addysg yw'r lle priodol ar ei chyfer.

### Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

3.120 Roedd ein Papur Ymgynghori yn egluro bod y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn cynnwys tribiwnlysoedd eiddo preswyl, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, a phwyllgorau asesu rhenti.[60] Er ei fod yn gweithredu at y rhan fwyaf o ddibenion fel un corff, mae'r rhaniad hwn yn golygu bod gan bob rhan o'r corff reolau gweithdrefnol gwahanol. Roedd Cwestiwn Ymgynghori 10 yn cynnig dros dro bod rhannau cyfansoddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn cael eu cyfuno'n ffurfiol mewn un siambr eiddo preswyl.

3.121 O'r 18 o ymatebwyr a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 17 yn cytuno, a dewisodd un ateb "arall". Dywedodd nifer o'r ymatebwyr mai ychydig o newid fyddai hyn, o gofio bod Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru eisoes yn gweithredu fel sefydliad ymbarél. Er

---

59 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol Cyntaf* (Mawrth 2019) tudalen 5.

60 Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2020) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith 251, paragraff 3.40.

enghraifft, dywedodd Richard Payne, Llywydd y Tribiwnlys, 'yn ymarferol, un siambr yw'r tair awdurdodaeth mewn gwirionedd', a bod holl aelodau'r Tribiwnlys yn eistedd ym mhob un o'r tair awdurdodaeth.

### Siambr Reoleiddio Gyffredinol?

3.122 Roedd Cwestiwn Ymgynghori 11 yn gofyn am farn ar:

(1) a ddylai Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gynnwys Siambr Reoleiddio Gyffredinol, ac os felly;

(2) pa dribiwnlysoedd presennol ddylai fod yn rhan o'r Siambr honno.

3.123 Nodwyd yn y Papur Ymgynghori bod cyfran sylweddol o lwybrau apêl newydd a grëwyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cael eu cyfeirio at Siambr Reoleiddio Gyffredinol y Tribiwnlys Haen Gyntaf, sy'n awgrymu y gallai fod galw yn y dyfodol. Fe wnaethom hefyd awgrymu y gallai siambr o'r fath fod yn gartref i dribiwnlysoedd llai, fel Panel Dyfarniadau Cymru.

3.124 Cawsom 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd deg ohonynt yn mynegi cefnogaeth, pedwar yn anghytuno a rhoddodd un ateb "arall".

#### Dadleuon ategol

3.125 Roedd ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r awgrym hwn yn tueddu i wneud hynny am y rhesymau a amlinellwyd yn y Papur Ymgynghori; yn bennaf gan y byddai'n darparu lle i leoli awdurdodaethau newydd, gan wneud mynediad i'r tribiwnlys yn fwy deniadol i wneuthurwyr polisi. Dywedodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard:

> Rydym yn cytuno y byddai'n ddoeth cynnwys darpariaeth ar gyfer Siambr Reoleiddio Gyffredinol a fyddai, yn y lle cyntaf, yn cynnwys Panel Dyfarnu Cymru. Nodwn argymhelliad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru y dylid '...defnyddio tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer datrys anghydfodau sy'n ymwneud â deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol' (Comisiwn Cyfiawnder, paragraff 6.59 ac argymhelliad 27). Gallai creu Siambr Reoleiddio Gyffredinol helpu i gyflawni'r amcan hwn lle mae llwybrau apêl newydd yn cael eu creu o dan gyfraith Cymru a allai fod wedi cael eu dyrannu yn lle hynny i Siambr Reoleiddio Gyffredinol Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Lloegr neu drwy rai mathau o ddatrys gan gynnwys penderfyniad "ad hoc".

3.126 Un thema a gododd dro ar ôl tro yn yr ymatebion oedd yr angen i sicrhau y gallai strwythur y tribiwnlysoedd ddarparu ar gyfer llwybrau apêl newydd. Dywedodd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio, er enghraifft:

> Credwn y byddai'n ddoeth cynnwys siambr reoleiddio gyffredinol o fewn Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru; byddai'n darparu llwybr apêl cychwynnol ar gyfer awdurdodaethau newydd tra bod asesiad o niferoedd yr apeliadau a'r arbenigedd barnwrol angenrheidiol yn cael eu cynnal.

3.127 Credai Cylchdaith Cymru a Chaer a Chyngor y Bar y byddai'r awgrym yn 'ddymunol', gan ychwanegu 'mae'n debygol y byddai llwybrau apêl newydd nad ydynt yn amlwg yn dod o fewn arbenigedd un o'r siambrau eraill yn perthyn i'r siambr hon'.

### Creu'r siambr pan fo angen

3.128 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn rhagweld yr angen am siambr o'r fath yn y dyfodol, ond roeddent yn meddwl ei bod yn rhy gynnar i'w chreu yn awr. Roedd y Panel o'r farn bod y syniad o gael tribiwnlys ar gyfer apeliadau newydd a grëwyd gan y Senedd yn rhesymegol mewn egwyddor, ond yn dadlau:

> ... pe bai meysydd newydd yn codi sydd â chysylltiad agos â gwaith tribiwnlys neu siambr arall e.e. materion eiddo, byddai'n gwneud mwy o synnwyr neilltuo'r gwaith hwnnw i'r siambr briodol. Gallai hyn olygu bod Siambr Reoleiddio Gyffredinol Cymru heb lawer o waith, neu ddim gwaith o gwbl, ac o gofio nifer yr achosion mae tribiwnlysoedd Cymru yn delio â nhw yn gyffredinol, gallai arwain at weld Siambr Reoleiddio Gyffredinol Cymru yn cael ei ystyried yn anatyniadol gan aelodau posibl oherwydd diffyg gwaith, diffyg cysylltiad cydlynol rhwng y gwaith, a dryswch gyda Siambr Reoleiddio Gyffredinol Cymru a Lloegr ar hyn o bryd. Os gellir creu siambrau drwy is-ddeddfwriaeth, ac os bydd angen creu siambr o'r fath wedyn, gellir gwneud hynny'n ddiweddarach at ddiben penodol.

3.129 Credai Syr Wyn Williams hefyd nad oedd angen y siambr ar hyn o bryd, ond y gellid ei rhoi ar waith yn ddiweddarach os bydd angen.

> Os yw'n cael ei greu i ddarparu ar gyfer rhai apeliadau, byddai'n well gennyf petai Tribiwnlys Apêl i Gymru yn cael ei greu, sydd ag awdurdodaeth i ddelio â phob apêl sy'n deillio o dribiwnlysoedd datganoledig. Os mai ei brif bwrpas yw bod modd lleoli'r tribiwnlysoedd bach iawn (o ran nifer yr achosion) mewn un Siambr, nid wyf o'r farn bod hynny'n angenrheidiol, ac os yw ei greu'n seiliedig ar yr angen am "Siambr i bob pwrpas" i ddelio â meysydd gwaith y dyfodol a'r rhai nad ydynt yn hysbys hyd yn hyn, nid wyf o'r farn ei bod yn debygol y bydd digon o Siambrau ar gael i ddyrannu gwaith o'r fath yn briodol ar gyfer y dyfodol rhagweladwy.

### Ymgorffori'r Panel Dyfarnu a Thribiwnlys Prisio Cymru mewn Siambr Reoleiddio Gyffredinol

3.130 Fel y nodwyd uchod, roedd Cwestiwn Ymgynghori 11 yn gofyn pa siambrau allai fod yn rhan o Siambr Reoleiddio Gyffredinol ar gyfer Cymru. Fe wnaethom awgrymu y gallai'r siambr gynnwys Panel Dyfarnu Cymru, ac o bosibl yr elfennau o waith y Tribiwnlys Prisio sy'n cynnwys asesu atebolrwydd i dreth (yn hytrach na phrisio). Roedd pum ymatebydd yn ystyried yn benodol a allai Panel Dyfarnu Cymru fod yn rhan o Siambr Reoleiddio Gyffredinol. Fe wnaeth Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio y pwynt cyffredinol:

> Gallai unrhyw dribiwnlys presennol sydd â chyfraddau apelio isel iawn, nad ydynt yn addas iawn i'r awdurdodaethau o fewn strwythur arfaethedig y siambr, hefyd fod yn rhan o siambr reoleiddio gyffredinol.

3.131 Roedd Cylchdaith Cymru a Chaer a Chyngor y Bar hefyd yn gefnogol at ei gilydd, gan nodi:

> yn amlwg nid oes gan y Panel Dyfarnu unrhyw siambr arall y gallai fod yn rhan ohoni. Mae ei awdurdodaeth o dan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (fel y mae'n dal i fod yn berthnasol yng Nghymru) yn gwbl wahanol i waith unrhyw un o'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill.

3.132 Credai Richard Payne hefyd fod Panel Dyfarnu Cymru yn ymgeisydd “amlwg” i’w gynnwys mewn Siambr Reoleiddio Gyffredinol. Fodd bynnag, mynegodd Panel Dyfarnu Cymru amheuon yn ei ymateb. Eglurodd:

> Mae aelodau’r Panel wedi mynegi pryder gwirioneddol ynghylch gofyn iddynt ddelio â gwaith sydd heb gysylltiad o gwbl â’i waith presennol, ac maent wedi awgrymu y byddai’n gwneud i aelodaeth barhaus o’r Panel Cyflogau Amaethyddol fod yn llai deniadol. Mae gan yr aelodau arbenigedd a diddordeb gwirioneddol mewn safonau. Nid yw’r Panel Dyfarnu yn glir ychwaith pam mae diagram 1 yn yr adroddiad yn awgrymu y gellid uno’r Tribiwnlys Prisio ag ef i ffurfio’r Siambr Reoleiddio Gyffredinol yng Nghymru; nid oes cysylltiad o gwbl rhwng ein gwaith.
>
> Cynigiwyd y dylai'r Panel Dyfarnu fod yn rhan o Siambr Reoleiddio Gyffredinol Cymru. Mae’r Panel Dyfarnu yn nodi bod ei waith yn gylchol ac mae’r rhifau a ddyfynnir gan Gomisiwn y Gyfraith yn cynrychioli’r rhannau lleiaf prysur o’n cylch gwrandawiadau – mae’r gwaith presennol gerbron y Panel Dyfarnu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon yn uwch na'r hyn mae’r Comisiwn wedi ei nodi. Yn ogystal, nid yw’n eglur pam y bwriedir i Dribiwnlys y Gymraeg aros fel endid ar wahân, o ystyried ei lwyth gwaith a nifer y gwrandawiadau, tra bo bwriad i uno’r Panel Dyfarnu o fewn Siambr Reoleiddio Gyffredinol Cymru.
>
> Mae ein cyflwyniad uchod yn mynegi pryderon yr aelodau os bydd angen delio â materion nad ydynt yn gysylltiedig â’i waith. Yn ogystal, mae’n rhaid i’r Panel Dyfarnu ymdrin â gwleidyddion, y wasg a’r cyhoedd ac mae’n poeni y bydd dod yn is-siambr o fewn siambr arall yn lleihau ei statws yn y system Tribiwnlysoedd ac yn allanol – mae’n rhaid i’w aelodau orfodi’r Cod Ymddygiad mewn amgylchiadau cynhennus yn aml yn llygad y cyhoedd. Mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi datgan yn gyhoeddus bod aelodau'r Panel Dyfarnu yn ddeiliaid swyddi barnwrol sy’n haeddu cael eu parchu.
>
> Mae’r Panel Dyfarnu wedi nodi bod Comisiwn y Gyfraith yn cynnig newid enw i “Siambr Safonau Llywodraeth Leol”. Mae’r Panel yn pryderu bod yr enw arfaethedig hwn yn anwybyddu ei rôl o ran cynnal safonau cyrff rhanbarthol fel Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, ac y byddai’n gwneud natur ei waith yn fwy didrugaredd i’r cyhoedd. Mae’n bosibl y byddai “Siambr Llywodraethiant Lleol” yn adlewyrchu gwaith presennol y Panel Dyfarnu yn well.

3.133 Roger Handy oedd yr unig ymatebydd a roddodd sylw penodol i'r posibilrwydd o ymgorffori elfennau o awdurdodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru. Ni pherswadiwyd ef gan ein hawgrym, gan esbonio:

> Gallaf weld y fantais o gael Siambr Reoleiddio Gyffredinol, yn enwedig gan y byddai hyn yn helpu i wneud y strwythur yn fwy “addas i’r dyfodol”. Fodd bynnag, nid ydw i’n gweld fawr o fudd o rannu’r awdurdodaeth bresennol Tribiwnlys Prisio Cymru rhwng dwy siambr wahanol, oherwydd ni allaf weld llawer o synergedd rhwng swyddogaeth y Panel Dyfarnu ac awdurdodau bilio / penderfyniadau ardrethu annomestig awdurdodau’r cyngor/trethi’r dreth gyngor.

### Awgrymiadau eraill

3.134 Cynigiodd rhai ymatebwyr awgrymiadau ar gyfer mathau eraill o apeliadau y gallai Siambr Reoleiddio Gyffredinol wrando arnynt, neu siambr debyg. Er enghraifft, cyflwynodd Panel Dyfarnu Cymru y posibilrwydd o greu siambr safonau rheoleiddio, yn enwedig os datganolir cyfiawnder a phlismona yn y pen draw. Nododd ei ymateb:

> Mae llawer o debygrwydd yn y gyfraith a'r dull gweithredu rhwng y tribiwnlysoedd rheoleiddio presennol sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, ac mae llawer o aelodau'r Panel yn eistedd mewn tribiwnlysoedd o'r fath. Byddai angen cytuno ar gynnig o'r fath gyda llywodraeth San Steffan a chyrff rheoleiddio proffesiynol, ond gallai arwain at wrandawiadau camymddwyn yr heddlu, gwrandawiadau safonau llywodraeth leol, gwrandawiadau ynghylch ymddygiad gweithwyr proffesiynol fel gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, ac ati, yn cael eu trin mewn un lle. Byddai maint y gwaith y byddai siambr o'r fath yn delio ag ef yn sylweddol ac yn fwy na digon i gyfiawnhau statws siambr unigol. Pe teimlid y dylid allanoli'r trefniadau safonol presennol yn Senedd Cymru, gallai'r trefniant hwn fod yn bosibl.

3.135 Cafwyd awgrym tebyg gan Richard Payne, a oedd o'r farn y gallai paneli Gofal Cymdeithasol Cymru a phaneli apeliadau fferyllol ffitio yn y Siambr Reoleiddio Gyffredinol newydd. Rydym yn trafod sefyllfa paneli Gofal Cymdeithasol Cymru yn fanylach ym Mhennod 2.

3.136 Cynigiodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard hefyd y posibilrwydd o gynnwys hawl newydd i apelio yn erbyn penderfyniadau sy'n ymwneud â Chronfa Cymorth Dewisol Cymru (a drafodir ym mharagraffau 2.79 a 2.80 ein Papur Ymgynghori). Roeddent yn meddwl y gallai 'adolygiadau cyfreithiol ad hoc' eraill gael eu cynnwys yn y siambr.

3.137 Cymerodd Huw Williams agwedd wahanol, gan awgrymu yn lle hynny y gallai Tribiwnlys Apêl Cymru ymgymryd â gwaith Panel Dyfarnu Cymru (ochr yn ochr â gwaith Tribiwnlys y Gymraeg). Mae ei safbwyntiau ar y pynciau hynny'n cael eu hystyried yn fanylach ym Mhennod 4 isod.

### Trafodaeth

3.138 Denodd y cynnig dros dro hwn nifer o syniadau gwahanol. Fodd bynnag, mae llawer ohonynt yn dibynnu ar gyfeirio gwaith ychwanegol at dribiwnlysoedd yng Nghymru. Mae'r gwaith ychwanegol hwn ar wahanol gamau o ddatblygu polisi, ac felly mae'n anodd ei ragweld. Gallai gwmpasu awdurdodaethau tribiwnlys ychwanegol mewn meysydd mor amrywiol â thai, taliadau gwledig, trethi a'r amgylchedd. Gallai awdurdodaethau newydd yn unrhyw un o'r meysydd hyn newid cydbwysedd y gwaith ar draws siambrau, ac o bosibl newid natur y siambrau eu hunain. Gan hynny, y dull gweithredu rydym wedi penderfynu ei ddilyn yw gwneud argymhellion sy'n addas i waith y tribiwnlysoedd sydd eisoes yn bodoli. Heb os, dylem argymell system sy'n gallu datblygu gydag anghenion ei defnyddwyr, ond byddai'n ffôl ceisio rhagweld ar hyn o bryd beth yn union fyddai anghenion ei defnyddwyr yn y dyfodol.

3.139 Am y rheswm hwn, rydym wedi penderfynu peidio ag argymell creu Siambr Reoleiddio Gyffredinol. Ar hyn o bryd, yr unig dribiwnlys y byddai ei waith yn cael ei ymgorffori gan y Siambr honno fyddai Panel Dyfarnu Cymru. Heb wybod pa awdurdodaethau

eraill y gellid eu hymgorffori yn y Siambr yn y dyfodol, mae'n anodd gwybod a fyddai'r rhain yn ddigon tebyg i'r Panel Dyfarnu i gyfiawnhau eu gosod yn yr un siambr.

3.140 Rydym yn dal o'r farn bod Siambr Reoleiddio Gyffredinol yn debygol o fod yn rhan ddefnyddiol o strwythur tribiwnlysoedd datganoledig ehangach yn y dyfodol. At ei gilydd, fodd bynnag, rydym yn cytuno â'r ymatebwyr hynny a oedd o'r farn y dylid ei greu pan oedd angen clir a chyfredol amdano. Rydym felly'n argymell isod y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r angen am Siambr Reoleiddio Gyffredinol.

### Siambr eiddo

3.141 Ail gyfuniad posibl y gofynasom am farn arno oedd ar y syniad o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn ffurfio siambr eiddo. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i Gwestiwn Ymgynghori 12 (11 o ymatebwyr) yn cytuno â'r cynnig hwn (gan gynnwys Llywydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Christopher McNall), tra roedd dau yn anghytuno a dau wedi dewis ateb "arall".

3.142 Cefnogodd Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor y Bar yr awgrym, gyda Chymdeithas y Gyfraith yn galw'r cynnig yn 'resymegol', a Chyngor y Bar yn egluro:

> Credwn y byddai un siambr yn delio â'r holl waith eiddo yn ddymunol. Mae'n ymddangos i ni mai'r dull hwnnw sy'n cynnig y potensial mwyaf ar gyfer arbedion maint, cydlyniaeth a chynnydd ym mhroffil y cyhoedd. Credwn ei bod yn debygol y bydd yr arbenigedd cyfreithiol sydd ei angen ar draws gwaith y tribiwnlysoedd eiddo presennol yn debygol o fod yn gyffredin. Mae'n bosibl na fydd arbenigedd lleyg arbenigol ond nid ydym yn credu bod hynny'n rheswm dros beidio â chyfuno'r tribiwnlysoedd o fewn un siambr eiddo.

3.143 Roedd Bob Chapman, cyn aelod o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru a Phwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, hefyd o blaid cyfuno, ar y sail bod symleiddio'r strwythur cyffredinol gymaint â phosibl yn beth da. Cytunodd Huw Williams hefyd, gan amodi ei ateb drwy ddweud:

> bydd angen rhoi sylw i recriwtio aelodau sydd â'r cymwysterau priodol mewn cyfraith amaethyddol ac arolygu er mwyn cynnal cymeriad arbenigol y siambr mewn anghydfodau amaethyddol.

3.144 Rhoddodd dau ymgynghorai ystyriaeth i gwestiwn ehangach ar gyfer cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru: ymhle dylai apeliadau tai a digartrefedd fod? Cytunodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard y dylid cyfuno'r tribiwnlysoedd mewn Siambr Eiddo (ar yr amod nad oedd y naill na'r llall wedi colli ei hunaniaeth benodol, ei ffocws ar y defnyddiwr a'i gryfderau yn y prosesau hynny), ond gan ystyried hefyd:

> bod achos dros Siambr Eiddo ehangach bosibl yn y dyfodol a allai gynnwys awdurdodaeth dros rai apeliadau tai a digartrefedd yng Nghymru sydd wedi eu datganoli (a bennir ar hyn o bryd gan y Llysoedd Sirol yng Nghymru). Fodd bynnag,

mae'r estyniad pellach hwn yn destun dadlau sylweddol, ac rydym wedi cyfrannu at hynny yn ein hadroddiad.[61]

3.145 Bu Richard Payne hefyd yn ystyried lle apeliadau tai fel rhan o ystyriaeth ehangach o ddatblygiad gwaith Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn y dyfodol. Yn ei farn ef, y trefniant gorau fyddai cyfnerthu gwaith Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru gydag apeliadau tai, tra'n gadael Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru i ganolbwyntio ar waith amaethyddol:

> Er, pe bai'r ddau gorff [Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru] yn yr un siambr, byddent yn cadw eu cymeriad a'u harbenigedd unigol, a chredaf ar y cyfan ei bod yn well gennyf pe bai Siambr Amaethyddiaeth a Materion Gwledig neu enw o'r fath yn cael ei ystyried yn lle hynny. Yn gyffredinol, pwysleisiodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru y dyhead a'r targed i geisio cadw gwaith/anghydfod cyfreithiol sy'n deillio o Gymru yng Nghymru, a byddai strwythur y siambr yn galluogi hyn i ddigwydd ac i lwybrau newydd ar gyfer apeliadau neu ddatrys anghydfodau gael eu creu o fewn strwythur o'r fath. Mae'n ymddangos, o leiaf, ei bod yn debygol y bydd datblygiadau yng Nghymru yn y dyfodol (yn gysylltiedig â rheoli tir gwledig a rhwymedigaethau newid yn yr hinsawdd ac ati) a fydd yn ymgartrefu'n haws mewn siambr amaethyddol. Yn ogystal, fel y nodwyd ym mharagraff 3.136 yn y [Papur Ymgynghori], yn yr Alban ceir Siambr Tai ac Eiddo – ymddengys fod hyn yn gwneud mwy o synnwyr a gellid delio ag unrhyw achos newydd o weithredu yn y dyfodol yno, yn enwedig os daw'r nodau hirsefydlog ar gyfer tribiwnlys Tai a throsglwyddo pwerau sy'n ymwneud â materion tai i dribiwnlysoedd Cymru.

3.146 Soniodd hefyd am y gwahaniaethau rhwng gwaith y tribiwnlysoedd, gan nodi:

> Ar sail fwy ymarferol, awgrymaf nad oes gan y materion mae'r Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn ymdrin â nhw fawr ddim (os unrhyw beth o gwbl) yn gyffredin â gwaith y Tribiwnlys Eiddo Preswyl/Tribiwnlys Prisio Tir sy'n ymwneud ag eiddo preswyl. Mae'r materion draenio yr ymdrinnir â nhw gan y Tribiwnlys Tir Amaethyddol yn gofyn am arbenigedd a gwybodaeth cwbl wahanol i rai'r syrfewyr arbenigol sy'n aelodau o'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl sy'n arbenigo mewn eiddo preswyl. Ar hyn o bryd (ac eithrio cyfreithwyr), nid oes - ac nid wyf yn rhagweld y bydd - unrhyw orgyffwrdd mawr o ran arbenigedd rhwng aelodau arbenigol y ddau dribiwnlys. I gloi, felly, credaf y dylid cael Siambr Eiddo a Siambr Amaethyddol.

### Trafodaeth

3.147 Mae'r cwestiwn p'un a ddylid uno Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn un Siambr Eiddo ai peidio wedi bod yn un anodd. Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ei gefnogi, mae arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd dan sylw wedi anghytuno ynghylch a fyddai cyfuno'n gweithio i'w tribiwnlysoedd.

3.148 Gallwn weld y gallai fod dadl yn y dyfodol dros gyfuno gwaith eiddo preswyl gyda hawliadau tai, yn enwedig os yw gwaith Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn cael ei

[61] S Nason, A Sherlock, H Taylor a H Pritchard, *Public Administration and Justice in Wales: Social Housing and Homelessness* (Nuffield Foundation) (2020) a S Nason a H Taylor, "Housing and Justice in Wales" (2020) 23(5) *Journal of Housing Law* 97-103.

hybu gan lwybrau apêl amaethyddol ac amgylcheddol newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n glir pryd neu a allai'r meysydd gwaith newydd hyn gael eu hychwanegu at system y tribiwnlys. Rydym felly'n mabwysiadu'r un dull gweithredu a amlinellwyd uchod ym mharagraffau 3.138 i 3.140. O ystyried awdurdodaethau presennol y tribiwnlysoedd, rydym yn dal o'r farn y byddai cyfuno Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn synhwyrol.

3.149 Mae'n wir bod arbenigedd arbenigol ym mhob tribiwnlys nad yw'n berthnasol i'r llall o bosibl. Mae aelodau panel draenio Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn enghraifft dda; ystyrir bod hynny'n waith mor arbenigol fel bod aelodau'n cael eu recriwtio ar wahân, hyd yn oed o fewn Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, a byddem yn disgwyl i hynny barhau. Ond mae aelodau cyfreithiol sydd â phrofiad o waith y ddau dribiwnlys. Ac er bod rhywfaint o'r gwaith yn wahanol, mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn gwrando ar anghydfodau rhwng landlordiaid a thenantiaid.

3.150 Bydd gan y grŵp hwn o waith y fantais y gallai fod yn gyfarwydd i ymarferwyr cyfreithiol, sy'n gyfarwydd â strwythur y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

### Awgrymiadau eraill

3.151 Roedd Cwestiwn Ymgynghori 13 yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cyfuno unrhyw un o'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill yn un siambr. Dim ond dau awgrym a gawsom ar gyfer cynlluniau uno eraill.

Cododd Cymdeithas y Gyfraith y cwestiwn ynghylch:

> a ddylid cyfuno Tribiwnlys Prisio Cymru gyda Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru mewn siambr eiddo. Gallai astudiaeth ddichonoldeb benderfynu sut byddai siambr gynhwysfawr o'r fath yn gweithio'n ymarferol, gan gynnwys ei phroffil staffio tebygol a'r baich achosion disgwyliedig. Nodwn fod Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru eisoes yn rhannu rhywfaint o adnoddau staffio.

3.152 Roedd Huw Williams o'r farn y dylai'r Tribiwnlys Haen Gyntaf gynnwys tair siambr i ddechrau: Siambr Eiddo (ac eithrio'r Tribiwnlys Prisio), Siambr Addysg (ac eithrio apêl derbyn i ysgolion) a Siambr Iechyd Meddwl. Fel y crybwyllwyd uchod, credai hefyd y gallai siambr drethu gynnwys prisiadau trethi a threth gyngor (y mae'r Tribiwnlys Prisio yn delio â nhw ar hyn o bryd), ynghyd ag apeliadau treth tirlenwi a threth trafodiadau tir yng Nghymru, petai'n llunio system o'r egwyddorion cyntaf.

3.153 Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio'r rhain yn y dyfodol. Yn ein barn ni, y pwynt sylfaenol yw y dylai'r Tribiwnlys Prisio gael ei gynnwys yn y system tribiwnlysoedd datganoledig, am y rhesymau a nodir uchod ym mharagraffau 3.45 i 3.53. Bydd hynny'n hwyluso unrhyw newid yn y dyfodol o ran grwpio awdurdodaethau.

**Argymhelliad 8.**

3.154 Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer i greu siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru er mwyn ffurfio Siambr Addysg i arfer awdurdodaeth Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig, Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig a Thribiwnlys Addysg Cymru.

**Argymhelliad 9.**

3.155 Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer i greu siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru er mwyn ffurfio Siambr Eiddo Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru i arfer awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.


**Argymhelliad 10.**

3.156 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu trefniadaeth siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, gan gynnwys y posibilrwydd o greu Siambr Reoleiddio Gyffredinol, wrth i awdurdodaethau tribiwnlysoedd newydd gael eu creu.

## Ein strwythur arfaethedig

3.157 Mae'r diagram dros y ddalen yn dangos y strwythur rydym yn ei argymell ar gyfer Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru.

**Diagram 2**


Tribiwnlysoedd presennol
Siambrau cyfatebol yn Nhribiwnlys Haen-gyntaf Cymru
TTAC
TEPC
PDC
TAIMC
TAACY a TAACAF
Tribiwnlys Addysg Cymru (TAAAC gynt)
Paneli apelio gwaharddiadau ysgolion
TPC
TG
Eiddo
Safonau Llywodraethu Lleol
Iechyd meddwl
Addysg
Prisio
Yr iaith Gymraeg

# Pennod 4: Apeliadau

4.1 Ym Mhennod 3, rydym yn argymell y dylid creu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru. Yn y Bennod hon rydym yn mynd i'r afael ag apeliadau o'r tribiwnlys hwnnw, yn ogystal â'r cwestiwn ynghylch apeliadau o baneli apeliadau derbyn i ysgolion.

4.2 Fel y nodir yn ein Papur Ymgynghori, nid yw'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer apeliadau o'r tribiwnlysoedd datganoledig yn unffurf ar hyn o bryd. Cyfeirir y rhan fwyaf at yr Uwch Dribiwnlys a grëwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, a olyga bod achosion yn y cam apeliadol yn cael eu gwrando ochr yn ochr ag apeliadau o dribiwnlysoedd cyfatebol yn Lloegr. I'r gwrthwyneb, mae apeliadau gan Banel Dyfarnu Cymru a Thribiwnlys y Gymraeg yn cael eu gwrando gan yr Uchel Lys. Mae apeliadau o Dribiwnlys Prisio Cymru yn mynd i'r Uchel Lys neu'r Uwch Dribiwnlys, gan ddibynnu ydynt yn ymwneud â'r dreth gyngor ynteu ardrethu annomestig. Ar gyfer paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion, nid oes modd apelio fel y cyfryw.

4.3 Roedd ein Papur Ymgynghori yn cynnwys un cynnig dros dro yn ymwneud â chaniatâd ar gyfer apeliadau gan bwyllgorau asesu rhenti (un o gyrff cyfansoddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru)[62] a chwe chwestiwn agored yn ceisio barn. Yn gyntaf, gofynasom a ddylai'r llwybrau apelio sy'n amrywio gael eu gwneud yn unffurf, gan greu un ffordd o apelio yn erbyn penderfyniadau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Yn ail, gofynnwyd pa gorff apêl fyddai'n addas; yr Uchel Lys, yr Uwch Dribiwnlys, neu Dribiwnlys Apêl newydd i Gymru. Gofynnwyd hefyd a ddylid cael llwybr apêl "diofyn" yn hytrach na llwybr apêl unffurf.[63]

4.4 Roeddem wedi trin paneli apêl derbyn i ysgolion ar wahân, gan ofyn a ddylid creu llwybr apêl newydd o'r paneli hynny i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC") (Tribiwnlys Addysg Cymru erbyn hyn; rydym wedi cadw cyfeiriadau at TAAAC yn y Bennod hon wrth ddyfynnu ymatebwyr). Gofynnwyd a ddylid cyfyngu apeliadau ymlaen o benderfyniadau o'r fath i bwyntiau pwysig o egwyddor neu ymarfer.[64] Yn olaf, gofynnwyd a ddylid cael un llwybr apêl gan y Tribiwnlys Prisio ac, os felly, beth ddylai fod.[65]

4.5 Rydym yn dechrau'r Bennod hon gyda chrynodeb o'r sefyllfa ar hyn o bryd, cyn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad, ac yna trafod ein casgliadau. Rydym yn delio yn gyntaf ag apeliadau o'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 a Thribiwnlys Prisio Cymru, ac yn ail gydag apeliadau o baneli apeliadau derbyn i ysgolion.

---

62 Y dylai apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti fod yn amodol ar ganiatâd i apelio, yn yr un modd ag apeliadau gan gyrff eraill sy'n rhan o'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl: Cwestiwn ymgynghori 20:

63 Cwestiynau ymgynghori 14 i 16.

64 Cwestiynau ymgynghori 17 a 18.

65 Cwestiwn ymgynghori 19.

## Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

4.6 Isod, rydym yn atgynhyrchu tablau o'r Papur Ymgynghori sy'n nodi ble mae'r apeliadau ar hyn o bryd, a nifer yr apeliadau a glywir bob blwyddyn (wedi eu diweddaru i adlewyrchu data o'r flwyddyn 2020-2021).

| Tribiwnlys[66] | Corff apeliadol | Natur yr apêl |
|---|---|---|
| TTAC | Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) | Pwynt cyfreithiol |
| PDC | Apeliadau yn erbyn penderfyniad tribiwnlys achos interim neu dribiwnlys achos: Uchel Lys. Dim hawl i apelio yn erbyn penderfyniad tribiwnlys apêl (mae adolygiad barnwrol ar gael). | Gellir dwyn apeliadau yn erbyn unrhyw ataliad, neu hyd yr ataliad (heb ei gyfyngu i bwynt cyfreithiol). |
| TAIMC | Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol). | Pwynt cyfreithiol. |
| TEPC | Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd). | Apêl gan bwyllgor asesu rhenti wedi ei gyfyngu i apêl ar bwynt cyfreithiol. Apêl gan dribiwnlys eiddo preswyl neu dribiwnlys prisio lesddaliad heb ei gyfyngu i'r fath raddau.[67] |
| TAACAF a TAACY | Dim (mae adolygiad barnwrol ar gael; gall y tribiwnlys hefyd adolygu ei benderfyniad ei hun). | - |
| Paneli apêl derbyn i ysgolion | Dim (adolygiad barnwrol ar gael; gall ymgeiswyr hefyd gwyno wrth Weinidogion Cymru neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru). | - |
| ETW (a elwid gynt yn TAAAC) | Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol). | Pwynt cyfreithiol. |
| TPC | Apeliadau treth gyngor: Uchel Lys.<br>Apeliadau ardrethu annomestig: Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd). | Pwynt cyfreithiol.<br><br>Ffaith a'r gyfraith. |
| TG | Uchel Lys. | Pwynt cyfreithiol. |

66 Dyma'r byrfoddau a ddefnyddir yn y tabl a'r tabl uchod: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC"), Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"), Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIMC"), Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("TEPC"), Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a Thribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig ("TAACY" a "TAACAF"), Tribiwnlys Addysg Cymru ("TAC"), Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC") a Thribiwnlys y Gymraeg ("TG").

67 Mae Cyfarwyddiadau Ymarfer yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) 2010 paragraff 4.2 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr ofyn caniatâd i apelio nodi a yw eu rhesymau dros wneud y cais yn dod o fewn un o

4.7 Mae'r nifer o geisiadau am ganiatâd i apelio a wnaed i'r Tribiwnlysoedd Adran 59, a chanlyniad y ceisiadau hynny wedi eu gosod yn y tabl isod.[68]

| Tribiwnlys | 2020/2021 | 2019/2020 | 2018/2019 |
|---|---|---|---|
| TTAC | - | 2 (gwrthodwyd) | 1 (gwrthodwyd) |
| PDC | - | - | - |
| TAIMC | 6 (caniatâd i 3) | 6 (caniatâd i 1) | 4 (caniatâd i 2) |
| TEPC | 3 (gwrthodwyd) | 13 (gwrthodwyd) | 9 (gwrthodwyd) |
| TAACAF a TAACY | - | - | - |
| TAAAC | 11 (caniatâd i 2, gwrthodwyd 9) | 8 (gwrthodwyd) | 2 (gwrthodwyd) |
| TPC | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| TG | - | - | - |

4.8 Mae TPC wedi ei hepgor o'r tabl, gan nad ydyw'n dribiwnlys adran 59. Nifer fechan o apeliadau a gafwyd gan TPC hefyd. Yn 2018/2019 dim ond un apêl a wnaethpwyd; i'r Uchel Lys. Yn y flwyddyn 2019/2020 cafwyd dwy apêl statudol ac un cais am ganiatâd am adolygiad barnwrol, a gafodd ei wrthod. Cafwyd un apêl cyfraddiad i'r Uwch Dribiwnlys.

4.9 Mae'r tabl uchod yn dangos mai dim ond wyth gwaith y rhoddwyd ganiatâd i apelio i'r Uwch Dribiwnlys ("UD") gan y tribiwnlysoedd adran 59 dros y dair blynedd diwethaf, a'r cwbl o'r rheini yn hanu o Dribiwnlys Addysg Cymru ("TAC") neu Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIMC"). Nid ydym wedi gallu sefydlu yn ddibynadwy sawl cais am ganiatâd a wnaed yn uniongyrchol i'r UD na faint o apeliadau a glywir ganddo chwaith. Mae adroddiad ddiweddaraf Llywydd Siambr Apeliadau Gweinyddol yr UD ("SAGUD"), sydd yn gwrando apeliadau gan TAIMC a TAC, yn nodi bod

apeliadau i SAGUD o'r tribiwnlysoedd datganoledig o fewn ei awdurdodaeth yn brin. Mae'r rhan helaeth o wrandawiadau yng Nghymru yn ymwneud â heriau yn erbyn

bedwar categori: (a) bod y tribiwnlys prisio lesddaliadau neu'r tribiwnlys eiddo preswyl wedi dehongli neu gymhwyso'r gyfraith berthnasol yn anghywir; (b) ei fod wedi defnyddio, camddehongli neu ddiystyru'n anghywir egwyddor berthnasol o brisio neu arfer proffesiynol arall; (c) ei fod wedi ystyried ystyriaethau amherthnasol, wedi methu ag ystyried ystyriaeth berthnasol neu dystiolaeth, neu fod nam trefniadol sylweddol; neu (d) bod y pwynt neu'r pwyntiau ar y mater yn arwain at oblygiadau eang posibl.

68 Darparwyd y data gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

penderfyniadau y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn hytrach na'r tribiwnlysoedd datganoledig.[69]

4.10 Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw apêl o'r tribiwnlysoedd adran 59 i'r Uchel Lys yn ystod y cyfnod hyn. Hyd yn oed wrth gymryd y nifer o apeliadau a wneir o TPC i fewn i ystyriaeth, ymddengys bod cyfanswm yr apeliadau a wneir gan y tribiwnlysoedd datganoledig yn isel.

## APELIADAU O'R TRIBIWNLYSOEDD

### Llwybr apêl unffurf

4.11 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 14, gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddylai'r llwybrau apêl o'r tribiwnlysoedd datganoledig fod yn unffurf. O'r 22 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 14 yn cytuno, tri yn anghytuno a dewisodd pump atebion eraill.

4.12 Un a oedd yn frwd o blaid y syniad o lwybr apelio unffurf oedd Syr Wyn Williams, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a ddywedodd:

> ... nid oes unrhyw gyfiawnhad rhesymol dros apeliadau o rai tribiwnlysoedd (lleiafrif) yn mynd i'r Uchel Lys tra bo apeliadau o'r tribiwnlysoedd sy'n weddill (y mwyafrif) yn mynd i Uwch Dribiwnlys Cymru a Lloegr. Yn fy marn i, mae'r llwybrau apêl presennol yn ganlyniad i ddatblygiadau hanesyddol a gynhaliwyd fesul tipyn a heb gyfeirio at yr amcan cyffredinol o gael strwythur tribiwnlysoedd cydlynol ar waith, gyda llwybrau apêl yn rhan annatod ohonynt.

4.13 Cytunodd Christopher McNall, Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, hefyd â'r cynnig dros dro. Roedd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Cyngor y Bar Cymru a Lloegr; Bob Chapman, cyn aelod o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, a Phwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd; a Huw Williams, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd, wrth ymateb fel unigolyn, yn dadlau y byddai cael llwybr apêl unffurf yn gwneud y system yn haws ei deall i ddefnyddwyr ac ymarferwyr ac, yn y pen draw, yn cynyddu mynediad at gyfiawnder. Fel y dywedodd Dr Angela Ash, aelod o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru:

> O safbwynt y cyhoedd, mae cael llwybrau apelio gwahanol iawn wedi peri penbleth i mi erioed. Mae symleiddio a chyfuno systemau, strwythurau a phrosesau yn gyfle i wneud cyfiawnder yn fwy hygyrch a dealladwy i'r bobl sy'n eu defnyddio.

4.14 Fodd bynnag, nid oedd pawb yn argyhoeddedig y byddai cael un llwybr apêl unffurf o reidrwydd yn gwneud pethau'n haws i ddefnyddwyr. Nododd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio hyd yn oed petai apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig yn cael eu gwneud yn unffurf, y byddai tribiwnlysoedd eraill nad ydynt wedi eu datganoli yn parhau i weithredu yng Nghymru. O ganlyniad, byddai llwybrau apelio gwahanol (a'r posibilrwydd o ddryswch) yn parhau i fodoli:

> O ganlyniad i gadw'r awdurdodaeth gyfreithiol sengl ar gyfer Cymru a Lloegr, ac eithrio tribiwnlysoedd datganoledig, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr

---

[69] Uwch Lywydd Tribiwnlysoedd, *Adroddiad Blynyddol* 2020-2021, atodiad A https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2021/09/Senior-Presidents-Annual-Report-2021-Final-web.pdf

tribiwnlysoedd sydd heb eu datganoli yng Nghymru ddefnyddio'r system ar y cyd ar gyfer Cymru a Lloegr ar gyfer apeliadau pellach. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed petai llwybr apêl unffurf yn cael ei ddatblygu ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig, y byddai llwybrau apelio gwahanol o hyd ar gyfer defnyddwyr tribiwnlysoedd Cymru ar draws yr holl ardaloedd awdurdodaethol. Yn y cyd-destun hwn, nid yw'n ymddangos bod dadl gref dros gael un sianel ac un sianel yn unig ar gyfer apêl bellach i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd datganoledig dim ond am fod yr apêl yn deillio o benderfyniad tribiwnlys datganoledig. Dylid datrys y mater ar y lefel nesaf yn y fforwm sydd yn y sefyllfa orau i ddelio â'r mater – h.y. y man sydd â'r arbenigedd angenrheidiol a hefyd nifer priodol o apeliadau i gyfiawnhau cost sefydlu'r fforwm hwnnw yn y lle cyntaf.

Yn unol â hynny, mae'n ymddangos y byddai'n well i apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig gael eu gwasanaethu gan arbenigedd barnwyr sy'n gwrando ar nifer sylweddol o apeliadau tebyg o fewn y system ehangach o dribiwnlysoedd a gedwir yng Nghymru a Lloegr. Ni fydd unrhyw anfantais i ddefnyddiwr y tribiwnlys, ar yr amod bod y llwybr apelio priodol yn cael ei gyfeirio'n glir yn yr hysbysiad o benderfyniad gan y tribiwnlys datganoledig.

4.15 Credai Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio:

Dylid rhesymoli llwybrau apêl o dribiwnlysoedd datganoledig gymaint ag y bo modd ond bydd yn amhosibl sicrhau llwybr apelio unffurf oni sefydlir Tribiwnlys Apêl i Gymru o'r newydd.

Fodd bynnag, nid oedd yn ystyried Tribiwnlys Apêl yn ddewis realistig:

Oherwydd nifer isel yr o apeliadau o dribiwnlysoedd yng Nghymru, mae'n debygol y byddai angen tynnu arbenigedd o lysoedd/tribiwnlysoedd a gedwir a byddai hynny'n gwneud y tribiwnlys apêl newydd yn ymarfer cosmetig i bob pwrpas.

4.16 Dywedodd eraill fod anghenion gwahanol tribiwnlysoedd penodol yn cyfiawnhau llwybrau apelio gwahanol. Eglurodd Panel Dyfarnu Cymru:

Mae'r anghenion, y llwyth gwaith, y math o waith a'r defnyddwyr a wasanaethir gan y tribiwnlysoedd presennol yn amrywio'n fawr. Er enghraifft, mae'r Panel yn delio â materion cyfraith gyhoeddus a hawliau dynol mewn gwrandawiadau cyhoeddus sy'n gallu effeithio ar weithredu penderfyniadau a wneir gan yr etholwyr mewn etholiadau llywodraeth leol tra bo TAAAC yn eistedd yn breifat gan ystyried anghenion dysgu ychwanegol plant unigol yn dilyn achos a godwyd gan y teulu/gofalwr yn erbyn yr awdurdod lleol yr effeithir arno. Mae TAAAC yn debygol o fod yn fwy anffurfiol na'r Panel Dyfarnu a gall fynnu bod apeliadau'n cael eu penderfynu'n gyflym i sicrhau bod plentyn yn cael y cymorth y mae ganddo hawl iddo; gall penderfyniad y Panel amddifadu miloedd o bleidleiswyr o'r cynrychiolydd a ddewiswyd ganddynt ac atal y pleidleiswyr hynny rhag cael cynrychiolydd am gyfnod. O ystyried yr amrywiaeth rhwng y tribiwnlysoedd datganoledig, nid yw'n amlwg y dylai'r llwybrau apêl fod yn unffurf. Nid yw'r Panel yn gallu siarad ar ran anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd eraill, ond mae o'r farn mai'r drefn apelio briodol yw apelio i'r Uchel Lys ar gyfer yr awdurdodaeth hon oherwydd cymhlethdod y materion a ystyriwyd a'r angen i farnwr sydd â chymwysterau addas adolygu'r mater ar lefel uwch er mwyn ennill parch a delio â'r materion hawliau dynol.

4.17 Os oedd angen llwybr unffurf, awgrymodd y Panel y gallai hyn fod yn Dribiwnlys Apêl i Gymru dan ofal cymysgedd o farnwriaeth yr Uchel Lys a'r Uwch Dribiwnlys:

> Os oes rhaid mabwysiadu llwybr unffurf, a ellid llunio cynllun hybrid ar gyfer Tribiwnlys Apêl Cymru wedi ei rannu'n ddwy adran – un o'r Uwch Dribiwnlys (wedi ei draws-docynnu) ar gyfer y tribiwnlysoedd hynny sy'n cael eu gwasanaethu mewn ffordd o'r fath ar hyn o bryd, a'r llall o'r Uchel Lys ar gyfer y rhai lle mae apêl yn y cyfeiriad hwnnw? Mae anghenion y tribiwnlysoedd a'u defnyddwyr yn rhy amrywiol i'w rhoi mewn un grŵp unffurf.

4.18 Yn yr un modd, credai Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr y dylai apeliadau o Dribiwnlys Iechyd Meddwl Cymru barhau i fynd i'r Uwch Dribiwnlys (er ei fod o blaid llwybr apelio unffurf gan dribiwnlysoedd datganoledig eraill). Ar hyn o bryd, mae'r tribiwnlys hwnnw hefyd yn gwrando ar apeliadau o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol). Dadleuodd Cymdeithas y Gyfraith y dylai'r llwybrau apêl ar gyfer achosion iechyd meddwl barhau i fod yr un fath 'oherwydd eu hawdurdodaeth gynhenid (e.e. amddifadu o ryddid a thriniaeth orfodol) a natur annymunol unrhyw wahaniaeth trawsffiniol mewn amddiffyniadau hawliau dynol'.

4.19 Roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru o'r un farn am resymau tebyg:


> Mae'n hanfodol i ni gael yr un llwybr apêl â Thribiwnlys yr Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl). Mae llawer o'r penderfyniadau a wneir ar apêl gennym yn ymwneud â materion hawliau dynol sy'n effeithio ar gleifion yn Lloegr yn yr un modd. Yn ogystal, mae llawer o gleifion o Loegr yn cael eu cadw yng Nghymru, felly byddai system lle mae risg o benderfyniadau allweddol gwahanol ar apeliadau yng Nghymru a Lloegr yn creu anhrefn. Y llwybr o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) yw i'r Uwch Dribiwnlys, felly mae'n hanfodol mai dyna yw ein llwybr ninnau o hyd hefyd. Nid oes gennym farn ynghylch a yw unffurfiaeth ymysg tribiwnlysoedd datganoledig yn ddymunol, ond os penderfynir felly, yna bydd angen i'r tribiwnlysoedd llai ein dilyn ni.

4.20 Roedd Richard Payne, Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, hefyd o blaid cadw mynediad at arbenigedd yr Uwch Dribiwnlys. Argymhellodd 'fodel hybrid' (a drafodir ymhellach isod). Yn ôl y model hybrid, byddai apeliadau sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth sylfaenol a basiwyd gan y Senedd ac sy'n berthnasol yng Nghymru yn unig yn cael eu cyfeirio at Dribiwnlys Apêl yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai apeliadau sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth sylfaenol a basiwyd yn San Steffan yn dilyn yr un llwybr ag yn y system a gedwir. Defnyddiodd yr enghraifft o dribiwnlysoedd eiddo preswyl a thribiwnlysoedd prisio lesddaliadau yn elwa ar y corff presennol o arbenigedd yn yr Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd), ac ychwanegodd:

> Nid wyf o'r farn y byddai Tribiwnlys Apêl Cymru yn gallu ailadrodd profiad ac addysg yr Uwch Dribiwnlys, ac nid wyf o'r farn y byddai'n ddymunol ar hyn o bryd cael dau uwch gorff apêl yn penderfynu ar yr un materion.

### Pen y daith i apeliadau pellach

4.21 Un o'r cwestiynau ymgynghori sydd wedi arwain at y drafodaeth fwyaf drwy gydol y cyfnod ymgynghori yw, os mabwysiedir llwybr apêl unffurf, a ddylai hynny fod i'r Uwch Dribiwnlys, y Llys Gweinyddol yng Nghymru, neu Dribiwnlys Apêl Cymru sydd newydd ei sefydlu.




O'r 20 o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 11 o blaid Tribiwnlys Apêl i Gymru, roedd dau o blaid yr Uwch Dribiwnlys ac ni roddodd yr un ymatebydd y Llys Gweinyddol yng Nghymru fel eu dewis cyntaf ar gyfer llwybr apêl unigol. Roedd rhai o'r rhai a atebodd "arall" – saith ymatebydd – wedi mynegi cefnogaeth i fwy nag un dewis.

## Tribiwnlys Apêl i Gymru

4.22 Mynegodd Syr Wyn Williams ei gefnogaeth i Dribiwnlys Apêl i Gymru yn ystod y cyfnod ymgynghori. Yn ei ymateb ysgrifenedig, daeth i'r casgliad y:

> Dylid manteisio ar y cyfle hwn i lunio strwythur apêl yng Nghymru ar gyfer y dyfodol. Wrth i waith y tribiwnlysoedd datganoledig gynyddu ac wrth i gyrff ychwanegol ddod yn dribiwnlysoedd datganoledig, mae'r achos dros gael strwythur apeliadol ar wahân yng Nghymru, yn fy marn i, yn gryf.... Yn fy marn i, dylem achub ar y cyfle hwn i greu strwythur apelio yng Nghymru a fydd, pan fydd ar waith, yn gallu bodoli am y dyfodol rhagweladwy.

4.23 Roedd Cyngor y Bar, Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer a Chyfraith Gyhoeddus Cymru hefyd yn cytuno â'r syniad o fanteisio ar y cyfle i sefydlu strwythur apêl yng Nghymru ar gyfer y dyfodol. Cytunodd Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer gyda'r rhesymeg o blaid Tribiwnlys Apêl i Gymru a nodir ym mharagraff 4.50 ein Papur Ymgynghori.[70]

4.24 Roedd ymateb Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard (a oedd wedi ei nodi fel un "arall"), yn nodi ystyriaethau penodol a oedd wedi codi o'u hymchwil:

> Byddai manteision tybiedig sefydlu Tribiwnlys Apêl newydd i Gymru yn deillio o'r syniad o hunaniaeth Gymreig unigryw, gyda gweinyddiaeth drwy Uned

70 Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2020) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith 251, paragraff 4.50.

Tribiwnlysoedd Cymru (pa bynnag ffurf a gymer hyn yn y dyfodol) ac arweinyddiaeth farnwrol gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae gan y dull hwn hefyd y potensial i ymateb i amrywiol bryderon am yr adnoddau cymharol a ddyrennir i faterion cyfraith Cymru o fewn hyfforddiant barnwrol yn strwythurau cyfun Cymru a Lloegr. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fyddai hunaniaeth a gweinyddiaeth Gymreig sy'n fwy unigryw yn arwain at fanteision amlwg o ran mynediad at gyfiawnder. O bosibl, gallai symud o sefydliad "rhanbarthol" (y Llys Gweinyddol yng Nghymru) i sefydliad datganoledig (Tribiwnlys Apêl Cymru) ychwanegu gwerth o ran codi ymwybyddiaeth a gwella hygyrchedd. Byddai hefyd yn gwella'r rhagolygon ar gyfer atebolrwydd dros weinyddu cyfiawnder yng Nghymru i Senedd Cymru. Gellid dweud hefyd y gallai cnewyllyn barnwyr Tribiwnlys Apêl Cymru, er ei bod yn bosibl y byddant hefyd yn eistedd yn rheolaidd fel barnwyr y Llys Gweinyddol a'r Uwch Dribiwnlys a gedwir, deimlo'n fwy cryf i ddehongli/datblygu'r corff cynyddol o gyfraith ddatganoledig yng Nghymru mewn ffyrdd mwy nodedig, ond o bosibl hefyd yn fwy egwyddorol o gyson i wasanaethu anghenion pobl yng Nghymru. Wedi dweud hynny, mae'r ymchwil yn awgrymu mai un ffactor sy'n ychwanegol at unffurfiaeth a hunaniaeth sefydliadol yw mynediad at gyngor a chynrychiolaeth a gyllidir gan gymorth cyfreithiol fel mater o drefn.

4.25 Roedd Cyfraith Gyhoeddus Cymru o blaid creu Tribiwnlys Apêl. Yn ei ymateb, roedd yn rhoi sylw i'r gwrthwynebiad posibl y gallai tribiwnlys o'r fath arwain at ddargyfeirio cyfraith achosion yng Nghymru a Lloegr:

> Bydd cysondeb o ran cwestiynau cyfreithiol sy'n gyffredin i dribiwnlysoedd sydd wedi eu datganoli a rhai sydd heb eu datganoli yn cael ei sicrhau yn anochel gan reolau cyffredin cynsail ac o gynnwys barnwyr sydd hefyd yn eistedd yn yr Uwch Dribiwnlys (yng Nghymru a Lloegr) a'r Uchel Lys.

4.26 Nododd Huw Williams, a oedd yn argymell creu Tribiwnlys Apêl Cymru, nad oes angen cyfyngu ei gwmpas i apeliadau o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mewn perthynas â'r Panel Dyfarnu a Thribiwnlys y Gymraeg, dadleuodd:

> Mae Panel Dyfarnu Cymru yn gwrando ar apeliadau gan bwyllgorau moeseg a safonau awdurdodau lleol. Strwythurir trafodion y pwyllgorau gydag elfen annibynnol a chadeirydd annibynnol. Cynhelir achosion safonau ymddygiad yn ffurfiol, yn aml gyda swyddog cyflwyno o'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Credaf fod dadl gref bod hyn yn golygu gwrandawiad haen gyntaf digonol, er ei fod y tu allan i system arfaethedig Tribiwnlysoedd Cymru. Mae dadansoddiad o benderfyniadau'r Panel Dyfarnu yn dangos, yn fy marn i, ei fod yn cyflawni swyddogaeth apeliadol yn hytrach na swyddogaeth gwrandawiad cyntaf ac, am y rheswm hwnnw, byddwn yn rhoi swyddogaethau'r Panel Dyfarnu yn y Tribiwnlys Apêl ac nid fel Tribiwnlys Haen Gyntaf. Yn yr achosion eithriadol hynny lle mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn gwneud atgyfeiriad uniongyrchol o dan adran 69(4)(c) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'r sefyllfa'n debyg i achosion eraill lle mae Uwch Dribiwnlys Cymru a Lloegr yn gweithredu fel y gwrandawiad cyntaf.
>
> Yn yr un modd, mae Tribiwnlys y Gymraeg yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r gweithdrefnau ym Mesur y Gymraeg yn rhagnodol a ffurfiol iawn, ac er eu bod yn eistedd y tu allan i Haen Gyntaf y system, maent yn cynnwys nifer o nodweddion sydd wedi eu cynllunio i

sicrhau ystyriaeth deg i wrthwynebiadau cyn i'r Comisiynydd wneud penderfyniadau i ddechrau. Yn yr un modd â'r Panel Dyfarnu, felly, rwyf o'r farn y dylai swyddogaethau Tribiwnlys y Gymraeg fod yn rhan o'r Tribiwnlys Apêl – dan enw Siambr y Gymraeg, o bosibl.

4.27 Credai ei bod yn bwysig bod unrhyw gorff yng Nghymru sydd ag awdurdodaeth apeliadol:

> yn cael ei gydnabod fel llys cofnodion uwch, fel y gellir cyfeirio at ei benderfyniadau mewn meysydd lle mae'r gyfraith yng Nghymru ac yn Lloegr yn gwneud darpariaeth debyg. Credaf fod hwn yn bwynt arbennig o bwysig mewn perthynas ag achosion iechyd meddwl ac y byddai'n ffafriol o ran cynnal cydlyniad rhwng Cymru a Lloegr pan fydd darpariaethau tebyg yn berthnasol, a bod cleifion yn aml yn symud rhwng ysbytai yng Nghymru a Lloegr.

4.28 Fodd bynnag, rhybuddiodd Dr Calum Delaney, aelod o Dribiwnlys Addysg Cymru:

> mae'n bosibl na fydd cynnydd datganoli mor fawr â'r disgwyl, a gall newid cyfeiriad mewn rhai agweddau, a gallai effaith y nifer isel o apeliadau ar ddatblygu cyfraith achosion ac arbenigedd barnwrol gael ei gwaethygu drwy gyfyngu'r rhain ymhellach i Dribiwnlys yng Nghymru.

4.29 Roedd yr Athro Thomas Watkin hefyd o blaid cyflwyno Tribiwnlys Apêl i Gymru (a'i ail ddewis oedd y Llys Gweinyddol yng Nghymru, a'i drydydd dewis oedd yr Uwch Dribiwnlys). Nododd y byddai'n 'fodlon gweld y llwybr apêl diofyn yn cael ei greu'n raddol os mai dyna'r ffordd orau o sicrhau Tribiwnlys Apêl arbennig i Gymru'.

4.30 Yn olaf, roedd Richard Payne o blaid creu Tribiwnlys Apêl i Gymru, pe na bai ei awgrym am fodel hybrid yn cael ei fabwysiadu.

### Yr Uwch Dribiwnlys

4.31 Yr ail ddewis mwyaf poblogaidd ar gyfer llwybr apelio unffurf oedd yr Uwch Dribiwnlys presennol (sydd eisoes yn gwrando ar apeliadau pellach gan y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd datganoledig). Dyma farn y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, am y rhesymau a roddwyd wrth ateb y cwestiwn blaenorol; yn gryno, 'y byddai'r gyfatebiaeth hanfodol ar faterion allweddol yn cael ei cholli pe byddai apeliadau yn cael eu cyfeirio i fan arall'. Cytunodd Alun Green, aelod o banel apeliadau annibynnol, nad oedd yn gweld unrhyw reswm dros gyflwyno cyrff ychwanegol i'r system nac i gynyddu baich gwaith y Llys Gweinyddol.

4.32 Eto, er nad ydynt o reidrwydd yn cefnogi'r cynnig, crynhodd Dr Sarah Nason a Huw Pritchard eu barn am fanteision ac anfanteision yr Uwch Dribiwnlys:

> Awgrymwyd mewn ymchwil, gan gynnwys gan aelodau'r farnwriaeth, y gall Uwch Dribiwnlys Cymru a Lloegr weithredu'n effeithiol yn barod fel Uwch Dribiwnlys Cymru wrth benderfynu ar apeliadau ar bwyntiau o gyfraith ddatganoledig Cymru, ac mewn achosion o'r fath, y gellir dyrannu barnwyr sydd ag arbenigedd a phrofiad priodol o gyfraith a chyd-destun Cymru i benderfynu ar apeliadau. Mae cyfeirio apeliadau at gorff presennol yn arwain at fanteision defnyddio seilwaith sefydledig (fel y nodir yn ein hymchwil ac yn y Papur Ymgynghori).

> Mae materion amrywiol yn codi ynghylch natur arbenigedd barnwrol, yn enwedig pa un ai'r hyn a allai fod yn bwysicach yw arbenigedd mewn meysydd cyfreithiol arbenigol, fel cyfraith eiddo preswyl, cyfraith addysg neu gyfraith iechyd meddwl, ar draws amrywiadau Cymru a Lloegr, neu, ar y llaw arall, arbenigedd mewn egwyddorion cyffredinol y dull datganoledig yng Nghymru o lunio deddfau, ac yng nghyd-destun polisi yng Nghymru. Gallai'r olaf ddangos ffafriaeth tuag at Dribiwnlys Apêl newydd i Gymru i ganolbwyntio ar ddatblygu a chymhwyso'r corff hwn o gyfraith Cymru, ond gallai'r cyntaf ffafrio apeliadau i Uwch Dribiwnlys Cymru a Lloegr, neu o leiaf ddarparu llai o gefnogaeth i sefydliad newydd. Yn achos mathau o arbenigedd, mae darpariaeth (neu gall darpariaeth fod) ar gyfer sicrhau bod barnwyr yr ystyrir bod ganddynt yr arbenigedd perthnasol yn cael eu dyrannu i benderfynu ar apeliadau. Rydym yn cwestiynu, felly, a ellid ffurfioli'r modd i weithredu fel Uwch Dribiwnlys Cymru mewn rhyw ffordd drwy reolau gweithdrefnol ac arferion gweithredu perthnasol Uwch Dribiwnlys Cymru a Lloegr.

### Y Llys Gweinyddol yng Nghymru

4.33 Nid oedd yr un ymatebydd yn cefnogi'r awgrym y dylai pob apêl o'r tribiwnlysoedd datganoledig yn y dyfodol fynd i'r Llys Gweinyddol yng Nghymru. Fodd bynnag, ystyriodd Dr Sarah Nason a Huw Pritchard y posibilrwydd, gan esbonio:

> Mae materion hygyrchedd yn ymwneud â chost gymharol hawliadau'r Llys Gweinyddol (Uchel Lys) o'u cymharu â hawliadau'r Uwch Dribiwnlys. Un ffactor allweddol a fydd yn effeithio ar hygyrchedd llwybrau apêl fydd y costau, ac mae hyn yn debygol o fod yn ffactor mwy arwyddocaol o ran annog pobl i beidio ag apelio ar sail teilyngdod nag unrhyw ddiffyg unffurfiaeth mewn llwybrau apêl sydd, o ganlyniad, yn anodd eu defnyddio.
>
> Ffactor arall a grybwyllir yn aml mewn ymchwil yw argaeledd cymorth cyfreithiol. Un pryder penodol yw ei bod yn bosibl na fydd cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer apeliadau i'r Uwch Dribiwnlys (sef Uwch Dribiwnlys Cymru a Lloegr neu Dribiwnlys Apêl Cymru), ond ar gyfer llawer o apeliadau'r Llys Gweinyddol ac adolygiadau barnwrol, mae cymorth cyfreithiol yn dal ar gael yn dechnegol, er ei bod yn aml yn anodd cael gafael arno.
>
> ... Mae ein hymchwil hefyd yn awgrymu pryder bod cyfiawnder mewn tribiwnlysoedd yn dal i fod ychydig yn brin o'r urddas sy'n gysylltiedig â'r Llys Gweinyddol yng Nghymru, a allai effeithio ar agweddau cyrff cyhoeddus at brosesau penodol, ac ar gydymffurfio â dyfarniadau.

### **Llwybr apêl diofyn**

4.34 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 16, gofynnwyd am farn ynghylch a ddylid (os nad oes llwybr unffurf yn cael ei fabwysiadu) cael llwybr diofyn ar gyfer apeliadau (er enghraifft, ar gyfer tribiwnlysoedd sydd newydd gael eu creu). Gofynnwyd beth ddylai'r llwybr diofyn fod, ym mha dribiwnlysoedd y dylai eu hapeliadau pellach gael eu gwrando drwy ddilyn y llwybr diofyn hwnnw, ac a ellid defnyddio'r llwybr apêl diofyn yn raddol.

4.35 Cafwyd 14 ymateb i'r cwestiwn hwn, gyda chwech o blaid llwybr apêl diofyn, ac wyth yn cynnig atebion eraill, a rhai ohonynt yn cytuno'n amodol.

4.36 Roedd Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar, Cymdeithas y Gyfraith, yr Athro Thomas Watkin, a Roger Handy, Cadeirydd Tribiwnlys Prisio, i gyd o'r farn, pe na bai llwybr apêl unffurf yn cael ei fabwysiadu, y dylid cael llwybr apêl diofyn ac y dylai hwnnw fod i'r Tribiwnlys Apêl Cymru sydd newydd ei sefydlu.

4.37 Barn Richard Payne yw "os yw'r tribiwnlysoedd sydd newydd gael eu creu yn delio â deddfwriaeth Cymru yn unig sydd wedi ei chreu gan y Senedd ac sy'n gymwys i Gymru'n unig, dylai'r llwybr diofyn arwain at Dribiwnlys Apêl Cymru".

### Cynsail

4.38 Un mater a godwyd gan nifer o ymatebwyr mewn perthynas ag apeliadau oedd cynsail. Cyn gwerthuso'r gwahanol ddewisiadau, rydym yn rhoi crynodeb byr yma o sut mae cynsail yn gweithio yn y system tribiwnlysoedd ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn ystyried y berthynas rhwng penderfyniadau gwahanol dribiwnlysoedd mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.

#### Y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys presennol

4.39 Mae'r Uwch Dribiwnlys a'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi eu rhwymo gan benderfyniadau'r Llys Apêl a'r Goruchaf Lys.

4.40 Yn ôl Edward Jacobs, nid yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi "ei rwymo gan ei benderfyniadau ei hun, penderfyniadau sy'n dwyn perswâd yn unig".[71] Eithriad yw'r Siambr Mewnfudo a Lloches Haen Gyntaf, lle disgwylir i farnwyr ddilyn y gyfraith a nodir mewn achosion a adroddir yn unig.[72]

4.41 Fodd bynnag, mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn rhwymedig wrth benderfyniadau'r Uwch Dribiwnlys. Y rheswm am hyn yw bod yr Uwch Dribiwnlys wedi ei greu fel 'uwch lys cofnod' o dan adran 3(5) o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. Gan hynny, mae ei benderfyniadau ar bwyntiau cyfreithiol yn rhwymol nid yn unig mewn achosion unigol lle mae apêl bellach wedi ei gwneud, ond fel cynsail ar gyfer tribiwnlysoedd is.[73]

4.42 Mewn rhai achosion disgwylir i'r Uwch Dribiwnlys ddilyn ei benderfyniadau ei hun. Penderfynwyd, er enghraifft, y bydd un barnwr yn y Siambr Apeliadau Gweinyddol fel

---

[71] E Jacobs, *Tribunal Practice and Procedure* (5th ed 2019) paragraff 13.68. Gweler hefyd *Hampshire County Council v JP* [2009] UKUT 239 (AAC) at [15]. Yn *West Midland Baptist (Trust) Association (Inc) v Birmingham Corporation* [ [1968] 2 QB 188, ystyriodd y Llys Apêl ddull y Tribiwnlysoedd Tiroedd o ddilyn penderfyniadau blaenorol. Nododd Salmon LJ, gan roi sylwadau ar yr arfer hwn, 'nad oes amheuaeth y dylai penderfyniadau blaenorol y tribiwnlys ar bwyntiau cyfreithiol gael eu trin gan y tribiwnlys gyda pharch mawr a chael eu hystyried yn awdurdod perswadiol, hyd yn oed pan gânt eu gwneud gan leygwr. Ond ni ddylid byth eu trin fel rhai rhwymol.'

[72] Mr Ustus Peter Lane, Siambr Mewnfudo a Lloches yr Uwch Dribiwnlys, Nodyn Cyfarwyddyd 2011 Rhif 2, Adrodd ar benderfyniadau Siambr Mewnfudo a Lloches yr Uwch Dribiwnlys (Gorffennaf 2011, fel y'i diwygiwyd ym mis Ionawr 2018), paragraff 11.

[73] *R (on the application of Cart) v UT (Immigration and Asylum Chamber*) [2011] UKSC 28, [2012] 1 AC 663 at [43]; *Sinclair Gardens Investments (Kensington) Limited v Christine Lesley Ray* [2015] EWCA Civ 1247 at [23].

arfer yn dilyn penderfyniad panel tri beirniad yn yr un siambr.[74] O ran y Tribiwnlys Haen Gyntaf, gwneir eithriad ar gyfer Siambr Mewnfudo a Lloches yr Uwch Dribiwnlys, lle nad oes disgwyl i'r Siambr ddilyn penderfyniadau nas adroddir.[75]

4.43 Oherwydd nifer yr achosion, mae gan Siambrau Mewnfudo a Lloches y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys reolau ychydig yn fwy cymhleth mewn perthynas â chynsail. Er enghraifft, mae'r ddau dribiwnlys yn defnyddio system o benderfyniadau 'serennog' a gofnodir. Mae'r rhain yn cael eu trin gan yr Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys fel rhai awdurdodol mewn perthynas â'r mater mae'r 'sêr' yn berthnasol iddo, oni bai eu bod yn anghyson ag awdurdod rhwymol arall.

### Perthynas â thribiwnlysoedd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig

4.44 Nid yw llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr wedi eu rhwymo'n llwyr gan benderfyniadau llysoedd y mae eu hawdurdodaethau'n cael eu rhedeg yn yr Alban. Fodd bynnag, mae gan y penderfyniadau hynny effaith berswadiol. Weithiau mae hyn yn cael ei egluro yn nhermau 'cyd-ddealltwriaeth' neu barch at y naill a'r llall. Eglurodd Laws LJ ym mhenderfyniad y Llys Apêl yn *Marshalls Clay Products Ltd*:

> byddai'n amryfusedd gyfansoddiadol o gryn faint awgrymu bod unrhyw lys yng Nghymru a Lloegr, drwy rym cyfraith gyffredin neu gynsail, yn llym iawn, wedi ei rwymo gan benderfyniadau unrhyw lys y mae ei awdurdodaeth yn yr Alban yn unig neu – yn fwyaf sicr – fel arall. Mae cyd-ddealltwriaeth ac ymarferoldeb yn rhywbeth arall yn gyfan gwbl. Maent yn rhoi pwysau cwbl ddilys.[76]

4.45 Yn ddiweddarach, yn yr Uwch Dribiwnlys, credai'r Barnwr Rowland yn y Siambr Apeliadau Gweinyddol fod yn rhaid iddo ddilyn penderfyniad panel tri beirniad o'r Uwch Dribiwnlys a phenderfyniad Llys y Sesiwn, er:

> yn fanwl gywir, mae hyn yn fater o gyd-ddealltwriaeth yn hytrach nag oherwydd bod y penderfyniadau'n dechnegol rwymol. Lle mae gwrthdaro rhwng y penderfyniadau, dylwn ddilyn penderfyniad Llys y Sesiwn oherwydd ei fod yn llys sy'n uwch na'r Uwch Dribiwnlys (y mae ei awdurdodaeth mewn materion nawdd cymdeithasol yn ymestyn ar draws Prydain) ac, er nad yw ei benderfyniadau'n rhwymo'n llwyr yng Nghymru a Lloegr (*Marshalls Clay Products Ltd v Caulfield*) mae angen osgoi sefyllfa lle mae deddfwriaeth sy'n berthnasol ledled Prydain yn cael ei chymhwyso mewn ffyrdd anghyson yn dibynnu a yw achos yn codi i'r gogledd neu i'r de o Fur Hadrian.[77]

4.46 Ers sefydlu Uwch Dribiwnlys yr Alban, dywedodd y Fonesig Smith, Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, yn ei hadroddiad blynyddol, pe bai achos yn ystyried y modd

---

74 R(I) 12/75 penderfyniad a adroddwyd gan Dribiwnlys o Gomisiynwyr (12/8/1975) Gweler https://www.rightsnet.org.uk/pdfs/ri/12_75.pdf [19] a [20]; *Dorset Healthcare NHS Foundation Trust v MH* [2009] UKUT 4 (AAC), [2009] PTSR 1112.

75 Mr Ustus Peter Lane, Siambr Mewnfudo a Lloches yr Uwch Dribiwnlys, Nodyn Cyfarwyddyd 2011 Rhif 2, Adrodd ar benderfyniadau Siambr Mewnfudo a Lloches yr Uwch Dribiwnlys (Gorffennaf 2011, fel y'i diwygiwyd ym mis Ionawr 2018, paragraff 11).

76 [2004] EWCA Civ 422 yn [32]

77 *Yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Gwaith a Phensiynau* v *RR* CH/211/2015 [2018] UKUT 180 (AAC), [2019] PTSR 19, at [16].

y cymhwysir Deddf Cydraddoldeb 2010 i blant ag anghenion addysgol arbennig, y byddai'r Siambr Iechyd ac Addysg yn ystyried y penderfyniad yn yr achos hwnnw yn un sy'n dwyn perswâd, ond nid yn rhwymo.[78]

### Trafodaeth

4.47 Y lleoliad priodol ar gyfer apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru fu un o'r pynciau mwyaf anodd yn yr ymgynghoriad hwn, ac mae wedi hollti barn ymatebwyr. Mae nifer o arweinwyr presennol tribiwnlysoedd adran 59 wedi ymateb i'r ymgynghoriad gan egluro bod eu llwybr apêl presennol yn gweithio'n dda i'w tribiwnlys, ac y dylid ei gadw. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r awydd hwn i gadw llwybrau apêl cyfredol yn erbyn yr angen i sicrhau bod y system yn gydlynol ac yn gweithio'n dda yn ei chyfanrwydd; ei bod yn gallu datblygu a darparu ar gyfer llwybrau apêl newydd.

4.48 Yn ein barn ni, mae cyflwyno Tribiwnlys Haen Gyntaf unedig i Gymru yn creu ysgogiad cryf ar gyfer un llwybr apêl i Dribiwnlys Apêl i Gymru; roedd 11 o'r 14 ymatebydd a oedd yn ffafrio llwybr apêl unffurf hefyd o blaid creu Tribiwnlys Apêl.[79] Yn ddiau, mae'r prosiect hwn yn cynnig cyfle i greu system sy'n syml, yn reddfol ac yn gydlynol, tra bod creu llwybrau apelio gwahanol o'r cychwyn yn peryglu'r amcan hwnnw.

4.49 Ar y llaw arall, mae'n anochel y bydd creu un lleoliad apêl yn golygu newid y llwybr apêl ar gyfer rhai tribiwnlysoedd. Rydym wedi nodi'r gefnogaeth gref ymysg arweinwyr barnwrol i gadw eu llwybrau apelio ar hyn o bryd. Mae'n anochel hefyd ei fod yn codi cwestiwn ynghylch pa lwybr apêl sy'n addas.

4.50 Yn ein barn ni, dim ond dau ddewis realistig sydd ar gyfer llwybr apêl unffurf; y rhain yw'r Uwch Dribiwnlys presennol, neu Dribiwnlys Apêl newydd i Gymru. Ni chafodd yr awgrym o un llwybr apêl i'r Uchel Lys unrhyw gefnogaeth; byddai symud oddi wrth dribiwnlys apêl arbenigol i awdurdodaeth gyffredinol yr Uchel Lys (neu hyd yn oed y Llys Gweinyddol) yn mynd yn groes i duedd y degawdau diwethaf a byddai'n anghydnaws â bodolaeth tribiwnlysoedd arbenigol ar lefel Haen Gyntaf. Ar ben hynny, ychydig iawn o'r gwaith apêl a gynhyrchir gan y tribiwnlysoedd ar hyn o bryd sy'n cael ei drin gan yr Uchel Lys.

#### Model hybrid?

4.51 Rydym wedi ystyried yn ofalus awgrym Richard Payne ar gyfer system apelio nad yw'n unffurf. Fel y dywedodd:

> Mewn termau syml, os caiff y gyfraith ei phasio gan y Senedd a'i bod yn berthnasol yng Nghymru yn unig, yna gellid dadlau y dylai apeliadau yn erbyn penderfyniadau gael eu trin gan Dribiwnlys Apêl Cymru. Er enghraifft, yn y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, rydym yn delio ag achosion o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a gyflwynodd drwyddedu landlordiaid preifat ac a gyflwynodd rai pwerau fel gorchmynion atal rhent, nad ydynt yn bodoli yn Lloegr, hyd y gwn i. Byddai'n briodol i Dribiwnlys Apêl

---

[78] Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, *Second Annual Report* (2019) Gweler scottish-tribunals-annual-report-2018-19.pdf (judiciary.scot) tudalen 37.

[79] Dim ond dau oedd yn ffafrio llwybr apêl unffurf i'r Uwch Dribiwnlys; ni wnaeth un (Huw Williams) fynegi barn bendant ynghylch hunaniaeth y corff apeliadol.

Cymru wrando ar apeliadau o'r fath. I'r gwrthwyneb, mae'r rhan fwyaf o'r gyfraith a ddefnyddir gan dribiwnlysoedd eiddo preswyl/tribiwnlysoedd prisio tir yn gyffredin i Gymru a Lloegr ac mae gan Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys arbenigedd mawr a dyfnder gwybodaeth - er enghraifft, ar faterion rhyddfreinio. Ni chredaf y byddai modd i Dribiwnlys Apêl Cymru ailadrodd profiad ac addysg yr Uwch Dribiwnlys, ac ni chredaf ar hyn o bryd y byddai'n ddymunol cael dau gorff apeliadol uwch yn penderfynu ar yr un materion. Mae lle amlwg i ddryswch cyfreithiol ac i benderfyniadau gwahanol ddod i'r amlwg yng nghyswllt Cymru a Lloegr. Os bydd fy awgrym hybrid yn cael ei fabwysiadu, yna ni fyddai hyn yn risg. Byddai hyn yn golygu y byddai pob apêl o Dribiwnlys y Gymraeg yn mynd i Dribiwnlys Apêl Cymru yn ogystal ag apeliadau dethol o'r tribiwnlysoedd eraill gan ddibynnu ar y ddeddfwriaeth wreiddiol.

4.52 Yr hyn sy'n apelio yn y system hon yw bod ganddi'r potensial i gyfuno'r gorau o ddewisiadau'r Uwch Dribiwnlys a Thribiwnlys Apêl Cymru. Gallai penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth a rennir barhau i gael eu gwneud mewn un lle gan y rhai sydd ag arbenigedd arbenigol perthnasol, gan leihau'r risg o wahaniaethau mewn cyfraith achosion. Ar yr un pryd, byddai'n ei gwneud yn bosibl meithrin corff o arbenigedd lleol mewn meysydd cyfreithiol sy'n berthnasol i Gymru yn unig. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn ei bod yn ymarferol fel maen prawf i reoli cyfeiriad apeliadau, yn gyntaf oherwydd y byddai'n creu patrwm cymhleth o lwybrau apelio ac yn ail oherwydd ei bod yn debygol o ddod yn fwyfwy anodd gwahaniaethu rhwng tribiwnlysoedd sy'n defnyddio cyfraith a rennir a'r rhai sy'n cymhwyso cyfraith Cymru.

4.53 Byddai effaith system hybrid yn amrywio ar draws tribiwnlysoedd. Mae'n eithaf cyffredin i dribiwnlysoedd gael awdurdodaethau sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr, ond y mae'n rhaid eu cymhwyso ar y cyd â deddfwriaeth sy'n berthnasol yng Nghymru yn unig. Mae hyn yn cymhlethu'r defnydd o'r model hybrid; yn ein barn ni, byddai'n rhaid pennu'r llwybr apêl mewn deddfwriaeth beth bynnag, yn hytrach na'i bennu fesul achos, a fyddai'n sicr o arwain at ymgyfreitha lloeren.

4.54 Byddai Tribiwnlys Apêl Cymru yn gwrando ar apeliadau rhai tribiwnlysoedd yn unig: er enghraifft, achosion o siambr y Gymraeg, siambr addysg,[80] ac o bosibl Panel Dyfarnu Cymru.[81] Byddai apeliadau o siambr eiddo yn gymysg; byddai'r rhan fwyaf o hawliadau amaethyddol yn mynd i'r Uwch Dribiwnlys, tra byddai'r apeliadau o awdurdodaethau presennol y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn cael eu rhannu (am y rhesymau a fynegwyd gan Richard Payne uchod). Byddai apeliadau o'r Siambr Brisio'n aros lle y maent ar hyn o bryd. Mae cyfeiriad apeliadau iechyd meddwl yn y dyfodol yn ansicr; dan y cynllun presennol byddent yn mynd i'r Uwch Dribiwnlys, ond

[80] Yn y dyfodol, bydd y rhan fwyaf o apeliadau i Siambr Addysg tribiwnlys newydd yn cael eu seilio yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018. Dechreuodd y broses o roi'r Ddeddf honno ar waith yn raddol ym mis Medi 2021. Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018*, *14 Gorffennaf 2021.* Gweler https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-gweithredu-deddf-anghenion-dysgu-ychwanegol-ar-tribiwnlys-addysg-cymru-0

[81] Mae sail statudol Panel Dyfarnu Cymru i'w gael yn Neddf Llywodraeth Leol 2000. Pan basiwyd y Ddeddf yn wreiddiol, darparwyd system debyg yn Lloegr, ond mae'r darpariaethau hynny bellach wedi eu diddymu.

os bydd Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn cael ei disodli gan Ddeddf gan y Senedd, gallent gael eu hailgyfeirio i Dribiwnlys Apêl Cymru.

4.55 Byddai risg o hyd y gallai apêl godi mewn dwy awdurdodaeth, a fyddai fel arfer yn cael ei chlywed gan ddau leoliad apelio gwahanol. Mae edrych ar benderfyniadau apêl blaenorol yn awgrymu mai yn anaml iawn y byddai'r sefyllfa hon yn codi, os o gwbl. Ond byddai'n bosibl yn ddamcaniaethol, ac unwaith eto byddai'n rhaid gwneud darpariaeth naill ai mewn deddfwriaeth neu yn y rheolau neu'r cyfarwyddiadau ymarfer i sicrhau eglurder i ddefnyddwyr y tribiwnlysoedd.

4.56 Gan hynny, byddai effaith gyffredinol cynllun hybrid yn gymhleth. Byddai hefyd yn debygol o newid dros amser a byddai angen ei adolygu'n rheolaidd; gan fod y Senedd wedi cyflwyno deddfwriaeth i ddisodli neu ddeddfwriaeth newydd mewn meysydd penodol, byddai hynt apeliadau'n newid.

4.57 Er hynny, mae'r syniad sy'n ymddangos i ni yn sail i'r cynnig – y gallai fod yn anfoddhaol dyblygu awdurdodaeth apeliadol Cymru dros gyfraith a rennir, yn enwedig er mwyn delio â nifer fach iawn o achosion – yn ein taro ni fel rhywbeth sydd â grym sylweddol. Yn ein barn ni, mae'r syniad hwn yn rhywbeth i'w ystyried wrth benderfynu a ddylid symud awdurdodaethau apeliadol penodol i Dribiwnlys Apêl yng Nghymru.

### Yr Uwch Dribiwnlys fel yr unig lwybr apêl

4.58 Byddai defnyddio'r Uwch Dribiwnlys ar gyfer apeliadau yn sicrhau mynediad parhaus at farnwyr arbenigol gyda phrofiad o rai o'r awdurdodaethau cymhleth mae'r tribiwnlysoedd datganoledig yn delio â nhw. Byddai hefyd yn tarfu cyn lleied â phosibl: mae'r rhan fwyaf o'r gwaith apêl a gynhyrchir gan y tribiwnlysoedd eisoes yn cael ei wneud gan yr Uwch Dribiwnlys.

4.59 Fodd bynnag, mae anfanteision o ddefnyddio corff apeliadol sy'n gwasanaethu Cymru a Lloegr. Nid oes gan Lywodraeth Cymru reolaeth dros weithrediad y tribiwnlys; ac ni all Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru na'n Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd arfaethedig benderfynu beth ddylai rheolau gweithdrefnol y tribiwnlys fod. Yn hytrach, i'r graddau bod anghenion penodol ar gyfer defnyddwyr tribiwnlysoedd yng Nghymru, byddent yn parhau i gael eu cydbwyso yn erbyn anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd mewn mannau eraill.

4.60 Un o gymhlethdodau ychwanegol mabwysiadu'r Uwch Dribiwnlys fel yr unig awdurdodaeth apeliadol yw y byddai hyn yn golygu trosglwyddo i'r awdurdodaethau apeliadol sydd gan yr Uchel Lys ar hyn o bryd, gan greu, yn ôl pob tebyg, angen hyfforddiant i arfogi ei farnwriaeth i ddelio â ffrydiau ychwanegol o waith – er bod nifer yr apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig i'r Uchel Lys yn isel iawn ar hyn o bryd.

### Y Llys Gweinyddol yng Nghymru

4.61 O ystyried y diffyg cefnogaeth i'r dewis hwn a fynegwyd gan ymatebwyr, rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai trosglwyddo awdurdodaeth dros bob apêl o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru i'r Llys Gweinyddol yng Nghymru yn foddhaol.[82] Fodd bynnag, dylem hefyd ystyried y dadleuon a gyflwynwyd i ni yn erbyn trosglwyddo ei awdurdodaeth apeliadol bresennol i ffwrdd o'r llys hwnnw. Mae tri o'r tribiwnlysoedd datganoledig yn

[82] Paragraff 4.33 uchod.

cyfeirio eu hapeliadau i'r Uchel Lys ar hyn o bryd. Y rhain yw Tribiwnlys Prisio Cymru (mewn perthynas ag apeliadau treth gyngor), Tribiwnlys y Gymraeg a Phanel Dyfarnu Cymru.

4.62 Mae'r Panel Dyfarnu a'r Tribiwnlys Prisio wedi mynegi bod yn well ganddynt weld eu llwybrau apêl yn aros yr un fath.[83] Dadleuodd Panel Dyfarnu mai'r:

> drefn apelio briodol yn mynd i'r Uchel Lys ar gyfer yr awdurdodaeth hon oherwydd cymhlethdod y materion a ystyriwyd a'r angen i farnwr sydd â chymwysterau addas adolygu'r mater ar lefel uwch er mwyn ennill parch a delio â materion hawliau dynol.

4.63 Heb amheuaeth, mae'r achosion a glywir can Banel Dyfarnu Cymru yn rhai cymhleth, ac yn codi materion sy'n ymwneud â hawliau dynol. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein darbwyllo bod y ffactorau hynny'n eu gwneud yn anaddas i'w hystyried gan dribiwnlys apêl. Mae'r Uwch Dribiwnlys yn delio'n rheolaidd â materion hynod gymhleth a dadleuol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phenderfynu ar hawliadau hawliau dynol (er enghraifft, yn achos iechyd meddwl).

4.64 Wrth gwrs, mae'n bwysig sicrhau bod barnwr sydd â chymwysterau addas yn gwrando ar achosion. Credwn, fodd bynnag, y byddai gan Dribiwnlys Apêl dros Gymru farnwyr profiadol gyda'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i wrando ar y materion anodd y bydd Panel Dyfarnu Cymru yn dod ar eu traws. Os sefydlir Tribiwnlys Apêl i Gymru, byddem yn disgwyl i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru eistedd ar apeliadau (ac yn wir gwneud Argymhelliad i'r perwyl hwn ym Mhennod 5: gweler Argymhelliad 18). Y prif lwybr ar gyfer penodi i'r swydd honno yw bod ymgeiswyr wedi cael eu penodi naill ai i'r Uchel Lys neu'r Llys Apêl, sy'n golygu y byddai un o'r barnwyr yn y Tribiwnlys Apêl yn farnwr ar lefel uchel iawn.

### Tribiwnlys Apêl i Gymru

4.65 Yn wahanol i'r Uwch Dribiwnlys, dim ond y tribiwnlysoedd datganoledig y byddai Tribiwnlys Apêl Cymru yn eu gwasanaethu. Yn sgil hynny, byddai'n amodol ar Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd, a byddai'n cael ei weinyddu gan olynydd Uned Tribiwnlysoedd Cymru, yn hytrach na GLITEM. Mewn rhai ffyrdd, byddai felly'n fwy hyblyg ac yn gallu ymateb i anghenion yng Nghymru yn well na'r Uwch Dribiwnlys. Fodd bynnag, ni fyddai'n gallu gweithredu'n llwyddiannus oni bai ei fod yn gallu dibynnu ar farnwyr sydd â chymwysterau addas, sydd, yn ymarferol, yn debygol o olygu traws-docynnu barnwyr o'r Uwch Dribiwnlys presennol. Gall argaeledd y barnwyr hynny gyfyngu ar ei allu i, er enghraifft, i leihau amseroedd aros cyn i apeliadau gael eu gwrando.

4.66 Byddem yn disgwyl i'w aelodaeth gynnwys Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a fydd fel arfer naill ai'n farnwr presennol neu sydd wedi ymddeol yn yr Uchel Lys neu'r Llys Apêl. Drwy fod yn rhan o achosion, byddai'r Llywydd yn parhau i ddatblygu dealltwriaeth o weithrediadau'r tribiwnlysoedd mae'r Llywydd yn gyfrifol amdanynt ac yn chwarae rhan mewn penderfynu ar bwyntiau cyfreithiol anodd neu newydd, gan agor y posibilrwydd o ddatblygu llinellau newydd o gynsail yn y gyfraith yng Nghymru.

---

[83] Rydym yn trafod apelio ymlaen o'r Tribiwnlys Prisio yn adran nesaf y Bennod hon.

Wrth i ragor o ddeddfwriaeth gael ei phasio sy'n berthnasol yng Nghymru'n unig, gallai Tribiwnlys Apêl arwain y gwaith o ddehongli'r ddeddfwriaeth honno.

4.67 Un anhawster na ellir ei anwybyddu yw mai ychydig iawn o apeliadau a geir o'r tribiwnlysoedd datganoledig ar hyn o bryd; maent yn mynd bron yn gyfan gwbl i'r Uwch Dribiwnlys ac i raddau helaeth maent yn ymwneud â chyfraith sy'n gyffredin i Gymru a Lloegr. Byddai creu tribiwnlys apêl newydd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol o amser ac adnoddau i ddelio â nifer fach iawn o achosion. Gallai creu tribiwnlys sy'n gwrando ar ddim ond llond llaw o apeliadau, ac sy'n dibynnu ar farnwyr yr Uwch Dribiwnlys sy'n cael eu traws-docynnu, olygu dim mwy na dyblygu'r system bresennol.

### Arallgyfeirio mewn cyfraith achosion

4.68 Roedd nifer o'r ymatebwyr yn poeni y byddai creu Tribiwnlys Apêl newydd i Gymru yn arwain at ddargyfeirio cyfraith achosion rhwng tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, mewn meysydd lle'r oedd y tribiwnlysoedd yn cymhwyso'r un ddeddfwriaeth. Fe wnaethom nodi dau fath o bryder. Y cyntaf oedd y byddai'r sefyllfa'n mynd yn rhy gymhleth; byddai'n rhaid i ddefnyddwyr y tribiwnlysoedd fod yn ymwybodol bod posibilrwydd o wahaniaethau.

4.69 Yr ail bryder oedd ei fod yn annymunol ynddo ei hun cael gwahaniaeth mewn dwy gyfundrefn sydd wedi eu seilio ar yr un ddeddfwriaeth. Er enghraifft, dadleuodd Cymdeithas y Gyfraith yn erbyn symud i ffwrdd o'r Uwch Dribiwnlys mewn perthynas â'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl:

> oherwydd ei awdurdodaeth ddyrys (e.e. amddifadu o ryddid a thriniaeth orfodol) *a natur annymunol unrhyw wahaniaethu trawsffiniol mewn amddiffyniadau hawliau dynol* (pwyslais wedi ei ychwanegu).

4.70 Nid ydym wedi ein darbwyllo bod y risg o wahaniaethau mewn cyfraith achosion yn rheswm digonol i atal creu Tribiwnlys Apêl i Gymru. Fel y nodir uchod, bydd egwyddorion arferol cynsail yn golygu bod y tribiwnlys yn debygol o drin penderfyniadau'r Uwch Dribiwnlys presennol fel rhai sy'n dwyn perswâd, os nad yn gwbl rwymol. Byddai'n agored i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyhoeddi canllawiau a allai ddarparu perthynas agosach rhwng cyfraith achosion mewn tribiwnlysoedd penodol, os credir bod hynny'n angenrheidiol.

4.71 Mae'n wir y bydd yr angen i wirio cyfraith achosion Tribiwnlys Apêl Cymru yn ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod at y gyfraith. Fodd bynnag, nid ydym wedi'n darbwyllo bod ymwybyddiaeth o'r gyfraith achosion hon yn alw afresymol ar ddefnyddwyr tribiwnlysoedd datganoledig. Yn eu hanfod, mae'r gyfraith sy'n cael ei defnyddio yn y tribiwnlysoedd hyn wedi ei datganoli. Mewn rhai mannau, bydd yr un fath ag yn Lloegr; mewn mannau eraill ni fydd hynny'n wir. Gan y bydd yn rhaid i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ddilysu'r sefyllfa gyfreithiol yn barod, mae hefyd yn gam bach ychwanegol i wirio cyfreitheg gan Dribiwnlys Apêl yng Nghymru.

4.72 Mae pwynt ar wahân yn codi mewn perthynas â'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl. Mae Cymdeithas y Gyfraith a'r tribiwnlys ei hun wedi dadlau, oherwydd bod cleifion yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, bod angen defnyddio'r un lleoliad apeliadol. Nodwn ei bod eisoes yn ofynnol i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd wneud cais naill ai i'r Tribiwnlys

Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) neu i'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, a bod Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn nodi pa un yw'r dewis cywir mewn nifer o sefyllfaoedd.[84] Nid ydym wedi ein hargyhoeddi y bydd creu lleoliad apêl ychwanegol yn ychwanegu'n fawr at y broses o roi'r system ar waith ar hyn o bryd, yn enwedig pan fydd tribiwnlys y tro cyntaf yn gallu cyfeirio apelwyr at y lleoliad cywir.

## Casgliad

4.73 Rydym yn argymell y dylai deddfwriaeth sy'n creu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru hefyd ddarparu ar gyfer Tribiwnlys Apêl i Gymru, ynghyd â phŵer Gweinidogion Cymru i greu siambrau'r tribiwnlys apêl a dyrannu gwaith i'r tribiwnlys drwy offeryn statudol. Nid ydym o'r farn ein bod ni mewn sefyllfa i wneud argymhellion pendant ynghylch trosglwyddo gwaith apêl i'r Tribiwnlys. Y rheswm am hyn yw nad ydym yn gallu rhagweld sut bydd swm y gwaith sy'n addas ar gyfer tribiwnlys apêl yn datblygu.

4.74 Gallwn ragweld nifer o ffynonellau posibl o waith ychwanegol ar gyfer system y tribiwnlysoedd. Er enghraifft, rydym yn ymwybodol o oddeutu ugain o lwybrau apelio mewn tribiwnlysoedd sydd ar hyn o bryd yn berthnasol i Dribiwnlys Haen Gyntaf y Deyrnas Unedig yn sgil penderfyniadau a wneir o dan gyfraith ddatganoledig. Pe bai rhai neu'r cyfan o'r rhain yn cael eu hailgyfeirio i Dribiwnlys Haen Gyntaf yng Nghymru, gallent arwain at apeliadau pellach. Mae meysydd posibl eraill lle gallai cyfraith Cymru ehangu, a hawliau apelio cyfatebol mewn tribiwnlysoedd o ganlyniad, yn cynnwys tai, cyfraith amgylcheddol a threthiant lleol. Cafwyd argymhelliad hefyd (a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru) y gallai heriau yn sgil penderfyniadau'r asesydd diogelu'r amgylchedd (y disgwylir iddynt gael eu rhoi ar waith yn 2022) gael eu gwrando yn yr Uwch Dribiwnlys;[85] gallai'r rhain, a heriau tebyg, gael eu gwrando gan Dribiwnlys Apêl yng Nghymru.

4.75 Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r ffynonellau gwaith newydd posibl hyn ar gamau cynnar eu datblygiad. Yn ein barn ni, bydd angen rhywfaint o hyder y bydd y system tribiwnlysoedd yn tyfu cyn y gellir cyfiawnhau sefydlu Tribiwnlys Apêl i Gymru. Rhagwelwn y byddai hynny'n golygu cynlluniau cadarnach ar gyfer ehangu'r system tribiwnlysoedd, gan ychwanegu awdurdodaethau newydd.

4.76 Rydym felly'n argymell bod Llywodraeth Cymru yn deddfu ar gyfer creu Tribiwnlys Apêl i Gymru ochr yn ochr â'r argymhellion eraill sydd yn y papur hwn, ond gyda'r bwriad o ddod â'r darpariaethau hynny i rym a sefydlu tribiwnlys pan fydd gan Lywodraeth Cymru ddarlun cliriach o sut mae'r system tribiwnlysoedd yn debygol o ddatblygu. Dylai'r ddeddfwriaeth gynnwys pwerau i drosglwyddo awdurdodaethau i'r Tribiwnlys Apêl (ac o bosibl i greu siambrau ar gyfer y tribiwnlys, er ein bod yn amau na fyddai angen defnyddio'r pwerau hyn am beth amser). Byddai Llywodraeth Cymru wedyn yn gallu dod â Thribiwnlys Apêl Cymru i fodolaeth a'i roi ar waith pan fydd hynny'n briodol.

---

84 Deddf Iechyd Meddwl 1983, adran 77.

85 Grŵp Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol, *Trefniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd* (Mawrth 2020), paragraff 3.3.9; a *Gweinidogion Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Adroddiad gan Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid Llywodraethu Amgylcheddol* (Tachwedd 2020). Gweler https://llyw.cymru/ymateb-ir-adroddiad-gan-grwp-gorchwyl-rhanddeiliaid-llywodraethu-amgylcheddol

4.77 Rydym yn disgwyl y bydd awdurdodaethau'n cael eu trosglwyddo'n raddol i'r Tribiwnlys Apêl. Un egwyddor a ddylai arwain y trosglwyddo hwnnw yw i ba raddau mae'r awdurdodaeth yn ymwneud â chymhwyso cyfraith Cymru. Gallai hyn ganiatáu i dribiwnlysoedd sy'n delio'n bennaf mewn awdurdodaethau a rennir barhau i elwa ar gael yr Uwch Dribiwnlys yn gwrando eu hapêl wrth i Dribiwnlys Apêl Cymru gael ei sefydlu.

4.78 Rydym wedi ystyried awgrym Huw Williams y dylid symud rhai tribiwnlysoedd adran 59 presennol i'r Tribiwnlys Apêl. Nid ydym yn argymell hyn. Ni fyddai heb gynsail i'r Tribiwnlys Apêl gael rhywfaint o awdurdodaeth wreiddiol; mae'n bodoli, yn benodol, yn Siambr Tiroedd yr Uwch Dribiwnlys. Fodd bynnag, ystyriwn swyddogaeth Tribiwnlys Apêl fel penderfynu ar apeliadau o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn hytrach nag yn uniongyrchol oddi wrth y rhai sy'n gwneud penderfyniadau gweithredol. Byddai bodolaeth gyfochrog awdurdodaeth wreiddiol yn creu cymhlethdod ac yn cael gwared ar y posibilrwydd o ymdrin ag apeliadau sy'n deillio o benderfyniadau o'r fath o fewn system y tribiwnlys.

4.79 Yn y cyfnod interim, credwn fod camau y gellid eu cymryd i wella'r Uwch Dribiwnlys fel lleoliad ar gyfer apeliadau o dribiwnlysoedd datganoledig. Gallai'r rhain gynnwys sicrhau bod pob gwrandawiad yn cael ei gynnal yng Nghymru, ac o bosibl penodi Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i fod yn farnwr yn yr Uwch Dribiwnlys. Byddai hynny'n caniatáu i'r Llywydd eistedd ar apeliadau o arwyddocâd arbennig i'r tribiwnlysoedd datganoledig, ac o bosibl gael mewnbwn ar ddatblygu llinellau cyfraith achosion Cymru.[86]

**Argymhelliad 11.**

4.80 Rydym yn argymell y dylai deddfwriaeth greu Tribiwnlys Apêl i Gymru.

**Argymhelliad 12.**

4.81 Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer drwy offeryn statudol i sefydlu siambrau'r Tribiwnlys Apêl ac i drosglwyddo awdurdodaeth apeliadol iddo.

86 Mae'r Llywydd presennol yn farnwr Uchel Lys sydd wedi ymddeol. O'r herwydd, deallwn y byddai'n gymwys i gael ei benodi ar ôl ymddeol fel dirprwy farnwr yr Uwch Dribiwnlys dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 adran 94B.

**Argymhelliad 13.**

4.82 Rydym yn argymell y dylai Tribiwnlys Apêl Cymru, yn niffyg rheswm cadarnhaol dros ddarpariaeth wahanol, fod yn ganolfan apelio ar gyfer apeliadau gan Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

## TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

4.83 Fel y trafodwyd ym mharagraff 4.66 y Papur Ymgynghori,[87] mae apeliadau pellach o'r Tribiwnlys Prisio naill ai'n mynd i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol (yn achos apeliadau treth gyngor), neu i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) ar gyfer apeliadau ardrethu annomestig.[88]

4.84 Yn unol â'n hawgrymiadau eraill i symleiddio'r system, yng Nghwestiwn Ymgynghori 19, gofynnom am farn ymatebwyr ynghylch a ddylid cael un llwybr apêl gan y Tribiwnlys Prisio ar gyfer apeliadau ardrethu a threth gyngor ac, os felly, beth ddylai'r llwybr apelio hwnnw fod.

4.85 Atebodd un deg pedwar o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd 11 ohonynt o blaid mabwysiadu un llwybr apêl o Dribiwnlys Prisio Cymru. O'r 11 a oedd o blaid, roedd saith o'r farn y dylai'r llwybr fod at Dribiwnlys Apêl newydd i Gymru, gydag un o blaid yr Uwch Dribiwnlys, a'r tri arall heb nodi llwybr.

4.86 Roedd llawer o'r rhai a oedd o blaid uno'r llwybrau apêl o'r farn y byddai hyn yn fwy syml. Dywedodd Cylchdaith Cymru a Chaer, er enghraifft:

> O gofio bod ymgyrch i uno'r broses apelio, er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch, yn gyson ac yn ddealladwy, mae'n ymddangos bod gennym broses ar wahân. Cytunwn felly y dylid cael un llwybr, ac y dylai hwnnw arwain at Dribiwnlys Apêl Cymru (Siambr Tiroedd). Mae cyfle yn awr i symleiddio'r dull gweithredu, a dylid gwneud hynny. Mae angen symleiddio'r system apeliadau.

4.87 Dyma sylwadau Roger Handy:

> Yr unig gyfiawnhad y gallaf ei weld dros gael llwybrau gwahanol ar gyfer prisio (graddau annomestig) a'r Dreth Gyngor yw y gall apeliadau graddau annomestig fod ar sail myrdd o bethau, ond mae apeliadau Treth Gyngor wedi eu cyfyngu i bwyntiau cyfreithiol. Ystyriaf y gallai Uwch Dribiwnlys ddelio'n effeithiol â'r ddau.

4.88 Fodd bynnag, dadleuodd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru y dylai'r llwybrau apêl presennol barhau i fodoli, ond y dylid cyfeirio apeliadau yn erbyn prisio eiddo ar gyfer y dreth gyngor at yr Uwchribiwnlys (Siambr Tiroedd). Byddai hynny'n

---

[87] Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (2020) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith 251, paragraff 4.66.

[88] Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru Offeryn Statudol 2010 Rhif 713 (Cy. 69), rheoliad 44(1) a Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Cymru) Offeryn Statudol 2005 Rhif 758 (Cy. 63), rheoliad 37.

golygu ymestyn yr hawliau presennol i apelio, sydd, yn achos y dreth gyngor, wedi eu cyfyngu ar hyn o bryd i apeliadau ar bwynt cyfreithiol. Nid oedd Roger Handy chwaith yn gweld “llawer o resymau pam mae apeliadau [treth gyngor] wedi eu cyfyngu i bwynt cyfreithiol”.

4.89 Nododd Noel Edwards, cynghorydd technegol sydd wedi ymddeol o’i waith yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio, fod y broses o rannu apeliadau pellach rhwng yr Uchel Lys a’r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) yn dal i fodoli yn y Tribiwnlys Prisio yn Lloegr.

### Trafodaeth

4.90 Ym Mhennod 3, rydym yn argymell y dylid cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru mewn Tribiwnlys Haen Gyntaf unedig i Gymru. O ganlyniad, rydym o'r farn y dylid ystyried y llwybr apêl o Siambr Brisio’r tribiwnlys newydd ynghyd ag apeliadau o’r siambrau eraill. Mae atyniad un llwybr apêl yn amlwg. Sylwn yn y cyswllt hwn, er bod apeliadau o Dribiwnlys Prisio Lloegr yn dal i gael eu rhannu rhwng yr Uchel Lys a’r Uwch Dribiwnlys, bod Comisiwn y Gyfraith yn y gorffennol wedi argymell y dylai Tribiwnlys Prisio Lloegr gael ei ddwyn i mewn i’r system dribiwnlysoedd, gyda phob apêl (gan gynnwys mewn perthynas â’r dreth gyngor) yn mynd i’r hyn a oedd bryd hynny’n Dribiwnlys Tiroedd.[89]

4.91 Gwelwn fanteision ailgyfeirio apeliadau o siambr brisio i Dribiwnlys Apêl newydd i Gymru, wedi ei ategu gan y ffaith bod y rhan fwyaf o’r ymatebwyr o'r farn y dylid cael un llwybr apelio. Nid oes gan yr Uchel Lys unrhyw arbenigedd penodol mewn apeliadau treth gyngor, ac ymddengys i ni fod rhinwedd mewn creu llwybr apêl mewn perthynas â phrisio eiddo at ddibenion y dreth gyngor, ac nad yw’r Uwch Dribiwnlys yn meddu ar hynny ar hyn o bryd. Nid ydym yn gwneud argymhelliad ffurfiol i’r perwyl hwn gan ein bod ni o’r farn mai’r peth gorau yw i Lywodraeth Cymru benderfynu ar lwybro apeliadau i Dribiwnlys Apêl yng Nghymru.

## PWYLLGORAU ASESU RHENTI – CANIATÂD I APELIO

4.92 Nododd y Papur Ymgynghori anghysondeb mewn perthynas ag apeliadau rhwng gwahanol dribiwnlysoedd cyfansoddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Er bod apeliadau o dribiwnlysoedd eiddo preswyl a thribiwnlysoedd prisio lesddaliadau yn gofyn am ganiatâd i apelio, nid yw apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti angen caniatâd. O ganlyniad, fe wnaethom gynnig dros dro y dylai apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti fod angen caniatâd i apelio.

4.93 O’r 16 a ymatebodd i’r cwestiwn hwn yng Nghwestiwn Ymgynghori 20, roedd 15 yn cytuno â’n cynnig dros dro. Fe’i disgrifiwyd fel ‘cynnig rhesymegol a synhwyrol’ gan Gymdeithas y Gyfraith, a dywedodd Dr Angela Ash ei bod hi wedi cael trafferth deall pam bod gwahaniaeth ar hyn o bryd.

4.94 Rydym yn argymell ym Mhennod 3 y dylai’r Tribiwnlys Eiddo Preswyl gael ei gyfuno â’r Tribiwnlys Tir Amaethyddol i ffurfio Siambr Eiddo (gweler Argymhelliad 9). O

---

89 Land, Valuation and Housing Tribunals: The Future (2002) Law Com No 218, para 2.6. https://s3-eu-west-2.amazonaws.com/lawcom-prod-storage-11jsxou24uy7q/uploads/2015/03/lc281_Land_Valuation_and_Housing_Tribunals_The_Future.pdf

ganlyniad, rydym yn rhagweld y bydd y Siambr Eiddo yn ymrwymedig gan yr un rheolau â siambrau eraill mewn perthynas ag apeliadau, gan gynnwys y gofyniad am ganiatâd.

**Argymhelliad 14.**

4.95 Rydym yn argymell y dylai apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti fod angen caniatâd.

## PANELI APÊL DERBYN I YSGOLION

### Awdurdodaeth apeliadol i Dribiwnlys Addysg Cymru

4.96 Ym Mhennod 3 rydym yn egluro'r rhesymeg dros gyfuno awdurdodaeth y paneli apêl gwaharddiadau ysgolion ag awdurdodaeth Tribiwnlys Addysg Cymru, ond bod paneli apêl derbyn i ysgolion yn parhau i gael eu trefnu'n lleol.[90] Ar hyn o bryd nid oes llwybr apêl fel y cyfryw o'r paneli hynny. Yn hytrach, gall ymgeiswyr gwyno i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[91] neu i Weinidogion Cymru,[92] neu ddod ag adolygiad barnwrol.

4.97 Yn y Papur Ymgynghori, gofynnwyd a ddylid cael llwybr newydd i apelio ymhellach o'r paneli hyn i TAAAC (a ailenwyd yn ddiweddarach yn Dribiwnlys Addysg Cymru). Roedd Cwestiwn Ymgynghori 17 yn gofyn a ddylai apeliadau o baneli apêl derbyn i ysgolion fynd i TAAAC ac, os felly, ar ba sail. O'r 26 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd mwyafrif bychan (15) yn cytuno y dylai apeliadau o baneli apêl derbyn i ysgolion fynd i TAAAC, roedd pump yn anghytuno, ac roedd chwech yn cynnig atebion eraill.

#### Barn o blaid creu awdurdodaeth apeliadol

4.98 Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'n barn dros dro yn teimlo bod y trefniadau presennol yn anfoddhaol; cawsant eu disgrifio gan Gylchdaith Cymru a Chaer a Chyngor y Bar fel rhai 'anhylaw, aneglur ac yn defnyddio gormod o amser ar adeg pan fo natur y penderfyniad yn cael ei gwestiynau - mae amser yn hanfodol.'

4.99 Esboniodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei farn bod hon yn llwybr apelio priodol gan y byddai'n 'darparu dull gweithredu cyson ac yn goruchwylio'r broses o wneud penderfyniadau'. Roedd Richard Payne hefyd o blaid y llwybr hwn, er mwyn cysondeb.

4.100 Nododd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio hefyd y byddai hyn yn "ffordd fwy hygyrch o apelio ... yn fecanwaith llawer mwy priodol nag adolygiad barnwrol".

---

90 Gweler paragraffau 3.55 i 3.11 uchod.

91 Dim ond os yw'r ffordd yr ymdriniwyd â'r apêl yn cynnwys camweinyddu y gall yr Ombwdsmon ymyrryd.

92 *Cod Apelau Derbyn i Ysgolion* Llywodraeth Cymru, (cyhoeddwyd Rhagfyr 2013) Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf, paragraff 6.14 sy'n egluro na all Gweinidogion Cymru adolygu na gwyrdroi penderfyniadau paneli apelio annibynnol unigol ond gallant ystyried a ydynt am arfer eu pwerau ymyrryd mewn amgylchiadau penodol.

4.101 Cytunodd Cyngor y Bar, Cylchdaith Cymru a Chaer a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod angen llwybr apêl, ond roeddent o'r farn y byddai Tribiwnlys Apêl i Gymru yn lleoliad mwy priodol.

4.102 Roedd Dr Sarah Nason ac Anne Sherlock, cyn gymrawd ymchwil ym Mhrifysgol Bangor, yn fwy cefnogol i'r llwybr apêl arfaethedig fel mesur dros dro, nag fel ateb parhaol:

> Er bod anghysondeb rhesymegol yn y gwahanol driniaeth sy'n cael ei chynnig ar gyfer paneli apêl derbyn a phaneli apêl gwaharddiadau, os nad yw awdurdodaeth paneli apêl derbyn yn cael ei throsglwyddo i TAAAC, gallwn weld y byddai gwneud darpariaeth ar gyfer apeliadau o baneli apêl derbyn i TAAAC yn cyflwyno elfen o oruchwyliaeth farnwrol lle nad oes un ar hyn o bryd. Ar y llaw arall, byddai'r problemau a nodwyd ym mharagraff 3.125 y Papur Ymgynghori ynghylch crynhoi apeliadau ym mis Ebrill – Mai yn berthnasol hefyd: byddai apeliadau o'r paneli i TAAAC hefyd yn cael eu crynhoi yn y cyfnod rhwng diwedd y Gwanwyn a dechrau'r haf. Pe bai hyn yn cael ei reoli drwy gyfyngu ar yr hawl i apelio, po fwyaf yw'r cyfyngiadau ar yr hawl i apelio o banel i TAAAC, y mwyaf fyddai'r oruchwyliaeth farnwrol a fyddai'n cael ei darparu gan TAAAC.
>
> Mae paragraff 3.129 o'r Papur Ymgynghori'n awgrymu bod y cynnig yn cael ei ddatblygu fel cam dros dro ar y ffordd i drosglwyddo awdurdodaeth y paneli apêl i'r tribiwnlys, gan ganiatáu i'r tribiwnlys gael profiad o'r achosion hyn heb orfod ysgwyddo'r baich llawn o waith y paneli. Rydym o'r farn bod hwn yn ddull pragmatig a byddem yn tueddu i fod yn fwy cefnogol i'r cynnig fel mesur dros dro yn hytrach nag fel canlyniad terfynol.

### Barn yn erbyn creu awdurdodaeth apeliadol dros Dribiwnlys Addysg Cymru

4.103 O'r pedwar ymatebydd a oedd yn anghytuno â'n cynnig dros dro i greu awdurdodaeth apeliadol ar gyfer TAAAC, roedd tri yn awdurdodau lleol ac un yn aelod o banel apeliadau ysgolion.

4.104 Roedd cynghorau Sir Benfro a Chaerdydd o'r farn bod y ffyrdd presennol o wneud iawn yn ddigonol, ac felly nad oedd angen llwybr apêl ychwanegol. Roedd Cyngor Abertawe yn gwrthwynebu'r ffaith:

> y bydd y diwygiadau arfaethedig yn arwain at berygl o ymddieithrio oddi wrth addysg drwy gael proses sy'n cymryd mwy fyth o amser, gyda llwybr apelio hirach, ac sy'n niweidiol i addysg plant.

4.105 Rhoddodd Cyfraith Gyhoeddus Cymru ymateb gofalus, gan awgrymu y gallai apêl gael ei chyfeirio at Dribiwnlys Apêl yng Nghymru:

> O ran apeliadau, ni fyddai eithrio paneli apêl awdurdodau lleol, i ddechrau o leiaf, rhag integreiddio'n llawn i system tribiwnlysoedd Cymru drwy drosglwyddo eu swyddogaethau i Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru (gweler isod) yn golygu na fyddai darpariaeth ar gyfer hawl i apelio, ar fater cyfreithiol, o'r paneli hyn i Uwch Dribiwnlys arfaethedig Cymru (eto, gweler isod). Hyd yn oed yn hyn o beth mae'r Gymdeithas yn pwysleisio, fodd bynnag, yr angen i ystyried goblygiadau ymarferol cam o'r fath yn ofalus, er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol. Mae heriau

i benderfyniadau anghyfreithlon paneli, drwy adolygiad barnwrol, yn digwydd ar hyn o bryd a gallant ddarparu ateb cyflym ac effeithiol, a byddai'n eironig pe bai newid a fwriedir i gynyddu mynediad at gyfiawnder yn cael yr effaith groes i hynny oherwydd, er enghraifft, hawliau gwahaniaethol i gymorth cyfreithiol rhwng achosion a ddilynir yn yr Uchel Lys ac mewn achos Cymreig newydd sy'n cyfateb i'r Uwch Dribiwnlys presennol.

4.106 Ar y llaw arall, dywedodd Cyngor Sir Ddinbych wrthym:

> Ein barn ni yw y gallai cadw apeliadau derbyn ar lefel leol a rhoi hawl i apelio i TAAAC yn ddiweddarach arwain at ail hawl i apelio o TAAAC i'r Uwch Dribiwnlys neu'r hyn sy'n cyfateb iddo – mae'n amlwg na ddylai hyn fod yn bosibl.

4.107 Roedd rhai ymatebwyr a atebodd "arall" yn cytuno mewn egwyddor â hawl i apelio, ond yn rhybuddio y gallai hyn greu ymchwydd mewn gwaith a straen ar adnoddau ar adegau penodol o'r flwyddyn, oherwydd natur dymhorol yr apeliadau.

### Sail yr apêl

4.108 Roedd llai o ymatebwyr yn mynd i'r afael yn benodol â'r cwestiwn ynghylch sail yr apêl yn eu hateb. Esboniodd y Gwasanaeth Addysg Catholig yn fanwl fanteision cyfyngu ar sail yr apêl:

> Ein barn ni yw y dylai'r seiliau dros apelio fod yn gyfyngedig gan ei bod yn bwysig, er budd addysg plant, bod mater lleoedd ysgol yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y bo modd. Mae caniatáu apeliadau pellach dim ond lle mae'r seiliau dros apelio yn glir a lle gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw apêl yn debygol o fod yn llwyddiannus ai peidio yn bwysig er mwyn sicrhau parhad addysg plant. Ein dewis fyddai i'r unig lwybr apêl fod yn seiliedig ar afreoleidd-dra trefniadol neu gamweinyddu yn y ffordd y trefnwyd neu y cynhaliwyd yr apêl, yn hytrach nag unrhyw annhegwch yn y penderfyniad a wnaed. Yn ogystal, byddai angen ystyried ymhellach ganlyniadau posibl unrhyw apêl - er enghraifft, a fydd angen cynnal apêl newydd ai peidio.
>
> Yn ein profiad ni, mae apeliadau sy'n ymwneud â phenderfyniad paneli apeliadau derbyn yn brin a byddem yn rhybuddio rhag agor unrhyw lwybr apêl a fyddai'n annog mwy o achosion, gan fod achosion o'r fath yn arwain at ansicrwydd i blant a rhieni, a chostau a tharfu ar ysgolion.

4.109 Er ei fod yn cytuno y byddai angen gwneud penderfyniadau ar apeliadau yn gyflym, dadleuodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y dylai'r seiliau dros apelio fod yn ehangach na'r rhai a awgrymwyd gan y Gwasanaeth Addysg Catholig:

> Yn fy marn i, dylai unrhyw hawl apelio o'r fath fod yn ddigon eang i ganiatáu i TAAAC ystyried amgylchiadau unigol y plentyn a'r effaith y gallai gwrthod lle mewn ysgol ei chael ar y plentyn unigol, gan gydbwyso hawliau eraill yn yr ysgol. Gan fod angen penderfyniadau amserol, mae'n hanfodol, os cyflwynir unrhyw broses apelio o'r fath, bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn brydlon fel na fyddant yn cael effaith andwyol ar sefyllfa'r plentyn.

4.110 Roedd Syr Wyn Williams o blaid 'hawl i apelio ar sail teilyngdod gyda chaniatâd y panel neu'r corff apeliadol'.

4.111 Datgelodd atebion eraill raniad rhwng y rhai a gredai mai dim ond ar bwynt cyfreithiol y dylid caniatáu apeliadau, a'r rhai a gredai y dylid caniatáu apêl ar sail ffeithiol hefyd. Roedd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio, Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar a Richard Payne i gyd o blaid caniatáu apeliadau ar sail ffaith a chyfraith.

4.112 Credai Keith Bush CF, yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, y dylid cael apêl ar bwynt cyfreithiol yn unig (gan nodi y byddai hyn, wrth gwrs, yn cynnwys diffygion gweithdrefnol difrifol a fyddai'n tanseilio canfyddiadau ffeithiol y partïon). At ei gilydd, roedd Cyngor Sir Penfro yn gwrthwynebu cyflwyno'r hawl i apelio, ond credai y dylai gael ei gyfyngu i apêl ar bwynt cyfreithiol os bydd yr hawl i apelio yn cael ei gyflwyno. Fel y nodwyd uchod, roedd Cyfraith Gyhoeddus Cymru yn rhagweld apêl yn yr Uwch Dribiwnlys, wedi ei chyfyngu i bwyntiau cyfreithiol.

### Seiliau dros apelio ymlaen o'r Tribiwnlys Addysg

4.113 Petai llwybr apêl yn cael ei gyflwyno o baneli apêl derbyn i ysgolion i Dribiwnlys Addysg Cymru, yna byddai unrhyw apêl bellach gan y Tribiwnlys hwnnw i'r Uwch Dribiwnlys (neu, yn ein cynllun arfaethedig, o Siambr Addysg y Tribiwnlys Haen Gyntaf) yn ail apêl. Fel arfer, dim ond am resymau cyfyngedig y gellir gwneud y rhain. O ganlyniad, roeddem yn gofyn am farn ynghylch a ddylid cyfyngu'r apeliadau pellach hyn i achosion sy'n codi rhyw bwynt pwysig o ran egwyddor neu ymarfer, neu lle mae rheswm cryf arall dros wrando ar yr apêl (h.y. yr 'prawf ail apêl' ).

4.114 O'r 20 ymatebydd, roedd 15 yn cytuno â chyfyngu apeliadau pellach i'r achosion hynny a oedd yn bodloni'r prawf 'ail apeliadau'. Credai Cyngor Dinas Caerdydd y dylai'r seiliau fod yn ddigonol gyfyngedig i atal 'agor y llifddorau' i apeliadau gan rieni a disgyblion a oedd wedi cael eu siomi.

4.115 Dadleuodd eraill y dylai prawf ychydig yn ehangach fod yn berthnasol. Roedd Cylchdaith Cymru a Chaer o blaid cyfyngu ar apeliadau pellach, ac awgrymodd y dylai'r ffactorau penderfynol dros apelio gynnwys 'ffeithiau arwyddocaol, pwyntiau o egwyddor, pwyntiau ymarfer, pwyntiau cyfreithiol a/neu ryw reswm cryf arall'.

4.116 Roedd Cyngor y Bar o blaid creu Tribiwnlys Apêl i Gymru, ac roedd o'r farn y dylai apeliadau i'r tribiwnlys hwnnw gael eu trin yn gyson, a'u caniatáu ar bwynt cyfreithiol:

> Os... bydd y llwybr apêl yn mynd i TAAAC yn gyntaf ac yna i Dribiwnlys Apêl Cymru, rydym o'r farn y dylai TAAAC gael y gallu i adolygu ei benderfyniad ei hun... ac y dylai pob apêl (nid dim ond o'r siambr hon) i Dribiwnlys Apêl Cymru fod yn gyson o ran y safon a Seiliau'r Apêl. Dylai apeliadau o benderfyniadau paneli apêl derbyn i ysgolion (gan gymryd bod adolygiad gan y panel hwnnw wedi bod yn aflwyddiannus) fynd ymlaen i TAAAC, a dylai apêl o'r fath, i bob pwrpas, fod yn ail-benderfyniad.
>
> Dylai TAAAC, yn debyg i Dribiwnlys Haen Gyntaf yn Lloegr, allu adolygu ei benderfyniad ei hun. Dylid cyfyngu apêl o TAAAC i Dribiwnlys Apêl Cymru i bwynt cyfreithiol. Ar ben hynny, mae angen bod yn drylwyr gyda'r broses apelio. Dylid cymhwyso'r safon a gynigir, wedi ei chyfyngu i 'achosion sy'n codi rhyw bwynt pwysig o ran egwyddor neu ymarfer, neu lle mae rheswm cryf arall dros wrando ar yr apêl', i apeliadau o'r Tribiwnlys Apêl (yn debyg i apeliadau o'r Uwch Dribiwnlys), ac nid i apeliadau o TAAAC.

4.117 Credai Richard Payne hefyd y dylid caniatáu apeliadau pellach ar unrhyw bwynt cyfreithiol, yn hytrach na chael eu cyfyngu i achosion sy'n bodloni'r prawf ail apêl.

## Trafodaeth

4.118 Mae dod o hyd i’r ateb cywir mewn perthynas ag apeliadau o baneli apêl derbyn wedi bod yn anodd. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod y ffyrdd o wneud iawn yn gyfyngedig iawn ar hyn o bryd, gan ei gwneud yn anodd asesu beth yw’r angen am lwybr ychwanegol. Fodd bynnag, rydym yn dal o’r farn ei bod yn anrheolaidd nad oes gan bartïon i apeliadau derbyn hawliau apelio ffurfiol, ac yn hytrach bod rhaid iddynt droi at adolygiad barnwrol neu at gŵyn i Weinidogion Cymru neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu’n llwyr â mathau eraill o hawliadau yn y maes addysg a glywir gan y Tribiwnlys gyda’r posibilrwydd o apelio ymlaen, a’r egwyddorion y tu ôl i baneli apeliadau derbyn yn gyffredinol. Maent yn ymgorffori ymrwymiad i gyfiawnder lleol, effeithiol ac amserol.[93] Fodd bynnag, nid yw’r egwyddor honno’n cael ei throsglwyddo i gam apeliadol.

4.119 Un ateb fyddai cynnwys y paneli derbyn mewn siambr addysg o fewn tribiwnlys unedig. Rydym wedi gwrthod y posibilrwydd hwn gan ein bod yn gweld manteision pwysig i’r system bresennol. Mae’n galluogi awdurdodau derbyn i ddefnyddio gwirfoddolwyr sy’n gyfarwydd â’u system addysg leol ac yn ac ymrwymedig iddi, ac fyddai’n gallu ymdopi â’r cynnydd blynyddol mewn achosion ym mis Ebrill/Mai.

4.120 O ganlyniad, rydym yn argymell cadw cymeriad lleol y paneli apêl derbyn, ynghyd â hawl i apelio i’r hyn a elwir yn Dribiwnlys Addysg Cymru ar hyn o bryd (ac a fyddai, yn y dyfodol, yn siambr addysg i Dribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru).

### Seiliau apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru

4.121 Un o’r cwestiynau allweddol ar gyfer unrhyw lwybr apêl newydd yw sail yr apêl honno. Mae’r posibiliadau’n amrywio o ailwrandawiad llawn, lle cyflwynir y dystiolaeth a’r dadleuon o’r newydd, i apêl a gyfyngir i bwynt cyfreithiol. Caiff swyddi canolradd eu llenwi gan ailwrandawiad heb dystiolaeth newydd a thrwy “adolygiad”, fel y darperir ar ei gyfer gan y Rheolau Trefniadaeth Sifil sy’n berthnasol i apeliadau i’r Uchel Lys, y Llys Sirol ac Adran Sifil y Llys Apêl.[94] Mewn adolygiad, mae’r rheolau’n esbonio y bydd llys apêl yn caniatáu apêl os yw’r penderfyniad neu’r llys is yn ‘anghywir; neu’n anghyfiawn oherwydd anghysondeb gweithdrefnol difrifol neu anghysondeb arall yn yr achos yn y llys is.’[95] Fel arfer, ni fydd y llys apêl yn derbyn tystiolaeth nad oedd gerbron y llys is.[96]

4.122 Yn ymarferol, fodd bynnag, mae’n bosibl mai ychydig o wahaniaeth sydd rhwng adolygiad ac ailwrandawiad nad yw’n cynnwys tystiolaeth newydd. Yn *Meadow v y*

---

93 Mae’r Cod Apelau Derbyn, paragraff 1.9, yn pwysleisio bod ‘paneli apêl yn cyflawni swyddogaeth farnwrol a rhaid iddynt gymhwyso egwyddorion cyfiawnder naturiol’.

94 Rheolau Trefniadaeth Sifil, rheol 52.1(1) a rheol 52.21(1). Dywed yr olaf y ‘bydd pob apêl yn cael ei chyfyngu i adolygiad o benderfyniad y llys is’. Mae gan y rheol hon ddau eithriad, lle mae ‘cyfarwyddyd ymarfer yn gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer categori penodol o apêl’ neu ‘lle mae’r llys o’r farn, mewn amgylchiadau apêl unigol, y byddai cynnal ailwrandawiad er budd cyfiawnder.’

95 Rheolau Trefniadaeth Sifil, rheol 52.21(3).

96 Rheolau Trefniadaeth Sifil, rheol 52.21(2)(b).

*Cyngor Meddygol Cyffredinol*, er enghraifft, disgrifiodd yr Arglwydd Ustus Auld y gwahaniaeth fel un 'bychan ac amrywiol yn ôl amgylchiadau ac anghenion pob achos'.[97]

4.123 Yng nghyd-destun y tribiwnlysoedd, disgrifiodd Adroddiad Franks 'apêl gyffredinol' fel 'apêl ar sail ffeithiau, cyfraith neu rinweddau'.[98] Yn ddiweddarach, darparodd Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 y dylai apeliadau o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf i'r Uwch Dribiwnlys fod 'ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o benderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf'.[99] Mae Edward Jacobs yn egluro y gallai'r pwynt cyfreithiol fod yn 'ddiffyg yn y penderfyniad, yn y rhesymeg mae'r penderfyniad wedi ei seilio arni, neu yn y weithdrefn a arweiniodd at y penderfyniad.'[100]

4.124 Yn ymarferol, gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng pwynt cyfreithiol a phwynt o ffaith, a bu'n destun ystyriaeth yn y llysoedd apeliadol.[101] Fodd bynnag, mae'n wahaniaeth sy'n dal i gael ei ddefnyddio'n eang mewn deddfwriaeth. Byddai cyfyngu tribiwnlysoedd apêl derbyn i ysgolion i bwyntiau cyfreithiol felly'n bosibilrwydd ar gyfer llwybr apêl newydd o'r tribiwnlysoedd apêl derbyn i ysgolion.

4.125 Rydym wedi dod i'r casgliad y dylai apeliadau gan banel apêl derbyn gael eu cyfyngu i bwyntiau cyfreithiol. Mae'r rhesymau am hyn yn niferus. Yn gyntaf, bydd y paneli apêl wedi cynnal asesiad trylwyr o'r ffeithiau. Mewn achos "rhagfarn", mae'r Cod Apelau Derbyn yn mynnu bod paneli'n ymgymryd â phroses strwythuredig o wneud penderfyniadau, gan gynnwys canfyddiadau ar faterion ffeithiol yn gyntaf: a yw trefniadau derbyn yr awdurdod derbyn yn cydymffurfio â gofynion gorfodol y Cod Derbyn i Ysgolion a'r ddeddfwriaeth sylfaenol; os felly, a oeddent wedi eu cymhwyso'n gywir ac yn ddiduedd; ac, os felly, a fyddai derbyn y disgybl yn amharu ar ddarparu addysg effeithlon neu ddefnyddio adnoddau'n effeithlon. Os yw casgliad y panel ar unrhyw un neu ragor o'r materion hyn yn anffafriol i'r awdurdod derbyn, rhaid iddo ganiatáu'r apêl. Fel arall, rhaid iddo symud ymlaen i gyfnod 'cydbwyso' dewisol, gan bwyso ar faint y niwed i'r awdurdod derbyn a fyddai'n deillio o dderbyn y disgybl yn erbyn pwysau achos y disgybl dros gael ei dderbyn. Mae'r materion sydd i'w hystyried yn cynnwys yr effaith ar yr ysgol dan sylw o dderbyn disgybl neu ddisgyblion ychwanegol ac effaith hynny ar ysgolion eraill yn yr ardal.[102]

4.126 Yn ail, mae'r paneli'n cael eu staffio gan aelodau arbenigol sydd wedi eu dewis ar sail eu gwybodaeth leol. Nid ydym o'r farn bod y Tribiwnlys Addysg, sydd ag arbenigedd ym maes addysg ond nid yr un graddau o wybodaeth leol ag aelodau'r panel, mewn

---

97 [2007] QB 462 at [128], 2007 [EWCA] Civ 1390, at [128].

98 Adroddiad y Pwyllgor ar Dribiwnlysoedd ac Ymholiadau Gweinyddol (Adroddiad Franks) (Gorffennaf 1957) Gorchymyn 218, paragraff 105.

99 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, adran 11(1).

100 E Jacobs, *Tribunal Practice and Procedure* (5th ed 2019) paragraff 4.57.

101 Gweler, er enghraifft, y drafodaeth gan yr Arglwydd Carnwath yn Commissioners ar ran *Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi v Pendragon plc ac eraill* [2015] UKSC 37, [2015] 1 WLR 2838, yn [51] a'r Arglwydd Hoffmann yn *Lawson v Serco* [2006] UKHL 3, [2006] 1 All ER 823 yn [34].

102 Llywodraeth Cymru, *Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion* (2013), Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf paragraff 5.14.

sefyllfa cystal â nhw i wneud y canfyddiadau angenrheidiol ar elfennau cwbl ffeithiol yr achos ac arfer disgresiwn yn wybodus.

4.127 Yn drydydd, mae'r Cod Apeliadau Derbyn yn mynnu bod paneli'n rhoi penderfyniadau sydd wedi eu rhesymu'n llawn; mae'n nodi:

> Rhaid mynegi'r llythyr penderfyniad yn glir, heb ddefnyddio jargon fel y gall rhywun lleyg ei ddeall yn hawdd. Rhaid iddo alluogi'r partïon i:
>
> • weld pa faterion sydd wedi cael eu hystyried
>
> • deall beth yw barn y panel am y ffeithiau neu'r gyfraith y bu'n rhaid i'r panel eu datrys, a
>
> • gwybod yn fras pam mae'r panel wedi dod i'w benderfyniad ac, yn benodol, dylai alluogi apelydd aflwyddiannus i ddeall pam nad yw ei apêl wedi llwyddo.
>
> …..
>
> Lle bo apelydd wedi codi ffactorau penodol a pherthnasol a ystyriwyd gan y panel, rhaid cofnodi'r rhain ar ffurf crynodeb yn y llythyr. Lle bu'n rhaid cael cyngor cyfreithiol, rhaid crynhoi hyn yn y llythyr, yn enwedig os derbyniwyd y cyngor hwn ar ôl i'r panel ymneilltuo i wneud ei benderfyniad.[103]

4.128 Fel y nodwyd uchod, nid yw apelio ar bwynt cyfreithiol wedi ei gyfyngu i gywiro camddehongli'r gyfraith, ond mae'n ymestyn i wallau trefniadol a rhesymeg annigonol neu resymu diffygiol. Byddai hawl i apelio ar bwyntiau cyfreithiol yn galluogi'r Tribiwnlys Addysg neu'r siambr addysg i roi penderfyniadau o'r neilltu yr oedd eu rhesymeg yn ddiffygiol neu wedi eu datgan yn annigonol.

4.129 Mae rheswm pellach yn bragmataidd, ac yn ymwneud â nifer yr apeliadau tebygol a'r amserlen ar gyfer gwrando arnynt. Mae'n anodd amcangyfrif yn union faint o apeliadau i baneli derbyn sydd yn cael eu gwneud bob blwyddyn, ond mae'n debygol y bydd cannoedd lawer. Yng Nghaerdydd yn unig, gwrandawodd y paneli ar 457 o apeliadau yn 2019/20, a dim ond 39 ohonynt oedd yn llwyddiannus.[104] O ystyried y gyfradd llwyddiant isel, gallai fod cryn alw am lwybr apeliadol pellach petai apeliadau cyffredinol ar sail teilyngdod yn cael eu caniatáu; mae perygl y byddai'r Siambr Addysg yn cael ei llethu gan nifer yr apeliadau. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried yr amserlen ar gyfer penderfynu ar apêl er mwyn i ddisgybl llwyddiannus dderbyn lle mewn ysgol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf.

4.130 Byddai hawl i apelio ar bwynt cyfreithiol yn darparu llwybr mwy cyfleus na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer herio camgymeriadau cyfreithiol neu weithdrefnol gan y paneli, a byddai'n gyson â'r seiliau apêl sydd ar gael fel arfer ar gyfer apêl gan y

---

103 Llywodraeth Cymru, Y cod apelau derbyn i ysgolion (2013). Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf, paragraffau 6.2 a 6.4, gan hepgor troednodiadau.

104 Cyngor Caerdydd, Apelio penderfyniad am le mewn ysgol, Gweler https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/Apelio-penderfyniad-am-le-mewn-ysgol/Pages/default.aspx

Tribiwnlys Haen Gyntaf i'r Uwch Dribiwnlys. Credwn fod mwy o siawns hefyd y byddai'n cyflawni hyn heb beryglu gorlethu'r Tribiwnlys Addysg gyda nifer enfawr o achosion ar un adeg yn y flwyddyn, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn dal i gael penderfyniadau terfynol am eu haddysg yn brydlon.

### Apêl i'r Tribiwnlys Apêl i Gymru?

4.131 Yng ngoleuni sylwadau gan ymatebwyr, rydym wedi ystyried ai dewis gwell fyddai cyfeirio apeliadau o baneli derbyn ysgolion i'r Uwch Dribiwnlys, neu i Dribiwnlys Apêl Cymru. Y ddadl dros hyn yw bod paneli apêl derbyn, yn y bôn, yn gweithredu fel tribiwnlys gwrandawiad cyntaf. Rydym wedi ystyried a fyddai'n fwy rhesymegol i apeliadau fynd i dribiwnlys apeliadol, yn hytrach na thribiwnlys cyntaf arall. Mae rhywfaint o rym yn yr awgrym hwn, yn enwedig os a phan gaiff Tribiwnlys Apêl Cymru ei greu.

4.132 Fodd bynnag, fel rydym wedi ei nodi'n barod, ystyriwn mai swyddogaeth Tribiwnlys Apêl yw penderfynu ar apeliadau o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Rydym hefyd yn pryderu y byddai nifer debygol yr apeliadau yn uwch na Thribiwnlys Apêl Cymru. Hyd yn oed pe bai'r rhain ddim ond yn 30 y flwyddyn (oddeutu nifer y cwynion a dderbyniwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru), byddent gryn dipyn yn fwy na'r nifer presennol o apeliadau o bob un o'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill. Mae'r apeliadau hefyd yn rhai tymhorol, ac mae'n rhaid penderfynu arnynt o fewn cyfnod byr, fel y gellir derbyn cynigion o lefydd mewn ysgolion yn y gwanwyn yn yr hydref.

4.133 Mae'n ymddangos yn fwy synhwyrol i ni leoli'r gwaith o fewn tribiwnlys presennol sydd eisoes ar waith. Byddai gan y Tribiwnlys Addysg, neu siambr addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, y fantais o banel presennol sy'n cynnwys arbenigwyr addysg.

### Sail apêl pellach

4.134 Rydym yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn ffafrio cyfyngu ar apeliadau pellach i'r rhai sy'n bodloni'r "prawf ail apêl" a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer apeliadau o'r Uwch Dribiwnlys. Byddai apelyddion eisoes wedi cael penderfyniad gan y Tribiwnlys Addysg neu'r siambr addysg ynghylch a oedd penderfyniad y panel yn anghywir yn ôl y gyfraith. Nid ydym o'r farn y byddai modd cyfiawnhau ail apêl ar yr un sail ym mhob achos. Yn ein barn ni, mae angen hidlo apeliadau ymhellach yn ystod yr ail gam apêl, ac mae'r prawf ail apêl presennol yn briodol. Byddai hynny'n golygu y byddai apeliadau pellach o'r Tribiwnlys Addysg neu'r siambr addysg yn gyfyngedig i achosion sy'n codi pwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer, neu lle mae rheswm cryf arall dros wrando ar yr apêl.

**Argymhelliad 15.**

4.135 Rydym yn argymell y dylid trosglwyddo apeliadau o baneli apeliadau derbyn ysgolion fod ar gael ar bwynt y gyfraith i Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Argymhelliad 16.**

4.136 Rydym yn argymell y dylai apeliadau pellach o benderfyniadau'r Siambr Addysg ar apeliadau o baneli apeliadau derbyn ysgolion gael eu cyfyngu i achosion sy'n codi rhyw bwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer, neu lle mae rheswm cryf arall dros wrando ar yr apêl.

# Pennod 5: Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

5.1 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw'r ffigwr barnwrol uchaf yn y system tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Cafodd y swydd ei chreu gan adran 60 o Ddeddf Cymru 2017 ("Deddf 2017") ac mae'n debyg i swydd Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd a Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban. Mae Syr Wyn Williams, deiliad cyntaf y swydd, wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o feithrin perthynas rhwng y tribiwnlysoedd.

5.2 Mae dwy ran i rôl y Llywydd, ac mae'n cynnwys yr hyn rydym wedi ei ddisgrifio fel agweddau "mewnol" ac "allanol". Mae'r dyletswyddau mewnol yn cynnwys sicrhau bod arweinwyr ac aelodau barnwrol yn cael eu hyfforddi, a dyletswyddau bugeiliol. Mae'r dyletswyddau sy'n edrych tuag allan yn cynnwys cynrychioli buddiannau'r tribiwnlysoedd i'r Senedd.[105]

5.3 Ym Mhennod 3 yr Adroddiad hwn, rydym yn argymell y dylid sefydlu system unedig o dribiwnlysoedd. Byddai hyn yn golygu creu Tribiwnlys Haen Gyntaf newydd i Gymru. Rydym hefyd yn argymell ym Mhennod 4 y dylai apeliadau o'r tribiwnlys hwnnw, maes o law, gael gwrandawiad yn Nhribiwnlys Apêl newydd Cymru.

5.4 Bydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn allweddol i sicrhau bod y newid i'r system newydd hon yn digwydd yn ddidrafferth ac yn amharu cyn lleied â phosibl ar ddefnyddwyr tribiwnlysoedd. Ym Mhenodau 6,8 ac 8 rydym yn argymell swyddogaethau i'r Llywydd sy'n ymwneud â rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd, penodiadau a disgyblaeth. Mae rôl y Llywydd yn cael ei hystyried ymhellach ym Mhennod 9, lle byddwn yn trafod sut dylid gweinyddu'r system tribiwnlysoedd unedig yn y dyfodol. Yn y Bennod hon, rydym yn ystyried dwy ffordd ychwanegol o wella rôl y Llywydd.

5.5 Y cyntaf yw rhoi rôl farnwrol i'r Llywydd mewn perthynas â'r system dribiwnlysoedd newydd. Yr ail yw perthynas y Llywydd â phaneli apêl derbyn i ysgolion. Gofynnwyd am farn yn y Papur Ymgynghori ynghylch a ddylai'r Llywydd gael rôl oruchwyliol dros y paneli. Yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd gennym mewn perthynas â phaneli apêl derbyn i ysgolion (a nodir ym Mhennod 1), nid ydym yn gwneud argymhelliad yn y Bennod hon y dylai'r Llywydd oruchwylio'r paneli. Fodd bynnag, rydym yn gwneud argymhelliad mwy cyfyngedig: dylid ymgynghori â'r Llywydd pan fydd y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion statudol yn cael ei ddiwygio.

5.6 Yn olaf, rydym yn ystyried rôl LITC yng nghyd-destun Tribiwnlys Prisio Cymru pe na bai'r tribiwnlys hwnnw yn cael ei gynnwys yn Nhribiwnlys Haen-Gyntaf Cymru.

### RÔL FARNWROL I LYWYDD TRIBIWNLYSOEDD CYMRU

5.7 Mae dyletswyddau presennol y Llywydd wedi eu cynnwys yn adran 60(4) o Ddeddf 2017. Er bod adran 60 yn amlinellu dyletswyddau gan gynnwys rhoi sylw i'r angen am degwch, hygyrchedd a chyfiawnder cyflym, nid yw'n rhoi rôl farnwrol i'r Llywydd yn unrhyw un o'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf 2017 (y "tribiwnlysoedd

---

[105] Deddf Cymru 2017, adran 60(5).

adran 59”). Gellir cyferbynnu hyn ag Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd (sydd, yn rhinwedd penodiad, yn aelod o’r Tribiwnlys Haen Gyntaf a’r Uwch Dribiwnlys)[106] a Llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, sy’n aelod o Uwch Dribiwnlys yr Alban.[107]

5.8 Crynhodd Syr Wyn Williams y sefyllfa fel a ganlyn yn ei ail adroddiad blynyddol:

> Er y derbynnir yn gyffredinol bod gan y Llywydd hawl i eistedd fel barnwr yn Nhribiwnlysoedd Cymru, nid oes sail statudol glir sy’n ategu’r casgliad hwn... mae’n bosibl o leiaf y bydd absenoldeb rôl farnwrol ffurfiol a phenodol ar gyfer y Llywydd yn golygu na fydd ymgeiswyr yn cael eu denu at y swydd yn y dyfodol. Yn unol â hynny, byddwn yn argymell bod ystyriaeth ofalus yn cael ei rhoi i lunio rôl farnwrol benodol ar gyfer y Llywydd.[108]

5.9 Yn ogystal â gwneud y rôl yn fwy deniadol i ddarpar ymgeiswyr, daethom i’r farn dros dro yn y Papur Ymgynghori y byddai caniatáu i’r Llywydd eistedd yn y tribiwnlysoedd yn helpu i ddatblygu dealltwriaeth y Llywydd o waith y tribiwnlysoedd o ddydd i ddydd. Byddai hyn, yn ei dro, yn gwella gallu’r Llywydd i gyflawni’r dyletswyddau statudol eraill sy’n berthnasol i’r rôl. Gan hynny, fe wnaethom gynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 62 y dylai’r Llywydd fod yn farnwr y tribiwnlys neu’r tribiwnlysoedd mae’r Llywydd yn llywyddu drostynt.

5.10 Atebodd 17 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd 13 ohonynt yn cytuno â’n cynnig dros dro, roedd un yn anghytuno a dewisodd tri ateb “arall”.

5.11 Ailadroddodd Syr Wyn Williams ei farn, a fynegwyd yn flaenorol mewn mannau eraill,[109] fod:

> yn ddiau bod angen i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael rôl farnwrol benodol. Yn absenoldeb tribiwnlys apêl ar wahân i Gymru, dylid ystyried awdurdodi’r Llywydd i eistedd yn yr Uwch Dribiwnlys ar achosion o Gymru.

5.12 Cytunodd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru â’r cynnig dros dro, gan y byddai hyn yn sicrhau bod y dystiolaeth yn ‘parhau i feddu ar ddealltwriaeth o’r tribiwnlys mae’n gyfrifol amdano o ddydd i ddydd’. Cytunodd yr Athro Thomas Watkin hefyd, gan ddisgrifio’r rôl fel ‘ffocws undod’ ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig.

5.13 Roedd Huw Williams, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd, a oedd yn ymateb fel unigolyn, yn adleisio geiriau Syr Wyn Williams, gan nodi y byddai sefydlu rôl farnwrol i’r Llywydd yn helpu i ‘ddenu ffigur barnwrol arall o sylwedd i lenwi’r rôl yn ôl troed y Llywydd cyntaf. Ni roddodd yr unig ymatebydd a oedd yn anghytuno’n llwyr resymau dros ei ateb.

---

106 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, adrannau 4(1)(c) a 5(1)(a).

107 Deddf Tribiwnlysoedd (yr Alban) 2014, adran 17(5).

108 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (Ebrill 2020) paragraff 3.10.

109 Gweler, er enghraifft, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru (Ebrill 2020) paragraff 3.10 a sesiwn tystiolaeth lafar Syr Wyn Williams a Rhian Davies Rees i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2020, https://cofnod.senedd.cymru/Committee/6414 ym mharagraff 12.

5.14 Mynegodd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, a nododd ei ateb fel “arall”, bryder ynghylch y posibilrwydd o ganiatáu i'r Llywydd eistedd ochr yn ochr ag arweinydd barnwrol ar banel, gyda dyfyniad llawn yma:

> Nid oes darpariaeth yn ein rheolau i ddau farnwr eistedd ar yr un panel ac felly nid oes unrhyw beth yn llywodraethu’r posibilrwydd o anghytuno rhwng y ddau. O gofio ein bod ni’n delio â rhyddid y deiliad, mae penderfyniad mwyafrifol yn drech a gyda phedwar aelod ar y panel, mae’n bosibl na fydd hyn yn cael ei gyflawni. Caiff pwyntiau o egwyddor eu penderfynu’n ddieithriad yn ein hachos ni gan yr Uwch Dribiwnlys ac nid ydym yn delio â materion sy’n effeithio ar fwy nag un awdurdodaeth, felly ni fyddai’r digwyddiadau hynny’n codi yn y tribiwnlys hwn. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i’r Llywydd eistedd fel barnwr gydag aelod meddygol ac aelod lleyg yn y ffordd arferol, ond awgrymwn mai dim ond drwy wahoddiad gan yr arweinydd barnwrol y dylai hyn ddigwydd.

5.15 Roedd Noel Edwards, cynghorydd technegol sydd wedi ymddeol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a Roger Handy, cadeirydd y Tribiwnlys Prisio - ill dau wedi nodi eu hatebion fel “arall” - wedi ystyried cymhwyso’r cynnig dros dro hwn i’r Tribiwnlys Prisio. Credai Noel Edwards y gallai rôl farnwrol i’r Llywydd fod yn bosibl i dribiwnlysoedd eraill sy’n bodoli’n barod, ond nid i’r Tribiwnlys Prisio, tra gofynnodd Roger Handy a fyddai hyn yn golygu y gallai’r Llywydd eistedd fel cadeirydd.

### Trafodaeth

5.16 Rydym yn cytuno bod manteision ymarferol ynghlwm wrth ddyrannu rôl farnwrol i’r Llywydd. Byddai hyn yn sicrhau ei fod ef neu hi yn dod i gysylltiad â gwaith y tribiwnlysoedd, gan gynyddu eu dealltwriaeth o sut mae’r tribiwnlysoedd hynny’n gweithio, ac a oes angen newidiadau. Gallai caniatáu i’r Llywydd eistedd hefyd wneud y rôl yn ddeniadol i ymgeiswyr barnwrol yn y dyfodol.

5.17 Credwn y dylai’r Llywydd allu eistedd yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, lle bo angen. Credwn ei bod yn fwy tebygol, fodd bynnag, y byddai’r Llywydd yn eistedd o bryd i’w gilydd yn Nhribiwnlys Apêl Cymru - er enghraifft, mewn achosion sy’n codi materion sy’n ymwneud â gwaith siambrau’r haen gyntaf yn ei chyfanrwydd neu’n ymwneud â dehongli a chymhwyso deddfwriaeth ddatganoledig.

#### Darpariaeth i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru eistedd fel barnwr tribiwnlys

5.18 Yn ein Papur Ymgynghori, cyflwynwyd enghreifftiau nad oedd yn hollgynhwysol o amgylchiadau lle gallai’r Llywydd eistedd yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru; er enghraifft, eistedd yn lle’r arweinydd barnwrol, neu ochr yn ochr â’r arweinydd barnwrol, i ddelio â phwynt o egwyddor neu ymarfer sy’n effeithio ar fwy nag un awdurdodaeth.

5.19 Os byddai’r Llywydd yn eistedd fel rhan o banel pedwar person, rydym yn cytuno y byddai angen darpariaethau sy’n nodi sut gellid dod i benderfyniad petai pleidleisiau’n gyfartal. Yn ein barn ni, gellid mynd i’r afael â hyn drwy reolau gweithdrefnol y tribiwnlys. Er enghraifft, mae Gorchymyn Tribiwnlys yr Haen Gyntaf a’r Uwch Dribiwnlys (Cyfansoddiad y Tribiwnlys) 2008 yn darparu:

> Os nad yw penderfyniad y tribiwnlys yn unfrydol, penderfyniad y tribiwnlys yw penderfyniad y mwyafrif; a bod gan yr aelod llywyddol bleidlais fwrw os yw'r pleidleisiau wedi eu rhannu'n gyfartal.[110]

5.20 Ni fyddem yn disgwyl i ddarpariaeth debyg i hyn gael ei defnyddio'n aml. Ond os teimlid mewn achos penodol bod angen i'r Llywydd eistedd fel rhan o banel pedwar unigolyn, rydym yn cydnabod y byddai angen rheolau sy'n nodi sut dylai'r panel hwnnw ddod i benderfyniad.

5.21 Gellid hefyd ymhelaethu ar yr amgylchiadau lle byddai'r Llywydd yn gallu eistedd naill ai mewn rheolau trefniadol neu gyfarwyddiadau. Rydym yn rhagweld na fyddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fel arfer yn eistedd mewn siambr o'n Tribiwnlys Haen Gyntaf arfaethedig i Gymru heb gytundeb Llywydd y siambr honno. Mae hyn yn unol â barn y Llywydd presennol: yn ei adroddiad blynyddol cyntaf, dywedodd y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru eistedd fel cadeirydd cyfreithiol tribiwnlys:

> dim ond os yw arweinydd barnwrol y tribiwnlys hwnnw a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cytuno bod yr amgylchiadau sy'n bodoli mewn achos penodol yn ei gwneud yn amhriodol i'r arweinydd barnwrol eistedd.[111]

### Casgliad

5.22 Rydym yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan fwyafrif yr ymgyngoreion mewn perthynas â'r cwestiwn hwn – a Syr Wyn Williams yn benodol – fod 'angen dybryd i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael rôl farnwrol benodol'.

5.23 Byddai grymuso Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i eistedd fel barnwr yn y tribiwnlysoedd yn cynorthwyo'r Llywydd i gadw mewn cysylltiad â gwaith y tribiwnlysoedd, a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y ffordd maent yn cael eu rhedeg. Dylai hefyd wella hygrededd y Llywydd ymhlith aelodau'r tribiwnlys.

5.24 Yn olaf, byddai ganddo'r manteision ychwanegol o egluro'r sefyllfa gyfreithiol bresennol, a chynyddu atyniad y rôl i ddarpar ymgeiswyr yn y dyfodol. Gan hynny, rydym yn argymell y dylai'r Llywydd fod yn farnwr yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.

5.25 Rydym hefyd yn gwneud argymhelliad cysylltiedig: dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr gweinyddol Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.

---

110 Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys (Cyfansoddiad y Tribiwnlys) Offeryn Statudol 2008 Rhif 2835, erthygl 8.

111 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol Cyntaf* (Mawrth 2019) tudalen 3.

**Argymhelliad 17.**

5.26 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Dylid gwneud darpariaeth i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru eistedd mewn rheolau trefniadol neu gyfarwyddiadau.

**Argymhelliad 18.**

5.27 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr llywyddol Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.

## GORUCHWYLIO'R BROSES O BANELI APÊL DDERBYN I YSGOLION AC (OS CEDWIR NHW) PANELI APÊL GWAHARDDIADAU YSGOLION

5.28 Cyn ei ddiddymu yn 2013, roedd paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth statudol y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd. Fodd bynnag, ers 2013, ni fu'r un corff annibynnol yn gyfrifol am adolygu'r system gyfan o baneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion.

5.29 Ym Mhennod 3 yr Adroddiad hwn, rydym yn argymell bod gwaith paneli apelio gwaharddiadau ysgolion yn cael ei gynnwys yn Nhribiwnlys Addysg Cymru; ac felly bydd y gwaith hwn yn cael ei oruchwylio gan y Llywydd fel rhan o weithgareddau'r tribiwnlys hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn argymell gadael paneli apêl derbyn i ysgolion fel y maent, ac eithrio cyflwyno hawl newydd i apelio. Gan hynny, bydd gweddill y drafodaeth yn yr adran hon o'r Adroddiad yn canolbwyntio ar y paneli apêl derbyn i ysgolion.

5.30 Ym Mhennod 8 y Papur Ymgynghori, buom yn ystyried manteision ac anfanteision goruchwylio'r paneli apêl derbyn i ysgolion. Nid oedd hwn yn syniad cwbl newydd. Yn y gorffennol, mae Comisiwn Thomas wedi argymell y canlynol:

> Dylai pob corff cyhoeddus, pob ombwdsmon a phob tribiwnlys arall sydd wedi eu sefydlu o dan gyfraith Cymru neu gan Lywodraeth Cymru, sy'n gwneud penderfyniadau barnwrol neu led-farnwrol, ac nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu goruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gael eu dwyn dan oruchwyliaeth y Llywydd.[112]

5.31 Er y gallai goruchwyliaeth Llywyd Tribiwnlysoedd Cymru arwain at fwy o annibyniaeth, cynrychiolaeth allanol a hyfforddiant, roeddem yn cydnabod bod anawsterau gweinyddol posibl. Y rheswm am hyn oedd nifer yr awdurdodau derbyn yng Nghymru. Mae gan bob awdurdod lleol ei awdurdod derbyn ei hun, ac mae rhai mathau o ysgolion hefyd yn gyfrifol am eu prosesau derbyn eu hunain. Mae'r system ranbarthol

[112] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru* (Hydref 2019), argymhelliad 25, tudalen 21.

wedi ei dadgyfuno hon yn wahanol iawn i'r tribiwnlysoedd adran 59. Mae gan bob un o'r tribiwnlysoedd adran 59 arweinydd barnwrol, sy'n gwneud y llinellau adrodd i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn eithaf clir.

5.32 O ystyried yr anawsterau posibl sy'n gysylltiedig ag ymestyn goruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i baneli apêl derbyn i ysgolion, ni wnaethom gyflwyno cynnig dros dro. Yn lle hynny, yng Nghwestiwn Ymgynghori 63, gofynnwyd am farn ymatebwyr ynghylch a ddylai paneli apêl derbyn i ysgolion fod dan oruchwyliaeth y Llywydd. Atebodd 22 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd 13 ohonynt yn cytuno ar y cyfan, roedd pump yn cytuno'n amodol (rhai yn mynegi'r farn y byddai goruchwyliaeth y Llywydd yn briodol pe bai'r paneli'n cael eu cynnwys yn y system ehangach), tra bod pedwar wedi mynegi barn arall.

### Ymatebion

5.33 Ar wahanol adegau yn ei ymateb, mynegodd Syr Wyn Williams y farn y dylai awdurdodau lleol barhau i fod yn gyfrifol am y paneli apêl derbyn i ysgolion oni bai eu bod yn cael eu cynnwys yn y system unedig. Ailadroddodd y farn hon mewn perthynas ag ymestyn swyddogaethau goruchwylio'r Llywydd i gynnwys y paneli.

#### Safbwyntiau cefnogol

5.34 Croesawodd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio, Cylchdaith Cymru a Chaer, Pwyllgor Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor y Bar a Richard Payne (Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru) rôl oruchwyliol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru mewn perthynas â'r paneli apêl ysgolion.

5.35 Credai Dr Sarah Nason (uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor) a Dr Huw Pritchard (darlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd) fod 'posibilrwydd o rôl oruchwylio i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ynghylch paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion' ac y gallai hyn 'annog mwy o gydlyniaeth a chydlyniant rhwng paneli a gwella canfyddiad paneli fel rhai annibynnol'. Roeddent yn cydnabod, fodd bynnag, bod gwahaniaethau rhwng rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a rôl flaenorol y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd:

> Er ein bod ni'n cytuno y gallai hyn ddarparu rhai o'r un manteision â bod â chorff goruchwylio Cyfiawnder Gweinyddol goruchwyliol, mae'n bwysig pwysleisio bod y rolau'n wahanol a bod achos dros sefydlu corff goruchwylio statudol penodol. Dylid bod yn ofalus wrth sicrhau nad yw Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn cael ei orlethu â swyddogaethau a fyddai'n tynnu oddi wrth swyddogaethau craidd y Llywydd ac a fyddai'n fwy addas ar gyfer corff goruchwylio statudol gydag adnoddau penodol ar gyfer monitro a goruchwylio'r system cyfiawnder gweinyddol.

5.36 Roedd Patrick Moriarty, aelod o banel apêl ysgol, yn bryderus bod cyngor cyfreithiol ar gyfer y panel fel arfer yn dod gan yr awdurdod lleol. Yn ei farn ef 'os oedd y panel yn wirioneddol annibynnol, byddai'r cyngor cyfreithiol yn dod o ffynhonnell annibynnol'. Credai y gallai goruchwyliaeth allanol sicrhau hyn.

5.37 Roedd Cyfraith Gyhoeddus Cymru yn rhagweld rôl ehangach i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gan awgrymu:

> Mae'n bosibl, yn y tymor byr o leiaf, y byddai rhywbeth nad yw wedi ei integreiddio’n llawn â phaneli apeliadau awdurdodau lleol i system tribiwnlysoedd Cymru yn gam cyntaf mwy diogel. Gallai eu gweinyddiaeth (paneli apêl ysgolion), er enghraifft, gael ei gadael yn nwylo’r awdurdod lleol tra gallai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Phwyllgor Rheolau Tribiwnlysoedd arfaethedig Cymru gaffael rolau statudol mewn perthynas â gweithdrefnau, cwynion a disgyblaeth (a hyd yn oed, yn achos Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, penodiadau).

### Rôl gynghori?

5.38 Credai Keith Bush CF, yng Nghanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael ‘rôl gynghori mewn perthynas â’r paneli’ yn hytrach na rôl oruchwyliol.

### Awdurdodau lleol

5.39 Roedd ymatebion yr awdurdodau lleol a gawsom yn rhanedig ar y cwestiwn hwn. Cytunodd Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd yn gryf y dylai’r Llywydd gael rôl oruchwyliol, ‘er mwyn sicrhau cysondeb’. Cytunodd Cyngor Sir Ddinbych â’r awgrym hefyd. Ar y llaw arall, gofynnodd Cynghorau Sir Benfro a Chaerdydd am ragor o eglurhad ynghylch ‘beth yw ystyr goruchwyliaeth’. Aeth Sir Benfro ymlaen i egluro bod ganddynt gwestiynau ynghylch beth yw:

> cylch gorchwyl a phwrpas yr oruchwyliaeth. O ran hyfforddi aelodau’r panel, gwneir hyn yn aml ar y cyd ag awdurdodau lleol cyfagos eraill, sy’n hybu dull gweithredu cyson.

## Trafodaeth

5.40 Gallwn weld nifer o fanteision posibl i ymestyn pwerau goruchwylio’r Llywydd i gynnwys paneli apêl derbyn i ysgolion. Rydym yn amlinellu’r rhain isod. Fodd bynnag, rydym yn poeni am ymarferoldeb gwneud hynny. Ni fydd trosi cyfrifoldebau presennol y Llywydd i baneli apêl derbyn yn gweithio; maent yn gweithio’n rhy wahanol i dribiwnlysoedd eraill. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod eu gweinyddiaeth yn gyfrifoldeb i wahanol awdurdodau derbyn, ac mae llawer ohonynt i'w cael ledled Cymru.

### Annibyniaeth farnwrol

5.41 Ar hyn o bryd, nid yw’r paneli’n annibynnol yn strwythurol ar awdurdodau derbyn. Er bod y Cod yn pwysleisio y dylent weithredu’n annibynnol, erys y ffaith mai un o’r partïon yn y gwrandawiad sy’n gyfrifol am weinyddu’r paneli. Mae hyn yn golygu bod aelodau’r panel, ar hyn o bryd, yn cael eu penodi gan awdurdodau derbyn. Mae’n bosibl hefyd y bydd clerc y panel yn un o weithwyr yr awdurdod lleol, er bod y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn cynghori yn erbyn hyn.[113]

5.42 O ganlyniad, bydd risg o hyd y bydd paneli’n cael eu hystyried yn annigonol o ran bod yn annibynnol ar awdurdodau lleol. Bydd cyflwyno apêl o’r paneli i Siambr Addysg y Tribiwnlys Haen Gyntaf (fel yr ydym yn ei argymell ym Mhennod 4) yn cyfrannu rhywfaint at wella’r sefyllfa hon. Fodd bynnag, gallai uwch farnwr sy’n goruchwylio’r

---

[113] Llywodraeth Cymru, *Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion* (2013), paragraff 3.3. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf

system apêl derbyn i ysgolion gryfhau'r canfyddiad bod y paneli'n gwneud penderfyniadau'n annibynnol.

### Canllawiau a chyfarwyddiadau ar ymarfer a gweithdrefnau

5.43 Un o'r ffyrdd mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn sicrhau bod achosion yn nhribiwnlysoedd adran 59 yn hygyrch, yn deg ac yn cael eu trin yn gyflym ac yn effeithlon yw drwy roi cyfarwyddiadau ar ymarfer a gweithdrefnau.[114] Yn yr un modd, gallai arbenigedd a phrofiad cyfreithiol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru o dribiwnlysoedd hefyd fod yn werthfawr wrth ystyried newidiadau i'r system. Er enghraifft, gallai fod yn ofynnol i gynnwys y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion fod yn destun ymgynghoriad â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

### Cynrychiolaeth

5.44 Un o ddyletswyddau statudol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw cynrychioli barn aelodau tribiwnlysoedd Cymru i Weinidogion Cymru ac aelodau eraill y Senedd. Mae hon yn rôl sydd ar goll o'r system bresennol o baneli apêl derbyn i ysgolion; nid oes un unigolyn yn gyfrifol am gynrychioli buddiannau aelodau. Gallai fod gwerth mewn rôl o gynrychioli buddiannau paneli i'r Senedd, ac o bosibl i Lywodraeth Cymru.

5.45 Mae'n bosibl hefyd y gallai adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer casglu a dosbarthu gwybodaeth am weithgareddau'r paneli derbyn. Ar hyn o bryd, nid yw data sylfaenol am weithrediad y paneli (faint o apeliadau maent yn gwrando arnynt, faint sy'n llwyddo, a nifer aelodau'r panel) yn cael eu cyhoeddi'n gyson ar-lein. Byddai rhoi sylw i weithgareddau'r paneli yn adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn ffordd o sicrhau gwelliant yn nhryloywder y paneli hyn.

### Hyfforddiant

5.46 Un arall o gyfrifoldebau statudol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw sicrhau bod aelodau'r tribiwnlys yn cael hyfforddiant digonol.[115] Mae hyfforddiant yn arbennig o bwysig ar gyfer paneli apêl derbyn, sy'n cynnwys aelodau lleyg. Fodd bynnag, mae'r dull o hyfforddi'n amrywio ar draws awdurdodau derbyn. Er bod Sir Benfro yn nodi bod eu hyfforddiant yn aml yn cael ei gynnal ar y cyd ag awdurdodau lleol cyfagos eraill, 'sy'n hyrwyddo dull cyson o weithredu', nid yw hyn yn wir ar gyfer pob awdurdod derbyn.

5.47 Mae'r Cod yn gwneud rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer hyfforddiant, gan egluro bod yn rhaid i awdurdodau derbyn drefnu a chyllido hyfforddiant ar gyfer aelodau'r panel apêl, clercod paneli a swyddogion cyflwyno. Mae hefyd yn datgan y dylai awdurdodau derbyn 'ystyried y cwmpas ar gyfer cydlynu hyfforddiant', a 'gwahodd aelodau o bob panel apêl yn eu hardal i gymryd rhan mewn hyfforddiant ar y cyd'. Ond hyd y gwyddom, nid oes unrhyw fonitro canolog ynghylch a yw'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu'n ymarferol.

---

114 Deddf Cymru 2017, adran 61.

115 Deddf Cymru 2017, adran 60(5)(a).

### Casgliad

5.48 Er gwaethaf y manteision posibl, rydym wedi cael ein harwain i'r casgliad (sy'n ymddangos i ni ei fod yn ategu gwrthwynebiad Syr Wyn Williams ei hun i'r awgrym) na fyddai dyletswydd gan ar Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru i oruchwylio'r paneli yn ymarferol. Nid oes gan y Llywydd bwerau cyfarwyddo dros yr awdurdodau derbyn sy'n rhedeg y paneli. Yn ogystal, nid yw'n hawdd gweld sut gellid creu'r pwerau angenrheidiol i'r Llywydd gyflawni'r ddyletswydd yn briodol, gyda'r paneli'n cael eu gweinyddu gan oddeutu 182[116] o awdurdodau derbyn ar draws 22 awdurdod lleol.

5.49 Ar ben hynny, fel yr eglurwyd ym Mhennod 1, nid ydym mewn sefyllfa yn y prosiect hwn i wneud llawer o argymhellion digon gwybodus ynghylch gweithredu paneli apêl derbyn i ysgolion, heb allu archwilio'n fanwl eu dulliau gweithredu ac a oes modd gwella'r rhain. Mae'r posibilrwydd o'u haddasu i oruchwyliaeth gan y Llywydd yn arwain at yr un problemau. Ym Mhennod 1 fe wnaethom rai awgrymiadau ar gyfer rhoi rhai o fanteision aelodaeth strwythur mwy i aelodau'r panel. Gallai'r rhain olygu rôl i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ond rydym yn gadael hynny i Lywodraeth Cymru ei asesu.

5.50 Gellid rhoi sylw i'r mater arall rydym yn tynnu sylw ato uchod (y diffyg gwybodaeth gynhwysfawr a chywir am weithrediad y paneli) heb gyfraniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Gallai Llywodraeth Cymru ei hun wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am weithgareddau'r paneli.

5.51 Un argymhelliad rydym yn teimlo'n hyderus i'w wneud yw ymgynghori â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar ddarpariaethau'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn y dyfodol. Mae'r Cod eisoes yn cynnwys swm sylweddol o ddeunydd ar ddyletswyddau cyfreithiol paneli fel cyrff sy'n cyflawni swyddogaethau barnwrol, ac mae'r Llywydd mewn sefyllfa dda i gyfrannu at hyn; byddai ymgynghori â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru hefyd yn darparu mecanwaith ar gyfer sicrhau y bydd y gwersi a ddysgir o wrando ar apeliadau'r paneli yn cael eu bwydo'n ôl i'r Cod. O dan adran 85(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae eisoes yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori â rhai sy'n addas yn eu barn nhw, ac ystyried sylwadau a gyflwynir iddynt.

#### Argymhelliad 19.

5.52 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn unol ag adran 85(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

116 Mae'r ffigwr hwn wedi ei lunio ar sail nifer yr ysgolion cymunedol, ysgolion gwirfoddol a reolir, ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, *Rhestr Gyfredol o Ysgolion – Canllawiau.* Gweler https://llyw.cymru/rhestr-gyfredol-o-ysgolion . Mae'r diffiniad o strwythurau llywodraethu'r ysgolion hyn i'w weld ym mharagraff 51 o Atodiad 4.

## GORUCHWYLIO TRIBIWNLYS PRISIO CYMRU

5.53 Ym Mhennod 3 yr Adroddiad hwn, rydym yn argymell bod Tribiwnlys Prisio Cymru yn cael ei gynnwys yn y system tribiwnlysoedd unedig. Byddai hyn yn golygu y byddai'n dod o fewn cylch gwaith Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

5.54 Hyd yn oed os nad yw'r argymhelliad hwnnw'n cael ei ddilyn, rydym yn dal i weld gwerth yn y syniad bod Tribiwnlys Prisio Cymru yn cael ei oruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Byddai hyn yn helpu i integreiddio'r Tribiwnlys Prisio â'r system tribiwnlysoedd datganoledig ehangach ac yn sicrhau bod ei fuddiannau a buddiannau ei aelodau yn cael eu cyfleu i Lywodraeth Cymru ac yn y Senedd. Gan hynny, rydym yn cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 64 y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru oruchwylio'r Tribiwnlys Prisio.

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

5.55 Atebodd 19 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 15 yn cytuno â'n cynnig dros dro.

5.56 Eglurodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard:

> bod manteision i oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru dros y Tribiwnlys Prisio. Byddai hyn yn galluogi mwy o gydlynu ar draws Tribiwnlysoedd Cymru, o leiaf, sy'n cyd-fynd â'r diwygiadau a gynigir yn y Papur Ymgynghori yn ei gyfanrwydd.

5.57 Yn arbennig, credai Syr Wyn Williams a Chyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru oruchwylio'r Tribiwnlys Prisio. Roedd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio o'r farn ei bod yn 'rhesymol i'r Tribiwnlys Prisio gael rhywfaint o bwerau goruchwylio mewn perthynas â'r Tribiwnlys Prisio' hyd yn oed os oedd y Tribiwnlys Prisio y tu allan i strwythur y tribiwnlys.

5.58 Yr unig ymatebydd i roi rhesymau dros ei anghytundeb oedd Noel Edwards, cynghorydd technegol sydd wedi ymddeol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Tynnodd sylw at y gwahaniaeth rhwng goruchwyliaeth weinidogol y Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Prisio yn Lloegr, a'n goruchwyliaeth farnwrol arfaethedig ar gyfer Tribiwnlys Prisio Cymru. Yn ei farn ef, roedd y syniad o Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn goruchwylio'r Tribiwnlys Prisio yn amhriodol.

5.59 Nododd dau ymatebydd ateb "arall". Y cyntaf oedd Panel Dyfarnu Cymru, a wnaeth y pwynt, pe bai'r Tribiwnlys Prisio yn ymuno â'r system tribiwnlysoedd datganoledig, y byddai'n gwneud synnwyr i weinyddiaeth y tribiwnlysoedd fod yn unedig. Yr ail oedd Huw Williams a oedd, yn gyson â'i ymatebion eraill, yn credu y dylid adolygu a diwygio'r Tribiwnlys Prisio fel rhan o ymarferiad ar wahân, ar ôl i strwythur y tribiwnlysoedd datganoledig eraill gael ei setlo.

### Trafodaeth

5.60 Argymhellwn ym Mhennod 3 yr Adroddiad hwn y dylai'r Tribiwnlys Prisio gael ei gynnwys yn y system tribiwnlysoedd unedig, a fyddai'n golygu y byddai'n cael ei oruchwylio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod rhwystrau ymarferol ac ariannol o ran cynnwys y Tribiwnlys Prisio yn y system unedig, a drafodir ymhellach ym mharagraffau 3.38 i 3.44 yr Adroddiad hwn.

5.61 Os bydd y rhwystrau'n rhy fawr, rydym yn dal i feddwl y byddai'n werth i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru oruchwylio'r Tribiwnlys Prisio yn ei ffurf bresennol. Gallai hyn wella annibyniaeth farnwrol. Gallai hefyd helpu i gynyddu cydlyniant gyda'r system tribiwnlysoedd datganoledig ehangach a chynrychioli buddiannau'r tribiwnlys yn y Senedd. Nid yw goruchwylio'r Tribiwnlys Prisio yn peri'r un anawsterau gweinyddol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru â goruchwylio paneli apêl derbyn ysgolion. Fodd bynnag, pe bai'r Tribiwnlys Prisio yn parhau ar ei ffurf bresennol, byddai'n rhaid ystyried perthynas Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyda'r Cyngor Llywodraethu.

5.62 Rydym yn bwriadu gwneud argymhelliad amodol. Os yw'r Tribiwnlys Prisio yn parhau y tu allan i'r system dribiwnlysoedd unedig (boed fel cam dros dro neu am gyfnod amhenodol) rydym o'r farn y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru oruchwylio'r Tribiwnlys Prisio.

**Argymhelliad 20.**

5.63 Os yw Tribiwnlys Prisio Cymru yn parhau y tu allan i'r system tribiwnlysoedd unedig, dylai, serch hynny, fod yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

# Pennod 6: Rheolau gweithdrefnau

## CYFLWYNIAD

6.1 Ym Mhennod 2 rydym yn trafod datblygiad tameidiog y tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Mae'r datblygiad tameidiog hwnnw'n arbennig o amlwg yn rheolau trefniadol y tribiwnlysoedd. Mae rhai'n dyddio'n ôl i ddeddfwriaeth cyn datganoli o'r 1970au na gafodd eu hysgrifennu gyda Chymru nac arferion modern tribiwnlysoedd mewn golwg. Mae hyn yn golygu bod defnyddiwr tribiwnlys yn gorfod llywio drwy reolau sy'n anghyson, yn gymhleth ac yn hen. Yn ogystal ag achosi anawsterau i ddefnyddiwr y tribiwnlys, gall rheolau gweithdrefnol hen ffasiwn ei gwneud yn anoddach i farnwyr reoli achosion yn iawn.

6.2 Ar hyn o bryd, mae gan bob tribiwnlys ei set ei hun o reolau gweithdrefnol (ac yn achos rhai tribiwnlysoedd, mwy nag un set). Un o'r cwestiynau a ystyriwyd gennym yn y Papur Ymgynghori oedd a ddylai'r rheolau fod yn fwy safonol: a ddylent fabwysiadu'r un dull o ymdrin â materion gweithdrefnol cyffredin. Yn ogystal ag ystyried cynnwys y rheolau, fe wnaethom hefyd ystyried cwestiynau ynghylch cyflwyno. A ddylid cyfuno'r rheolau ar gyfer pob tribiwnlys yn un set o reolau gweithdrefnol?

6.3 Un mater cysylltiedig a drafodwyd yn ein Papur Ymgynghori oedd sut dylid gwneud rheolau gweithdrefnol. Ein cynnig dros dro cyffredinol oedd sefydlu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru, i adolygu rheolau'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Mae hyn yn dilyn y model a sefydlwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

6.4 Yn olaf yn y Bennod hon rydym yn edrych ar rai o nodweddion rheolau trefniadol a barn ymatebwyr am y rhain. O ystyried ein hargymhelliad i greu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd, dim ond argymhellion cyfyngedig a wnawn ar agweddau penodol ar y rheolau gweithdrefnol.

## Y GYFRAITH AR HYN O BRYD

### Terminoleg

6.5 Fel y disgrifiwyd yn y Papur Ymgynghori, defnyddir terminoleg anghyson ar draws gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth i gyfeirio at y pŵer i wneud "rheolau",[117] "rheoliadau",[118] "darpariaeth ar gyfer gweithdrefnau"[119] a "rheoliadau gweithdrefnau".[120] Yn y Bennod hon rydym yn defnyddio'r term rheolau gweithdrefnol i gyfeirio at y rheolau sy'n llywodraethu gweithdrefnau tribiwnlysoedd. Mae'r rhain ar ffurf is-ddeddfwriaeth ar hyn o bryd, gan gynnwys rheoliadau, rheolau a gorchmynion.

---

117 Er enghraifft, Deddf Iechyd Meddwl 1983, adran 78 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (mccc 1), adran 123.

118 Er enghraifft, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, atodlen 11, paragraff 8(1); Deddf Addysg 1996, adran 336; a Deddf Llywodraeth Leol 2000, adran 77(4).

119 Deddf Amaethyddiaeth 1947, adran 73(3).

120 Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, atodlen 12.

### Pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol

6.6 I ddechrau, yn achos y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd, yr Arglwydd Ganghellor oedd yn bennaf gyfrifol am wneud rheolau trefniadol. Dros amser, mae'r swyddogaeth hon wedi ei datganoli'n raddol o ran tribiwnlysoedd datganoledig. Ar gyfer y paneli apêl derbyn i ysgolion a Thribiwnlys Prisio Cymru, trosglwyddwyd y pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol i'r weinyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru ar ôl ei sefydlu yn 1999.[121] Cafodd y pŵer i wneud rheolau gweithdrefnol ar gyfer tribiwnlysoedd eraill, fel Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn fwy diweddar, yn 2018.[122]

6.7 Mae adran 61 Deddf Cymru 2017 yn darparu ar gyfer cyfarwyddiadau ynghylch ymarfer a gweithdrefnau. Yn gyntaf, caiff Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru roi cyfarwyddiadau ynghylch yr arfer a'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan dribiwnlysoedd Cymru. Yn ail, caiff Llywydd neu Gadeirydd tribiwnlys roi cyfarwyddyd ynghylch yr arfer a'r weithdrefn sydd i'w dilyn gan y tribiwnlys hwnnw.[123]

6.8 Mae adran 61(4) o Ddeddf Cymru 2017 yn nodi na chaniateir rhoi cyfarwyddiadau heb gymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Yn ymarferol, bydd arweinydd barnwrol tribiwnlys yn rhoi cyfarwyddyd ymarfer ochr yn ochr â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.[124]

## PWYLLGORAU GWEITHDREFNAU TRIBIWNLYSOEDD

6.9 Yma rydym yn adolygu Pwyllgorau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, cyn canolbwyntio ar ein hargymhelliad i sefydlu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru.

### Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007

6.10 Mae adran 22 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 yn creu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd at ddibenion gwneud rheolau sy'n llywodraethu'r arferion a'r gweithdrefnau ar gyfer Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig. Mae Atodlen 5 i'r Ddeddf yn cynnwys rhestr anghyflawn o faterion y gellir eu cynnwys mewn rheolau. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd yn cadw naw set o Reolau Trefniadol Tribiwnlysoedd. Mae ganddo is-bwyllgorau sy'n gyfrifol am wahanol setiau o reolau.

6.11 Mae Deddf 2007 yn nodi cyfansoddiad y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd. Mae'n cynnwys:

---

[121] Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) Offeryn Statudol 1999 Rhif 672, trosglwyddwyd y pŵer wedyn i Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, atodlen 11 paragraff 30(2)(d).

[122] Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Cymru) Offeryn Statudol 2018 Rhif 644.

[123] Deddf Cymru 2017, adran 61. Dim ond i'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o'r Ddeddf mae'r pwerau hyn yn berthnasol.

[124] Gweler, er enghraifft, ddogfen Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, *Cyfarwyddyd Ymarfer, Datganiadau ac Adroddiadau i Dribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl yng Nghymru* (Hydref 2019). Gweler https://tribiwnlysadolyguiechydmeddwl.llyw.cymru/sites/mentalhealthreview/files/2019-12/MHRT%20Cyfarwyddyd%20Ymarfer%20Hyd%202019.pdf

(1) Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd, neu unigolyn a enwebir ganddo;

(2) tri unigolyn a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor, y mae'n rhaid i bob un ohonynt fod â phrofiad o naill ai ymarfer yn y tribiwnlysoedd neu gynghori unigolion sy'n gysylltiedig ag achosion tribiwnlysoedd;

(3) tri unigolyn a benodir gan yr Arglwydd Brif Ustus, gan gynnwys un barnwr o’r Tribiwnlys Haen Gyntaf, un barnwr o’r Uwch Dribiwnlys, ac un aelod o’r naill dribiwnlys neu’r llall (nad yw’n farnwr)

(4) un unigolyn a benodir gan Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn, gyda phrofiad o system gyfreithiol yr Alban a gwybodaeth amdani; ac

(5) uchafswm o bedwar unigolyn gyda phrofiad o fater neu faes penodol, a benodir gan Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr, Arglwydd Lywydd Llys y Sesiwn, neu Arglwydd Brif Ustus Gogledd Iwerddon, ar wahoddiad Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Dim ond mewn perthynas â’r materion mae ganddynt arbenigedd ynddynt y caniateir penodi’r unigolion hyn i’r Pwyllgor.[125]

6.12 Caiff Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd hefyd benodi unigolyn sydd â phrofiad a gwybodaeth o fater neu faes penodol i gynorthwyo’r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd gyda’r mater neu’r maes pwnc hwnnw.[126]

## Egwyddorion arweiniol Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig

6.13 Mae Rheolau Gweithdrefnol y Tribiwnlys yn cael eu llunio gan Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig yn unol ag amcanion statudol, ac egwyddorion arweiniol pellach sy’n seiliedig ar yr amcanion statudol sylfaenol.

6.14 Mae adran 22(4) o Ddeddf 2007 yn gofyn am y pŵer i arfer rheolau gweithdrefnau tribiwnlysoedd gyda golwg ar sicrhau:

(1) bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni mewn achosion gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf a’r Uwch Dribiwnlys;

(2) bod y system dribiwnlysoedd yn hygyrch ac yn deg;

(3) bod achosion gerbron y Tribiwnlys Haen Gyntaf neu’r Uwch Dribiwnlys yn cael eu trafod yn gyflym ac yn effeithlon;

(4) bod y rheolau’n syml ac yn cael eu mynegi’n syml; a

(5) bod y rheolau, lle bo’n briodol, yn rhoi’r cyfrifoldeb i aelodau’r Tribiwnlys Haen Gyntaf, neu’r Uwch Dribiwnlys, dros sicrhau bod achosion gerbron y tribiwnlys yn cael eu trafod yn gyflym ac yn effeithlon.

6.15 Mae pecyn gwybodaeth diweddar am yr ymgyrch recriwtio yn nodi egwyddorion arweiniol y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd fel a ganlyn:

---

125 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, atodlen 5 (21), (22) a (23).

126 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, atodlen 5 (24).

1) gwneud y rheolau mor syml â phosibl;

2) osgoi iaith dechnegol ddiangen;

3) galluogi tribiwnlysoedd i barhau i weithredu gweithdrefnau dibynadwy y dangoswyd eu bod yn gweithio'n dda; a

4) mabwysiadu rheolau cyffredin ar draws tribiwnlysoedd lle bynnag y bo modd, fel bod rheolau sy'n benodol i siambr tribiwnlys yn cael eu caniatáu dim ond lle mae angen clir ac amlwg amdanynt.[127]

### Yr Alban

6.16 Sefydlwyd Cyngor Cyfiawnder Sifil yr Alban ym mis Mai 2013. Mae'n paratoi rheolau gweithdrefnau drafft ar gyfer llysoedd sifil yn yr Alban, a gyflwynir i Lys y Sesiwn a fydd wedyn yn creu'r rheol drwy Ddeddf Eisteddiad.

6.17 Roedd Deddf Tribiwnlysoedd (Yr Alban) 2014 yn diwygio swyddogaethau Cyngor Cyfiawnder Sifil yr Alban i gynnwys dyletswydd i 'adolygu'r arfer a'r weithdrefn a ddilynir mewn achosion yn y Tribiwnlysoedd yn yr Alban'.[128] Nid yw'r diwygiad mewn grym eto; yn y cyfamser, Gweinidogion yr Alban sy'n gwneud rheolau tribiwnlysoedd.

## PWYLLGOR GWEITHDREFNAU TRIBIWNLYSOEDD I GYMRU

6.18 Daeth ein Papur Ymgynghori i'r casgliad dros dro y byddai ffurfio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru yn datrys rhai o'r problemau a nodwyd uchod. Byddai sefydlu pwyllgor o'r fath yn sicrhau bod y rheolau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn gyfredol. Byddai hefyd yn lleihau dyblygu ymdrechion wrth ddiweddaru setiau o reolau'n unigol.

6.19 Gan hynny, fe wnaethom gynnig y dylid ffurfio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru. Fe wnaethom hefyd gynigion dros dro pellach ynghylch sut byddai Pwyllgor o'r fath yn gweithio. Yn benodol, roeddem yn cynnig y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am gadeirio'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd a phenodi ei aelodau, ac y dylai'r Llywydd gael ei arwain yn y broses hon gan ffactorau a nodir mewn deddfwriaeth. Yn olaf, fe wnaethom ofyn am farn ymatebwyr ynghylch a ddylai'r rheolau gael eu gwneud gan fwyafrif o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd, neu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Yn y naill achos a'r llall, roeddem yn rhagweld y byddai'n rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r rheolau.

### Sefydlu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru

6.20 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 31, fe wnaethom gynnig dros dro y dylid cael Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru. O'r 27 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 26 yn cytuno.

---

[127] Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet, *Candidate Information Pack – August 2019* (2019) paragraff 3. Gweler https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk/appointment/tribunal-procedure-committee-members/

[128] Deddf Cyngor Cyfiawnder Sifil yr Alban a Chymorth Cyfreithiol Troseddol 2013 adran 2 (1)(ba) fel y'i diwygiwyd gan atodlen 9 paragraff 13 Deddf Tribiwnlysoedd (Yr Alban) 2014).

6.21 Roedd y rhai a oedd o blaid yn cynnwys Cymdeithas y Gyfraith, a awgrymodd y dylai'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd gael y dasg gychwynnol o ganfod meysydd priodol ar gyfer safoni rheolau gweithdrefnol, ac wedyn parhau i gynnal y rheolau hynny.

6.22 Roedd nifer o'r ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig dros dro o'r farn y gallai'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd sicrhau cysondeb rheolau ar draws tribiwnlysoedd. Roedd hon yn farn a fynegwyd gan Gyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru, Cyfraith Gyhoeddus Cymru a Keith Bush CF (Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd).

6.23 Amlinellodd Dr Huw Pritchard yn ei erthygl "Building a Welsh Jurisdiction Through Administrative Justice":

> Gallai symleiddio gwahanol reolau a gweithdrefnau fod yn ffordd o hyrwyddo set o reolau gweithdrefnol yng Nghymru y gellid eu haddasu ar gyfer gwahanol awdurdodaethau tra'n parhau i atgyfnerthu'r ymdeimlad o system tribiwnlysoedd Gymreig benodol.[129]

6.24 Bu Huw Williams, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd, a oedd yn ymateb yn bersonol, yn manylu ymhellach ynghylch beth ddylai strwythur y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd fod:

> Dylai pob Siambr gael ei his-bwyllgor rheolau ei hun dan gadeiryddiaeth arweinydd barnwrol y Siambr, gyda'r Pwyllgor Rheolau'n ymgymryd â rôl drosolwg i sicrhau cydlyniad ar draws y system a'r gallu i wrthod newidiadau i reolau a gynigir gan siambrau unigol sy'n effeithio ar gydlyniad cyffredinol heb reswm da.
>
> Am y rheswm hwn, dylai aelodau'r Pwyllgor Rheolau ddod o blith arweinwyr barnwrol y siambrau, gan ychwanegu aelodau sydd â gwybodaeth arbennig am wneud penderfyniadau gweinyddol a phenderfyniadau tribiwnlysoedd, a thrwy hynny eu galluogi i gymryd golwg 'ar draws y system'.

6.25 Rydym yn trafod strwythur Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru ym mharagraffau 6.34 i 6.47 isod.

6.26 Yr unig ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig dros dro oedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, a oedd o'r farn y byddai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru yn 'haen ychwanegol ddiangen o fiwrocratiaeth', gan egluro:

> Os yw'r rhannau o'r rheolau sy'n gyffredin i bob tribiwnlys datganoledig wedi eu cyfyngu i'r prif amcan ac ati, nid yw'r rhain yn debygol o fod angen eu hadolygu'n aml, os o gwbl. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd (sy'n cael eu cadeirio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru) o arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig a gellir lleisio unrhyw bwynt sy'n ymwneud â'r rheolau yn y fforwm hwnnw. Mater i'r tribiwnlysoedd unigol yw monitro'r gwahaniaethau rhwng rheolau'r tribiwnlysoedd

---

129 H Pritchard, "Building a Welsh Jurisdiction Through Administrative Justice" (2017) yn *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives*, tudalen 239.

datganoledig a’r rhai sy’n cyfateb iddynt, fel sy’n digwydd ar hyn o bryd - yn sicr yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

6.27 Rydym yn cydnabod bod arweinwyr barnwrol mewn sefyllfa unigryw i roi cyngor ar y rheolau gweithdrefnol sy’n ymwneud â’u tribiwnlys eu hunain. Fodd bynnag, rydym wedi ein hargyhoeddi o fanteision corff canolog sy'n goruchwylio'r rheolau gweithdrefnol ar draws y tribiwnlysoedd yn gyffredinol. Rydym yn cydnabod yr angen am arbenigedd pwnc wrth lunio rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd unigol, ac rydym o'r farn y gellir cyflawni hyn drwy benodi aelodau’n ofalus i Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru. Byddem yn disgwyl i aelodaeth Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru adlewyrchu gwahanol awdurdodaethau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

## CYFANSODDIAD A SWYDDOGAETHAU PWYLLGOR GWEITHDREFNAU TRIBIWNLYSOEDD I GYMRU

### Strwythur Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru

6.28 Mae gan y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd nifer o is-grwpiau yn y system tribiwnlysoedd a gedwir. Mae rhai o’r rhain wedi eu ffurfio o awdurdodaethau penodol; er enghraifft, ceir is-grŵp iechyd, hawliau cymdeithasol a phensiynau rhyfel ac iawndal y lluoedd arfog. Mae’r grŵp hwnnw’n cynnwys gwaith sy’n ymwneud â’r Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol, Siambr Hawl Gymdeithasol, Siambr Iawndal Pensiynau Rhyfel a’r Lluoedd Arfog a Siambr Apeliadau Gweinyddol yr Uwch Dribiwnlys (ac eithrio’r apeliadau hynny sy’n deillio o’r Siambr Reoleiddio Gyffredinol). Ceir is-grwpiau hefyd sy’n rhoi sylw i gostau a chyfrinachedd, ac is-grŵp trosolwg sy’n ystyried newidiadau arfaethedig i reolau sy’n effeithio ar fwy nag un o’r is-grwpiau eraill.

6.29 Awgrymodd Huw Williams i ni y dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru gael is-grwpiau hefyd. Cyflwynodd y strwythur a ganlyn:

> Dylai pob Siambr gael ei his-bwyllgor rheolau ei hun dan gadeiryddiaeth arweinydd barnwrol y Siambr, gyda’r Pwyllgor Rheolau’n ymgymryd â rôl drosolwg i sicrhau cydlyniad ar draws y system a’r gallu i wrthod newidiadau i reolau a gynigir gan siambrau unigol sy’n effeithio ar gydlyniad cyffredinol heb reswm da.
>
> Am y rheswm hwn, dylai aelodau’r Pwyllgor Rheolau gael eu tynnu o arweinwyr barnwrol y siambrau gan ychwanegu aelodau sydd â gwybodaeth arbennig am wneud penderfyniadau gweinyddol a phenderfyniadau tribiwnlysoedd a thrwy hynny eu galluogi i gymryd golwg ‘ar draws y system’.

6.30 Rydym yn gweld gwerth mewn cael grwpiau penodol o fewn Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru i ganolbwyntio ar faterion penodol, ac rydym yn argymell y dylai’r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd allu creu’r rhain. Mae’n bosibl mai’r ffordd orau o drefnu’r is-grwpiau hyn fyddai drwy siambr. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen creu is-grwpiau ychwanegol i ganolbwyntio ar faterion penodol; ac mae'n bosibl y bydd nifer o siambrau’n dymuno cael is-grŵp ar y cyd, os gwelant fod problemau neu themâu cyffredin yn eu rheolau gweithdrefnol.

6.31 Yn ein barn ni, ni fyddai'n ddefnyddiol i ni geisio rhagweld ar hyn o bryd pa is-grwpiau fyddai'n ddefnyddiol i Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru. Rydym yn argymell isod y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gadeirio'r Pwyllgor, a byddem yn disgwyl i'r Llywydd werthuso pa is-grwpiau sy'n angenrheidiol wrth i waith y Pwyllgor ddatblygu.

### Cadeirio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru

6.32 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 32, fe wnaethom gynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am gadeirio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru a phenodi ei aelodau. Roedd mwyafrif o'r 22 ymatebydd yn cytuno â'r cynnig dros dro. Nododd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ateb "arall", gan nad oedd o'r farn bod angen Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru. Roedd Syr Wyn Williams, Llywydd presennol Tribiwnlysoedd Cymru, yn cytuno y dylai'r Llywydd gadeirio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru a phenodi ei aelodau, gan y byddai'n 'rôl arweinyddiaeth farnwrol bwysig i'r Llywydd'. Byddai'n datblygu rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ymhellach o dan adran 61 o Ddeddf Cymru 2017.

6.33 Rydym hefyd wedi cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 33 y dylai penodi aelodau o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru gael ei arwain gan ffactorau a nodir mewn deddfwriaeth, gan gynnwys yr angen i'r Pwyllgor gael mynediad at amrywiaeth o arbenigedd. Unwaith eto, roedd mwyafrif yr ymatebwyr (22 o'r 24 a atebodd y cwestiwn) o blaid.

### Cyfansoddiad

#### Deiliadaeth

6.34 Fel arfer, gwneir penodiadau cyhoeddus am gyfnod penodol. Yng Mhwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig, gwneir penodiadau fel arfer am gyfnod penodol o dair blynedd, gyda phosibilrwydd o ailbenodi.[130] Mae Cod Llywodraethu Swyddfa'r Cabinet ar Benodiadau Cyhoeddus yn cynnwys 'rhagdybiaeth gref' na ddylai unrhyw unigolyn, mewn penodiad cyhoeddus, wasanaethu am fwy na dau dymor neu wasanaethu mewn unrhyw un swydd am fwy na deng mlynedd.[131] Mae'n bosibl na fydd modd cadw at y terfyn hwn yn achos penodiadau i Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'r gronfa o aelodau yn debygol o fod yn fychan, a gellir colli arbenigedd os gosodir cyfyngiadau caeth ar ddeiliadaeth. Rydym o'r farn y byddai dull mwy hyblyg o ymdrin â hyd gwasanaeth ar Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru yn dderbyniol.

#### Aelodaeth

6.35 Mae aelodaeth Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig yn cael ei rhagnodi drwy statud, fel y nodir ym mharagraff 6.11 uchod. Nid ydym o'r farn y byddai dull gweithredu mor rhagnodol yn briodol ar gyfer y Pwyllgor Gweithdrefnau

---

[130] Penodiadau Cyhoeddus Swyddfa'r Cabinet, *Candidate Information Pack – August 2019* (2019) paragraff 4. Gweler https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk/appointment/tribunal-procedure-committee-members/

[131] Swyddfa'r Cabinet, *Governance Code on Public Appointments* (Rhagfyr 2016) paragraff 3.6 Gweler https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf

Tribiwnlysoedd i Gymru, a gallai fod yn anymarferol pan fydd aelodau'n cael eu tynnu o gronfa fechan o ymgeiswyr. Fodd bynnag, rydym yn gweld gwerth mewn nodi egwyddorion cyffredinol a ddylai lywio dull gweithredu Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Credwn y dylai'r Llywydd roi sylw i'r angen, wrth wneud penodiadau, i sicrhau:

(1) bod buddiannau pob Siambr o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a, maes o law, Tribiwnlys Apêl Cymru yn cael eu cynrychioli;

(2) bod gan y Pwyllgor fynediad at bobl sydd ag arbenigedd perthnasol; a

(3) bod y Pwyllgor yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o ymddangos gerbron y tribiwnlys neu o gynghori'r rhai sy'n gwneud hynny.

### Cynrychiolaeth gyfrannol

6.36 Un pryder a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad oedd y byddai siambrau mwy yn tra-arglwyddiaethu ar broses y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru o wneud penderfyniadau. Eglurodd Panel Dyfarnu Cymru:


> mae rhai aelodau'n pryderu y gallai ein pryderon, fel tribiwnlys llai, gael eu hanwybyddu, ond mae'r mwyafrif o'r farn bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn annhebygol o ganiatáu i hyn ddigwydd.

6.37 Hyderwn y bydd cadw at yr egwyddor y dylai pob siambr gael ei chynrychioli ar y Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru yn cyfrannu at osgoi'r broblem hon.

## PŴER I WNEUD RHEOLAU

6.38 Ym Mhwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig, mae rheolau'n cael eu gwneud gan aelodau'r Pwyllgor, ar ôl ymgynghori â phobl sy'n briodol yn eu barn nhw (gan gynnwys Llywyddion Siambr). Cyflwynir rheolau drafft i'r Arglwydd Ganghellor sy'n eu caniatáu neu'n eu gwrthod. Os caniateir y rheolau, byddant yn cael eu gwneud gan fwyafrif o aelodau'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd drwy offeryn statudol.

6.39 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 34, gofynnom i'r ymatebwyr am eu barn ar sut dylai rheolau'r tribiwnlysoedd datganoledig gael eu llunio. Roeddem o'r farn ei bod yn bwysig i Weinidogion Cymru gael cyfle i gymeradwyo neu wrthod y rheolau. Gofynnwyd pwy ddylai allu cyflwyno rheolau drafft i Weinidogion Cymru; a ddylai hynny ddigwydd drwy fwyafrif o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ynteu Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Atebodd ugain o ymatebwyr y cwestiwn hwn.




6.40 Roedd deuddeg ymatebydd o'r farn y dylai'r rheolau gael eu gwneud gan fwyafrif o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd a chredai dau y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru eu gwneud. Rhoddodd chwech o ymatebwyr ateb 'arall'. Roedd y rhan fwyaf ohonynt o blaid y syniad o gyfuno'r gwaith llunio rheolau gan fwyafrif o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd neu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru.

### Mwyafrif Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd

6.41 Credai Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer y dylai'r rheolau gael eu llunio gan fwyafrif syml o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd. Roedd Dr Calum Delaney (aelod o Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru neu "TAAAC"; a ailenwyd yn Dribiwnlys Addysg Cymru ym mis Medi 2021) yn dadlau y dylai'r rheolau gael eu gwneud gan 'fwyafrif cymwys, sydd ychydig yn fwy na 50%'.

6.42 Mynegodd Roger Handy (cadeirydd o fewn Tribiwnlys Prisio Cymru) y farn y dylai'r rheolau gael eu gwneud gan fwyafrif o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd, gan y byddai'n cael ei gadeirio gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru beth bynnag.

6.43 Eglurodd Dr Sarah Nason (uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor) a Dr Huw Pritchard (darlithydd ym Mhrifysgol Caerdydd) pam eu bod o'r farn mai dyma oedd y dewis gorau:

> Credwn y byddai rhoi'r awdurdod gwneud rheolau yng ngofal mwyafrif o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd yn helpu i rymuso a sicrhau hygrededd y pwyllgor hwnnw. Byddai hefyd yn gyson â phwyllgorau rheolau eraill - er enghraifft, Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 2007 (Atodlen 5)) a Phwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil (Deddf Trefniadaeth Sifil 1997, adran 2(8)).

6.44 Cytunodd Christopher McNall, Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, y byddai hyn yn cynyddu 'rhannu pwerau'.

6.45 Cytunodd Dr Angela Ash, aelod o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, â’r awgrym hefyd. Credai y byddai hyn yn well na Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gwneud y rheolau, gan rybuddio y byddai angen ‘gwirio pe bai’r Llywydd yn gyfrifol am wneud rheolau, er mwyn atal atgyfnerthu pŵer yn ormodol yn yr un rôl hon’.

6.46 Roedd Cyngor Llywodraethu’r Tribiwnlys Prisio a Richard Payne (Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru) hefyd yn ffafrio’r syniad bod y rheolau’n cael eu gwneud gan fwyafrif o’r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru. Mynegodd Panel Dyfarnu Cymru ei niwtraliaeth ar y pwynt hwn ond ychwanegodd ‘mae’n annhebygol y byddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gosod rheolau nad oedd y rhan fwyaf o’r pwyllgor yn eu cefnogi’.

### Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru

6.47 Credai dau ymatebydd y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wneud y rheolau. Ni roddodd un (Cyngor Sir Ddinbych) resymau dros ei ateb.

6.48 Mynegodd Huw Williams y farn y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wneud y rheolau, o fod ‘yn y sefyllfa orau i arwain y gwaith o ddatblygu dull cydlynol o ymdrin â rheolau gweithdrefnol’. Manylodd ymhellach ar sut dylid gwneud y rhain yn ymarferol:

> Dylai cynigion i ddiwygio’r Rheolau gael eu rhoi ar waith gan y Llywydd a ddylai fod â chylch gwaith statudol i gadw golwg ar y rheol. Dylai’r rheolau gael eu gwneud drwy offeryn statudol gan Wasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru fel adran anweinidogol a’u gosod gerbron y Senedd.

### Cyfuniadau eraill

6.49 Credai Syr Wyn Williams y dylai’r tri chwarae rhan yn y gwaith o lunio’r rheolau. Eglurodd ei fod, yn ymarferol, yn rhagweld

> ...rheolau cychwynnol a’r diwygiadau iddynt yn y dyfodol yn cael eu llunio a’u derbyn gan y Pwyllgor Rheolau. Byddai’n rhaid cael cymeradwyaeth gan y rhan fwyaf o’r Pwyllgor er mwyn bwrw ymlaen â rheolau o’r fath. Byddwn yn rhagweld mai mecanwaith gwneud y rheolau fyddai eu bod yn cael eu gwneud gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyda chytundeb Gweinidogion Cymru.

6.50 Roedd Cymdeithas y Gyfraith yn fodlon bod ‘rheolau’n cael eu gwneud, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ond nid gan fwyafrif o aelodau’r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd’. Roedd ganddynt bryderon ynghylch:

> dilysrwydd galluogi mwyafrif aelodau’r pwyllgor i gytuno ar newidiadau i reolau tribiwnlys/siambr hyd yn oed os yw’r tribiwnlys/siambr yr effeithir arno’n uniongyrchol yn cael ei wrthwynebu.

6.51 Eglurodd y Tribiwnlys nad oedd ganddo farn ynghylch a ddylai’r rheolau gael eu cymeradwyo’n ffurfiol gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ynteu gan Weinidogion Cymru, oherwydd “yn ymarferol, byddai hyn yn gyfystyr â’r un peth – byddai Gweinidogion Cymru yn dibynnu ar gyngor Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wrth gymeradwyo’r rheolau neu fel arall”.

### Casgliad

6.52 Rydym wedi dod i'r casgliad mai'r dull gorau yw'r un a awgrymir gan Syr Wyn Williams, sef y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wneud y rheolau, ar ôl i fwyafrif o'r Pwyllgor eu llunio a'u derbyn, ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

6.53 Rydym yn cytuno â Huw Williams mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru sydd yn y sefyllfa orau i 'arwain y gwaith o ddatblygu dull cydlynol o ymdrin â rheolau gweithdrefnol'. Rydym yn cytuno ag awgrym Syr Wyn Williams na ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru allu gwneud rheolau heblaw am rai â thelerau y cytunwyd arnynt gan fwyafrif o'r Pwyllgor; mae'n ymddangos i ni fod hyn yn bodloni dymuniad aelodau'r tribiwnlys am wiriadau a bydd hefyd yn helpu i rymuso a sicrhau hygrededd y Pwyllgor. Ar yr un pryd, dylai atal mwyafrif o'r pwyllgor rhag gorfodi eu barn, gan na fyddai'r Llywydd yn cael ei orfodi i wneud rheol wrthwynebus. Yn olaf, gan fod telerau'r rheolau yn gallu arwain at oblygiadau o ran costau, rydym o'r farn y dylai'r rheolau hefyd ofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru.

6.54 Rydym hefyd yn argymell dyletswydd ar y Pwyllgor i ymgynghori â phwy bynnag y credant sy'n briodol cyn i'r rheolau gael eu gwneud.

**Argymhelliad 21.**

6.55 Rydym yn argymell y dylid sefydlu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru.

**Argymhelliad 22.**

6.56 Rydym yn argymell y dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru allu sefydlu is-grwpiau i ganolbwyntio ar feysydd gwaith penodol.

**Argymhelliad 23.**

6.57 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am gadeirio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru a phenodi ei aelodau.

**Argymhelliad 24.**

6.58 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, wrth benodi aelodau o Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru, ystyried y ffactorau a nodir mewn deddfwriaeth, gan gynnwys yr angen i:

(1) fuddiannau pob un o Siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ac, yn y man, Tribiwnlys Apêl Cymru, i gael ei gynrychioli;

(2) bod gan y Pwyllgor fynediad at bobl sydd ag arbenigedd perthnasol; a

(3) bod y Pwyllgor yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o ymddangos gerbron y tribiwnlys neu o gynghori'r rhai sy'n gwneud hynny.

**Argymhelliad 25.**

6.59 Rydym yn argymell bod y rheolau'n cael eu gwneud gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ar ffurf y cytunir arni gan fwyafrif o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd, ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

**Argymhelliad 26.**

6.60 Rydym yn argymell y dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru ymgynghori â phwy bynnag mae'n ystyried sy'n briodol (gan gynnwys aelodau'r tribiwnlys, aelodau o'r farnwriaeth ehangach, ymarferwyr a defnyddwyr tribiwnlysoedd) cyn gwneud y rheolau.

## SAFONI RHEOLAU GWEITHDREFNAU

6.61 Fel y nodwyd gennym yn y Papur Ymgynghori, gwelsom werth safoni rhai agweddau ar reolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig. Gallai hyn sicrhau cysondeb, mwy o hygyrchedd i ddefnyddwyr,[132] a symlrwydd i staff gweinyddol a barnwyr sydd wedi eu traws-docynnu. Roeddem o'r farn, fodd bynnag, y dylid ymgymryd ag unrhyw broses safoni yn ofalus, gan nodi lle mae anghenion tribiwnlysoedd unigol yn cyfiawnhau'r gwahaniaethau mewn rheolau ac y dylid cadw'r gwahaniaethau hynny.

132 Gweler trafodaeth bellach ar fanteision hygyrchedd symleiddio rheolau gweithdrefnol yng nghyhoeddiad y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Pwyllgor Cymreig, dan y teitl *Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* (2010), paragraff 84.

6.62 Gofynnom ddau gwestiwn i ymatebwyr mewn perthynas â safoni rheolau gweithdrefnol. Yn gyntaf, fe wnaethom gynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 27 y dylid safoni'r rheolau trefniadol cyn belled ag y bo modd. Yna gofynnwyd yng Nghwestiwn Ymgynghori 29 a ddylid parhau i gael set ar wahân o reolau ar gyfer pob tribiwnlys neu siambr. Roedd Cwestiwn Ymgynghori 28 yn ymdrin â'r pwnc o wahaniaethu rhwng rheolau tribiwnlysoedd datganoledig a rheolau Tribiwnlys Haen Gyntaf y Deyrnas Unedig; rydym yn trafod hyn ar wahân isod.

### Safoni nodweddion cyffredin

6.63 Atebodd dau ddeg pump o'r ymatebwyr Gwestiwn Ymgynghori 27 ,gyda mwyafrif o'r rhain, 23, yn cytuno a dau yn nodi atebion "arall".

6.64 Cytunodd Panel Dyfarnu Cymru, Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru, Syr Wyn Williams, Cyfraith Gyhoeddus Cymru, Keith Bush CF, Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard a Richard Payne i safoni'r rheolau cyn belled ag y bo modd. Awgrymodd y Panel hefyd y dylai'r rheolau ymdrin â gwrandawiadau cyhoeddus a phreifat.

6.65 Tynnodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard ein sylw at waith yr Athro Robin Creyke. Daeth ei gwaith ymchwil ar system tribiwnlysoedd Awstralia i'r casgliad y gallai lleihau amrywiadau rhwng rheolau ar wahanol fathau o faterion arwain at fanteision trefniadol o well hygyrchedd i ymgeiswyr.[133]

6.66 Dywedodd Huw Williams:

> mae cydbwysedd y dadleuon o blaid system lle mae gan bob Siambr ei set ei hun o reolau, a ddatblygwyd gan ddefnyddio profiad ac arbenigedd y rhai sy'n cynghori ac yn dyfarnu'n rheolaidd ar y pwnc.

Fodd bynnag, roedd o'r farn y bydd

> ... amrywiaeth o faterion - er enghraifft, gwrandawiadau o bell, ffeilio achosion a phapurau'n electronig, amddiffyn partïon neu bobl agored i niwed sydd ag anabledd, trefniadau eisteddiadau lleol, ymweliadau safle, adolygu eu penderfyniadau eu hunain, a llawer mwy, heb amheuaeth, lle dylid mabwysiadu dull gweithredu cyffredin ar draws y gwahanol setiau o reolau. Dylai'r nod fod yn syniad bod gan y system yn ei chyfanrwydd agwedd gyffredin tuag at broblemau cyffredin. Un o ganlyniadau hyn yw y bydd ymarferwyr ar draws y system tribiwnlysoedd datganoledig yn datblygu ymdeimlad mwy greddfol dros amser o ddull gweithredu'r system Gymreig.

6.67 Daeth ei ymateb i ben drwy awgrymu y dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru gael 'cylch gorchwyl penodol i ddatblygu a chynnal dulliau gweithredu cyffredin'.

### Setiau ar wahân o reolau ar gyfer pob siambr

6.68 Yn y Papur Ymgynghori, rydym yn nodi'r dewisiadau ar gyfer cyflwyno'r rheolau gweithdrefnol. Y dewis cyntaf yw creu un set o reolau gweithdrefnol sy'n berthnasol i

---

133 R Creyke, "Amalgamation of Tribunals in Australia: Whether 'tis Better…?" S Nason (ed.) *Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives* (UWP 2017) tudalen 336 i 337.

bob siambr mewn tribiwnlys. Y dewis arall yw cynnal set ar wahân o reolau gweithdrefnol ar gyfer pob siambr, a allai serch hynny gynnwys rhai darpariaethau unfath (fel y prif amcan).

### Safbwyntiau cymharol

6.69 Ar hyn o bryd mae gan yr Uwch Dribiwnlys ddwy set o reolau gweithdrefnol: un yn berthnasol i'r Siambr Apeliadau Gweinyddol, y Siambr Mewnfudo a Lloches a'r Siambr Treth a Siawnsri a'r llall yn berthnasol i'r Siambr Tiroedd.[134]

6.70 Fodd bynnag, mae gan Dribiwnlysoedd Haen Gyntaf y Deyrnas Unedig a'r Alban setiau ar wahân o reolau gweithdrefnol ar gyfer pob siambr. Mae saith set o reolau gweithdrefnol yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys prif amcanion unfath a dyletswydd y partïon i gydweithredu â'r tribiwnlys.

### Ymgynghoriad

6.71 Yn y Papur Ymgynghori, fe wnaethom gynnig dros dro y dylid parhau i gael set ar wahân o reolau ar gyfer pob siambr. Roedd dau ar hugain o'r ymatebwyr yn cytuno, roedd un yn anghytuno a dewisodd dau ateb "arall".

6.72 Cytunodd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard â'r cynnig dros dro, ar y sail y bydd cadw'r rheolau ar wahân yn adlewyrchu hunaniaeth benodol siambrau ac yn 'cynnal arbenigedd pob awdurdodaeth a'r gwaith amrywiol a wneir gan wahanol dribiwnlysoedd yng Nghymru'.

6.73 Cytunodd Keith Bush CF, Roger Handy a Richard Payne â'r cynnig ar y sail y byddai un set gyfun o reolau yn anymarferol. Tynnodd Richard Payne sylw at y set 90 tudalen o Reolau Siambrau Apeliadau Gweinyddol, Mewnfudo a Lloches a Threth a Siawnsri yn Rheolau'r Uwch Dribiwnlys 2008, gan ddweud bod un set o reolau gweithdrefnol yn 'anhylaw ac yn gwbl anhwylus i ymgyfreithwyr a (yn llai pwysig) chyfreithwyr fel ei gilydd'.

6.74 Rydym yn falch bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig dros dro ac rydym yn argymell isod bod Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru yn cadw set o reolau ar wahân ar gyfer pob siambr.

## Casgliad

6.75 Un o'r egwyddorion arweiniol a ddilynir gan Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig yw y dylai'r Pwyllgor ymdrechu i:

> fabwysiadu rheolau cyffredin ar draws tribiwnlysoedd lle bynnag y bo modd, fel bod rheolau sy'n benodol i siambr neu dribiwnlys yn cael eu caniatáu dim ond lle mae angen clir ac amlwg amdanynt.

6.76 Rydym wedi cael ein darbwyllo y byddai dull tebyg yn briodol ar gyfer y rheolau gweithdrefnol ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig. Dim ond i'r graddau bod angen gwahaniaeth rhwng gwahanol siambrau y dylai'r ddarpariaeth ar bwnc penodol fod yn

---

[134] Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Uwch Dribiwnlys) Offeryn Statudol 2008 Rhif 2698 a Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Uwch Dribiwnlys) (Siambr Tiroedd) Offeryn Statudol 2010 Rhif 2600.

wahanol. Mater i Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru yw beth ddylai'r ddarpariaeth safonol fod, ac i ba raddau y mae wedi gwyro oddi wrtho.

6.77 Fodd bynnag, ni ddylid cael un set o reolau gweithdrefnol sy'n berthnasol i bob siambr, a fyddai'n debygol o greu set gymhleth o reolau gweithdrefnol, sy'n anodd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd lleyg eu defnyddio, ac i aelodau tribiwnlysoedd lywio drwyddynt. Credwn y dylid cael set ar wahân o reolau gweithdrefnol ar gyfer pob siambr yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Os bydd Tribiwnlys Apêl Cymru, maes o law, yn cael ei rannu'n siambrau, mater i Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru fydd penderfynu a ddylid gwneud setiau ar wahân o reolau ar gyfer pob siambr.

**Argymhelliad 27.**

6.78 Dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru fabwysiadu rheolau gweithdrefnol cyffredin ar draws y tribiwnlysoedd i'r graddau y bo hynny'n briodol.

**Argymhelliad 28.**

6.79 Dylid cael set o reolau gweithdrefnol ar gyfer pob un o siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ac ar gyfer Tribiwnlys Apêl Cymru. Os rhennir Tribiwnlys Apêl Cymru yn siambrau, dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru ystyried a ddylid gwneud set o reolau ar wahân ar gyfer pob siambr.

### Dargyfeirio rhwng y rheolau

6.80 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 28 roeddem yn gofyn am farn ynghylch a oes achosion o wahaniaethau annymunol rhwng rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig a Thribiwnlysoedd Haen Gyntaf a sut gellid rheoli'r risg o wahaniaethau. Cawsom 15 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

6.81 Fe wnaeth Huw Williams y pwynt:

> Ymddengys bod y mater mwyaf yn deillio o'r ffaith bod y gwahanol setiau o reolau cyfredol wedi cael eu datblygu dros ddegawdau dan wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol...
>
> Mae'n ymddangos nid yn gymaint bod y broblem yn ymwneud â gwahaniaethau annymunol ond yn hytrach nad yw'r rheolau tribiwnlysoedd datganoledig a wneir yn eu cyfanrwydd i gyd yn adlewyrchu normau presennol cwblhau achosion yn deg, yn gyfiawn ac yn gymesur sy'n deillio o feddylfryd diwygiadau Woolf.

6.82 Nododd y Papur Ymgynghori ddau wahaniaeth rhwng y rheolau gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Yn gyntaf, yn wahanol i reolau gweithdrefnol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl), nid yw rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Adolygu Iechyd

Meddwl Cymru yn cynnwys gofyniad penodol i’r partïon gydweithredu (mater y byddwn ni’n ei drafod ymhellach ym mharagraff 6.112 isod). Yn ail, er bod y ddwy set o reolau’n cynnwys amcan sydd bron a bod yn union yr un fath, mae rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn hepgor yr angen i ddelio ag achos ‘mewn ffyrdd sy’n gymesur â phwysigrwydd yr achos, cymhlethdod y materion, y costau disgwyliedig ac adnoddau’r partïon’.

6.83 Eglurodd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, yn ogystal â’r anghysondeb o ran y ddyletswydd i gydweithredu, bod gwahaniaethau hefyd o ran y ddyletswydd i ddileu. Ychwanegodd yr ymateb:

> Pan fydd mecanwaith ar gyfer newid ein rheolau yn cael ei gadarnhau, byddem yn fodlon sicrhau mwy o gydymffurfio â rheolau’r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl).

6.84 Fodd bynnag, roedd Richard Payne (sy’n farnwr yn Nhribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn ogystal â Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru), yn ystyried y gwahaniaethau a amlygwyd yn ein Papur Ymgynghori fel ‘pwyntiau academaidd nad ydynt, yn fy marn i... wedi cael unrhyw effaith ar gleientiaid’ ac ‘nad ydynt yn annymunol fel y cyfryw’. Serch hynny, rydym yn ystyried bod dargyfeirio lle na fwriedir gwahaniaeth yn y canlyniad yn rhywbeth y buasai'n well ei osgoi. Ym mharagraff 6.166 isod, rydym yn argymell cyflwyno dyletswydd ar y partïon i gydweithredu â'i gilydd, Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, a Thribiwnlys Apêl Cymru.

6.85 Rydym yn rhannu barn ymatebwyr, gan gynnwys Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar a Chymdeithas y Gyfraith, y bydd y risg o wahaniaethau yn cael ei rheoli drwy rôl Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru yn goruchwylio datblygiad y system yn ei chyfanrwydd. Rydym eisoes wedi crybwyll, fel un o fanteision Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru, y bydd mewn sefyllfa i bwyso a mesur cyflwr rheolau gweithdrefnol ar draws y tribiwnlysoedd yn gyffredinol. Bydd hefyd yn gallu gweld unrhyw wahaniaeth sy’n dod i’r amlwg rhwng rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig a rheolau’r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

6.86 Ni fyddem yn dymuno clymu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru i ddilyn rheolau tribiwnlysoedd eraill, ond credwn y dylai’r Pwyllgor ystyried pa mor ddymunol yw cysondeb, o fewn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig a rhyngddynt hwy a rhai llysoedd a thribiwnlysoedd eraill yn y Deyrnas Unedig. O ganlyniad, rydym yn argymell bod dyletswydd o’r fath yn cael ei chynnwys mewn deddfwriaeth.

**Argymhelliad 29.**

6.87 Rydym yn argymell y dylai'r ddeddfwriaeth fynnu bod Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru yn ystyried pa mor ddymunol yw cysondeb o fewn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig a rhyngddynt hwy a rheolau llysoedd a thribiwnlysoedd eraill yn y Deyrnas Unedig.

### Uno rheolau Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

6.88 Ar hyn o bryd, nid yw'r rheolau yn Nhribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ar ffurf un set o reolau. Defnyddir y term "Tribiwnlys Eiddo Preswyl" i ddisgrifio corff sy'n cynnwys tribiwnlysoedd eiddo preswyl, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau a phwyllgorau asesu rhenti. Mae gan bob un o awdurdodaethau'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl ei reolau gweithdrefnol penodol ei hun, gyda'r pŵer i wneud y rheolau i'w canfod mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol y Deyrnas Unedig.

6.89 Mae anghysondebau ar draws y tair set o reolau gweithdrefnol. Mae hyn yn creu cymhlethdod diangen i aelodau'r tribiwnlys, ymarferwyr a defnyddwyr, heb gyfiawnhad egwyddorol. O ganlyniad, rydym wedi cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 30 bod y rheolau gweithdrefnol ar gyfer y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn cael eu cyfuno i greu un set. Atebodd 14 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda phob un ohonynt yn cytuno.

6.90 Yn benodol, roedd Richard Payne, Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, yn cytuno'n gryf â'n cynnig dros dro. Esboniodd:

> ... mae'r tair set wahanol o reolau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn anaddas i'r diben. I roi un enghraifft, nid oes unrhyw beth am y gallu i dynnu achos yn ôl yn rheolau'r tribiwnlys prisio lesddaliadau ond mae hynny i'w gael yn rheolau'r tribiwnlys eiddo preswyl. Byddai un set o reolau Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn dal i fod angen rhai israniadau i adlewyrchu'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y tribiwnlys eiddo preswyl, y tribiwnlys prisio lesddaliadau a'r pwyllgor asesu rhenti.

6.91 Ym Mhennod 3 rydym yn argymell creu Siambr Eiddo, gan gyfuno awdurdodaethau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Yn unol ag Argymhelliad 28 uchod, byddem yn rhagweld, os caiff yr argymhelliad hwn ei dderbyn, y byddai un set o reolau ar gyfer y siambr newydd; petai siambrau amaethyddol a phreswyl ar wahân yn cael eu cadw, byddai gan y ddau un set o reolau yr un yn unig.

## MATERION PENODOL MEWN RHEOLAU GWEITHDREFNOL

6.92 Roedd ein Papur Ymgynghori wedi nodi rhai problemau gyda rheolau gweithdrefnol presennol tribiwnlysoedd adran 59, ac wedi gwneud rhai cynigion dros dro ynghylch sut gellid gwella'r rheolau.

### Prif amcan

6.93 Mae rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Tribiwnlys Addysg Cymru, tribiwnlysoedd eiddo preswyl sy'n rhan o dribiwnlysoedd Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys y Gymraeg yn cynnwys prif amcan. Er bod pob prif

amcan yn wahanol yn ei eiriad, un peth sy'n gyffredin rhyngddynt yw'r gofyniad y dylid ymdrin ag apeliadau a hawliadau "yn deg ac yn gyfiawn".[135]

6.94 Nododd yr Athro Kris Gledhill mewn erthygl yn nghyfnodolyn *Tribunals*:

> Mae cynnwys y prif amcan yn enghraifft o duedd yn y ffordd mae cyfraith statud yn cael ei strwythuro, gan ddefnyddio datganiadau o egwyddor i arwain ymarfer disgresiwn.[136]

6.95 Gwelsom werth cynnwys prif amcan yn y rheolau gweithdrefnol safonol newydd a'i gymhwyso'n gyson ar draws tribiwnlysoedd. Yn y Papur Ymgynghori, rhoesom enghraifft o'r hyn y gallai'r prif amcan ei gynnwys, gan ddefnyddio enghreifftiau a gymerwyd o'r datganiadau o'r prif amcan sydd yn y rheolau gweithdrefnol presennol:

(1) delio ag achosion mewn ffyrdd sy'n gymesur â phwysigrwydd yr achos, cymhlethdod y materion a'r costau disgwyliedig ac adnoddau'r partïon a'r tribiwnlys;[137]

(2) osgoi ffurfioldeb diangen;[138]

(3) sicrhau bod partïon yn gallu cymryd rhan lawn yn yr achos;[139]

(4) sicrhau bod y tribiwnlys yn defnyddio ei arbenigedd yn effeithiol; a[140]

(5) thrin ieithoedd y tribiwnlys yn gyfartal.[141]

6.96 Roeddem wedi cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 21 y dylai rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig gynnwys prif amcan. Atebodd saith ar hugain o ymatebwyr y cwestiwn hwn, pob un ohonynt yn cytuno.

---

135 Ceir enghraifft o amrywiad yn Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru Offeryn Statudol 2008 Rhif 2705 ("Rheolau'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl"), rheoliad 3 sy'n datgan mai prif amcan y rheolau yw galluogi'r tribiwnlys i ddelio ag achosion 'yn deg, yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn ddiymdroi'.

136 K Gledhill, "Evolution Rather than Revolution" yn *Tribunals Journal* (Hydref 2009) tudalen 13.

137 Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012 Offeryn Statudol 2012 Rhif 322 (Cy 53), rheoliad 6(2)(a), Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg Offeryn Statudol 2015 Rhif 1028 (Cy 76), rheol 3(2)(a), Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl (Cymru) Offeryn Statudol 2016 Rhif 1110 (Cy 267), rheoliad 3(2)(a) a Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlys (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Hawl Cymdeithasol) 2008 Rhif 2685 rheol (2)(2)(a).

138 Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, rheol 3(2)(a), Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru Offeryn Statudol 2021 Rhif 406 (Cy 132), rheoliad 4(1)(b); a Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg, rheol 3(2)(b). Mae Rheolau'r Tribiwnlys hefyd yn nodi bod hyn yn cynnwys 'chwilio am hyblygrwydd yn yr achos'.

139 Rheolau'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, rheol 3(2)(b); Rheoliadau'r Tribiwnlys Addysg, rheoliad 4(1)(c); rheoliad 6(2)(c); Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg, rheol 3(2)(c); a Rheoliadau'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, rheoliad 3(2)(b).

140 Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, rheol 3(2)(c); Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru, rheoliad 4(1)(d); Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg, rheol 3(2)(e); a Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, rheoliad 3(2)(d).

141 Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg, rheol 3(2)(d).

6.97 Gellir rhannu'r ymatebion sy'n cefnogi'r cynnig dros dro hwn yn fras yn dair thema, a drafodir yn eu tro isod.

### Hyrwyddo cyfiawnder

6.98 Eglurodd y Panel Dyfarnu fod y prif amcanion yn 'cynorthwyo tribiwnlysoedd a'u haelodau i sicrhau yr ymdrinnir ag achosion yn deg ac yn gyfiawn'.

6.99 Eglurodd aelod o'r tribiwnlys a oedd yn dymuno aros yn ddienw bod:

> ...triniaeth deg yn llygad y gyfraith yn un o gonglfeini sylfaenol system gyfiawnder effeithiol a chynhwysol. Mae cynnwys prif amcan i ddelio ag achosion yn deg ac yn gyfiawn yn pwysleisio'r egwyddor hon ac yn sail i holl swyddogaethau'r tribiwnlys.

### Helpu i wneud penderfyniadau barnwrol

6.100 Cytunodd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Keith Bush CF a Roger Handy i gyd fod cael prif amcan yn helpu aelodau tribiwnlysoedd i wneud eu penderfyniadau, gyda'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl yn egluro ei fod 'yn darparu arweiniad barnwrol defnyddiol mewn sefyllfaoedd anodd'. Manteisiodd Keith Bush CF ar ei brofiad fel cyn arweinydd barnwrol Tribiwnlys y Gymraeg, gan ddweud mai'r 'prif amcan yw datganiad sydd o gymorth hanfodol fel canllaw wrth wneud penderfyniadau anodd ar gwestiynau gweithdrefnol'.

### Helpu defnyddwyr tribiwnlysoedd

6.101 Dywedodd dau ymatebydd wrthym fod cael prif amcan yn fuddiol oherwydd, yn anad dim, mae'n helpu defnyddwyr y tribiwnlys. Mynegodd Tribiwnlys Prisio Cymru y farn y dylai rheolau trefniadol gynnwys prif amcan fel bod 'defnyddwyr tribiwnlysoedd yn deall yn well beth i'w ddisgwyl gan bob tribiwnlys'. Mynegodd Roger Handy y farn y byddai hyn yn 'rhoi hyder i'r partïon ym mhenderfyniadau'r Tribiwnlysoedd'. Cyfeiriodd y Panel hefyd at fanteision o ran canfyddiad y cyhoedd, gan y gallai prif amcan 'gael ei ddefnyddio i ddangos i'r partïon a'r cyhoedd pa mor deg yw'r achos'.

## Rhestr o esiamplau enghreifftiol

6.102 Yn dilyn y cynnig dros dro i gynnwys prif amcan, yng Nghwestiwn Ymgynghori 22 roeddem yn gofyn am farn ymatebwyr ynghylch y cwestiwn a ddylai'r prif amcan hwnnw gynnwys rhestr nad yw'n hollgynhwysol o enghreifftiau enghreifftiol, ac, os felly, beth ddylai'r enghreifftiau hynny fod. O'r 24 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 17 yn cytuno y dylid cael rhestr nad yw'n hollgynhwysol o enghreifftiau, roedd tri yn anghytuno a dewisodd pedwar ateb "arall".

6.103 Darparodd rhai ymatebwyr enghreifftiau pellach yn eu hymatebion, yn ogystal â'r enghreifftiau rydym wedi eu rhoi uchod, gan gynnwys:

(1) osgoi gwahaniaethu annheg ar sail hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, oedran neu gefndir economaidd neu gymdeithasol (aelod tribiwnlys dienw ac Alun Green, aelod o baneli apelio ysgolion ar gyfer Cynghorau Casnewydd a Sir Fynwy);

(2) sicrhau bod partïon yn gallu cymryd rhan lawn yn yr achos, gan gynnwys diwallu eu hanghenion cyfathrebu (Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar yng Nghymru);

(3) sicrhau bod hawliadau'n cael eu trin yn deg ac yn gyfiawn (Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer);

(4) hyrwyddo gwneud penderfyniadau cytbwys, diduedd ac annibynnol ar sail gwybodaeth a thystiolaeth ffeithiol (Alun Green); a

(5) hwyluso gwneud penderfyniadau tryloyw a chyfrannol (Roger Handy).

6.104 Awgrymodd y Panel Dyfarnu:

> Mae'r enghreifftiau clasurol o'r Rheolau Trefniadaeth Sifil neu adroddiad Comisiwn y Gyfraith ei hun yn briodol. Mae rhestr (nad yw'n hollgynhwysol) yn rhoi arweiniad i ymgyfreithwyr drostynt eu hunain ynghylch pa ffactorau allai fod yn berthnasol.

6.105 Cytunodd Richard Payne y gallai fod yn ddefnyddiol mabwysiadu'r enghreifftiau a roddir gan y Rheolau Trefniadaeth Sifil.[142]

6.106 Awgrymodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard fabwysiadu 'Cod Trefniadaeth Gweinyddol i Gymru' y gellid ei addasu i'w ddefnyddio gan y tribiwnlysoedd. Maent yn amlinellu'r egwyddorion perthnasol fel a ganlyn:

> Systemau a Gweithdrefnau – Dylai pob system a gweithdrefn apêl ac adolygu:
>
> - gynnwys cyfleoedd i adolygu penderfyniadau ac ar gyfer datrys anghydfod anffurfiol cyn unrhyw broses apelio ffurfiol, ar yr amod nad yw hawl y dinesydd i apêl deg ac agored yn cael ei hamharu drwy hynny;
> - bod yn brydlon, yn hygyrch, yn annibynnol, yn ddiduedd ac yn agored;
> - bod yn gymesur, yn effeithlon ac yn effeithiol;
> - dangos parch tuag at hawliau dynol, cydraddoldeb, cynaliadwyedd ac anghenion y rhai mwyaf agored i niwed;
> - sicrhau bod buddiannau partïon heb gynrychiolaeth yn cael eu cynnwys ac nad ydynt o dan anfantais.
>
> Gwerthoedd ac Ymddygiadau
>
> - Dylid parchu hawliau ac anghenion dinasyddion bob amser;

---

142 Mae Rheolau Trefniadaeth Sifil, rheol 1.1(2) yn nodi bod delio ag achos yn gyfiawn ac ar gost gymesur yn cynnwys, i'r graddau y bo hynny'n ymarferol – (a) sicrhau bod y partïon ar sail gyfartal a'u bod yn gallu cymryd rhan lawn mewn achosion, a bod partïon a thystion yn gallu rhoi eu tystiolaeth orau; (b) arbed costau; (c) delio â'r achos mewn ffyrdd sy'n gymesur – (i) cyfrannu'n llawn at yr achos; (iii) rhoi eu tystiolaeth orau; (b) sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n briodol; (iii) er mwyn sicrhau bod yr holl achosion yn cael eu trin yn briodol;

- dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i apelyddion drwy gydol prosesau datrys anghydfod a'u galluogi i geisio datrys eu problemau cyn gynted â phosibl;

- dylai pob penderfyniad, gan gynnwys penderfyniadau a wneir ar apêl neu adolygiad, sicrhau bod pob dinesydd yn cael ei drin yn gyfartal beth bynnag yw eu dewis iaith rhwng y Gymraeg a'r Saesneg.

### Rhy bendant?

6.107 Credai Huw Williams a Keith Bush CF fod perygl i restr nad yw'n hollgynhwysol o enghreifftiau disgrifiadol fod yn rhy ddiffiniol ac y byddai'n gyfyngol ei natur. Amlinellodd Huw Williams ei farn fel a ganlyn:

> Y perygl o gael rhestr nad yw'n hollgynhwysol yw y bydd yr enghreifftiau a roddir yn cael eu hystyried yn rhan o'r brif egwyddor gyffredinol. Mae rhai enghreifftiau'n ddigon 'oesol' i gael eu hystyried yn briodol fel nodwedd o'r prif amcan - er enghraifft, penderfynu ar achosion yn gymesur; mae eraill, fel yr angen i osgoi ffurfioldeb diangen, yn rhy amwys i ychwanegu at werth y brif egwyddor a gall syniadau ynghylch ffurfioldeb neu ddiffyg ffurfioldeb newid dros amser. Mae'n bosibl y buasai'n well defnyddio cyfarwyddiadau ymarfer a gyhoeddwyd gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru fel ffordd o ddatblygu ac arwain y gwaith o gymhwyso'r egwyddor gyffredinol ac ymateb mewn ffordd fwy ystwyth i dueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn hytrach na diwygio'r rhestr nad yw'n hollgynhwysol yn y Rheolau eu hunain.

6.108 Crynhodd Keith Bush CF ei farn drwy ddweud y byddai "enghreifftiau yn agored i gael eu camddeall a'u trin fel canllawiau pendant. Ar y llaw arall, ni fyddai'n bosibl darparu enghreifftiau digon cynhwysfawr". Credai Christopher McNall hefyd y byddai perygl o gyfreitha lloeren drwy gyflwyno prif amcan.

6.109 Mynegodd Noel Edwards (ymgynghorydd technegol wedi ymddeol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio) a Chyngor Ceredigion y farn y gallai amrywiaeth gwaith y tribiwnlysoedd greu angen am restr wahanol o enghreifftiau enghreifftiol, neu arwain at flaenoriaethau gwahanol. O ganlyniad, nid oeddent o'r farn y byddai un prif amcan ar gyfer pob tribiwnlys yn briodol.

6.110 Ni wnaeth y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl fynegi barn bendant ynghylch cynnwys enghreifftiau o ran y prif amcan, ond esboniodd petai rhestr o'r fath yn cael ei chynnwys, y byddai'n 'o blaid cadw'n agos iawn at yr hyn sydd eisoes wedi ei gynnwys ar gyfer y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol)".

6.111 O ystyried y gefnogaeth unfrydol i'n cynnig dros dro gan ymatebwyr, ac yn enwedig y gefnogaeth gref a fynegwyd gan dribiwnlysoedd unigol, rydym wedi ein hargyhoeddi bod angen i reolau gweithdrefnol gynnwys fersiwn o brif amcan. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cynnwys rhestr nad yw'n hollgynhwysol o enghreifftiau enghreifftiol i gyd-fynd â'r prif amcan. Y risgiau sy'n gysylltiedig â hyn, fel y nododd nifer o ymatebwyr, yw bod yr enghreifftiau hyn yn cael eu dehongli fel rhai sy'n cyfyngu ar gyffredinolrwydd yr amcan, neu y byddant yn dyddio. Serch hynny, rydym wedi cael ein darbwyllo eu bod yn ddefnyddiol o ran rhoi rhagor o arweiniad i baneli a allai ganfod bod y cyfarwyddyd i ddelio ag achosion 'yn deg ac yn gyfiawn' yn

annigonol i fod o gymorth mewn achosion penodol. Fodd bynnag, credwn mai'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ddylai ddrafftio'r prif amcan a dewis enghreifftiau enghreifftiol.

### Dyletswydd i gydweithredu a chynorthwyo'r tribiwnlys

6.112 Gellid cyflwyno prif amcan ynghyd â dyletswydd ar y partïon i gydweithredu â'i gilydd ac â'r tribiwnlys. Mae rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd sy'n cynnwys prif amcan, sef Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, Tribiwnlys Addysg Cymru a Thribiwnlys y Gymraeg ar hyn o bryd yn cynnwys darpariaeth o'r fath, ond nid yw rheolau Panel Dyfarnu Cymru na Thribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn cynnwys y ddarpariaeth honno. Nid yw'r rheolau gweithdrefnol ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, chwaith, er bod dyletswydd o'r fath yn bodoli yn rheolau gweithdrefnol cyfatebol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl).[143]

6.113 Ym mharagraffau 5.21 i 5.23 o'r Papur Ymgynghori, roeddem yn ystyried a oedd dyletswydd o'r fath hefyd yn briodol ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Gofynnwyd a fyddai'n deg disgwyl i ymgeiswyr i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru gydymffurfio â dyletswydd i gydweithredu, neu wynebu canlyniadau niweidiol fel arall. Rhannodd 20 o ymatebwyr eu barn ar y mater yng Nghwestiwn Ymgynghori 23, ac roedd 18 ohonynt yn cytuno y dylai fod dyletswydd i gydweithredu ar draws yr holl dribiwnlysoedd, gan gynnwys Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

6.114 Eglurodd Panel Dyfarnu Cymru pam y byddai dyletswydd o'r fath yn berthnasol i'w awdurdodaeth:

> Er bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwybodol o'i ddyletswydd i weithredu'n deg a chydweithredu â'r aelod a gyhuddir, mae'n hysbys bod rhai aelodau a oedd yn wynebu achosion gan Banel Dyfarnu Cymru wedi ceisio rhwystro achosion neu atal gwrandawiadau rhag cael eu cynnal. Gellid cyfeirio at y ddyletswydd pan fydd paneli'n rhoi cyfarwyddyd neu'n delio â cheisiadau ac yn helpu i wneud penderfyniadau. Fodd bynnag, yn anaml y gwneir cais am gostau, heb sôn am eu dyfarnu, felly mae'r gosb os ceir achos o dorri amodau yn gyfyngedig.

6.115 Roedd dau ymatebydd, Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru a Keith Bush CF, yn cytuno â'r cynnig dros dro, ond gan ychwanegu 'mae'n bosibl y byddai'n rhesymol i dribiwnlys arfer disgresiwn ynghylch achosion o bartïon yn peidio â chydymffurfio mewn amgylchiadau unigol ac anarferol. Gallai hyn fod yn arbennig o ddefnyddiol i'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl'. Galwodd Keith Bush CF am ddisgresiwn barnwrol wrth weithredu'r ddyletswydd.

6.116 Cytunodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard â'r Cyngor Llywodraethu, gan egluro bod dyletswydd i gydweithredu â pharti arall:

143 Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) Offeryn Statudol 2008 Rhif 2699, rheol 2(4).

yn rhywbeth y gellid ei ystyried yn ac yn wrthgynhyrchiol, yn enwedig mewn rhai cyd-destunau... lle mae anghydbwysedd sylweddol mewn pŵer ac adnoddau rhwng y partïon (er enghraifft, mewn perthynas â chyd-destunau iechyd ac addysg).

6.117 Roedd eu barn, a nodwyd fel ateb “arall”, yn egluro y dylid annog cydweithrediad rhwng partïon ‘yn enwedig lle mae’n debygol y bydd perthynas barhaus rhwng darparu gwasanaethau, ond y gall mynegi cydweithrediad fel dyletswydd wrthdaro â meithrin rhyngweithio didwyll a diffuant.

6.118 Roedd un aelod o’r tribiwnlys, a oedd yn dymuno aros yn ddienw, o’r farn na ddylai’r ddyletswydd fod yn berthnasol mewn perthynas â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Ym marn Huw Williams, mae creu’r ddyletswydd mewn perthynas â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru:

> ... yn dangos y pwynt bod angen i enghreifftiau o ymddygiad penodol y credir ei fod yn sicrhau bod achos yn cael ei gyflawni’n deg ac yn gyfiawn fod yn sensitif i realiti awdurdodaeth tribiwnlysoedd neu siambrau penodol o dan system ddiwygiedig. Yn wyneb y ffaith y gallai parti mewn achos Tribiwnlys Iechyd Meddwl fod yn rhy sâl i gydweithredu yn ystyr arferol y term, byddai angen addasu’r ddyletswydd i gydweithredu mewn achosion o’r fath i adlewyrchu rolau arbennig y rhai a benodir i ofalu am fuddiannau parti o’r fath.

6.119 Roedd Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer a Phwyllgor Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor y Bar yn cefnogi’r cynnig dros dro, a’i estyniad i’r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl. Cyfeiriasant at reolau’r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) fel tystiolaeth y gellid cymhwyso’r ddyletswydd yn sensitif i wahanol gyd-destunau.[144]

6.120 Yn benodol, roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ei hun yn cefnogi ymestyn y ddyletswydd i gynnwys ei awdurdodaeth. Roedd yr ymateb yn cydnabod y pryderon a oedd yn gysylltiedig â gosod dyletswydd o’r fath ar gleifion sy’n byw gyda salwch meddwl, ond roedd yn amodi ei ddatganiad drwy egluro “ei fod yn bodoli yn rheolau’r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) heb anhawster ac os caiff ei ymgorffori yn ein rheolau, byddai’n cael ei drin gyda sensitifrwydd priodol”.

### Casgliad

6.121 Rydym wedi dod i’r casgliad y dylai fod dyletswydd ar ddefnyddwyr tribiwnlysoedd i gydweithredu â’r tribiwnlys a phartïon eraill. Byddai hyn yn cymathu rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig i dribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig. Byddai dyletswydd o’r fath hefyd yn atgyfnerthu natur holgar yn hytrach na gwrthwynebus tribiwnlys. Rydym yn cytuno â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru y dylai’r ddyletswydd fod yn berthnasol i achosion iechyd meddwl.

6.122 Mewn ffyrdd eraill, mae’n bosibl y bydd yr achosion hynny’n gofyn am reolau llai llym. Nodwn nad yw rheolau gweithdrefnol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Iechyd,

---

144 Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) Offeryn Statudol 2008 Rhif 2699, rheol 2(4).

Addysg a Gofal Cymdeithasol) sy’n delio â dileu achos parti yn berthnasol i’r awdurdodaeth Iechyd Meddwl.[145]

### Cyflwyno dogfennau

6.123 Mae’r rheolau ar gyflwyno dogfennau ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig yn anghyson ac wedi dyddio. Mae cyfraith achosion y tribiwnlysoedd datganoledig yn tynnu sylw at y broblem. Yn ddiweddar, mae’r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) wedi canfod bod angen ystyried rheolau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ar gyflwyno, pan gododd anghydfod ynghylch a oedd cyflwyniad ar ochr unig gyfarwyddwr cwmni yn ddigonol pan ddylai’r cwmni ei hun fod wedi bod yn rhan o’r achos.[146]

6.124 Mae Edward Jacobs, sy’n ysgrifennu yn Tribunal Practice and Procedure, yn egluro “ei bod o leiaf yn ddymunol, os nad yn hanfodol mewn gwirionedd, y dylid cael cysondeb wrth gymhwyso egwyddorion i wahanol fathau o wasanaeth”.[147] Nid oes cysondeb o’r fath yn bodoli yn y tribiwnlysoedd datganoledig. Er enghraifft, dim ond rheolau’r Tribiwnlys Eiddo Preswyl, Tribiwnlys Prisio Cymru a’r tribiwnlys eiddo preswyl sy’n datgan yn benodol y gellir anfon dogfennau drwy e-bost.[148]

6.125 Mae rheolau eraill yn defnyddio gwahanol fformwleiddiadau sydd, i bob golwg, yn caniatáu i ddogfennau gael eu hanfon drwy e-bost.

(1) Mae rheolau’r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl yn nodi y gellir anfon dogfennau drwy’r post, trosglwyddiad ffacs neu unrhyw ddull arall y gall y Tribiwnlys ei ganiatáu.[149]

(2) Mae rheolau Panel Dyfarnu Cymru yn nodi y gellir anfon dogfennau drwy ffacs neu unrhyw ddull arall sy’n cynhyrchu dogfen sy’n cynnwys testun o’r cyfathrebiad.[150]

(3) Mae rheolau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn darparu y caniateir anfon dogfennau drwy ffacs neu ddull arall o gyfathrebu electronig sy'n cynhyrchu testun sy'n dod i law ar ffurf ddarllenadwy.[151]

---

145 Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) Offeryn Statudol 2008 Rhif 2699, rheol 8. Yr unig eithriad i’r rheol hon yw y gellir dileu achos iechyd meddwl os nad oes gan y tribiwnlys awdurdodaeth mewn perthynas â’r achos.

146 *Adams v Jones* [2021] UKUT 9 (LC); [2021] All ER (D) 65 (Jan).

147 E Jacobs, *Tribunal Practice and Procedure* (5th ed 2019) paragraff 7.133.

148 Rheoliadau TAAAC, rheoliad 79(2)(c); Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru, rheoliad 75(4); Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru Offeryn Statudol 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 46(5); Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru - mae rheoliad 39 yn darparu mai dim ond drwy ffacs, e-bost neu ddull cyfathrebu electronig arall y gellir anfon dogfen os yw’r sawl sy’n derbyn y ddogfen yn rhoi caniatâd ysgrifenedig.

149 Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, rheol 9(1).

150 Rheoliadau Dyfarniadau gan Dribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim (Cymru) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2288 (Cy 176), rheoliad 24(b).

151 Gorchymyn Tribiwnlys Tiroedd Amaethyddol (Rheolau) Offeryn Statudol 2007 Rhif 3105, rheol 49(b).

(4) Mae rheolau'r tribiwnlys prisio lesddaliadau yn darparu y gellir cyflwyno dogfennau drwy ffacs neu ddulliau cyfathrebu electronig eraill sy'n cynhyrchu testun o'r ddogfen.[152]

6.126 Cyhoeddodd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru gyfarwyddyd ymarfer yn ystod pandemig COVID-19, sy'n caniatáu'n benodol i bartïon gyflwyno dogfennau drwy e-bost. Yn yr adolygiad diweddar o'r cyfarwyddyd ymarfer, mae darpariaeth o hyd ar gyfer gwneud ceisiadau a gohebu drwy e-bost.[153]

6.127 Nid yw'r rheolau ar gyfer paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion yn sôn am y dull cyflwyno, er bod y cod apelau derbyn yn awgrymu y caiff awdurdod derbyn ysgol anfon dogfennau drwy e-bost at glerc y panel apêl a'r apelydd os yw pob parti'n cytuno.[154]

6.128 Mae'r anghysonderau hyn yn adlewyrchu datblygiad ar hap tribiwnlysoedd. Nid yw'r rheolau'n mynd i'r afael ag arferion modern mewn tribiwnlysoedd ac nid ydynt yn adlewyrchu datblygiadau technolegol. O ganlyniad, fe wnaethom gynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 24 y dylai rheolau gweithdrefnol tribiwnlysoedd datganoledig ddarparu ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig. Roedd 28 o'r ymatebwyr yn cytuno a dewisodd tri ateb "arall".

6.129 Manteisiodd Keith Bush CF ar ei brofiad fel cyn arweinydd barnwrol Tribiwnlys y Gymraeg, ac eglurodd 'mae hyn eisoes yn bodoli dan Reolau Tribiwnlys y Gymraeg ac mae wedi gweithio'n dda' ac 'mae'n amhosibl meddwl am enghraifft, yn achos y tribiwnlys hwnnw, o ddogfennau'n cael eu cyflwyno mewn unrhyw ffordd ar wahân i ddulliau electronig'.

6.130 Mae'r Panel Dyfarnu, sy'n dribiwnlys sydd â rheolau sy'n ymddangos fel eu bod yn caniatáu cyfathrebu electronig (er nad yw hynny'n cael ei fynegi'n benodol) yn cytuno â'r cynnig dros dro. Eglurodd y byddai'n well i'r darpariaethau gwasanaeth tybiedig gael eu nodi'n glir, gan nad yw ei reolau presennol:

> ...yn gwneud y defnydd o gyfathrebu electronig mor glir â rheoliadau modern. ... Cyfrwng electronig yw sut mae'r rhan fwyaf o'n defnyddwyr yn cysylltu â'r Panel ac yn gofyn i ddogfennau gael eu darparu ac yn galluogi gweithio cyson hyd yn oed yn ystod pandemig neu ddigwyddiadau eraill sydd â'r gallu i amharu ar y ddarpariaeth.

6.131 Cytunodd y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, ond dim ond os oedd y ddarpariaeth wedi ei bwriadu i "alluogi, ac nid yn rhagnodol". Er bod y tribiwnlys yn debygol o gyfathrebu â chyfranogwyr proffesiynol yn electronig, eglurodd mai cleifion cymunedol oedd rhai cyfranogwyr yn eu gwrandawiadau, ac mai "cyflwyno papurau ar ffurf copi caled yw'r unig ddull cyflwyno boddhaol (ac, yn wir, yr unig ddull sydd ar gael)".

---

152 Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Gweithdrefn) (Cymru) Offeryn Statudol 2004 Rhif 681 (Cy 69), rheoliad 23(c)(ii).

153 Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, *Cyfarwyddyd Ymarfer Coronafeirws (COVID 19),* paragraff 6 (20 Medi 2021) Gweler https://tribiwnlyseiddopreswyl.llyw.cymru/sites/residentialproperty/files/2021-09/tep-cyfarwyddyd-ymarfer-0921.pdf

154 Llywodraeth Cymru, *Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion* (2013), paragraff 4.22. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf.

6.132 Mae rheolau gweithdrefnol y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) yn rhai sy'n galluogi ac nid ydynt yn gyfarwyddol. Ceir darpariaeth benodol sy'n nodi:

> ... pan fo'r Tribiwnlys neu barti yn anfon dogfen at barti neu'r Tribiwnlys drwy e-bost neu unrhyw ddull electronig arall o gyfathrebu, caiff y derbynnydd ofyn i'r anfonwr ddarparu copi caled o'r ddogfen i'r derbynnydd.[155]

### Allgáu digidol

6.133 Un pryder cyffredin a fynegwyd gan ymatebwyr oedd y gallai caniatáu i ddogfennau gael eu cyflwyno'n electronig atal pobl sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol rhag cymryd rhan. Tynnodd Huw Williams, Roger Handy, Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac aelod o dribiwnlys a oedd yn dymuno aros yn ddienw ein sylw at y mater hwn. Er hynny, roedd pob un ohonynt yn cytuno ag egwyddor y cynnig dros dro.

6.134 Awgrymodd Roger Handy mai cyfathrebu electronig ddylai fod y dewis diofyn, gyda'r modd i ddewis fel arall yn caniatáu i bobl ddefnyddio dulliau cyfathrebu eraill. Pwysleisiodd Huw Williams y dylid rhoi gwarchodaeth briodol i'r rhai sydd wedi eu hallgáu'n ddigidol 'yn enwedig o ystyried pwnc rhai o awdurdodaethau Tribiwnlysoedd Cymru'.

6.135 Croesawodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard y cynnig mewn egwyddor, ond roeddent yn cyfeirio at eu gwaith lle'r oeddent yn dod i'r casgliad "o ran digideiddio tribiwnlysoedd yn ehangach, mae'n bosibl na fyddai dull gweithredu 'un ateb i bawb' yn briodol ym mhob sefyllfa". Yn dilyn hynny, roeddent yn cynnig 'adolygiad o strategaeth ddigidol ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru a fyddai'n ystyried sgiliau digidol a chynhwysiant, mynediad at gyfiawnder i ddefnyddwyr heb gynrychiolaeth, ac addasu'r strategaeth ddigidol i gyd-destun'.

### Trafodaeth

6.136 Rydym yn rhannu'r pryderon a godwyd mewn perthynas ag allgáu digidol, yn yr un modd â Llywodraeth Cymru, a adolygodd ei fframwaith cynhwysiant digidol yn 2020.[156] Nododd yr adolygiad hwnnw nad yw 474,000 o oedolion yng Nghymru yn defnyddio technolegau digidol, a bod hyn yn un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r Llywodraeth yn ei strategaeth ddigidol, Sicrhau Cynhwysiant Digidol.

6.137 Mae allgáu digidol yn cael effaith fwy ar y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda 71% o'r aelwydydd sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru â mynediad i'r rhyngrwyd, o'i gymharu ag 86% o gartrefi sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae hefyd yn cael effaith anghymesur ar bobl anabl, gyda 38% o bobl anabl yn wynebu allgáu digidol (o'i gymharu â 19% o oedolion eraill).[157] Fodd bynnag, mae COVID-19 wedi cynyddu'r

---

[155] Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) Offeryn Statudol 2008 Rhif 2699, rheol 13(4).

[156] Llywodraeth Cymru, *Fframwaith cynhwysiant digidol* (Mawrth 2016, adolygwyd yn Rhagfyr 2020), tudalen 13.

[157] Llywodraeth Cymru, *Fframwaith cynhwysiant digidol* (Mawrth 2016, adolygwyd yn Rhagfyr 2020), tudalen 14.

momentwm o ran defnyddio'r rhyngrwyd ledled y Deyrnas Unedig. Mae ffigurau Ofcom yn awgrymu bod cyfran y cartrefi heb fynediad at y rhyngrwyd wedi gostwng o 11% ym mis Mawrth 2020 i 6% o gartrefi ym mis Mawrth 2021.[158]

6.138 Nid yw hon yn broblem sy'n unigryw i Gymru. Mae ffigurau 2018 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos er bod gwahaniaeth digidol ar draws y Deyrnas Unedig, dim ond 10.9% o'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd yn y Deyrnas Unedig sy'n byw yng Nghymru (o'i gymharu â 14.2% yng Ngogledd Iwerddon a 12.1% yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr).[159]

6.139 Mae rheolau gweithdrefnol holl siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf y Deyrnas Unedig yn gwneud darpariaeth ddatganedig ar gyfer cyflwyno dogfennau yn electronig.[160] Fodd bynnag, nid ydy yr un ohonynt yn rhagnodi cyflwyno dogfennau'n electronig fel yr unig ddull o gyflwyno. Rydym wedi ein hargyhoeddi y dylai rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig ddarparu ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig, ond mai nid dyma'r unig fodd dilys o gyflwyno dogfennau.

### Pŵer i adolygu penderfyniadau

6.140 Gall y pŵer i adolygu penderfyniadau fod yn ddefnyddiol i dribiwnlysoedd, gan ei fod yn rhoi cyfle iddynt gywiro gwallau amlwg heb fod angen apêl. Nid yw'n syndod bod pŵer tribiwnlysoedd datganoledig i adolygu eu penderfyniadau yn amrywio. Mae gan Dribiwnlys Addysg Cymru, Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Trenau Arriva Cymru, Tribiwnlys y Gymraeg a phaneli apêl derbyn i ysgolion bwerau wedi eu llunio mewn modd amrywiol i adolygu eu penderfyniadau. Nid oes darpariaeth o'r fath yn rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Panel Dyfarnu Cymru na'r tri chorff sy'n rhan o reolau gweithdrefnol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru. Roeddem wedi cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 25 y dylai tribiwnlysoedd datganoledig allu adolygu eu penderfyniadau. Roedd y cyfan ac eithrio un o'r 27 ymateb i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'n cynnig dros dro.

6.141 Cytunodd Syr Wyn Williams ar y sail bod 'adolygiadau'n ffordd synhwyrol, gymesur a chost-effeithiol o osgoi apeliadau diangen a chywiro camgymeriadau amlwg". Cytunodd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru â'r farn hon, gan ychwanegu

---

158 Ofcom, *Y gagendor digidol yn lleihau yn ystod y pandemig, ond mae 1.5m o gartrefi heb fod ar-lein o hyd* (28 Ebrill 2021). Gweler https://www.ofcom.org.uk/cymru/about-ofcom/latest/features-and-news/digital-divide-narrowed-but-around-1.5m-homes-offline

159 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Exploring the UK's digital divide* (4 Mawrth 2019), paragraff 4. Gweler https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/householdcharacteristics/homeinternetandsocialmediausage/articles/exploringtheuksdigitaldivide/2019-03-04

160 Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) Offeryn Statudol 2008 Rhif 2699, rheol 13; Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr yr Haen Gyntaf) Offeryn Statudol 2013 Rhif 1169, rheol 16; Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Pensiynau a Iawndal y Lluoedd Arfog) Offeryn Statudol 2008 Rhif 2686 rheol 13; Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Hawl Cymdeithasol) Offeryn Statudol 2008 Rhif 2685 rheol 13; Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Siambr Rheoleiddio Cyffredinol) Offeryn Statudol 2009 Rhif 1976 rheol 13; Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) Offeryn Statudol 2009 Rhif 273, rheol 13; a Rheolau Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Siambr Mewnfudo a Lloches) Offeryn Statudol 2014 Rhif 2604 rheol 12.

y gall y pŵer i adolygu penderfyniadau ‘ddarparu gweithdrefn gyflym, cost-effeithiol a llai ffurfiol i graffu ar y broses o wneud penderfyniadau mewn amgylchiadau penodol’.

6.142 Roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn cefnogi ein cynnig dros dro yn gryf, gan egluro bod y tribiwnlys wedi bod yn ceisio’r pŵer hwn ers cyflwyno’r pŵer cyfatebol yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Iechyd Meddwl) ar ôl i’r Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth ddod i rym yn 2007. Eglurodd ‘ar hyn o bryd, yr unig ddewis yw apêl ffurfiol’ a bod y tribiwnlys wedi gorfod apelio yn erbyn ei benderfyniad ei hun (drwy’r Weinyddiaeth Cyfiawnder) er mwyn ‘gwrando o'r newydd ar achos lle’r oedd y panel yn amlwg wedi gwneud camgymeriad cyfreithiol - er enghraifft, gwneud penderfyniad nad oedd yn un o’r dewisiadau cyfreithiol a oedd ar gael iddynt’.

6.143 Roedd Keith Bush CF yn cefnogi’r cynnig, ond dywedodd fod yn rhaid i’r seiliau dros adolygu gael eu diffinio’n fanwl er mwyn osgoi ceisiadau am adolygiad sy’n ddim mwy nag ailddatgan y cais gwreiddiol’.

6.144 Roedd dau ymatebydd yn cytuno â’r cynnig ar y sail y byddai hyn yn lleihau nifer yr apeliadau diangen. Nododd Cylchdaith Cymru a Chaer ‘o ystyried natur materion gerbron y tribiwnlysoedd, mae’r gallu i geisio adolygiad yn hytrach na mynnu bod apêl yn cael ei chyflwyno yn fuddiol’. Aeth Cyngor y Bar ymlaen i egluro:

> byddai cynnwys adolygiad i bob pwrpas yn gwneud yr apêl yn ail gyfle i wneud yr un peth eto. Yn yr amgylchiadau hynny, byddai’n fwy cymesur gwneud yr apêl yn apêl adolygiad yn unig, ar sail pwynt cyfreithiol.

### Trafodaeth

6.145 Nid ydym wedi ein hargyhoeddi y dylai cyflwyno adolygiad o benderfyniadau newid y sail dros apelio. Nod pennaf adolygu penderfyniad yw cywiro camgymeriadau amlwg mewn cyfraith neu weithdrefn. Mae rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Addysg Cymru, er enghraifft, yn caniatáu i’r tribiwnlys adolygu, gosod o’r neilltu neu amrywio penderfyniad os:

(1) gwnaed y penderfyniad ar gam o ganlyniad i gamgymeriad perthnasol ar ran gweinyddiaeth y tribiwnlys;

(2) bod gan barti, a oedd â hawl i gael ei glywed yn y gwrandawiad ond nad oedd wedi ymddangos neu heb gael ei gynrychioli, reswm da a digonol dros fethu ag ymddangos;

(3) bod camgymeriad amlwg a pherthnasol yn y penderfyniad; neu

(4) bod buddiannau cyfiawnder yn gwneud hynny’n ofynnol.[161]

6.146 Mae’r rhan fwyaf o apeliadau o’r tribiwnlysoedd datganoledig eisoes wedi eu cyfyngu i apelio ar bwynt cyfreithiol; yr eithriadau yw’r rhai syn dod gan y Panel Dyfarnu, y rhai o dribiwnlys eiddo preswyl neu dribiwnlys prisio lesddaliadau o fewn Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ac apeliadau ardrethu annomestig o Dribiwnlys Prisio Cymru. Nid

[161] Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru, rheoliad 53(1).

ydym wedi ein hargyhoeddi y dylai cynnwys pŵer i adolygu penderfyniadau arwain at gyfyngu'r apeliadau hynny i apelio ar bwynt cyfreithiol yn unig. Nid yw pŵer tribiwnlys i gywiro gwallau ffeithiol cydnabyddedig yn cymryd lle'r hawl i adolygu ei ganfyddiadau ffeithiol ar lefel apeliadol.

## Gwrandawiadau o bell

6.147 Gorfododd pandemig COVID-19 y tribiwnlysoedd datganoledig i ddatblygu rheolau ar wrandawiadau o bell yn gyflym. Ar ddechrau'r pandemig ym mis Mawrth 2020, cytunodd Uned Tribiwnlysoedd Cymru â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi y gallai tribiwnlysoedd adran 59 ddefnyddio'r Llwyfan Fideo yn y Cwmwl a ddefnyddir yn llysoedd a thribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig.

### Gwrandawiadau o bell ar waith

6.148 Yn ei adroddiad blynyddol diweddaraf ("yr Adroddiad"), nododd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru rai o fanteision ymarferol newid i wrandawiadau o bell yn bennaf dros y flwyddyn ddiwethaf. Arweiniodd cynnal gwrandawiadau o bell bron yn gyfan gwbl at danwariant sylweddol o £582,754. Eglurodd "nad oedd unrhyw gostau'n gysylltiedig â llogi ystafelloedd addas' ac mai 'ychydig iawn o gostau teithio oedd i'w talu i aelodau'r tribiwnlys a'r staff".[162]

6.149 Roedd yr Adroddiad yn nodi sut roedd pob tribiwnlys datganoledig wedi addasu i wrando ar achosion o bell, gan dynnu sylw at y problemau a'r llwyddiannau.

6.150 Yn gynnar yn y pandemig, roedd yn rhaid diwygio rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ar frys er mwyn i'r tribiwnlys allu delio â llwyth achosion o bron i 2000 o achosion bob blwyddyn. Cyflwynodd Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru Gyfarwyddyd Ymarfer, gan wneud y darpariaethau a ganlyn mewn perthynas â gwrandawiadau o bell:

> Am gyfnod y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, bydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn cynnal gwrandawiadau dros y ffôn neu drwy fideo-gynadledda lle bo hynny'n bosibl, fel y darperir ar ei gyfer yn Rheol 2 Rheolau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru 2008, i benderfynu ar geisiadau a chyfeiriadau oni bai fod paragraff 12(2) Atodlen 8 Deddf y Coronafeirws 2020 yn berthnasol. Pan fo'r darpariaethau hyn yn gymwys, caiff y Tribiwnlys hepgor gwrandawiad os yw o'r farn:
>
> (a) bod cynnal gwrandawiad yn anymarferol neu y byddai'n golygu oedi annymunol,
>
> (b) o ystyried y materion a godwyd yn yr achos, bod digon o dystiolaeth ar gael i'w alluogi i ddod i benderfyniad heb wrandawiad; ac
>
> (c) ni fyddai hepgor gwrandawiad yn niweidiol i iechyd y claf.[163]

---

[162] Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (Ebrill 2021) tudalen 7.

[163] Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, *Cyfarwyddyd Ymarfer, Coronafeirws COVID – 19* (2020) paragraff 4.

6.151 Deallwn fod gwrandawiadau'r Tribiwnlys wedi cael eu cynnal dros y ffôn yn hytrach na thrwy fideogynadledda. Adnewyddwyd y Cyfarwyddyd Ymarfer ym Mis Hydref 2020, ond mae bellach wedi darfod.

6.152 Soniodd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru hefyd am lwyddiant mawr gwrandawiadau o bell mewn perthynas â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ar y pryd. Eglurodd mai:

> ... un thema gyson yw bod rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig yn ffafrio gwrandawiadau o bell yn gadarnhaol gan eu bod, ar y cyfan, yn gallu cymryd rhan o'u cartrefi eu hunain ac, o ganlyniad, yn teimlo'n fwy hamddenol ac yn fwy abl i gymryd rhan.[164]

### Cwmpas y drafodaeth

6.153 Yn y Papur Ymgynghori, fe wnaethom edrych yn fyr ar rai o fanteision ac anfanteision gwrandawiadau o bell, gan ddod i'r casgliad dros dro bod gwerthuso a yw gwrandawiadau o bell yn ddymunol ai peidio y tu allan i gwmpas y prosiect hwn. Yn hytrach, fe wnaethom gydnabod y bydd gwrandawiadau o bell yn dal i gael eu defnyddio ar ôl y pandemig ac fe wnaethom ystyried sut dylai rheolau gweithdrefnol presennol ddarparu ar eu cyfer.

6.154 Ar hyn o bryd, nid oes trefn unffurf ar gyfer gwrandawiadau o bell ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig. Er enghraifft, mae rheolau'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, Tribiwnlys Addysg Cymru, Tribiwnlys y Gymraeg a'r paneli apêl derbyn i ysgolion yn darparu'n benodol y gellir cynnal gwrandawiad, neu ran o wrandawiad, drwy gyswllt fideo. Nid yw rheolau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru na Phanel Dyfarnu Cymru yn gwahardd gwrandawiadau o bell, ond mae'n ymddangos eu bod wedi cael eu drafftio ar gyfer sefyllfaoedd wyneb yn wyneb yn hytrach na gwrandawiadau o bell.[165]

6.155 Ni welsom unrhyw reswm egwyddorol dros anghysondeb o'r fath, ac roeddem o'r farn bod y cynnydd sylweddol yn eu defnydd ers dechrau'r pandemig wedi creu achos cryf dros ddiweddaru a safoni rheolau sy'n ymwneud â gwrandawiadau o bell ar draws y tribiwnlysoedd. O ganlyniad, fe wnaethom gynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 26 y dylai rheolau ar wrandawiadau o bell gael eu safoni mewn rheolau gweithdrefnau tribiwnlysoedd datganoledig.

6.156 Atebodd 28 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 21 ohonynt yn cytuno, un yn anghytuno a dewisodd chwech ateb "arall". Roedd llawer o'r ymatebion yn cytuno ag egwyddor y cynnig dros dro, ar yr amod bod digon o hyblygrwydd wrth ddefnyddio gwrandawiadau o bell.

---

164 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (Ebrill 2021) tudalen 12.

165 I gael rhagor o fanylion am y darpariaethau sy'n ymwneud â phob tribiwnlys datganoledig, edrychwch ar baragraffau 5.42 i 5.46 y Papur Ymgynghori.

### Digon o hyblygrwydd

6.157 Cytunodd Syr Wyn Williams, y Panel Dyfarnu, Richard Payne a Chyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru â'r cynnig, ar yr amod bod digon o hyblygrwydd i ddarparu ar gyfer gofynion pob tribiwnlys unigol.

6.158 Credai Richard Payne, er y byddai'n fuddiol safoni rhai rheolau mwy cyffredinol, 'mae'n bosibl y byddai angen teilwra rhai rheolau ar gyfer y tribiwnlysoedd unigol'. Ychwanegodd y 'gellid delio â hyn drwy reol alluogi sy'n caniatáu i dribiwnlysoedd baratoi eu cyfarwyddiadau ymarfer eu hunain ynghylch gwrandawiadau o'r fath'.

### Hygyrchedd

6.159 Trafododd Dr Sarah Nason, Dr Huw Pritchard a Keith Bush CF sut bydd safoni'r rheolau sy'n ymwneud â gwrandawiadau o bell yn gwella hygyrchedd y tribiwnlysoedd.

6.160 Tynnodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard sylw at eu hymchwil blaenorol ar y pwynt hwn, gan gytuno â'r cynnig dros dro ar y sail y gallai 'gwrandawiadau o bell fod yn fuddiol i ardaloedd gwledig Cymru lle nad oes adeiladau llysoedd a thribiwnlysoedd mwyach a lle nad yw trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch o bosibl'. Roeddent hefyd yn myfyrio ar y symudiad tuag at ddigideiddio o fewn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, ac y gallai methu â datblygu darpariaeth o bell gyfatebol yng Nghymru:

> ...arwain at 'brosesau dau gyflymder neu fwy nag un cyflymder' rhwng Cymru a Lloegr lle gallai tribiwnlysoedd Cymru gael eu gadael ar ôl os na allent fanteisio ar raddfa datblygiadau technolegol.

6.161 Wrth drafod mynediad at gyfiawnder, eglurodd Keith Bush CF, bod y 'defnydd anorfod o wrandawiadau o bell, ac argaeledd mwy cyffredin technoleg sy'n galluogi hyn, wedi dangos, yn ystod y pandemig, sut gall arferiad o'r fath hwyluso cyfiawnder ac osgoi oedi'.

6.162 Anogodd Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru rhywfaint o bwyll. Er bod yr ymateb yn cytuno y dylai gwrandawiadau o bell fod yn ddewis yn y dyfodol, ni ddylai fod ar draul eithrio dewisiadau wyneb yn wyneb a dewisiadau hybrid. Pe bynnag fydd y fformat, nododd ei bod yn:

> ... bwysig sicrhau bod protocolau'n caniatáu i ofynion cyfathrebu gael eu bodloni'n glir ac yn rheolaidd. Bydd y gofynion cyfathrebu'n wahanol ond byddant yr un mor angenrheidiol rhwng cyfarfodydd ar-lein neu wyneb yn wyneb. Ar gyfer unigolion byddar, mae'n bwysig gweithio gyda nhw i sicrhau bod eu hanghenion cyfathrebu'n cael eu diwallu'n briodol.

### Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

6.163 Rhoddodd Huw Williams a Chymdeithas y Gyfraith ystyriaeth arbennig i'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl mewn perthynas â safoni rheolau sy'n ymwneud â gwrandawiadau o bell. Roedd Huw Williams o'r farn y dylid cael darpariaeth briodol i ddiwallu anghenion penodol y Tribiwnlys. Dywedodd Cymdeithas y Gyfraith:

Er ein bod ni'n cydnabod rhinweddau dull safonol, rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i amgylchiadau unigryw Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a'r ffaith ei bod yn anodd iawn ardystio cyflwr corfforol a meddyliol unigolyn o bell.

6.164 Bydd llawer o'r materion penodol sy'n ymwneud â rheolau gweithdrefnol yn galw am ddull galluogi yn hytrach nag un rhagnodol. Rydym wedi ein hargyhoeddi y bydd mabwysiadu dull galluogi a chaniatáu cyfarwyddiadau ymarfer sy'n adeiladu ar y rheol safonol ar wrandawiadau o bell yn darparu ar gyfer pwnc unigryw pob un o'r tribiwnlysoedd datganoledig.

## Casgliad

6.165 Bydd gwrandawiadau o bell yn dal i gael eu cynnal gan y tribiwnlysoedd datganoledig. O ganlyniad, rydym wedi ein hargyhoeddi bod angen safoni'r rheolau sy'n ymwneud â gwrandawiadau o bell. Nid yw'n briodol i ni bennu cynnwys y rheol, ond dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd i Gymru ystyried yr angen am ddigon o hyblygrwydd drwy fabwysiadu dull galluogol yn hytrach na dull rhagnodol o weithredu'r rheol.

**Argymhelliad 30.**

6.166 Dylai rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru gynnwys:

(1) prif amcan;

(2) dyletswydd ar y partïon i gydweithredu â'i gilydd ac â'r tribiwnlys;

(3) darparu ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig;

(4) pŵer i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf adolygu ei benderfyniadau ei hun; a

(5) rheolau ar wrandawiadau o bell.

# Pennod 7: Penodiadau

7.1 Mae'r cyfrifoldeb dros benodi aelodau ac arweinwyr barnwrol yn anghyson ar hyn o bryd ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig oherwydd eu datblygiad tameidiog. Mae rheolau diweddarach yn adlewyrchu cynnydd datganoli, ond nid yw'r gweithdrefnau a ddatblygwyd yn gynharach yn adlewyrchu hynny.

7.2 Roedd Pennod 6 o'r Papur Ymgynghori yn ystyried dwy agwedd ar benodiadau; hunaniaeth yr awdurdod penodi (y corff sy'n gyfrifol am benodiadau) a'r broses ddethol. Gofynnom i ymatebwyr a ddylai'r rhain fod yn gyson ar draws y gwahanol dribiwnlysoedd. Gofynnwyd hefyd sut dylid penodi a dethol aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru a phaneli apêl gwahardd a derbyn i ysgolion.

### AWDURDODAU PENODI

7.3 Ar hyn o bryd, mae'r awdurdod penodi ar gyfer aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd hynny a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 ("tribiwnlysoedd adran 59") yn amrywio. Rhennir y cyfrifoldeb rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus, Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, neu gyfuniad o fwy nag un o'r rhain. Yn gyffredinol, dim ond canlyniad datblygiad hanesyddol y tribiwnlysoedd yw'r gwahaniaethau hyn. Hyd y gwyddom, nid ydynt yn adlewyrchu unrhyw benderfyniad polisi i drin penodiadau i wahanol dribiwnlysoedd yn wahanol.

7.4 Mae gweithdrefnau sy'n dal yn wahanol yn berthnasol i aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru a phaneli apêl gwahardd a derbyn i ysgolion. Penodir aelodau'r Tribiwnlys Prisio gan banel penodi, wedi ei ffurfio o dri aelod o Gyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio. Mae paneli apêl gwahardd a derbyn i ysgolion yn cynnwys aelodau a benodir gan yr awdurdod lleol neu lywodraethwyr ysgolion.

7.5 Un nodwedd amlwg yn y system bresennol yw nad oes gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru lawer o gyfrifoldebau ar hyn o bryd. Eithriad yw rôl yr Arglwydd Brif Ustus mewn perthynas â phenodiadau i banel cleifion cyfyngedig Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, sydd wedi ei ddirprwyo i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru (ac sy'n cael ei drafod yn fanylach isod). Byddai'r Bil Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol, a gyflwynwyd i Dŷ'r Arglwyddi ar 19 Gorffennaf 2021, hefyd yn gwneud y Llywydd yn gyfrifol am benodi aelodau tribiwnlysoedd adran 59 i eistedd ar ôl ymddeol. Fodd bynnag, byddai penodiad o'r fath yn gofyn am gytundeb yr Arglwydd Ganghellor.[166]

### Awdurdod penodi unffurf

7.6 Ein barn dros dro oedd, er mwyn cysondeb, y dylid cael un awdurdod penodi ar gyfer yr holl dribiwnlysoedd datganoledig. Yng Nghwestiwn Ymgynghori 35, roeddem felly'n cynnig dros dro y dylai'r un awdurdod (neu awdurdodau) penodi wneud penodiadau i

---

[166] Bil Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol (fel y'i diwygwyd ar 29 Tachwedd 2021), cymalau 111 i 112.

bob tribiwnlys datganoledig. O’r 27 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 21 yn cytuno, roedd tri yn anghytuno a dewisodd tri atebion eraill.

7.7 Roedd Cylchdaith Cymru a Chaer a Chyngor y Bar yng Nghymru a Lloegr yn cytuno ‘bod cysondeb yn cynnig eglurder’ ac y byddai ‘un awdurdod penodi yn dod â thrylwyredd a thryloywder i’r broses’. Roedd Cyngor Ceredigion hefyd o blaid y cynnig, ond dim ond ‘ar yr amod bod profiad ac arbenigedd perthnasol a phenodol yn cael eu blaenoriaethu’.

7.8 Mynegodd Dr Sarah Nason, uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor, a Dr Huw Pritchard, darlithydd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd, eu cefnogaeth i'r cynnig, ond gan nodi bod y:

> ... berthynas weinyddol rhwng Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn golygu, yn ymarferol, bod y broses benodi yr un fath p’un ai’r Arglwydd Ganghellor ynteu Weinidogion Cymru yw’r awdurdod penodi.

7.9 Roedd Keith Bush CF, o Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, yn anghytuno â'r cynnig dros dro, a wahaniaethodd rhwng aelodau tribiwnlysoedd ac arweinwyr barnwrol neu eu dirprwyon:

> Dylai aelodau “Cyffredinol” (h.y. nid yr arweinwyr barnwrol na’r dirprwy arweinwyr barnwrol) gael eu penodi gan Lywyddion y tribiwnlysoedd unigol ond gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.[167]

7.10 Roedd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru (a atebodd “arall”) hefyd yn gwahaniaethu rhwng categorïau o aelod tribiwnlys, gan egluro:

> ... gall y gofynion sy’n sail i benodiadau ar gyfer gwahanol awdurdodaethau fod yn wahanol ynddynt eu hunain. Yn unol â hynny, mae’n bosibl y bydd yn rhaid i un awdurdod penodi ddefnyddio dulliau gwahanol mewn amgylchiadau gwahanol. Er enghraifft, mae’n bosibl y bydd yn rhaid mabwysiadu dull gweithredu gwahanol wrth geisio penodi aelodau lleyg yn hytrach nag aelodau cyfreithiol neu arbenigol.

7.11 Yn gyffredinol, fodd bynnag, eu barn nhw oedd ‘nad yw’n bwysig a oes un awdurdod penodi neu nifer o awdurdodau penodi’ ar yr amod bod y ‘penodiadau’n cael eu gwneud yn dda’.

7.12 Mynegodd y Tribiwnlys safbwyntiau cryf mewn perthynas â’r cynigion dros dro a wnaed mewn perthynas â phenodiadau. Roedd ei ateb i’r cynnig dros dro o blaid unffurfiaeth (a oedd wedi ei nodi fel “arall”) yn egluro:

> Rydym yn niwtral o ran yr angen am unffurfiaeth, ond am ein bod ni’n ffafrio bod yr Arglwydd Ganghellor yn penodi i’r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, nid yw unffurfiaeth yn debygol gan fod aelodau o rai tribiwnlysoedd datganoledig eisoes yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru.

[167] Tystiolaeth Gymraeg a gyflwynwyd.

7.13 Nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, a oedd hefyd yn nodi ei ateb fel "arall":

> Rhaid i brosesau penodi'r tribiwnlys hyrwyddo cyfle cyfartal. Yn dilyn yr Adolygiad Lammy, fe wnaethom dynnu sylw at y diffyg amrywiaeth ethnig yn y farnwriaeth yng Nghymru a Lloegr, gan argymell arferion recriwtio tryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n creu cronfa o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Wrth alw am newid systematig mewn anghydraddoldeb hiliol, gwyddom fod arweinyddiaeth a modelau rôl cadarnhaol yn hanfodol i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.

7.14 Roedd Roger Handy, Cadeirydd Tribiwnlys Prisio Cymru, yn anghytuno â'r cynnig dros dro, gan ei fod o'r farn mai'r panel penodi presennol oedd yn y sefyllfa orau i ddethol a phenodi 'cadeiryddion addas o blith yr aelodau na chorff sydd â llai o wybodaeth am addasrwydd ymgeisydd'.

7.15 Cyfeiriodd Noel Edwards, cynghorydd technegol sydd wedi ymddeol o'i waith yn Asiantaeth y Swyddfa Brisio, at system ffederal o dribiwnlysoedd (a drafodir ymhellach ym mharagraffau 3.11 a 3.12, a 3.25 i 3.28) lle byddai gan bob tribiwnlys 'eu systemau a'u rheolau penodi eu hunain'.

### Pwy yw'r awdurdod penodi

7.16 Uchod, ym mharagraff 7.3, rydym yn cyfeirio at yr anghysondeb rhwng y penodiadau a wneir i dribiwnlysoedd adran 59. Mae rhai prosesau penodi i dribiwnlysoedd hefyd yn gwahaniaethu rhwng aelodau cyfreithiol a lleyg. Mae enghraifft o hyn ar gael yn Nhribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru lle mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi aelodau cyfreithiol, a Gweinidogion Cymru yn penodi'r aelodau lleyg.[168] Mae darlun llawn ar gael yn ein Papur Ymgynghori ym mharagraff 6.7, lle'r ydym yn nodi'r awdurdodau penodi amrywiol ar gyfer aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017.

7.17 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 36, fe wnaethom gynnig dros dro y dylai holl aelodau tribiwnlysoedd adran 59 (boed yn rhai cyfreithiol neu leyg) gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Atebodd 20 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 17 yn cytuno thri yn anghytuno.

7.18 Cytunodd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru â'r cynnig, ar y sail bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru mewn sefyllfa dda i fod â gwerthfawrogiad cadarn o'r sgiliau gofynnol a'r arbenigedd angenrheidiol i benodi aelodau i'r tribiwnlysoedd adran 59.

7.19 Cytunodd Cylchdaith Cymru a Chaer a Chyngor y Bar hefyd â'r cynnig dros dro, ar y sail y byddai'n cymathu'r system ar gyfer penodi i'r tribiwnlysoedd datganoledig i'r un yn y system a gedwir, lle bo Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn penodi aelodau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Fe wnaethant egluro bod:

---

168 Deddf Rhenti 1977, atodlen 10 paragraff 2.

> ... hyn yn rhoi annibyniaeth a dealltwriaeth o'r arbenigedd sydd ei angen yn y tribiwnlysoedd. Mae angen hefyd am uwch arweiniad barnwrol a chraffu barnwrol. Mae bod yn annibynnol ar y weithrediaeth yn bwysig.

7.20 Cytunodd Cyfraith Gyhoeddus Cymru â'r cynnig, ac yn benodol ag ategu rôl yr Arglwydd Ganghellor mewn perthynas â phenodiadau.

7.21 Cytunodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard â'n rhesymeg ym mharagraffau 6.61 i 6.63 o'r Papur Ymgynghori, lle'r ydym yn trafod y gallu i asesu addasrwydd ymgeiswyr. Yn benodol, nodwn yno nad yw Gweinidogion Cymru (ac yn ymarferol, y Prif Weinidog) yn debygol o fod ag unrhyw wybodaeth am yr ymgeiswyr i'r tribiwnlysoedd, ac mae ganddynt gyfrifoldebau eraill helaeth hefyd. O ganlyniad, daethom i'r casgliad mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fyddai yn y sefyllfa orau i benodi aelodau i'r tribiwnlysoedd datganoledig gan fod y Llywydd 'yn fwy tebygol na Gweinidogion Cymru o fod yn gyfarwydd ag anghenion tribiwnlysoedd unigol'.

7.22 Cytunodd yr Athro Thomas Watkin hefyd â'n cynnig dros dro ar y sail y bydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gyfarwydd ag anghenion tribiwnlysoedd penodol. Ychwanegodd fod manteision i annibyniaeth farnwrol, gan y byddai'r arfer penodi arfaethedig hwn yn 'annibynnol ar Lywodraeth Cymru'.

### Safbwyntiau gwahanol

7.23 Roedd Keith Bush CF yn anghytuno â'r cynnig dros dro, gan ei fod yn anghyson â'i farn y dylai aelodau o dribiwnlysoedd gael eu penodi gan Lywyddion y tribiwnlysoedd unigol, gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru (y cyfeirir ato uchod ym mharagraff 7.9).

7.24 Roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru hefyd yn gwrthwynebu'r cynnig dros dro, ar y seiliau canlynol:

> Mae penodiad gan yr Arglwydd Ganghellor (fel y mae ar hyn o bryd) yn rhoi statws penodol ac yn peri i aelodau (yn enwedig rhai nad ydynt yn gyfreithwyr) gymryd eu penodiad a'r rheolau ymddygiad sy'n ei reoli o ddifri. Mae hefyd yn rhoi ymdeimlad hanfodol o annibyniaeth oddi ar ddylanwadau lleol mewn materion disgyblu.
>
> Yn ogystal, mae penodiad gan unrhyw un ar wahân i'r Arglwydd Ganghellor yn debygol o leihau statws aelodau Cymru yng ngolwg y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) rydym yn ceisio sefydlu trefniadau traws-docynnu gydag ef er budd ein haelodau a chynyddu eu harbenigedd. Mae gwahaniaethau eithaf cynnil a dibwys, yn ôl pob golwg, yn ein prosesau wedi arwain at wahaniaethu ar hyd y llinellau hyn yn barod.
>
> O ran tribiwnlysoedd datganoledig eraill, rydym yn niwtral ar y pwynt hwnnw.

7.25 Ni wnaeth y trydydd ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig dros dro, Roger Handy, ymhelaethu ar ei resymau.

## Llywyddion a Dirprwy Lywyddion Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru

7.26 Ar ôl cynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar ei ben ei hun benodi aelodau o'r tribiwnlysoedd adran 59, roedd y Papur Ymgynghori'n rhagweld y byddai

angen rhywun â mwy o gyfrifoldeb wrth benodi arweinwyr barnwrol a dirprwyon tribiwnlysoedd adran 59 (neu Lywyddion a Dirprwy Lywyddion, mewn Tribiwnlys Haen Gyntaf newydd i Gymru).

7.27 Gan hynny, roedd Cwestiwn Ymgynghori 37 yn cynnig dros dro y dylai Gweinidogion Cymru benodi dirprwyon ac arweinwyr barnwrol, gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Yn ein barn dros dro, mae hyn yn bodloni'r angen am statws uwch, ond yn ei gydbwyso â'r arbenigedd barnwrol a'r annibyniaeth sy'n rhan annatod o swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Atebodd un ar hugain o ymatebwyr, gyda 19 yn cytuno, un yn anghytuno ac un yn cynnig ateb arall.

7.28 Cytunodd Cylchdaith Cymru a Chaer â'n cynnig dros dro, gan egluro y byddai'r cynnig:

> ...yn rhoi pwys dyledus ar lefel y rolau ond hefyd yn sicrhau annibyniaeth ac arbenigedd. Byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau cydnabyddiaeth o statws y swydd ond yn dal i ganiatáu ar gyfer arweiniad barnwrol cryf. Os penodir Gweinidog dros Gyfiawnder o fewn Llywodraeth Cymru, y Gweinidog hwnnw ddylai fod yn awdurdod penodi.
>
> Ni welwn unrhyw resymeg yn yr Arglwydd Ganghellor yn parhau i fod yn awdurdod penodi ar gyfer rhai Tribiwnlysoedd yng Nghymru, yn enwedig gan fod y cyfrifoldeb hwnnw mewn perthynas â thribiwnlysoedd a gedwir yn Lloegr wedi ei drosglwyddo i Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.

7.29 Roedd Cyngor y Bar a Chyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio o'r un farn hefyd, gyda Chyngor y Bar yn ychwanegu:

> mae'n bwysig mynnu cytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, i sicrhau nad yw'r broses o fewn rheolaeth y weithrediaeth yn unig.

7.30 Cytunodd Cyfraith Gyhoeddus Cymru hefyd â'r cynnig dros dro, a rhoi'r gorau i rôl yr Arglwydd Ganghellor mewn perthynas â phenodiadau i'r tribiwnlysoedd datganoledig.

7.31 Mynegodd Richard Payne, Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, gytundeb amodol:

> Cyn belled ag y bo'r swyddi'n cael eu cydnabod fel swyddi sy'n cyfateb i swyddi uwch yn Lloegr pe bai traws-docynnu neu swyddogaethau eraill yn cael eu harfer, a bod gan y penodiadau yng Nghymru yr hyn sy'n cyfateb i benodiad Arglwydd Ganghellor yn Lloegr ac unrhyw fudd cysylltiedig.

7.32 Dywedodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard fod y cynnig dros dro yn adlewyrchu casgliadau adolygiadau blaenorol o'r system, yn enwedig adroddiad 2016 y Pwyllgor ar Gyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru.

> Rydym yn cytuno mai Gweinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ddylai fod yr awdurdod cyfrifol ar gyfer penodi dirprwyon ac arweinwyr barnwrol. Mae diwygio ymarfer a'r berthynas â'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol a nodwyd uchod wedi cyflawni'r 'prawf tegwch' a bennwyd gan Bwyllgor

Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru yn 2016 a dylai gynnal hyder yn annibyniaeth a didueddrwydd y system.[169]

7.33 Roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn anghytuno â'r cynnig dros dro, am y rhesymau sydd wedi eu hamlinellu ym mharagraff 7.24 uchod.

7.34 Dewisodd Roger Handy ateb "arall". Er ei fod yn cefnogi'r syniad bod Gweinidogion Cymru yn penodi dirprwyon ac arweinwyr barnwrol, credai y dylai hyn ddilyn argymhelliad gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru (yn hytrach na mynnu bod y Llywydd yn cytuno).

### Trafodaeth: penodiadau i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru

7.35 Yng ngoleuni'r gefnogaeth gref i'n cynigion dros dro, rydym yn argymell y dylai holl aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Rydym yn argymell bod Llywyddion a Dirprwy Lywyddion siambrau'r tribiwnlys hwnnw'n cael eu penodi gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Rydym yn rhoi sylw i bwyntiau penodol a wnaed gan ymatebwyr isod.

7.36 Rydym hefyd yn nodi ymateb Keith Bush CF i Gwestiwn Ymgynghori 35. Roedd yn anghytuno â'n cynnig dros dro i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru benodi aelodau i'r tribiwnlysoedd datganoledig. Yn hytrach, dadleuodd y dylai pob Llywydd tribiwnlys fod yn gyfrifol am benodi aelodau i'w tribiwnlys eu hunain, gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, yn unol â'i ddewis ar gyfer system ffederal o dribiwnlysoedd (trafodir hyn ymhellach ym mharagraffau 3.11 a 3.12, a 3.25 i 3.28 uchod).

7.37 Rydym yn holi a fyddai'r model hwn yn rhoi digon o statws uwch yn y broses benodi. Ar hyn o bryd, penodir y rhan fwyaf o aelodau i'r tribiwnlysoedd datganoledig gan naill ai'r Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus neu Weinidogion Cymru (neu ryw gyfuniad o'r tri). Byddai'n newid sylweddol i'r aelodau gael eu penodi gan Lywyddion y tribiwnlysoedd unigol, a gallai godi materion sy'n gysylltiedig â thraws-docynnu (trafodir ymhellach isod ym mharagraff 7.41). Byddai cynnal proses ar wahân ar gyfer pob tribiwnlys hefyd yn mynd yn groes i safoni arfer cyffredin ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig.

7.38 Serch hynny, rydym yn cydnabod y bydd Llywyddion y Siambr yn parhau i chwarae rhan bwysig yn y broses ddethol. Rydym yn rhagweld, beth bynnag, y byddai'r dystiolaeth yn trafod, yn ffurfiol neu fel arall, penodi aelodau gyda Llywydd y Siambr cyn penodi.

#### Gwahaniaethu rhwng aelodau cyfreithiol, proffesiynol a lleyg

7.39 Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod gwahanol fathau o aelodau o reidrwydd yn gofyn am wahanol fathau o awdurdod penodi. Yn y Papur Ymgynghori, nodwyd tair egwyddor a oedd, yn ein barn ni, yn berthnasol i ddewis awdurdod penodi. Y rhain oedd amddiffyn annibyniaeth tribiwnlysoedd, nodi pwysigrwydd penodiadau, a gallu

[169] Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru, *Cyfiawnder gweinyddol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* (2016) paragraff 31, argymhelliad 11.

awdurdod i arfarnu'r argymhellion a wnaed iddo. Mae'n annhebygol y bydd y ddwy ystyriaeth gyntaf yn amrywio rhwng gwahanol fathau o aelodau.

7.40 O ran y drydedd ystyriaeth, gallwn weld ei bod yn bosibl y gallai gwahanol fathau o awdurdod penodi fod mewn sefyllfa well neu waeth i werthuso rhinweddau argymhellion ar gyfer gwahanol fathau o aelodau. At ei gilydd, fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod hyn yn ddigon i gyfiawnhau cael awdurdodau penodi gwahanol, gyda'r cymhlethdod ychwanegol y byddai hyn yn ei olygu i'r system. I'r graddau bod angen gwahanol ddulliau o ddewis gwahanol fathau o aelodau, gellir cynnwys hyn yn y cam dethol. Mae'r farn hon wedi cael ei chadarnhau ymhellach drwy sylwi bod Gweinidogion Cymru yn penodi aelodau cyfreithiol a lleyg o Banel Dyfarnu Cymru, a bod yr Arglwydd Ganghellor ar hyn o bryd yn penodi aelodau cyfreithiol, meddygol a lleyg o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

### Hwyluso traws-docynnu

7.41 Cododd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a Richard Payne y pwynt pwysig na ddylai unrhyw drefniant penodi newydd rwystro traws-docynnu. Rydym yn cytuno bod hon yn ystyriaeth berthnasol, a dyna pam rydym yn argymell yn ddiweddarach yn y Bennod hon y dylai'r broses ddethol barhau i gael ei rhedeg gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ("y Comisiwn"), sydd hefyd yn dewis ymgeiswyr i'w penodi i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

7.42 Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod penodiad gan unrhyw un ar wahân i'r Arglwydd Ganghellor yn debygol o leihau statws aelodau Cymru yng ngolwg y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Mae holl aelodau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (gan gynnwys aelodau'r Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol) bellach yn cael eu penodi gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd; penodiad gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw'r gymhariaeth agosaf posibl i'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Mae Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd hefyd yn gyfrifol am benodi Llywyddion a Dirprwy Lywyddion y Siambr.[170] Byddai ein trefniadau arfaethedig (cyfuniad o Weinidogion Cymru a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru) yn ychwanegu lefel ychwanegol o fewnbwn gweithredol ar gyfer y swyddi hynny.

### Statws yr awdurdod penodi

7.43 Fe wnaeth y Tribiwnlys y pwynt hefyd bod penodiad gan yr Arglwydd Ganghellor yn "rhoi statws penodol ac yn peri i aelodau (yn enwedig rhai nad ydynt yn gyfreithwyr) gymryd eu penodiad a'r rheolau ymddygiad sy'n ei reoli o ddifri". Mae'n eithaf posibl bod swydd yr Arglwydd Ganghellor yn fwy cyfarwydd i aelodau nad ydynt yn gyfreithwyr na swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'n sicr yn rôl sydd â mwy o arwyddocâd cyfansoddiadol, gwleidyddol a hanesyddol.

7.44 Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod hyn yn cyfiawnhau cadw'r rôl mewn perthynas â phenodiadau o gofio mai (a) swydd un o Weinidogion y Deyrnas Unedig yw hon a (b) nid yw'r Arglwydd Ganghellor bellach yn gyfrifol am benodiadau i Dribiwnlys Haen Gyntaf y Deyrnas Unedig. Er bod swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yng nghynllun cyffredinol cyfansoddiad y Deyrnas Unedig yn llai arwyddocaol na swydd yr

170 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, adran 7 ac atodlen 4 paragraff 5.

Arglwydd Ganghellor, serch hynny mae'n swydd o statws sylweddol, y gwneir penodiadau iddi gan yr Arglwydd Brif Ustus.

7.45 Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig bod aelodau'r tribiwnlys yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Credwn y byddai ein hargymhelliad ym Mhennod 10 yn cynorthwyo hyn, sef y dylai fod yn ofynnol i aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru dyngu'r llw barnwrol.

### Penodi aelodau i baneli cleifion cyfynedig Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru (Siambr Iechyd Meddwl)

7.46 Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gwrando ar geisiadau gan gleifion cyfyngedig, a'r rhai nad ydynt yn gyfyngedig .[171] Cleifion cyfyngedig ydy'r sawl sydd dan orchymyn ysbyty a wneir gan lys troseddol, neu garcharorion sydd wedi cael eu cadw yn yr ysbyty i gael triniaeth, ac sy'n destun rheolaethau arbennig oherwydd lefel y risg y parant i'r gymuned. Mae ceisiadau cleifion cyfyngedig yn cael eu gwrando gan baneli cleifion cyfyngedig.

7.47 Yn hanesyddol, roedd Rheolau'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl 1983 yn darparu ar gyfer penodiadau i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Lloegr, a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Roedd y Rheolau hynny'n nodi y dylid cyfyngu categori'r aelodau sydd yn gymwys i wrando achosion sy'n ymwneud â 'chleifion cyfyngedig yn gyfyngedif i'r aelodau cyfreithiol hynny sydd wedi eu cymeradwyoi'r diben hynny gan yr Arglwydd Ganghellor'.[172]

7.48 Ar hyn o bryd, mae'r Arglwydd Brif Ustus yn gyfrifol am benodi aelodau cyfreithiol i lywyddu dros wrandawiadau paneli cleifion cyfyngedig Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.[173] Mae'r awdurdod hynny wedi ei ddirprwyo i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar hyn o bryd.[174]

7.49 Pan trosglwyddwyd swyddogaethau Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Lloegr i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl), daeth Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd yn awdurdod penodi ar gyfer aelodau cyfreithiol y paneli cleifion cyfyngedig. Fodd bynnag, mae meini prawf ychwanegol ar gyfer penodi aelodaui'r paneli cleifion cyfyngedig. Mewn ymgyrch recriwtio diweddar, roedd gofyn i ymgeiswyr fod yn gofiaduron a oedd yn gallu arddangos un neu fwy o'r canlynol:

(1) profiad dedfrydu diweddar,

(2) profiad sylweddol a gafwyd yn ymarferol neu'n farnwrol o gyfraith iechyd meddwl neu gymhwystra meddyliol; neu

---

171 Deddf Iechyd Meddwl 1983, adran 79.

172 Rheolau Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl Offeryn Statudol 1983 Rhif 942.

173 Rheolau Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl Cymru Offeryn Statudol 2008 Rhif 2705, r 11(2).

174 Yr Arglwydd Brif Ustus – Dirprwyo Swyddogaethau Statudol, atodlen 1 o 2020, tudalen 194. Gweler https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2015/12/LCJ-Delegations-Schedule-No-1-of-2020.pdf

(3) brofiad sylweddol a gafwyd yn ymarferol neu'n farnwrol o'r asesiad barnwrol o risg difrifol (er enghraifft, gyda'r Bwrdd Parôl, neu mewn perthynas ag achosion cyfraith gyhoeddus yn ymwneud â phlant).[175]

7.50 Nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod angen cynnal y broses benodi ar wahân sy'n berthnasol ar hyn o bryd i baneli cleifion cyfyngedig y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl. Yn ymarferol, mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru eisoes yn ymarfer y swyddogaeth hon (wedi ei dirprwyo gan yr Arglwydd Brif Ustus).[176]

### Tribiwnlys Apêl i Gymru

7.51 Ym Mhennod 4, rydym yn argymell y dylid creu Tribiwnlys Apêl i Gymru maes o law. Mae'r cwestiwn felly'n codi: pwy ddylai wneud penodiadau i'r tribiwnlys hwnnw? Un posibilrwydd fyddai dilyn y patrwm ar gyfer penodi i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, a dweud y dylai aelodau gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Un arall fyddai gofyn am gyfuniad o Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Gweinidogion Cymru.

7.52 Rydym yn cael ein denu'n fwy at yr olaf o'r ddau. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn debygol o eistedd ar Dribiwnlys Apêl Cymru, a bod ganddo berthynas waith agos gydag aelodau'r Tribiwnlys Apêl. Gan hynny, rydym o'r farn ei bod yn ddymunol cynnwys trydydd parti yn y broses benodi, ac felly awgrymwn y dylid trin penodiadau i'r Tribiwnlys Apêl yn yr un modd â phenodi Llywyddion siambrau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

7.53 Yn ogystal â phenodi aelodau, credwn ei bod yn bwysig bod Tribiwnlys Apêl Cymru yn gallu "traws-docynnu" aelodau i mewn o'r Uwch Dribiwnlys presennol. I ddechrau o leiaf, mae'n debygol mai ychydig o achosion a ddaw gerbron Tribiwnlys Apêl Cymru, ac felly mae'n debygol y bydd angen iddo ddefnyddio arbenigedd barnwrol mewn mannau eraill.

7.54 Ar hyn o bryd, gall aelodau'r Uwch Dribiwnlys gael eu traws-leoli i unrhyw un o'r tribiwnlysoedd adran 59, ar gais Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a chyda chytundeb Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd.[177] Gobeithiwn y gellir cynnal y trefniadau hyn ar gyfer Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, a'u hymestyn i Dribiwnlys Apêl Cymru. Nid ydym yn gwneud argymhelliad i'r perwyl hwn, gan ei fod yn debygol o fod y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**Argymhelliad 31.**

7.55 Rydym yn argymell y dylai aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

---

175 Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, "Fee-paid Judge of the Restricted Patients Panel, First-tier Tribunal, Health, Education and Social Care Chamber" Gweler https://apply-prod.web.app/vacancy/dD9W8Z92d4UxjeZzQPPX/

176 Yr Arglwydd Brif Ustus – Dirprwyo Swyddogaethau Statudol, atodlen 1 o 2020, tudalen 194. Gweler https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2015/12/LCJ-Delegations-Schedule-No-1-of-2020.pdf

177 Deddf Cymru 2017, adran 63(2).

**Argymhelliad 32.**

7.56 Rydym yn argymell y dylai Llywyddion ac unrhyw Ddirprwy Lywyddion Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Argymhelliad 33.**

7.57 Rydym yn argymell y dylai aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

## Tribiwnlys Prisio Cymru

### Penodi'r Llywydd

7.58 Ar hyn o bryd mae Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru yn cael ei ethol gan aelodau o'r Tribiwnlys Prisio, yn hytrach na'i benodi. Ym mharagraff 6.71 o'r Papur Ymgynghori, rydym yn egluro bod hwn yn draddodiad hirsefydlog, sy'n dyddio'n ôl i cyn i'r tribiwnlysoedd prisio gael eu cyfuno'n un tribiwnlys ar gyfer Cymru. Roedd Tribiwnlys Prisio Lloegr hefyd yn arfer ethol ei Lywydd. Fodd bynnag, diddymwyd yr arfer mewn perthynas â'r tribiwnlys hwnnw drwy ddeddfu Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007. Yr Arglwydd Ganghellor sydd bellach yn gyfrifol am benodi Llywydd a Dirprwy Lywyddion Tribiwnlys Prisio Lloegr.

7.59 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 38, gofynasom am farn ynghylch sut dylid penodi'r Llywydd. Atebodd 13 o'r ymatebwyr. Un thema a gododd dro ar ôl tro mewn wyth o'r 13 ymateb oedd y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru ddilyn yr un broses benodi â thribiwnlysoedd adran 59.

7.60 Roedd Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar, Cyfraith Gyhoeddus Cymru, Keith Bush CF, Richard Payne, a Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard i gyd o'r farn y dylai Llywydd y Tribiwnlys Prisio gael ei benodi gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb y Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru (gan ddod â'r arfer yn unol â'r hyn a awgrymwyd yng Nghwestiwn Ymgynghori 37). Cytunodd Bob Chapman, cyn aelod Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, a Phwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd.

7.61 Roedd Noel Edwards a Chyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru, fodd bynnag, o'r farn y dylai'r system bresennol o ethol gan aelodau barhau. Mynegodd y Cyngor Llywodraethu'r farn:

> mae gormod o wahaniaethau rhwng Tribiwnlys Prisio Cymru a thribiwnlysoedd adran 59 er mwyn gallu ei gynnwys mewn strwythur unedig ar hyn o bryd. Rydym o'r farn y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru barhau i fod yn swydd a gaiff ei hethol yn fewnol o dan y strwythur presennol.

7.62 Roedd Huw Williams, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd, a oedd yn ymateb fel unigolyn, o'r farn y dylid adolygu a diwygio Tribiwnlys Prisio Cymru ymhellach cyn ei gynnwys fel rhan o'r diwygiadau arfaethedig i'r tribiwnlysoedd datganoledig. Yn y cyfamser, cynigiodd yr atebion a ganlyn:

> Tra bo Tribiwnlys Prisio Cymru yn cadw ei gymeriad fel tribiwnlys lleyg sy'n dibynnu ar glercod arbenigol, yna mae ethol y Llywydd gan yr aelodau yn gyson â'i gymeriad. Yn amodol ar astudiaeth benodol ar adolygu a diwygio Tribiwnlys Prisio Cymru, awgrymir fel cam interim y dylid creu cysylltiad â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru mewn dwy ffordd:
>
> 1. Dylai ethol Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru fod yn amodol ar gadarnhad gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.
>
> 2. Dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru neu gynrychiolydd eistedd ar Gyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru.

7.63 Eglurodd Roger Handy fod gan broses etholiadau "ei manteision a'i hanfanteision". Gan gynnig cyfaddawd, awgrymodd "os nad yw aelodau ar eu pen eu hunain yn ethol y Llywydd, dylent gael eu penodi gan Weinidogion Cymru o restr o argymhellion a luniwyd gan Dribiwnlys Prisio Cymru".

### Penodi aelodau a chadeiryddion

7.64 Ar hyn o bryd, penodir aelodau a chadeiryddion Tribiwnlys Prisio Cymru gan banel penodi. Mae'r panel yn cynnwys tri aelod o'r Cyngor Llywodraethu. Cafodd y broses benodi ei diwygio ddiwethaf yn 2017 yn dilyn ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru, dan y teitl "Diwygio Tribiwnlys Prisio Cymru".[178]

7.65 Gan hynny, mae prosesau penodi Tribiwnlys Prisio Cymru wedi cael eu hystyried a'u diwygio'n gymharol ddiweddar. Fodd bynnag, maent yn dal yn wahanol i'r rhai a fabwysiadwyd gan dribiwnlysoedd datganoledig eraill. Gan hynny, roedd Cwestiwn Ymgynghori 39 yn gofyn am farn ymatebwyr ynghylch sut dylid penodi aelodau a chadeiryddion Tribiwnlys Prisio Cymru.

7.66 Roedd Noel Edwards o'r farn y dylai'r broses bresennol barhau, gan ei bod yn gweithio "yn arbennig o dda". Fodd bynnag, mynegodd y farn y dylai pethau aros fel y maent "oni bai fod barnwriaeth gyflogedig ... yn cael ei hystyried".

7.67 Roedd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru hefyd o blaid cadw'r sefyllfa bresennol, oni bai y bydd y Tribiwnlys Prisio yn cael ei gynnwys yn y system unedig:

> Dylai'r prosesau ar gyfer penodi aelodau a chadeiryddion aros yr un fath am y tro gan mai dim ond yn ddiweddar y'i diwygiwyd mewn ymateb i argymhellion a wnaed mewn adolygiadau cynharach.
>
> Fodd bynnag, os deuir â Thribiwnlys Prisio Cymru dan system dribiwnlysoedd unedig ar gyfer Cymru, bydd angen cysoni'r broses benodi maes o law â'r drefn

---

178 Llywodraeth Cymru, *Diwygio Tribiwnlys Prisio Cymru 2010* (2017) paragraff 56.

bresennol a fabwysiadwyd ar gyfer y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru yw'r ateb a gynigir yn y Papur Ymgynghori.

7.68 Eglurodd Roger Handy fanteision panel penodi, gan eu bod “yn fwy tebygol o allu dewis cadeiryddion addas o blith yr aelodau na chorff/unigolyn sydd â llai o wybodaeth am addasrwydd ymgeisydd”. Gwnaeth sylwadau ffafriol hefyd ar y diwygiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn 2017,[179] gan nodi yn ei farn ef fod “safon cadeiryddion yn gyffredinol wedi cael ei gwella drwy ddiddymu'r etholiadau i swyddi cadeirydd”.

7.69 Roedd Huw Williams yn dal o'r farn y dylid diwygio'r Tribiwnlys Prisio “i'w wneud yn addas i ymuno â system Tribiwnlysoedd ”ymru".

## Cysondeb â thribiwnlysoedd adran 59

7.70 Roedd gweddill yr ymatebion i'r cwestiwn hwn o blaid sicrhau cysondeb rhwng awdurdod penodi'r tribiwnlysoedd adran 59 ac awdurdod penodi'r Tribiwnlys Prisio.

7.71 Cytunodd Syr Wyn Williams, Bob Chapman, Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar, Cyfraith Gyhoeddus Cymru, Richard Payne, Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard y dylai'r awdurdodau penodi fod yr un fath, ac o ganlyniad dylai aelodau'r Tribiwnlys Prisio gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

7.72 Eglurodd Richard Payne:

> ... dylid penodi aelodau hefyd yn yr un modd ag y mae aelodau tribiwnlysoedd datganoledig eraill yn cael eu penodi, ac yn hollbwysig, dylid eu talu, gan ddangos pwysigrwydd y rôl a'r tribiwnlysoedd wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

7.73 Awgrymodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard, os mai nod diwygio yw gwella cydlyniaeth a chysondeb, yna:

> ... dylai aelodau a chadeiryddion y Tribiwnlys Prisio ddilyn yr un broses ag awdurdodaethau eraill sydd dan gyfrifoldeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, yn enwedig os yw'r Tribiwnlys Prisio o dan strwythur Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

## **Trafodaeth: Tribiwnlys Prisio Cymru**

7.74 Fel y nodwyd ym Mhennod 3, rydym yn argymell y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru fod yn rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Yn yr achos hwnnw, credwn fod dadl gref y dylai fod yn ddarostyngedig i'r un trefniadau penodi â'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill, barn y cytunodd y mwyafrif o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw â hi.

7.75 Byddai hynny'n golygu newid sylweddol yn y ffordd y dewisir Llywydd y siambr honno. Rydym wedi ystyried yn ofalus a yw cyfansoddiad y tribiwnlys, sy'n cynnwys nifer fawr o aelodau lleyg, yn cyfiawnhau cynnal trefniant gwahanol. Yn y pen draw, nid ydym wedi ein hargyhoeddi ynghylch hynny. Nodwn fod Tribiwnlys Prisio Lloegr yn cynnwys aelodau lleyg ac nid yw'n ethol ei Lywydd (ac nid yw wedi gwneud hynny ers ei greu, yn dilyn cyfuno ei dribiwnlysoedd rhanbarthol blaenorol).

---

[179] Llywodraeth Cymru, *Diwygio Tribiwnlys Prisio Cymru 2010* (2017).

7.76 Rhan o'r cyfiawnhad dros symud oddi wrth ethol cadeiryddion Tribiwnlys Prisio Cymru i'w dewis drwy banel oedd "sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu dewis ar sail eu gwybodaeth a'u sgiliau".[180] Credwn y dylai'r un dull fod yn berthnasol i Lywydd y tribiwnlys, neu, o dan ein system ni, i Lywydd siambr brisio. Gan hynny, rydym yn bwriadu gwneud yr un argymhellion ar gyfer Tribiwnlys Prisio Cymru ag a wnawn ar gyfer siambrau eraill Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad 34.**

7.77 Rydym yn argymell y dylai aelodau Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Argymhelliad 35.**

7.78 Rydym yn argymell y dylai'r Llywydd ac unrhyw Ddirprwy Lywydd Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

### Penodi aelodau i'r paneli apêl derbyn ac, os cedwir nhw, paneli gwaharddiadau ysgolion

7.79 Mae'r dull cyffredinol rydym yn ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn ar gyfer paneli apêl derbyn i ysgolion wedi ei nodi ym Mhennod 1. Yn ein barn ni, byddai'r paneli hyn, sy'n wahanol iawn i dribiwnlysoedd eraill sy'n rhan o'r prosiect hwn, angen sylw penodol ac ailstrwythuro o bosibl cyn y byddai llawer o'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad hwn yn addas ar eu cyfer. Gan hynny, dim ond ychydig o argymhellion rydym yn eu gwneud mewn perthynas â phaneli apêl derbyn i ysgolion. Rydym yn nodi yma, fodd bynnag, y cwestiynau ymgynghori a ofynnwyd gennym am benodiadau i'r paneli, a'r ymatebion a gawsom.

7.80 Ar hyn o bryd, penodir aelodau o baneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion gan yr awdurdod lleol perthnasol (neu awdurdod derbyn, ar gyfer rhai ysgolion mewn perthynas â phenderfyniadau derbyn). Mae hyn yn golygu bod y broses benodi yn llawer llai annibynnol na'r broses benodi i dribiwnlysoedd adran 59, gan fod y cyrff sy'n rhan o'r penderfyniad cychwynnol hefyd yn penodi aelodau i ddyfarnu ar apêl yn erbyn yr un penderfyniad cychwynnol.

7.81 Gan hynny, nid yw'r paneli'n annibynnol yn strwythurol ar yr awdurdod lleol. Yn ein barn ni, roedd perygl i hyn roi'r argraff na fyddai penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ddiduedd. Roeddem o'r farn mai un ateb posibl fyddai ei gwneud yn ofynnol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru benodi aelodau o'r paneli. Gan hynny, roedd Cwestiwn Ymgynghori 40 yn gofyn am farn ymatebwyr ynghylch a ddylai aelodau paneli apêl

[180] Llywodraeth Cymru, *Diwygio Tribiwnlys Prisio Cymru 2010* (Chwefror 2017) paragraff 51.

derbyn i ysgolion (a phaneli apêl gwaharddiadau ysgolion os byddent yn cael eu cadw) gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

7.82 Atebodd 24 o ymatebwyr, a credai 14 ohonynt y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wneud penodiadau. Roedd chwech o'r farn na ddylai hynny ddigwydd a chynigiodd pedwar atebion eraill.

7.83 Roedd Patrick a Hilary Moriarty, y ddau yn aelodau o baneli apêl gwahardd a derbyn i ysgolion, yn ffafrio gweld Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn penodi aelodau'r panel 'er mwyn sicrhau annibyniaeth'.

7.84 Nododd Cymdeithas y Gyfraith ei barn:

> Dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am benodi aelodau i'r ddau banel yn dilyn eu hailstrwythuro fel cyrff ar gyfer Cymru gyfan a chasglu data canolog ar eu gweithrediad.

7.85 Roedd Cylchdaith Cymru a Chaer a Chyngor y Bar yn gweld y broses bresennol, lle mae'r corff sy'n gwneud y penderfyniad cychwynnol hefyd yn penodi aelodau i'r paneli apêl, yn anghyson â chynnal annibyniaeth farnwrol. Fe wnaethant egluro:

> ... ni ddylai'r corff sydd wedi gwneud y penderfyniad gwreiddiol fod yn awdurdod penodi ar gyfer y panel. Mae hyn yn allweddol i ddangos i'r cyhoedd bod tribiwnlysoedd yn annibynnol ac yn ddiduedd. Mae'r ffaith mai cymharol ychydig o ddata sydd ar gael yn dangos nad yw'r system bresennol yn foddhaol. Er mwyn sicrhau annibyniaeth a chysondeb, Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ddylai fod yr awdurdod penodi. Dyma ddadl arall pam dylai'r paneli apêl derbyn a gwahardd fod o fewn system Tribiwnlysoedd Cymru.

7.86 Er bod hyn yn awgrymu'n fras y dylid mynd ati'n fwy graddol i gyfuno'r paneli apêl ysgolion yn llawn â'r system unedig, roedd Cyfraith Gyhoeddus Cymru o blaid cael Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn penodi aelodau o'r paneli apêl ysgolion.

7.87 Roedd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard o blaid hefyd, gan gynnig y farn a ganlyn.

> ... Mae'n ymddangos yn gyson, ymhen amser, i symud cyfrifoldebau dros benodi aelodau i ofal Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru er mwyn parhau i wella annibyniaeth y paneli. Hyd yn oed pe na bai'r broses ddethol yn cael ei chynnal drwy'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol, byddai'n ddoeth cael awdurdod annibynnol i wneud y penodiad.

7.88 Fodd bynnag, roedd Keith Bush CF yn anghytuno â'r cynnig. Credai y dylai'r gwaith o 'reoli'r paneli hyn, gan gynnwys penodiadau, aros yn nwylo chynghorau lleol'.

7.89 Eglurodd Huw Williams ei farn, mewn perthynas â phaneli apêl derbyn i ysgolion, y dylid adolygu a diwygio ymhellach cyn eu cynnwys mewn system unedig. Credai fod angen archwiliad pellach o ystyried:

> ... eu cymeriad lleol iawn a'r cyfrifoldebau ychwanegol y byddai ymgorffori'r system Tribiwnlysoedd yn eu rhoi ar lywodraethwyr ysgol gwirfoddol, di-dâl...

7.90 Cynigiodd Dr Sarah Nason ac Ann Sherlock, cyn gymrawd ymchwil ym Mhrifysgol Bangor, ymateb cynnil ar y mater, a nodir yn llawn isod.

> Credwn fod y system bresennol lle penodir aelodau panel gan awdurdodau lleol/awdurdodau derbyn yn broblematig. Byddai gweinyddiaeth y paneli hyn, os y cedwir nhw, gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru a phenodi eu haelodau gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn gwella annibyniaeth strwythurol y cyrff ar y cyrff mae eu penderfyniadau'n cael eu herio, ac felly byddai hyn yn cael ei groesawu. Fodd bynnag, ar sail yr ymchwil rydym wedi ei wneud hyd yma, nid ydym yn gallu rhoi sylwadau ar y materion ymarferol a fyddai'n sicr o godi pe bai hyn yn digwydd.

### Ymatebion awdurdodau lleol

7.91 Roedd yr awdurdodau lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn rhanedig. O'r chwe awdurdod lleol a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd tri yn cytuno â'r awgrym ac roedd tri yn anghytuno.

7.92 Roedd Cynghorau Gwynedd, Ynys Môn a Sir Ddinbych i gyd o blaid yr awgrym. Fodd bynnag, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Môn wedi amodi eu cytundeb drwy egluro:

> ... mae angen ystyried nifer y paneli a'r trefniadau addysg lleol, h.y. mae'r ddarpariaeth addysgol y tu allan i ysgolion prif ffrwd yn amrywiol iawn ar draws yr awdurdodau ac mae angen adnabyddiaeth o hyn.

7.93 Roedd Cyngor Abertawe, Cyngor Sir Benfro a Chyngor Dinas Caerdydd i gyd yn anghytuno â'r awgrym. Pwysleisiodd Cyngor Abertawe bwysigrwydd penodi paneli sydd "yn brofiadol, yn gwybod am amodau lleol, ac sydd wedi eu harfogi'n dda i ddelio ag apeliadau hyd yn oed pan fo'r galw'n uchel'.

7.94 Eglurodd Cyngor Sir Penfro:

> mae'r system benodi bresennol yn golygu bod aelodau'r panel yn cael eu penodi gan awdurdod lleol ar sail bodloni'r meini prawf yn y rheoliadau. Pe bai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn penodi, gallai hyn rwystro ceisiadau lleol gan aelodau paneli gan y gellid ei hystyried yn broses fwy cymhleth a thrwyadl na'r system bresennol.

7.95 Roedd Cyngor Dinas Caerdydd hefyd yn dadlau o blaid cynnal y sefyllfa bresennol, gan fod 'recriwtio yn unol â'r Cod yn galw am hysbysebu rheolaidd ac yn annog ymgeiswyr o'r gymuned ehangach'. Aethant ymlaen hefyd i egluro bod "cyfarfodydd wedi cael eu cynnal i rannu arferion da gyda golwg ar gysondeb dull gweithredu gan baneli".

7.96 Mynegodd aelod panel o Gaerdydd y farn "na fydd penodi aelodau panel gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru neu gorff o bell yn gwella safon aelodau'r panel".

## GWEITHDREFNAU DETHOL

### Trefniadau ar gyfer dethol ar gyfer penodi gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

7.97 Ar hyn o bryd, y Comisiwn Penodiadau Barnwrol sy'n gyfrifol am ddewis ymgeiswyr ar gyfer tribiwnlysoedd adran 59. Mae dau lwybr i'r broses hon: Ar gyfer penodiadau'r

Arglwydd Ganghellor, y Comisiwn Penodiadau Barnwrol sy’n gyfrifol am ddethol ymgeiswyr. Ar gyfer penodiadau Gweinidogion Cymru, daethpwyd i gytundeb o dan adran 83 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i gaffael gwasanaethau’r Comisiwn.

7.98 Ym mharagraff 6.81 o’r Papur Ymgynghori, rydym yn trafod manteision cael un corff yn defnyddio prosesau dethol safonol ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig. Yn ein barn ni, mae manteision hyn yn cynnwys eglurder, cysondeb a’r gallu i draws-docynnu ar draws tribiwnlysoedd adran 59 a chyda’r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Ar y pwynt hwn, roeddem o’r farn ei bod yn annhebygol y byddai’r tribiwnlysoedd datganoledig yn cynhyrchu digon o waith i gyfiawnhau creu corff tebyg ar gyfer Cymru yn unig. Yng Nghwestiwn Ymgynghori 41, roeddem felly’n cynnig dros dro na ddylid newid y trefniadau o ran y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn dethol wrth benodi fel rhan o’n diwygiadau.

7.99 Atebodd 18 o’r ymatebwyr y cwestiwn hwn, pob un yn cytuno â’r cynnig dros dro.

7.100 Nododd y Gwir Barchedig Dr Barry Morgan, Comisiynydd Penodiadau Barnwrol a Chadeirydd Pwyllgor Materion Cymreig y Comisiwn:

> Mae gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol gytundeb adran 83 hirsefydlog gyda Gweinidogion Cymru ar gyfer ymarferion dethol ar gyfer penodiadau y mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol amdanynt, ac mae’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn cefnogi parhau i ddefnyddio’r fframwaith hwn neu fframwaith tebyg yn y dyfodol.

7.101 Cytunodd Huw Williams â’r cynnig, gan nodi hefyd:

> mae’n bosibl y bydd goblygiadau o ran adnoddau yn codi o’r angen i gynnal mwy o gystadlaethau yng Nghymru. Gall hefyd godi’r cwestiwn a fydd un Comisiynydd Comisiwn Penodiadau Barnwrol sydd â gwybodaeth arbennig am Gymru yn ddigonol yn y dyfodol.

7.102 Fe wnaeth nifer o’r sawl a ymatebodd sylwadau ffafriol ar y ffordd roedd y Comisiwn yn hybu didueddrwydd y broses benodi. Soniodd Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn benodol am bwysigrwydd ‘y datgysylltiad a roddir i’r broses ddethol gan gorff sydd ymhell oddi wrth ddylanwadau lleol’. Eglurodd Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer fod cyfraniad y Comisiwn yn ‘bwysig i ddangos i’r cyhoedd fod tribiwnlysoedd yn annibynnol ac yn ddiduedd’.

7.103 Roedd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard hefyd yn cytuno â’r cynnig dros dro, gan fanteisio ar lwyddiant y cydweithio yn y gorffennol, gan fod ‘datblygu trefniadau gyda’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol wedi bod yn rhan allweddol o waith Llywodraeth Cymru yn datblygu didueddrwydd ac annibyniaeth i Dribiwnlysoedd Cymru’.

7.104 Ym mharagraff 6.85 o’r Papur Ymgynghori, daethom i’r casgliad dros dro nad oedd y nifer isel o benodiadau i’r tribiwnlysoedd datganoledig, ar hyn o bryd, yn cyfiawnhau’r buddsoddiad a’r ymdrech weinyddol sy’n ofynnol i sefydlu corff penodiadau ar wahân ar gyfer Cymru. Roedd Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer o’r un farn, gan gytuno “yn y dyfodol agos bod y niferoedd dethol yn dal yn rhy fach i gyfiawnhau Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar wahân i Gymru”.

7.105 Oherwydd y gefnogaeth unfrydol i'n cynnig dros dro, rydym yn argymell y dylai'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol fod yn gyfrifol am bob penodiad i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ddethol ymgeiswyr i'w penodi i Dribiwnlys Apêl Cymru (a drafodir ym Mhennod 4).

## Tribiwnlys Prisio Cymru

### Dewis y Llywydd

7.106 Yn dilyn Cwestiwn Ymgynghori 38, gofynnwyd am farn ymatebwyr yng Nghwestiwn Ymgynghori 42 ynghylch sut dylid dewis Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru.

7.107 Atebodd 13 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd dwy brif thema i'r ymatebion: yn gyntaf, y rhai o blaid cynnal y sefyllfa bresennol; ac yn ail, y rhai a gredai y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei ddewis gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

### Cynnal y sefyllfa bresennol

7.108 Mynegodd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru y farn y dylai 'Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru, am y tro, barhau i fod yn swydd a etholir yn fewnol'. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi, pe bai Tribiwnlys Prisio Cymru 'yn dod o dan system dribiwnlysoedd unedig ar gyfer Cymru, bydd angen cysoni'r broses â thribiwnlysoedd datganoledig eraill', ac o ganlyniad byddai'r broses ddethol yn cael ei chynnal gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

7.109 Mynegodd Roger Handy y farn nad oedd yn gweld unrhyw fudd symud oddi wrth y dull presennol o ethol Llywydd y Tribiwnlys Prisio.

### Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

7.110 Roedd Bob Chapman, Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar, Cyfraith Gyhoeddus Cymru a Richard Payne i gyd o'r farn, yn unol â'r prosesau dethol ar gyfer arweinwyr barnwrol a dirprwyon tribiwnlysoedd adran 59, y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei ddewis gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

7.111 Dywedodd Cymdeithas y Gyfraith y byddai hyn yn "proffesiynoli'r tribiwnlys", tra nododd Cylchdaith Cymru a Chaer a Chyngor y Bar bod "y sefyllfa bresennol o gael eich ethol gan gyd-aelodau yn anfoddhaol ac yn anghyson â thribiwnlysoedd eraill". Disgrifiodd Richard Payne y broses bresennol fel un "anghyson sydd wedi dyddio", ac awgrymodd y dylai'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol redeg y broses ddethol.

7.112 Nododd Cylchdaith Cymru a Chaer hefyd y byddai cyflwyno proses ddethol a redir gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol ar gyfer dewis Llywydd Tribiwnlysoedd Prisio Cymru yn sicrhau bod y sefyllfa'n cyd-fynd â'r hyn a ddilynir gan Dribiwnlys Prisio Lloegr.

### Dethol yr aelodau

7.113 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 43, gofynnwyd i'r ymatebwyr sut dylid dewis aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru, gan gynnwys cadeiryddion. Yn yr un modd â'r cwestiwn blaenorol, roedd dwy brif thema i'r ymatebion. Roedd rhai yn fodlon â'r sefyllfa

bresennol; roedd eraill o'r farn y dylai aelodau'r Tribiwnlys Prisio gael eu dewis gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

### Cynnal y weithdrefn gyfredol

7.114 Roedd Noel Edwards a Chyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru ill dau o blaid cynnal y broses ethol bresennol, a ddisgrifir ymhellach ym mharagraff 7.64 uchod.

7.115 Unwaith eto, cyfeiriodd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru at y diwygiadau diweddar a wnaed o ganlyniad i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, roedd yr ymateb yn nodi pe bai Tribiwnlys Prisio Cymru yn cael ei gynnwys yn y system unedig, byddai angen i'r "broses benodi gyd-fynd â'r drefn bresennol a fabwysiadwyd ar gyfer y Tribiwnlys Haen Gyntaf".

7.116 Awgrymodd Roger Handy ddull hybrid. Awgrymodd y dylai'r system bresennol aros ar gyfer cadeiryddion, ond y dylid mabwysiadu "proses seiliedig ar sgiliau/agweddau, yn cynnwys holiadur a chyfweliad" ar gyfer aelodau eraill.

### Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol

7.117 Roedd Bob Chapman, Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar a Chyfraith Gyhoeddus Cymru i gyd o blaid y broses ddethol a oedd yn cael ei rhedeg gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

7.118 Amlinellodd Cylchdaith Cymru a Chaer fanteision y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn rhedeg y broses ddethol.

> Mae defnyddio'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn sicrhau proses glir a thryloyw a byddai'n adlewyrchu arfer da fel y'i mabwysiadwyd yn y broses farnwrol bresennol. Mae'n annibynnol ac yn ddiduedd. Ni fyddai ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn, yn ein barn ni, yn rhwystro'r broses - yn hytrach, mae'n gwella ei gwerth a'i statws fel panel pwysig. Nodwn fod y pryderon a fynegwyd ynghylch defnyddio'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn ymwneud â chostau ac ofn bod y broses yn gymhleth ac y byddai felly'n digalonni gwirfoddolwyr. Rydym yn fodlon bod modd rheoli'r pryderon hyn yn y broses drwy fabwysiadu ffurflenni syml a bod yr arbedion a ddaw yn sgil hyn yn drech na'r ofnau ynghylch costau a awgrymir. Gellid gwneud y broses ddethol yn llai beichus hefyd - er enghraifft, drwy gael cam ymgeisio a chyfweld yn unig, o gofio bod hon yn rôl ddi-dâl.

7.119 Roedd Richard Payne yn cytuno, gan nodi y dylai'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol redeg y broses "yn y dyfodol ar gyfer aelodau newydd".

### Trafodaeth

7.120 O ystyried ein hargymhelliad ym Mhennod 3 y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei gynnwys yn y system tribiwnlysoedd ehangach, ein hargymhelliad yw y dylai'r gweithdrefnau dethol ar gyfer y siambr honno fod yr un fath â gweddill Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Byddai hynny'n golygu y byddai'r aelodau a'r Llywydd ac unrhyw Ddirprwy Lywydd y siambr yn cael eu dewis gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol. O ystyried profiad y Comisiwn Penodiadau Barnwrol wrth ddewis aelodau o Dribiwnlys Prisio Lloegr, rydym yn hyderus bod gan y Comisiwn yr arbenigedd i gynnal yr ymarferion recriwtio hyn.

7.121 Gan hynny, rydym yn argymell y dylai’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ddethol ymgeiswyr ar gyfer penodiadau i Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Argymhelliad 36.**

7.122 Rydym yn argymell y dylai’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ddethol ymgeiswyr ar gyfer pob penodiad i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.

**Argymhelliad 37.**

7.123 Rydym yn argymell y dylai’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ddethol ymgeiswyr ar gyfer pob penodiad i Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

### Dewis aelodau paneli apêl derbyn i ysgolion ac (os y cedwir nhw) paneli gwaharddiadau

7.124 Fel y crybwyllir uchod ym mharagraff 7.79, dim ond ychydig o argymhellion a wnawn am baneli apêl derbyn i ysgolion yn yr adroddiad hwn. Gan hynny, nid ydym yn gwneud unrhyw argymhelliad yma ynghylch sut dylid dewis aelodau o baneli apêl derbyn i'r ysgol ac (os y cedwir nhw) paneli apêl gwahardd o'r ysgol. Fodd bynnag, rydym wedi nodi’r cwestiynau a ofynnwyd gennym yn y Papur Ymgynghori, a’r ymatebion a gawsom.

7.125 Ym mharagraffau 6.87 i 6.91 y Papur Ymgynghori, fe wnaethom amlinellu manteision ac anfanteision defnyddio’r broses ddewis a ddefnyddir gan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol i ddewis aelodau annibynnol i baneli apêl. Yn ein barn ni, byddai’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn darparu gweithdrefn drylwyr ac mae’n debygol o atgyfnerthu didueddrwydd yr ymgeiswyr a benodir. Mae’r broses, fodd bynnag, yn ddrud, ac roeddem yn bryderus y gallai fod yn rhwystr i ddarpar ymgeiswyr sy’n wirfoddolwyr di-dâl ar hyn o bryd.

7.126 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 44, gofynnom am farn ymatebwyr ynghylch sut dylid dewis aelodau o baneli apêl derbyn i ysgolion ac (os y cedwir nhw) paneli apêl gwaharddiadau. Atebodd dau ar hugain o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd llawer, ond nid y cyfan, o’r ymatebwyr hynny o blaid y syniad y dylai’r Comisiwn Penodiadau Barnwrol redeg y broses ddethol i ddewis aelodau o’r paneli derbyn i ysgolion ac (os y cedwir nhw) paneli gwahardd.

7.127 Roedd Bob Chapman, Cyngor Sir Ddinbych a Dr Calum Delaney (aelod o Dribiwnlys Addysg Cymru) i gyd o blaid defnyddio gweithdrefnau dewis y Comisiwn Penodiadau Barnwrol, ond dim ond pe bai’r paneli’n cael eu cynnwys mewn system unedig.

7.128 Roedd Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar a Richard Payne i gyd o blaid defnyddio gweithdrefnau dethol y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

7.129 Pwysleisiodd y Gwasanaeth Addysg Catholig a Chyngor Ceredigion bwysigrwydd dewis aelodau paneli a fyddai'n meddu ar yr wybodaeth leol ofynnol. Esboniodd y Gwasanaeth Addysg Catholig:

> ... mae'n bwysig bod aelodau panel lleol yn cael eu defnyddio gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu a yw trefniadau derbyn penodol wedi eu cymhwyso'n gywir ai peidio

7.130 Fe wnaethant egluro hefyd sefyllfa benodol ysgolion ffydd, gan egluro bod gwybodaeth leol:

> yn arbennig o bwysig mewn ysgolion Catholig lle mae'n bwysig bod aelodau'r panel yn deall trefniadau derbyn yng nghyd-destun ysgolion Catholig yn ogystal â'r cyd-destun addysg lleol.

7.131 Mynegodd Cyngor Gwynedd a Chyngor Ynys Môn y farn bod "angen ystyried yr elfen hyfforddiant yn y maes hwn a dealltwriaeth y paneli o'r system leol". Roeddent hefyd yn ystyried y cyfleoedd posibl sy'n deillio o'r newid presennol i weithio'n rhithiol:

> Mae'n fanteisiol ystyried aelodaeth lleyg ar gyfer awdurdodau a chronfa ganolog os oes modd mabwysiadu system rithwir.

7.132 Roedd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru o'r farn ei bod "yn amhriodol i'r paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion fod yn rhan o'r system dribiwnlysoedd unedig yng Nghymru" ac o ganlyniad roeddent o'r farn y dylai'r "ffordd y dewisir aelodau aros yr un fath".

7.133 Fel y nodwyd uchod, roeddem yn ofni y gallai cyflwyno gweithdrefn ddethol i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol atal darpar ymgeiswyr. Mewn ymateb i hyn, dywedodd Patrick a Hilary Moriarty fod nifer y ceisiadau'n debygol o aros yn isel gan fod y rôl yn cymryd amser a'i bod yn rôl ddi-dâl.

7.134 Yn olaf, mynegodd Cyngor Sir Penfro y farn y profwyd bod "y meini prawf dethol presennol yn addas i'r diben", ac o ganlyniad, nad oedd angen diwygio. Roedd Nadia Alabere, aelod o'r paneli apêl annibynnol, hefyd o blaid cynnal y drefn bresennol, "fel y nodir yn y cod apêl derbyn".

7.135 Er nad ydym yn gwneud argymhellion ar y pwynt hwn, rydym yn gobeithio y bydd yr ystyriaethau uchod o gymorth i Lywodraeth Cymru wrth ystyried dyfodol y paneli apêl derbyn.

# Pennod 8: Cwynion a disgyblu

8.1 Ym Mhennod 7 o'r Papur Ymgynghori, fe wnaethom amlinellu'r gweithdrefnau cwyno a disgyblu yn y tribiwnlysoedd datganoledig, a gwelsom fod y gweithdrefnau presennol yn gymhleth ac yn anghyson. Yn wir, nid ydynt yn bodoli ar gyfer rhai tribiwnlysoedd. Nid oedd y gweithdrefnau ar gael yn rhwydd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd ychwaith. Fe wnaethom gynigion dros dro i sefydlu gweithdrefnau cyffredin ar gyfer pob tribiwnlys.

8.2 Roedd y Papur Ymgynghori yn gwahaniaethu rhwng cwynion am weinyddu tribiwnlys a chwynion am ymddygiad aelodau ohonynt. Er y byddai'n rhesymol i ddefnyddiwr tribiwnlys ddisgwyl i'r pynciau hyn gael sylw yn yr un polisi cwynion, o safbwynt y tribiwnlys maent yn cyflwyno materion gwahanol. Gan hynny, fe wnaethom ofyn cwestiynau ymgynghori ar wahân am bob math o gŵyn.

8.3 Yn ogystal, fe wnaethom wahanu trafodaeth ynghylch pwy ddylai ymchwilio i gwynion, a phwy ddylai fod yn gyfrifol yn y pen draw am ddisgyblu a diswyddo aelodau tribiwnlysoedd ac arweinwyr barnwrol. Rydym yn mabwysiadu'r un dull gweithredu yn y Bennod hon.

### DIWYGIO PROSESAU CWYNO

8.4 Ar hyn o bryd, mae gan y rhan fwyaf o dribiwnlysoedd datganoledig eu polisïau cwynion eu hunain. Mae gan rai bolisïau sy'n ymdrin â chwynion am ymddygiad aelodau tribiwnlysoedd yn unig, tra bo gan eraill bolisïau sydd hefyd yn ymdrin â chwynion am weinyddu'r tribiwnlys. Yr hyn sy'n gyffredin ar draws y tribiwnlysoedd yw mai ychydig iawn o gwynion a dderbynnir gan y cyhoedd. Mae'r tabl isod yn nodi'r cwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr tribiwnlysoedd mewn perthynas â thribiwnlysoedd adran 59 yn ystod y tair blynedd diwethaf.

| Tribiwnlys[181] | Nifer y cwynion 2018/19 | Nifer y cwynion 2019/20 | Nifer y cwynion 2020/21 |
|---|---|---|---|
| TTAC | 0 | 0 | 0 |
| PDC | 0 | 0 | 0 |
| TAIMC | 4 | 2 | 3 |
| TEPC | 1 | 0 | 0 |
| TAAC (wedi ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru ("TAC") erbyn hyn)) | 7 | 1 | 4 |
| TG | 0 | 0 | 1 |

## Polisïau a gweithdrefnau cwynion unffurf

8.5 Roedd Cwestiwn Ymgynghori 45 yn cynnig dros dro y dylai polisïau a gweithdrefnau cwyno safonol fod yn berthnasol i bob tribiwnlys datganoledig. Atebodd 25 o ymatebwyr y cwestiwn yma, gyda 23 yn ateb yn gadarnhaol a dau yn dewis ateb "arall".

8.6 Un o'r rhai a ddewisodd ateb "arall" oedd Cymdeithas y Gyfraith Cymru a Lloegr, a gytunodd y byddai safoni'n gwella eglurder a chysondeb, ond a nododd "nad yw cwynion yn safonol o ran eu natur a bod sensitifrwydd penodol yn galw am ddull gweithredu penodol". Yn unol â hynny, awgrymodd Cymdeithas y Gyfraith:

> ... fodel 'safonol a mwy' sy'n sefydlu llinell sylfaen o bolisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol yn gyffredinol ond sy'n caniatáu sgôp ar gyfer amrywiadau unigol lle ceir tystiolaeth dda o angen, yn amodol ar gytundeb Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru.

8.7 Y llall oedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, a oedd yn anghytuno â safoni polisïau a gweithdrefnau cwynion ar draws yr holl dribiwnlysoedd datganoledig, gan egluro:

> Os yw hyn yn ymwneud â chysondeb mewnol ar gyfer pob categori o aelodau mewn tribiwnlys, yna rydym o blaid, ond nid ydym o blaid polisi cwynion safonol ar draws yr holl dribiwnlysoedd datganoledig. Mae natur y cwynion a dderbyniwn yn esoterig ac mae angen proses sensitif a syml y gall ein defnyddwyr gwasanaethau ei deall yn hawdd. Mae tribiwnlysoedd datganoledig eraill o blaid proses fwy cymhleth, gyda rhai'n cynnwys haen brysbennu gan staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Byddai hyn

[181] Dyma'r byrfoddau a ddefnyddir yn y tabl hwn: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru ("TTAC"), Panel Dyfarnu Cymru ("PDC"), Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ("TAIMC"), Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru ("TEPC"), Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ("TAAAC") a Thribiwnlys y Gymraeg ("TG").

yn amhriodol i'n tribiwnlys lle mae ein system gwyno (sy'n cael ei hadolygu'n rheolaidd) wedi cael ei defnyddio'n llwyddiannus ers blynyddoedd lawer.

8.8 Mae Carolyn Kirby, Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, wedi esbonio yn y gorffennol pam bod sefyllfa'r Tribiwnlys yma yn wahanol i dribiwnlysoedd datganoledig eraill. Wrth roi tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, nododd:

> Rydym yn rhyddhau tua 12% o gleifion, felly mae 88% o bosibl yn siomedig gyda'r canlyniad ac mae eu canfyddiadau o'r profiad yn gallu cael eu heffeithio gan eu hanhwylder meddyliol.[182]

8.9 Serch hynny, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cyflwyno polisi cwynion safonol. Roedd Huw Williams, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd a oedd yn ymateb fel unigolyn, yn cytuno y dylid cael dull gweithredu cyffredin ar gyfer delio â chwynion ar draws y tribiwnlysoedd, ac ychwanegodd y dylai fod gan "amrywiadau sail glir ac amlwg".

8.10 Rydym yn dal o'r farn y dylai polisi cwynion safonol fod yn berthnasol ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig, ac y dylai'r polisi cwynion hwnnw fod yn berthnasol i gwynion am weinyddu tribiwnlysoedd, ac i ymddygiad aelodau. Nid yw'r rhaniad rhwng cwynion "ymddygiad" a "gweinyddol" yn debygol o gael ei ddeall yn eang ymysg defnyddwyr tribiwnlysoedd.

8.11 O ystyried ein barn y dylai un polisi cwynion gynnwys cwynion gweinyddol ac ymddygiad, byddai'n anghyson cael nifer o bolisïau gwahanol ar gyfer gwahanol siambrau mewn system newydd. Gan y byddai'r gweinyddu yn digwydd yn ganolog gan Wasanaeth Tribiwnlysoedd diwygiedig i Gymru, byddai hynny'n golygu y byddai gwahanol bolisïau'n berthnasol i wahanol elfennau o waith y sefydliad hwnnw.

8.12 Ni allwn ychwaith weld llawer o reswm pam, ar y rhan fwyaf o bwyntiau, y dylai prosesau cwyno wyro oddi wrth ei gilydd. Rhaid i bob polisi cwynion ymdrin â phynciau tebyg - er enghraifft, amserlenni ar gyfer ymdrin â chwynion, y fformat angenrheidiol ar gyfer cwyn, a ellir rhannu cwyn am aelod o dribiwnlys gyda'r aelod dan sylw, ac a yw'n bosibl i gwynion blinderus gael eu gwrthod. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid oes rheswm da pam dylai'r safbwynt a fabwysiedir ar y cwestiynau hyn amrywio o dribiwnlys i dribiwnlys.

8.13 Wedi dweud hynny, gallwn weld bod adegau lle gallai'r math o waith yr ymdrinnir ag ef gan dribiwnlys gyfiawnhau ymdrin â materion yn wahanol. Mewn achosion lle mae angen clir am ddull gweithredu gwahanol, rydym o'r farn y byddai'n briodol darparu ar gyfer gwyro oddi wrth y polisi safonol. Fodd bynnag, dylid sicrhau cyn lleied â phosibl o wyriadau.

## Argaeledd polisïau cwyno

8.14 Nodwyd yn ein Papur Ymgynghori nad oedd pob polisi cwynion ar gael ar wefannau tribiwnlysoedd. Er mwyn gwella hygyrchedd i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd, roedd

[182] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru: Sesiwn Tystiolaeth Lafar (22 Mawrth 2019) tudalen 2. Gweler https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-05/Oral%20evidence%20to%20the%20Justice%20Commission%20on%20Tribunals%20in%20Wales_0.pdf

Cwestiwn Ymgynghori 46 yn cynnig dros dro y dylai'r polisïau cwynion fod ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled ar gais. Nid yw'n syndod bod pob un o'r 27 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'n cynnig dros dro ac felly rydym yn gwneud ein hargymhelliad yn unol â hynny.

### Cwynion yn erbyn aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru

8.15 Nid yw polisi cwynion presennol Tribiwnlys Prisio Cymru yn cynnwys cwynion am ymddygiad aelodau. O ganlyniad, yng Nghwestiwn Ymgynghori 48, fe wnaethom gynnig dros dro y dylid darparu ar gyfer cwynion ynghylch ymddygiad aelodau'r Tribiwnlys Prisio.

8.16 Atebodd 19 o ymatebwyr y cwestiwn yma, ac roedd 18 ohonynt o blaid darparu ar gyfer cwynion ynghylch ymddygiad aelodau'r Tribiwnlys Prisio.

8.17 Roedd rhai themâu cyffredin ymysg y rhai a oedd o blaid yn cynnwys gwella atebolrwydd ac ymddiriedaeth, yn ogystal â dod â'r safonau mae aelodau o'r Tribiwnlys Prisio yn ddarostyngedig iddynt yn unol â'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill.

8.18 Cytunodd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio hefyd, gan nodi:

> ... dylid gwneud iawn i'r rhai sy'n dymuno cwyno am ymddygiad aelodau. Yn anffurfiol, byddai cwynion yn cael eu cyfeirio ar hyn o bryd at Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru i'w hystyried a byddai cwynion am y Llywydd yn cael eu hystyried gan y Cyngor Llywodraethu (ac eithrio'r Llywydd). Ni chyhoeddwyd unrhyw weithdrefn gwyno ffurfiol ar hyn o bryd, a chytunwyd bod hynny'n anfoddhaol ac y bydd y mater yn cael sylw.

8.19 Yr unig ymatebydd a atebodd "arall" oedd Huw Williams, a awgrymodd ohirio diwygio trefn gwyno'r Tribiwnlys Prisio nes ceid adolygiad o'i strwythur yn y dyfodol. Fel mesur dros dro, credai y gallai fod yn bosibl penodi Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru i ystyried cwynion.

8.20 Ym Mhennod 3, rydym yn argymell y dylid cynnwys Tribiwnlys Prisio Cymru mewn Tribiwnlys Haen Gyntaf newydd yng Nghymru, i ffurfio siambr prisio yn y tribiwnlys hwnnw. Os caiff yr argymhelliad hwnnw ei roi ar waith, byddem yn disgwyl i'r polisi cwynion cyffredin (a drafodir uchod ym mharagraffau 8.5 i 8.13 fod yn berthnasol iddo. Yn y cyfamser, rydym yn croesawu ymrwymiad Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio i fynd i'r afael â'r bwlch presennol yn y polisi ffurfiol.

### Gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion ynghylch gweinyddu

8.21 Fel yr eglurwyd uchod, mae angen prosesau gwahanol ar gyfer cwynion am weinyddiaeth a chwynion am ymddygiad aelodau tribiwnlysoedd. Ein barn dros dro yw y dylai'r holl gwynion am weinyddu tribiwnlysoedd gael eu trin gan ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys. Yn achos tribiwnlysoedd adran 59, Uned Tribiwnlysoedd Cymru yw honno ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel rydym yn ei drafod ymhellach ym Mhennod 9, disgwyliwn yn y dyfodol mai Gwasanaeth Tribiwnlysoedd newydd i Gymru fydd yn gyfrifol am weinyddu'r tribiwnlysoedd.

8.22 Ym Mhennod 9, rydym yn argymell y dylai'r gwasanaeth tribiwnlysoedd sy'n cynorthwyo Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru fod yn adran anweinidogol, a fyddai â chorff llywodraethu gyda phrif weithredwr. Os gweithredir yr argymhelliad hwnnw, y prif weithredwr fyddai'r unigolyn naturiol i oruchwylio'r broses o benderfynu ar gwynion am weinyddiaeth.

8.23 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 49, fe wnaethom gynnig dros dro y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am weinyddu'r tribiwnlysoedd datganoledig. O'r 24 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn, roedd 23 yn cytuno. Fel y dywedodd Keith Bush CF (o Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd), mae sicrhau cwynion unffurf ar gyfer gweinyddu'r tribiwnlysoedd datganoledig "yn fater o sicrhau'r un tegwch i bawb sydd â chwyn - ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig".

8.24 Mewn ymateb i Gwestiwn Ymgynghori 45 mynegodd Huw Williams ei farn "y dylai cwynion mewn perthynas â gweinyddu'r system Tribiwnlysoedd gael eu trin gan system gwyno fewnol o fewn Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru".

8.25 Wrth ddewis ateb "arall", roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn, gan mai mater iddynt hwy yw gweithredoedd staff gweinyddol.

8.26 Cytunwn y dylid cyfeirio cwynion am staff gweinyddol at y rhai sy'n gyfrifol am eu gweithgareddau bob dydd. O dan ein cynllun arfaethedig, byddai Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru yn adran anweinidogol a bydd ganddi fwy o annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, rydym yn parhau i ystyried y dylai fod gan Wasanaeth Tribiwnlysoedd diwygiedig Cymru bolisi unffurf ynghylch cwynion am weinyddu'r tribiwnlysoedd. Gan ystyried y gefnogaeth gan ymgyngoreion i'n cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 49, rydym yn gwneud argymhelliad i'r perwyl hwnnw isod.

### Gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig

8.27 Roedd y Papur Ymgynghori yn amlinellu anghysonderau yn y ddeddfwriaeth sy'n rhagnodi sut dylid trin cwynion am ymddygiad aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig. Mae Rheoliadau Disgyblaeth Farnwrol (Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2014 yn darparu bod yn rhaid cyflwyno cwynion ynghylch deiliad swydd i'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol,[183] corff sy'n cynorthwyo'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus yn eu cyd-gyfrifoldeb dros ddisgyblaeth farnwrol.[184] Fel eithriad i'r rheol gyffredinol hon, mae Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014 yn darparu bod rhaid gwneud cwynion am ddeiliaid swyddi a restrir fel 'aelodau tribiwnlys' i'r 'Llywydd perthnasol' a restrir yn yr atodlen i'r Rheolau.[185]

183 Rheoliadau Disgyblaeth Farnwrol (Gweithdrefnau Rhagnodedig) Offeryn Statudol 2014 Rhif 919.

184 Mae'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol wedi ei gyfansoddi o dan Reoliadau Disgyblaeth Farnwrol (Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2014, rheoliad 4. Gweler https://judicialconduct.judiciary.gov.uk/about-us/

185 Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014, rheol 16.

8.28 Rhaid i'r Llywydd perthnasol (neu gynrychiolydd) gynnal ymchwiliad; os argymhellir diswyddo neu atal dros dro, gall yr aelod o'r tribiwnlys ofyn i'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol gynnull panel disgyblu.[186] Lle nad yw Rheolau 2014 yn berthnasol, cynhelir yr ymchwiliad gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol neu farnwr a enwebir gan y Swyddfa. Unwaith eto, os argymhellir diswyddo neu atal dros dro, gall yr aelod o'r tribiwnlys ofyn am banel disgyblu.

8.29 Am resymau hanesyddol, fodd bynnag, nid yw Rheolau 2014 yn berthnasol i holl aelodau tribiwnlysoedd adran 59. Yn benodol, nid yw'r weithdrefn honno'n gymwys i aelodau o'r Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl, aelodau o banel draenio tir Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, aelodau o bwyllgor asesu rhenti Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, aelodau o Dribiwnlys y Gymraeg nac aelodau o Banel Dyfarnu Cymru. Mae'r Rheolau'n cyfeirio cwynion am aelodau'r Tribiwnlys at y 'barnwr cyswllt'; swydd wag ar hyn o bryd.

8.30 I gywiro hyn ac anghysonderau eraill, yng Nghwestiwn Ymgynghori 50 cynigiwyd dros dro y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau ac arweinwyr barnwrol yr holl dribiwnlysoedd datganoledig. Roedd 24 o'r ymatebwyr yn cytuno â'n cynnig dros dro, a chynigiodd dau ymatebydd ymatebion eraill.

8.31 Er hynny, roedd y ddau ymatebydd a ddewisodd ateb "arall" yn cytuno â'r eglurhad manylach o'r cynnig dros dro a nodir ym mharagraff 7.93 o'r Papur Ymgynghori ac yr ymhelaethwyd arno yng Nghwestiynau Ymgynghori 51 a 52, sef:

(1) dylai cwynion ynghylch ymddygiad aelodau tribiwnlysoedd gael eu hymchwilio gan yr arweinydd barnwrol perthnasol; a

(2) dylai'r ymchwiliad i gwynion ynghylch yr arweinwyr barnwrol gael ei gydlynu gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, neu gorff cyfatebol.[187]

**Argymhelliad 38.**

8.32 Rydym yn argymell y dylai polisi cwynion safonol fod yn berthnasol i holl siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, gan ganiatáu ar gyfer amrywiadau i siambrau unigol lle bo angen.

**Argymhelliad 39.**

8.33 Rydym yn argymell y dylai'r polisi cwynion sy'n berthnasol i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru fod ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled ar gais.

---

186 Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014, rheol 72.

187 Mae'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol yn swyddfa annibynnol sy'n cynorthwyo'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus wrth iddynt ystyried cwynion am ymddygiad personol deiliaid swyddi barnwrol.

**Argymhelliad 40.**

8.34 Rydym yn argymell y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am weinyddiaeth Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru.

**Argymhelliad 41.**

8.35 Rydym yn argymell y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau, Llywyddion a Dirprwy Lywyddion Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

## YMCHWILIO I GWYNION AM YMDDYGIAD

### Ymchwilio i gwynion am aelodau tribiwnlysoedd adran 59

8.36 Ar ôl cynnig gweithdrefn unffurf dros dro ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau, roedd y Papur Ymgynghori yn ystyried pwy ddylai fod yn gyfrifol am ymchwilio i'r cwynion hynny. Roeddem o'r farn bod rhesymau da dros gael gwahanol weithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion am arweiniad barnwrol tribiwnlys ac aelodau eraill. Yng Nghwestiwn Ymgynghori 51 , fe wnaethom gynnig dros dro y dylai cwynion ynghylch aelodau tribiwnlysoedd adran 59 gael eu hymchwilio gan yr arweinydd barnwrol perthnasol. Dyma'r model a ddilynir ar hyn o bryd gan Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Lloegr.

8.37 Rydym yn rhagweld y dylid cynnwys canlyniadau'r ymchwiliad mewn adroddiad, a gyflwynir i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, a ddylai gynnwys argymhelliad ynghylch y sancsiwn priodol. Pe bai'r arweinydd barnwrol wedi argymell dileu neu atal, yna petai'r aelod yn gwneud cais, byddai panel disgyblu yn cael ei gynnull i ystyried y mater. Byddai'r panel hwnnw'n adrodd yn ôl i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Ni wnaethom ymgynghori ar gyfansoddiad y panel. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y gallai fod ar ffurf debyg i'r paneli disgyblu sy'n cael eu cynnull gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol ar hyn o bryd. Mae'r paneli hyn yn cynnwys pedwar aelod; dau aelod barnwrol (un o'r uwch swyddi ac un o'r un statws â thestun y gŵyn) a dau aelod lleyg.[188]

8.38 Atebodd 21 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd 20 ohonynt o blaid darparu i'r arweinydd barnwrol perthnasol ymchwilio i gwynion yn ymwneud ag aelodau o dribiwnlysoedd adran 59.

8.39 Mynegodd Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer eu cytundeb â'r cynnig, gan esbonio:

> Rydym yn cytuno â'r datganiad ym mharagraff 7.93 o'r Papur Ymgynghori bod y sefyllfa bresennol o ran cwynion yn rhy gymhleth. Cytunwn fod angen trefn gwyno

---

188 Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Barnwrol a deiliaid swyddi eraill) 2014, Canllawiau Atodol (Awst 2014), paragraff 7.

unffurf ac y dylai cwynion ynghylch aelodau tribiwnlysoedd gael eu hymchwilio gan yr arweinydd barnwrol perthnasol.

8.40 Roedd rhai ymatebion yn cefnogi'n benodol ein hawgrym ym mharagraff 7.95 o'r Papur Ymgynghori, mewn achosion lle'r oedd arweinwyr barnwrol yn teimlo nad oedd ganddynt bellter digonol i ymchwilio i gŵyn, y gallai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru enwebu arweinydd barnwrol arall i ymchwilio. Cytunodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard, er enghraifft, y:

> ...dylai arweinwyr barnwrol ymchwilio i gwynion ynghylch aelodau o'u tribiwnlysoedd gyda rôl ffurfiol briodol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a hyblygrwydd i'r Llywydd gyfarwyddo prosesau ymchwilio eraill fel bo'n briodol yn ôl paragraffau. 7.94-7.95...

8.41 Cytunodd Panel Dyfarnu Cymru, sy'n dribiwnlys gydag aelodaeth fach, â'r rhesymeg hon, 'gan gynnwys y gallu i'r tribiwnlysoedd llai ofyn i arweinydd barnwrol arall ymchwilio'.

8.42 Awgrymodd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, fodd bynnag, y dylid ystyried ymhellach yr ateb i'r cwestiwn hwn ac i Gwestiwn Ymgynghori 52 'yng ngoleuni'r cynigion ar gyfer diwygio'r drefn gwyno a allai ddod i'r amlwg ar gyfer y tribiwnlysoedd a gedwir'. Byddwn yn trafod y cynigion hyn nesaf.

### Diwygiadau arfaethedig i'r broses yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf

8.43 Ers i'n cyfnod ymgynghori ddod i ben, mae'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus wedi cyhoeddi cynigion dros dro ar ddiwygio disgyblaeth farnwrol yng Nghymru a Lloegr (ac eithrio'r tribiwnlysoedd datganoledig). Datblygwyd y cynnigion dros dro wedi adolygiad gan weithgor dan arweiniad yr Arglwyddes Ustus Rafferty hyd nes ei hymddeoliad, ac yna Arglwyddes Ustus Carr. Nod trosfwaol yr adolygiad yw "archwilio pob agwedd ar y system i sicrhau yr ymdrinnir â honiadau o gamymddwyn yn effeithlon, yn deg ac yn gymesur".[189]

8.44 Y cynnig mwyaf perthnasol o safbwynt y prosiect hwn yw Argymhelliad 3. Mae'r cynnig hwn yn datgan y dylid cyfeirio cwynion am aelodau tribiwnlysoedd at y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, yn hytrach na llywydd y tribiwnlys. Cyflwynwyd y cynnig hwn am y rhesymau a ganlyn.

(1) Mae delio â chwynion yn faich sylweddol ar lywyddion siambrau.

(2) Mae perygl y bydd gwrthdaro'n codi rhwng llywyddion siambrau sy'n delio â chwynion a'u rolau arwain a bugeilio.

(3) Mae Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014 yn gymhleth ac yn ddryslyd mewn mannau.[190]

8.45 Rydym wedi ystyried safbwyntiau y gweithgor a'r cynigion sydd wedi eu gwneud o ganlyniad; er na allwn, wrth reswm, rhagweld canlyniad yr ymgynghoriad, sy'n parhau

---

[189] Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus, *Ymgynghoriad ar y cynigion ynghylch y system ddisgyblaeth barnwrol yng Nghymru a Lloegr* (Tachwedd 2021) para 10.

[190] Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus, *Ymgynghoriad ar y cynigion ynghylch y system ddisgyblaeth barnwrol yng Nghymru a Lloegr* (Tachwedd 2021) para 10.

i fod ar agor wrth i ni gyhoeddi'r Adroddiad yma. Nid ydym wedi ein argyhoeddi bod rhesymau rhif un a thri ar gyfer diwygio'r system a gadwyd yn ôl yn gymwys i'r tribiwnlysoedd datganoledig, a rydym yn ystyried bod y rhesymau sy'n arwain at yr ail reswm yn broblemau a ellid eu datrys.

8.46 Y rheswm cyntaf a nodwyd yn yr ymgynghoriad yw bod delio â chwynion yn faich sylweddol ar lywyddion siambrau yn y system a gedwir. Fel y nodir yn y tabl ym mharagraff 8.4 uchod, mae nifer y cwynion a wneir yn erbyn aelodau tribiwnlysoedd yn y tribiwnlysoedd datganoledig yn dal yn isel. O ganlyniad, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y byddai ystyried cwynion yn faich gormodol ar lywyddion siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

8.47 Yn ail, mae'r ymgynghoriad yn nodi risg o wrthdaro rhwng llywyddion siambr sy'n delio â chwynion a'u harweinyddiaeth a'u rolau bugeiliol. Rydym yn cydnabod y gall hyn fod yn broblem posib ymysg y tribiwnlysoedd datganoledig hefyd, oherwydd maint bach y system, a'r cysylltiadau gweithio agos sy'n gallu datblygu. Fodd bynnag, rydym wedi ein hargyhoeddi y gellir rheoli'r risg hon trwy'r awgrym yn ein Papur Ymgynghori ym mharagraff 7.95 y gellid enwebu arweinydd barnwrol arall i gynnal ymchwiliad, os teimlir nad oes pellter digonol rhwng llywydd siambr ac aelod.

8.48 Yn olaf, mae'r ymgynghoriad yn beirniadu Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014 am fod yn ddryslyd. Rydym yn ystyried bod hyn yn broblem a all ei hosgoi trwy ddrafftio rheolau ymddygiad barnwrol sy'n ymwneud ag aelodau o'r tribiwnlysoedd datganoledig yn briodol o glir.

8.49 Rydym hefyd yn falch bod y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr wedi mynegi eu cefnogaeth i'n cynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 51. Gan hynny, rydym yn argymell bod cwynion am aelodau'n cael eu cyfeirio at arweinwyr barnwrol (neu Lywyddion Siambrau yn ein system newydd), fel sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o'r tribiwnlysoedd datganoledig ar hyn o bryd.

8.50 Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod bod ein hymgynghoriad (a'r ymatebion a gawsom iddo) yn seiliedig ar drefniadau presennol, ac mae rhan ohoni'n gyffredin i'r tribiwnlysoedd datganoledig a'r tribiwnlysoedd a gedwir. Rydym yn disgwyl y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried canlyniadau ymgynghoriad yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus cyn gwneud penderfyniadau polisi terfynol yn y maes hwn.

### Ymchwilio i gwynion am arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd adran 59

8.51 Er bod y rhan fwyaf o gwynion a wneir yn erbyn arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd adran 59 yn cael eu hymchwilio gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, nid yw hyn yn wir am Banel Dyfarnu Cymru na Thribiwnlys y Gymraeg. Yng Nghwestiwn Ymgynghori 52, fe wnaethom gynnig dros dro y dylai ymchwiliad i gwynion ynghylch arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd adran 59 gael ei gydlynu gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, neu gorff cyfatebol. Mewn ymateb i'r cwestiwn hwn, roedd 19 o ymatebwyr yn cytuno, ac roedd un ymatebydd yn cynnig ateb arall.

8.52 Roedd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru yn cefnogi ein cynnig ar y sail ei fod 'yn darparu'r annibyniaeth a'r gwahanu angenrheidiol ar ddyletswyddau, yn

enwedig gan mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru sy'n gyfrifol am faterion disgyblu aelodau'.

8.53 Roedd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard o'r farn bod y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol yn ateb derbyniol ar gyfer y presennol, ond roeddent o'r farn y byddai angen ailedrych ar y cwestiwn o bosibl wrth i arbenigedd mewnol Uned Tribiwnlysoedd ddiwygiedig Cymru ddatblygu:

> Dylid cynnal y gwaith blaenorol ar feithrin system tribiwnlysoedd fwy annibynnol gyda mynediad i'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol drwy gytundeb â Llywodraeth Cymru cyhyd ag y bo hyn yn briodol ac yn addas ar gyfer system tribiwnlysoedd Cymru. Mae ein hymchwil (Nason a Pritchard 2020, 244) yn tynnu sylw at sut mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru, ar y cyd â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac arweinwyr barnwrol, yn datblygu arbenigedd mewnol a rolau cyfatebol i GLITEM, y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol a'r Swyddfa Farnwrol. Gallai'r cynigion ar gyfer ffurfioli strwythur annibynnol Uned Tribiwnlysoedd Cymru, isod, helpu i wella prosesau cyfatebol posibl i'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol yn yr hir dymor.

8.54 Roedd Huw Williams, mewn ateb blaenorol i Gwestiwn Ymgynghori 41 eisoes wedi mynegi ei gefnogaeth i ymdrin â chwynion am ymddygiad barnwrol (hynny yw, cwynion am y rhai sydd wedi tyngu'r llw barnwrol) yn 'annibynnol cyn belled ag y bo modd'. Awgrymodd:

> dylai fod gofyniad statudol ar Weinidogion Cymru i sefydlu naill ai Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol Tribiwnlysoedd Cymru neu (y dewis a ffafrir) dod i gytundeb dan adran 83 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 gyda chorff priodol arall (er enghraifft, y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol).[191]

8.55 Eglurodd Keith Bush CF, yr unig ymatebydd i ddewis ateb "arall", er ei fod yn cytuno'n gyffredinol:

> ...mae angen rhyw fath o system (dan oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru) er mwyn gallu hidlo cwynion sy'n amlwg yn ddi-sylwedd.

8.56 O ystyried y consensws a fynegwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn argymell bod y Swyddfa'n ymchwilio i gwynion am Lywyddion a Dirprwy Lywyddion y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Byddai hyn yn caniatáu i gwynion gael eu hymchwilio'n annibynnol, heb fod angen sefydlu corff newydd (cam y byddai'n anodd ei gyfiawnhau, o ystyried y nifer fach o gwynion a dderbynnir yn flynyddol).

### Cwynion ynghylch ymddygiad aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru

8.57 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 54, fe wnaethom gynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru ymchwilio i gwynion ynghylch ymddygiad aelodau'r Tribiwnlys Prisio. Atebodd 18 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 15 yn cytuno, dau yn anghytuno ac un yn dewis ateb "arall". Ni roddodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno resymau dros eu bar. Yr ymatebydd a atebodd "arall" oedd Syr Wyn Williams, a

[191] Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 83, yn galluogi i drefniadau gael eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau gweinyddol, proffesiynol neu dechnegol i Weinidogion Cymru gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr.

ailddatganodd ei farn y dylai'r argymhellion sydd i'w gwneud mewn perthynas ag ymddygiad aelodau tribiwnlysoedd gael eu hystyried yng ngoleuni'r cynigion a oedd yn debygol o hanu o'r weithgor ar ddisgyblaeth farnwrol.

8.58 Yn ei ymateb, eglurodd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio mai dyma'r drefn anffurfiol a ddilynir gan y tribiwnlys ar hyn o bryd, gan y byddai cwynion yn erbyn ymddygiad aelodau yn cael eu cyfeirio at Lywydd y tribiwnlys. Er hynny, cytunodd y dylid ffurfioli'r weithdrefn ac y dylid cyhoeddi'r broses.

8.59 Cytunodd Huw Williams â'r cynnig fel 'trefniant pontio, gyda rôl oruchwylio i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru'.

8.60 Cytunodd Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar, Cyfraith Gyhoeddus Cymru, Keith Bush CF, Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard â'r cynnig, ar y sail y byddai'n sicrhau unffurfiaeth rhwng y drefn gwyno a ddilynir gan y Tribiwnlys Prisio a'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill.

### Trafodaeth

8.61 O ystyried ein casgliad ym Mhennod 3 y dylid dod â Thribiwnlys Prisio Cymru i mewn i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, ein barn ni yw y dylai'r un weithdrefn sy'n berthnasol i siambrau eraill yn y tribiwnlys hwnnw fod yn berthnasol i'n siambr brisio arfaethedig hefyd. Yn ymarferol byddai hynny'n golygu mai llywydd y siambr fyddai'n gyfrifol am ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau. Yn y cyfamser, rydym yn croesawu ymrwymiad Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio i ymestyn cwmpas polisi cwynion y tribiwnlys yn ffurfiol i gynnwys cwynion am ymddygiad aelodau'r tribiwnlys.

## Cwynion ynghylch ymddygiad Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

8.62 Ar ôl ystyried y sefyllfa o ran cwynion am aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru, roedd y Papur Ymgynghori wedyn yn ystyried y sefyllfa o ran cwynion am ymddygiad Llywydd y tribiwnlys. Yn unol â'n cynigion dros dro ar gyfer y tribiwnlysoedd datganoledig eraill, fe wnaethom gynnig dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 55 y dylai cwynion ynghylch ymddygiad Llywydd y Tribiwnlys Prisio gael eu hymchwilio gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol neu gorff cyfatebol.

8.63 Atebodd 18 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 15 yn cytuno, dau yn anghytuno (Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru a Noel Edwards, cynghorydd technegol Asiantaeth y Swyddfa Brisio sydd bellach wedi ymddeol) a chynigiodd un ateb arall.

8.64 Fe wnaeth Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio fynegi ei farn fel a ganlyn:

> Rydym wedi derbyn yn flaenorol y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael rhywfaint o bwerau goruchwylio mewn perthynas â Thribiwnlys Prisio Cymru, a'n barn ni yw y dylai'r pŵer i ddisgyblu Llywydd y Tribiwnlys Prisio fod yn rhan o'r cyfrifoldebau hyn.
>
> Os deuir â Thribiwnlys Prisio Cymru dan system dribiwnlysoedd unedig ar gyfer Cymru, bydd angen i'r holl brosesau gyd-fynd â'r gweithdrefnau cyfredol a fabwysiadwyd ar gyfer y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Byddai'n dilyn, yn yr achos hwn, y byddai'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol yn ymchwilio i gwynion yn erbyn Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru.

8.65 Cytunodd Cyfraith Gyhoeddus Cymru, Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard â'r weithdrefn arfaethedig, gan y byddai'n cysoni'r Tribiwnlys Prisio â'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill.

8.66 Dywedodd Noel Edwards ei fod "yn benderfyniad anodd" ac "os bydd y Llywydd yn parhau i fod yn unigolyn lleyg, byddai'n well i banel o aelodau ymchwilio i'r gŵyn".

8.67 Eglurodd Huw Williams, a nododd ei ateb fel 'arall', y dylid gohirio'r penderfyniad hyd nes ceir adolygiad pellach o strwythur y Tribiwnlys Prisio yn y dyfodol, ac y dylid rhoi rôl interim i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn amodol ar adolygiad o'r fath.

### Trafodaeth

8.68 Eto, o ystyried ein casgliad ym Mhennod 3 y dylid dod â'r Tribiwnlys Prisio i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, ein barn ni yw y dylai'r un weithdrefn fod yn berthnasol i'r siambr honno ag i'r siambrau eraill. Gan hynny, byddai'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol yn ymchwilio i gwynion am lywyddion siambrau.

8.69 Os na fabwysiedir ein hargymhelliad ym Mhennod 3, rydym serch hynny o'r farn y dylai corff allanol fod yn gysylltiedig ag asesu cwynion yn erbyn Llywydd y Tribiwnlys Prisio. Rydym wedi ystyried a ddylai'r corff allanol hwnnw, fel yr awgrymwyd gan Gyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio, fod yn Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Byddai'r swydd honno'n ychwanegu urddas at y rôl, mae'n adnabyddus yng Nghymru, ac mae'n amlwg ei bod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, byddai'n golygu mai Tribiwnlys Prisio Cymru fyddai'r unig dribiwnlys yr ymchwiliwyd i gwynion yn erbyn ei arweinwyr barnwrol gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Byddai hefyd yn gweithio'n wahanol i Dribiwnlys Prisio Lloegr, lle mae cwynion am ymddygiad Llywydd y tribiwnlys hwnnw'n cael eu cyfeirio at y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol.[192]

8.70 Gan hynny, byddai angen datblygu polisi ar wahân ar gyfer y Tribiwnlys Prisio fel yr unig dribiwnlys lle gwrandawyd cwynion am y Llywydd gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Yn ein barn ni, byddai hynny'n gweithio yn erbyn nodau cyffredinol y prosiect i hyrwyddo gweithdrefnau cydlynol a chyson ar draws y tribiwnlysoedd datganoledig. O ganlyniad, rydym yn bwriadu argymell bod cwynion am Lywydd y Tribiwnlys Prisio yn cael eu clywed gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, boed Tribiwnlys Prisio Cymru yn dod o fewn fframwaith Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru neu ddim.

### Ymchwilio i gwynion ynghylch aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru

8.71 Ym Mhennod 4 yr Adroddiad hwn, fe wnaethom argymell creu Tribiwnlys Apêl i Gymru maes o law. Mae hyn yn codi cwestiwn pellach nas ystyriwyd yn ein Papur Ymgynghori: pwy ddylai fod yn gyfrifol am ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau'r Tribiwnlys Apêl?

8.72 Yn y system tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl, gwneir cwynion yn y lle cyntaf i Lywydd Siambr yr Uwch Dribiwnlys y mae'r aelod wedi ei neilltuo iddo.[193] Anfonir adroddiad ymchwiliad ac argymhelliad y Llywydd at yr Arglwydd Ganghellor a'r Prif Ustus

[192] Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, adran 109(4) ac atodlen 14, a Rheoliadau Disgyblaeth Farnwrol (Gweithdrefnau Rhagnodedig) 2014.

[193] Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Tribiwnlysoedd) 2014, atodlen

perthnasol drwy'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol.[194] Yna, bydd yr argymhellion yn cael eu gwneud gan farnwr enwebedig fel arfer, neu, os yw'r achos yn arbennig o gymhleth neu ddifrifol, gan farnwr ymchwilio.[195]

8.73 Yn yr Alban, gwneir cwynion am aelodau cyffredin a chyfreithiol Uwch Dribiwnlys yr Alban i Swyddfa Farnwrol yr Alban (rhan o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, a sefydlwyd i gynorthwyo'r Arglwydd Lywydd yn ei rôl fel pennaeth barnwriaeth yr Alban).[196]

8.74 Rydym yn argymell, yn gyson â chwynion am Lywyddion a Dirprwy Lywyddion Siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, yr ymchwilir i gwynion am aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol. Mantais hyn yw nad oes angen Llywydd y Siambr; o ystyried maint tebygol gwaith Tribiwnlys Apêl Cymru, mae'n bosibl na chaiff ei isrannu'n siambrau i ddechrau.

**Argymhelliad 42.**

8.75 Rydym yn argymell bod Llywydd y Siambr berthnasol yn ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau tribiwnlysoedd Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Argymhelliad 43.**

8.76 Rydym yn argymell bod cwynion am ymddygiad Llywyddion a Dirprwy Lywyddion Siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn cael eu hymchwilio gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol.

**Argymhelliad 44.**

8.77 Rydym yn argymell bod cwynion am ymddygiad aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru yn cael eu hymchwilio gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol.

## DIWYGIO PWERAU DISGYBLU

8.78 Os ymchwiliwyd i ymddygiad aelod neu arweinydd barnwrol a'i fod yn ddiffygiol, y cwestiwn nesaf yw pwy ddylai fod yn gyfrifol am ddisgyblu'r unigolyn hwnnw. Gallai hynny, yn y pen draw, gynnwys diswyddo, ond bydd hefyd yn cynnwys sancsiynau

[194] Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Barnwyr a deiliaid swyddi eraill) 2014, Canllawiau Atodol (Awst 2014) adran 5

[195] Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Barnwrol a deiliaid swyddi eraill) 2014, Canllawiau Atodol (Awst 2014), adrannau 6 a 7.

[196] Rheolau Cwynion am Aelodau o Dribiwnlysoedd yr Alban 2018, rheol 2(1). Am ragor o fanylion, gweler paragraffau 7.58 i 7.69 ein Papur Ymgynghori.

llai. Yn yr adran hon o'r Papur Ymgynghori roeddem yn ystyried lle dylai'r cyfrifoldeb hwn fod o ran y tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, Tribiwnlys Prisio Cymru, a phaneli apêl gwahardd a derbyn i ysgolion. Dechreuasom drwy ystyried sefyllfa aelodau (Cwestiynau Ymgynghori 56, 57 a 58) cyn edrych ar sefyllfa arweinwyr barnwrol (Cwestiynau Ymgynghori 59 a 60).

8.79 Drwy'r adran hon o'r Papur Ymgynghori, ein nod oedd cydbwyso'r angen i warchod annibyniaeth farnwrol a'r angen i gael system ddisgyblu gadarn a thryloyw sy'n bodloni disgwyliadau defnyddwyr tribiwnlysoedd. Roeddem o'r farn dros dro bod diogelu annibyniaeth farnwrol yn golygu rhywfaint o gyfyngiadau ar gyfraniad y weithrediaeth (yn yr achos hwn, Gweinidogion Cymru); roedd sicrhau bod y pwerau'n cael eu harfer yn annibynnol hefyd yn golygu bod angen digon o bellter rhwng y rhai a oedd yn ddisgybledig a deiliaid pwerau disgyblu.

### A ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau o'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017?

8.80 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 56, fe wnaethom gynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru feddu ar y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau tribiwnlysoedd adran 59. Atebodd 24 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd 23 ohonynt (gan gynnwys Syr Wyn Williams, deiliad presennol swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru) yn cytuno.

8.81 Roedd Huw Williams o'r farn:

> bod statws a rôl uwch Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn ategu'r farn bod y Llywydd yn ffigwr o statws a datgysylltiad digonol i gyflawni'r rôl ddisgyblu arfaethedig, a gefnogir os oes angen, gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol.

8.82 Mynegodd Cyfraith Gyhoeddus Cymru gefnogaeth i 'sefydlu system gyffredin, ar draws tribiwnlysoedd diwygiedig Cymru, ar gyfer delio â chwynion a disgyblaeth, o dan awdurdodaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru', gan ychwanegu na fydd unrhyw system o'r fath yn effeithiol oni bai ei bod yn cael adnoddau gweinyddol digonol.

8.83 Roedd y Panel yn cytuno â'n rhesymeg ar y mater hwn (a nodir ym mharagraffau 7.122 i 7.124 y Papur Ymgynghori) ond ychwanegodd 'y dylai fod yn ofynnol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ymgynghori â'r arweinydd barnwrol perthnasol'.

8.84 Yr unig ymateb i anghytuno â'n cynnig dros dro oedd ymateb Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

> Rydym yn gadarn o blaid y syniad mai'r Arglwydd Ganghellor ddylai benodi'r holl aelodau i'r tribiwnlys hwn, a thrwy hynny, dim ond ef/hi all ddisgyblu neu ddiswyddo aelodau.
>
> Os nad yw'r farn honno'n cael ei chynnal, yna dylai'r pŵer i ddisgyblu a diswyddo fod yn nwylo pwy bynnag sydd â'r pŵer i benodi.

8.85 Dadleuodd Cymdeithas y Gyfraith hefyd mai'r awdurdod penodi ddylai fod â'r pŵer i ddisgyblu a diswyddo.

### Trafodaeth

8.86 O ystyried barn y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, rydym yn argymell mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ddylai fod yn gyfrifol am ddisgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Ym Mhennod 7 rydym yn argymell y dylai aelodau tribiwnlysoedd hefyd gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ac rydym o blaid cymesuredd rhwng pwerau penodi a diswyddo. Nodwn fod y Tribiwnlys hefyd wedi mynegi ffafriaeth tuag at gymesuredd rhwng pwerau penodi a diswyddo, os digwydd na chafodd ei ddewis cyntaf (ar gyfer rôl barhaus yr Arglwydd Ganghellor) ei fabwysiadu.

8.87 Am y rhesymau a drafodir ym Mhennod 7, nid ydym o'r farn bod cynnal rôl yr Arglwydd Ganghellor mewn perthynas â phenodi a disgyblu rhai o'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn briodol nac yn gynaliadwy (yn enwedig gan nad yw'r Arglwydd Ganghellor bellach yn penodi i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf).

8.88 Rydym yn cytuno â Phanel Dyfarnu Cymru y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ymgysylltu â Llywydd y Siambr berthnasol wrth arfer y pwerau hyn. Mae Argymhelliad 42 uchod yn rhagweld y bydd yr ymchwiliad i'r camymddwyn wedi digwydd gan yr arweinydd barnwrol perthnasol. Dylai canlyniadau'r ymchwiliad hwnnw gael eu cynnwys mewn adroddiad, a gyflwynir i'r Llywydd, a ddylai gynnwys argymhelliad ynghylch y sancsiwn priodol. Gan hynny, byddai'r Llywydd yn gwbl ymwybodol o farn yr arweinydd barnwrol. Pe bai'r arweinydd barnwrol wedi argymell dileu neu atal, yna byddai panel disgyblu yn cael ei gynnull i ystyried y mater. Byddai'r panel disgyblu yn adrodd yn ôl i'r Llywydd.

**Argymhelliad 45.**

8.89 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

### Disgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru

8.90 Ar ôl ystyried y sefyllfa mewn perthynas â thribiwnlysoedd adran 59, yng Nghwestiwn Ymgynghori 57, fe wnaethom gynnig dros dro y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru hefyd gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau o Dribiwnlys Prisio Cymru.

8.91 Atebodd 19 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 16 yn cytuno â'n cynnig dros dro a dau yn anghytuno. Ailadroddodd Huw Williams (yr oedd ei ateb wedi ei nodi fel ateb "arall") ei farn y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei ddiwygio'n llwyr yn gyntaf.

8.92 Cytunodd Cyfraith Gyhoeddus Cymru ac ymateb ar y cyd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard ar y sail y byddai'r cynnig yn sicrhau unffurfiaeth rhwng Tribiwnlys Prisio Cymru a'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill. Cymerwyd safbwynt tebyg gan Gymdeithas y Gyfraith, a ailddatganodd ei barn y dylai'r pwerau i benodi, disgyblu a diswyddo fod yn nwylo'r un awdurdod.

8.93 Roedd Roger Handy, sy'n gadeirydd yn Nhribiwnlys Prisio Cymru, o'r farn y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod â'r pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru “ar argymhelliad Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru".

8.94 Roedd Noel Edwards yn anghytuno â'r cynnig dros dro. Roedd o'r farn y dylai'r pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru ‘fod yn fater i Lywydd Tribiwnlys Prisio Cymru ac i aelodau'r panel o bosibl'.

8.95 Roedd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru hefyd yn gwrthwynebu'r cynnig. Yn ei ymateb i'r cwestiwn, amlinellodd pam ei fod o'r farn y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru barhau i fod yn gyfrifol am bennu sancsiynau disgyblu ar aelodau'r tribiwnlys oni bai a nes bod y tribiwnlys wedi ei gynnwys yn y system unedig:

> Gall aelodau'r Tribiwnlys gael eu diswyddo gan y panel penodi, os cânt gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru, a gall y Llywydd derfynu swydd cadeirydd neu gynrychiolydd cenedlaethol, ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Llywodraethu.
>
> Os caiff Tribiwnlys Prisio Cymru ei gynnwys yn y system dribiwnlysoedd unedig ar gyfer Cymru ar ryw adeg yn y dyfodol, dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wedyn ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn i fod yn gyson â'r awdurdodaethau eraill yn ei faes/maes.

### Trafodaeth

8.96 Fel y trafodwyd ym Mhennod 3, rydym yn argymell y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru fod yn rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf newydd yng Nghymru. Yn unol â hynny, rydym yn argymell y dylai fod yn ddarostyngedig i'r un gweithdrefnau â rhannau eraill o'r tribiwnlys hwnnw, a dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru feddu ar y gallu i ddisgyblu ac, os oes angen, diswyddo ei aelodau.

**Argymhelliad 46.**

8.97 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

## Disgyblu a diswyddo arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd adran 59

8.98 Ar hyn o bryd, mae arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd adran 59 yn ddarostyngedig i fesurau disgyblu a diswyddo amrywiol. Pennir y rhan fwyaf ohonynt yn ddeiliaid swyddi barnwrol dan Atodlen 14 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, ac o ganlyniad maent yn ddarostyngedig i bwerau disgyblu'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus,[197] ond gall Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg gael ei ddiswyddo gan Weinidogion Cymru. Yn achos Panel Dyfarnu Cymru, nid yw'n glir pwy sy'n gyfrifol am ddisgyblu.

197 Y rhai a enwir yn ddeiliaid swyddi barnwrol dan Atodlen 14 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 yw arweinwyr barnwrol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (sy'n dod o dan gategori aelod o banel a gynullwyd o dan baragraff 2(1) o Atodlen 10 Deddf Rhenti 1977), Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Tribiwnlys Addysg Cymru a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

8.99 Er mwyn cywiro'r anghysondeb hwn, yng Nghwestiwn Ymgynghori 59 fe wnaethom gynnig dros dro y dylai arweinwyr barnwrol tribiwnlysoedd adran 59 gael eu disgyblu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Byddai cynnwys Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, yn ein barn ni, yn cryfhau annibyniaeth y farnwriaeth. Byddai cyd-drefnu gyda Gweinidogion Cymru yn atal y system rhag ymddangos fel pe bai barnwyr yn disgyblu 'un o'u plith', yn enwedig o ystyried y berthynas waith agos rhwng y Llywydd ac arweinwyr barnwrol.

8.100 Atebodd un ar hugain o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd 18 ohonynt yn cefnogi ein cynnig dros dro, roedd dau yn erbyn, ac roedd un yn cynnig ateb arall.

8.101 Roedd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru, Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer a Chyngor y Bar i gyd o blaid y cynnig dros dro. Roedd Cymdeithas y Gyfraith o'r farn, ynghyd â gosod dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i barchu annibyniaeth farnwrol, fod y trefniadau'n dderbyniol ac y byddent yn darparu mesurau diogelu angenrheidiol ar gyfer cynnal rheol y gyfraith. Cytunodd Cyngor y Bar y byddai cyfyngu pŵer Gweinidogion Cymru i statws cydradd â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn lleddfu pryderon ynghylch diogelu annibyniaeth arweinwyr a dirprwyon barnwrol, gan awgrymu y gallai'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol gynnal y broses.

8.102 Ar y cyfan, roedd Huw Williams o blaid y cynnig dros dro, ond awgrymodd y gallai mwy o gydweithio â ffigyrau barnwrol eraill fod yn fuddiol:

> Cytunaf, ar y cyfan, fod hwn yn ateb ymarferol, yn amodol ar fesurau diogelu deddfwriaethol yn y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynnal annibyniaeth farnwrol.
>
> Fodd bynnag, yn wahanol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, nid oes gan Lywodraeth Cymru brofiad o gymryd rhan mewn materion disgyblu barnwrol. Gan hynny, mae'n bosibl y bydd cwestiwn dilys ynghylch a yw hyn yn archwiliad digonol o Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru o safbwynt ymarferol. Gan hynny, dylid ystyried mynnu bod Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r Arglwydd Brif Ustus (sydd â rôl farnwrol yng Nghymru a Lloegr) neu'r uwch swyddog barnwrol ar gyfer Cymru a argymhellwyd gan Gomisiwn Thomas (gweler ymhellach fy sylwadau eraill isod), cyn cytuno ar gamau disgyblu gan y Llywydd.

8.103 Awgrymodd yr Athro Thomas Watkin hefyd, a nododd ei ymateb fel ateb "arall", y gallai fod rôl i'r Arglwydd Brif Ustus, gan awgrymu y gellid arfer pwerau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru 'gyda chydsyniad yr Arglwydd Brif Ustus', yn hytrach na Gweinidogion Cymru.

8.104 Roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn anghytuno â'r cynnig, gan gynnig y sylwadau canlynol:

> Teimlwn fod hyn yn fater i'r Arglwydd Ganghellor, hyd yn oed yn gryfach nag ydyw o ran yr aelodau. Rhaid i annibyniaeth farnwrol gael ei diffinio'n glir rhwng y weithrediaeth a'r farnwriaeth.

8.105 Roedd Alun Green, aelod o Banel Apêl Ysgolion Cyngor Sir Casnewydd a Chyngor Sir Fynwy, hefyd yn anghytuno â'r cynnig, ond ni roddodd resymau.

### Trafodaeth

8.106 Am y rhesymau a roddwyd gennym yn y Papur Ymgynghori, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol ehangu rôl yr Arglwydd Ganghellor mewn perthynas â'r tribiwnlysoedd datganoledig i gynnwys cyfrifoldeb dros ddisgyblaeth arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig. Yn draddodiadol, roedd deiliad y swydd honno'n bennaeth y farnwriaeth, ac ers Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 mae'r swydd yn fwy amlwg yn swydd weithredol, er bod ganddi gyfrifoldeb arbennig dros gyfiawnder. Mae'r sefyllfa bresennol o ganlyniad yn bennaf i ddatblygiad hanesyddol y tribiwnlysoedd. Mae'n anodd rhesymoli rhoi mwy o gyfrifoldebau mewn perthynas â'r tribiwnlysoedd datganoledig i swydd yr Arglwydd Ganghellor (sy'n cael ei dal gan un o weinidogion llywodraeth y Deyrnas Unedig).

8.107 Cytunwn â Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru fod cynllunio'r system ddisgyblu yn gofyn am ddealltwriaeth glir o swyddogaethau'r farnwriaeth a'r weithrediaeth. Fodd bynnag, credwn fod angen mewnbwn barnwrol a gweithredol ar system sy'n gweithio'n iawn. Yn y system ddisgyblu farnwrol yng Nghymru a Lloegr darperir y cydbwysedd hwnnw gan gyfuniad o'r Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus; yn achos y tribiwnlysoedd datganoledig rydym o'r farn y dylai mewnbwn y weithrediaeth ddod o'r weinyddiaeth ddatganoledig.

8.108 Rydym wedi ystyried yn ofalus a ddylai'r Arglwydd Brif Ustus, sef y ffigwr barnwrol uchaf yng Nghymru a Lloegr, ddarparu'r elfen farnwrol sy'n angenrheidiol yn ein barn ni o ran disgyblaeth. Fodd bynnag, rydym yn parhau i arddel y farn a fynegwyd yn y Papur Ymgynghori bod gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru rôl ddigon uchel i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn.

8.109 Pe bai barnwr Llys Apêl yn cael ei benodi â chyfrifoldeb arbennig dros Gymru, yn unol â chyngor y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru,[198] gallwn weld y gallai ef neu hi chwarae rhan ddefnyddiol yn y broses. Ond, yn y cyfamser, rydym yn argymell, fel y cynigiwyd dros dro gennym, y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru allu disgyblu a diswyddo Llywyddion a Dirprwy Lywyddion siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn y tribiwnlysoedd datganoledig, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

**Argymhelliad 47.**

8.110 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo Llywyddion a Dirprwy Lywyddion siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

### Disgyblu a diswyddo Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru

8.111 Ar hyn o bryd, gall Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei ddiswyddo gan Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â'r cyfryw aelodau o Dribiwnlys Prisio Cymru ag

198 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru* (Hydref 2019), paragraff 12.142. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf

y gwelant yn dda.[199] Nid yw'n ymddangos bod darpariaethau statudol i reoli disgyblaeth y Llywydd, ar wahân i ddiswyddo. Yn gyson â'n cynigion dros dro eraill, cynigiwyd dros dro yng Nghwestiwn Ymgynghori 60 y dylai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei ddisgyblu a'i ddiswyddo gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

8.112 Atebodd 18 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 15 yn cytuno, un yn anghytuno a dau yn cynnig atebion eraill.

8.113 Cytunodd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru â'r cynnig, gan egluro:

> P'un a yw Tribiwnlys Prisio Cymru yn parhau y tu allan i'r strwythur tribiwnlysoedd unedig ai peidio, credwn y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael mwy o rôl oruchwyliol, sy'n cynnwys pwerau i ddisgyblu a diswyddo pennaeth barnwrol Tribiwnlys Prisio Cymru. Mae cyfranogiad parhaus Gweinidogion Cymru yn darparu'r mesurau diogelu angenrheidiol.

8.114 Roedd ymatebion Cyfraith Gyhoeddus Cymru a Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard ill dau o blaid y cynnig dros dro, ar y sail y byddai'n sicrhau cysondeb â'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill.

8.115 Yr unig ymatebydd a oedd yn anghytuno â'r cynnig dros dro oedd Noel Edwards, a oedd, wrth gyfeirio at ateb a roddodd mewn cwestiwn cynharach, yn mynegi'r farn "mae hwn yn benderfyniad anodd os yw'r Llywydd yn parhau i fod yn unigolyn lleyg. Byddai'n well i banel o aelodau ymchwilio i'r gŵyn".

8.116 Nododd dau ymatebydd ateb "arall". Un oedd yr Athro Thomas Watkin, a ailadroddodd ei awgrym y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ddisgyblu Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru, gyda chaniatâd yr Arglwydd Brif Ustus. Y llall oedd Huw Williams, a ailadroddodd y sylw a wnaed yn flaenorol mewn ymateb i Gwestiwn Ymgynghori 48: y dylid gohirio datblygu trefn gwyno nes ceir adolygiad pellach o strwythur Tribiwnlys Prisio Cymru yn y dyfodol, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gellid rhoi rôl interim i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru wrth ystyried cwynion.

### Trafodaeth

8.117 Unwaith eto, gan mai ein hargymhelliad ym Mhennod 3 yw bod Tribiwnlys Prisio Cymru yn rhan o Dribiwnlys Haen Gyntaf newydd Cymru, ein barn ni yw y dylai'r un trefniadau sy'n berthnasol i'r siambrau eraill fod yn berthnasol i Dribiwnlys Prisio Cymru. O'r herwydd, byddai Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru yn cael ei ddisgyblu gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

---

199 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru Offeryn Statudol 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 11(6).

**Argymhelliad 48.**

8.118 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo Llywydd Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

## Disgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru

8.119 Ym mharagraffau 8.71 i 8.74, rydym yn argymell y dylai'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol ymchwilio i gwynion am aelodau o Dribiwnlys Apêl Cymru. Nid oedd hwn yn bwnc a ystyriwyd yn y Papur Ymgynghori, oherwydd yn y cyfnod hwnnw roeddem yn dal i ystyried a ddylid cael Tribiwnlys Apêl i Gymru.

8.120 Y cwestiwn nesaf yw pwy, yn dilyn ymchwilio i gŵyn, ddylai fod yn gyfrifol am ddisgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru. Yn achos Uwch Dribiwnlys y Deyrnas Unedig, rhaid i'r Arglwydd Brif Ustus a'r Arglwydd Ganghellor benderfynu ar y cyd ar sancsiynau disgyblu; dim ond yr Arglwydd Ganghellor all ddiswyddo barnwr yn ffurfiol.[200] Caiff barnwyr eu diswyddo yn dilyn ymchwiliadau gan banel disgyblu.[201]

8.121 Yn yr Alban, gall y Prif Weinidog ddiswyddo aelodau cyffredin a chyfreithiol Uwch Dribiwnlys yr Alban, os yw tribiwnlys asesu addasrwydd wedi dod i'r casgliad nad yw'r aelod yn addas i ddal y swydd.[202] Os na sefydlir tribiwnlys asesu addasrwydd, rhaid i'r Swyddfa Farnwrol gyfeirio'r honiad at unigolyn a enwebir gan Lywydd Tribiwnlysoedd yr Alban ar gyfer ymchwiliad (a elwir yn ddeiliad enwebedig y swydd farnwrol).[203] Bydd y swyddog barnwrol enwebedig yn llunio adroddiad yn pennu ffeithiau'r mater, ac yn awgrymu sancsiwn priodol (e.e. cyngor ffurfiol, rhybudd ffurfiol, neu gerydd).[204] Bydd yr adroddiad wedyn yn cael ei ystyried gan yr Arglwydd Lywydd, sy'n penderfynu ar y sancsiwn priodol.[205]

8.122 Yn amlwg, byddai diswyddo un o farnwyr Tribiwnlys Apêl Cymru yn fater difrifol iawn. Credwn mai mater i'r Prif Weinidog fyddai penderfynu diswyddo barnwr o'r fath. Byddem yn disgwyl i'r Prif Weinidog wneud penderfyniad o'r fath dim ond gyda chefnogaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ac o bosibl aelodau eraill Llywodraeth Cymru, fel y Cwnsler Cyffredinol, er enghraifft.

8.123 Nid ydym yn argymell gofyniad ffurfiol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael statws cydradd. Unig effaith ymarferol gofyniad o'r fath fyddai creu'r posibilrwydd o sefyllfa ddiddatrys ynghylch dileu swydd barnwr, a fyddai'n niweidiol i'r berthynas rhwng y

---

200 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, adrannau 108(1) a (2).

201 Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol, Rheolau Ymddygiad Barnwrol (Barnwyr a deiliaid swyddi eraill) 2014, Canllawiau Atodol (Awst 2014) adran 8.

202 Deddf Tribiwnlysoedd (Yr Alban) 2014, atodlen 8, paragraff 23.

203 Rheolau Cwynion am Aelodau o Dribiwnlysoedd yr Alban 2018, rheol 12(2).

204 Rheolau Cwynion am Aelodau o Dribiwnlysoedd yr Alban 2018, rheol 13(2). Mae rheol 13(2)(b) yn cyfeirio at y pwerau disgyblu a roddwyd i'r Arglwydd Lywydd yn Neddf Tribiwnlysoedd (Yr Alban) 2014.

205 Rheolau Cwynion am Aelodau Tribiwnlysoedd yr Alban 2018, rheolau 13(3)(c) ac 16(2).

weithrediaeth a'r farnwriaeth. Nodwn y byddai absenoldeb cyfranogiad barnwrol yn y penderfyniad terfynol i ddiswyddo barnwr o'r Tribiwnlys yn gyson â'r sefyllfa yn yr Alban ac yn y system tribiwnlysoedd a gedwir.

8.124 Yn ein barn ni, dylai rhoi cyngor am ymddygiad a rhoi sancsiynau nad ydynt yn cynnwys diswyddo - er enghraifft, cerydd neu rybudd, ddigwydd gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Mae sancsiynau o'r fath yn rhagdybio y bydd y barnwr dan sylw yn parhau mewn perthynas waith agos â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ac rydym o'r farn ei bod yn briodol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gysylltiedig ag unrhyw fesur sy'n berthnasol i ymddygiad y barnwr yn y dyfodol.

**Argymhelliad 49.**

8.125 Rydym yn argymell y dylai'r Prif Weinidog gael y pŵer i ddiswyddo barnwyr Tribiwnlys Apêl Cymru. Dylai'r Prif Weinidog osod sancsiynau nad ydynt yn cynnwys diswyddo gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

### Mesurau diogelu pellach ar bwerau disgyblu

8.126 Yn olaf, roedd Cwestiwn Ymgynghori 61 yn gofyn am farn ynghylch a oes angen unrhyw fesur diogelu pellach sy'n gysylltiedig ag arfer pwerau disgyblu er mwyn gwarchod annibyniaeth y farnwriaeth.

8.127 Cafwyd sylwadau pellach gan naw ymatebydd ar y mater hwn. Gwnaeth Panel Dyfarnu Cymru, Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru, Roger Handy, Cymdeithas y Gyfraith, Cylchdaith Cymru a Chaer a Chyngor y Bar i gyd sylwadau pellach i'r perwyl pe bai ein cynigion dros dro yn cael eu gweithredu (yn enwedig y rhai a nodir ym mharagraff 7.130 y Papur Ymgynghori), na fyddai angen unrhyw fesur diogelu pellach.

8.128 Er nad oedd yn rhan o gylch gorchwyl y Papur Ymgynghori, ystyriodd Huw Williams ddisgyblaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru:

> Tynnir sylw hefyd at fy ymateb i'r gwahoddiad am sylwadau eraill sy'n awgrymu y dylai'r Frenhines benodi Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn unol â phenodiadau barnwrol uwch eraill gan fod hyn hefyd yn codi'r cwestiwn o ddisgyblu Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Er nad yw hyn yn cael sylw yn y papur ymgynghori, gan y byddai'n gofyn am ddiwygio Deddf Cymru 2017, awgrymir, er mwyn sicrhau bod swydd y Llywydd yn cyd-fynd yn fras â'r strwythur a gynigir ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru, bod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i Atodlen 5, Rhan 3, Paragraff 10 Deddf Cymru er mwyn ei gwneud yn ofynnol ar y lleiaf i'r Arglwydd Ganghellor geisio cydsyniad Gweinidogion Cymru a'r Senedd cyn argymell i'r Frenhines ddiswyddo Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

8.129 Mae Atodlen 5, rhan 3, paragraff 10(2) o Ddeddf Cymru 2017 ar hyn o bryd yn darparu bod Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn dal ei swydd yn ystod ymddygiad da, yn ddarostyngedig i bŵer i ddiswyddo gan Ei Mawrhydi ar gyfarwyddyd a gyflwynir iddi gan ddau Dŷ Senedd y Deyrnas Unedig. Mae is-baragraff (3) yn darparu mai mater i'r Arglwydd Ganghellor yw argymell i'w Mawrhydi arfer y pŵer hwnnw.

8.130 Mae penodi neu ddiswyddo Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru y tu allan i gylch gorchwyl y prosiect hwn. Mater i Lywodraeth Cymru ydy a yw'n dymuno codi'r mater hwn gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

## PANELI APÊL DERBYN I YSGOLION: CWYNION A DISGYBLU

8.131 Fel yr eglurwyd ym Mhennod 1, ar ôl penderfynu y dylid gweinyddu paneli apêl derbyn i ysgolion yn lleol, nid ydym yn cynnig gwneud argymhellion sylweddol ynghylch sut maent yn gweithredu. Fodd bynnag, rydym yn nodi'r safbwyntiau y tu ôl i'r cwestiynau ymgynghori a ofynnwyd, a'r ymatebion a gawsom.

### Y sefyllfa bresennol

8.132 Ym mharagraff 7.42 o'r Papur Ymgynghori, roeddem wedi edrych ar rôl bresennol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â phaneli apêl derbyn a gwahardd o ysgolion. Ar hyn o bryd, nid oes un weithdrefn lle gellir cyflwyno cwynion am baneli apêl derbyn a gwahardd o ysgolion i'r paneli eu hunain nac i'r awdurdod lleol perthnasol, a phrin yw'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.

8.133 Mae Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 yn rhoi'r pŵer i'r Ombwdsmon ymchwilio i gamweinyddu, methiant i ddarparu gwasanaeth neu fethiant mewn gwasanaeth a ddarperir. Mewn perthynas â derbyn i ysgolion, mae gwefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn egluro y gall wneud y canlynol:

(1) edrych ar gwynion ynghylch gweithdrefnau derbyn i ysgolion yng Nghymru, a'r broses apelio ar gyfer derbyn i ysgolion;

(2) edrych ar gwynion gan rieni sy'n credu bod Awdurdod Addysg Lleol wedi gweithredu ei weithdrefn derbyn i ysgolion yn annheg; ac

(3) edrych ar gwynion gan rieni sy'n credu bod Panel Apêl Derbyn i Ysgolion wedi ymddwyn yn amhriodol.[206]

8.134 Fel y nodwyd yn ein Papur Ymgynghori, rydym yn deall bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cael 27 o gwynion mewn perthynas â derbyn i ysgolion ac apeliadau yn 2018-2019 a 30 y flwyddyn ddilynol. Ni gafwyd ymchwiliad bellach i dros 80% o'r rhain, gan nad oedd tystiolaeth o gamweinyddu na methiant gwasanaeth. Canfuwyd nad oedd achosion eraill o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon, gyda'r canlyniad mai dim ond un ym mhob blwyddyn a ddatryswyd gan yr Ombwdsmon (gan ddefnyddio'r weithdrefn datrys cynnar).

8.135 Y cyfle posibl arall sydd ar gael i bobl ifanc a rhieni yw i wneud cais i Weinidogion Cymru. Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn nodi na all Gweinidogion Cymru adolygu na gwyrdroi penderfyniadau paneli, ond y cânt arfer eu pwerau ymyrryd os:

yw'r panel wedi ei gyfansoddi'n gywir gan yr awdurdod derbyn; a

[206] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Taflen Ffeithiau Apelau Ysgolion, gweler https://www.ombwdsmon.cymru/fact-sheets/addysg-derbyn-i-ysgolion-ac-apeliadau/

bod yr awdurdod derbyn wedi gweithredu'n rhesymol/afresymol wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â'r broses apelio, e.e. wrth ffurfio'r panel neu weithredu'n groes i ddarpariaeth orfodol y Cod.[207]

8.136 Mae'r Cod yn nodi'n glir na chaiff Gweinidogion Cymru ystyried cwynion am y 'ffordd mae'r paneli'n cynnal eu busnes'; os yw apelwyr o'r farn bod y panel a glywodd eu hapêl wedi ymddwyn yn amhriodol neu'n afresymol, cânt eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.[208]

8.137 Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi aelodau paneli derbyn. Nid ydynt yn nodi am ba hyd y dylai penodiadau bara, nac o dan ba amgylchiadau y gellir diswyddo aelod o'r panel (er bod angen hysbyseb ar gyfer aelodau lleyg bob tair blynedd).[209]

### Y broblem

8.138 Gwelwn fanteision yn y syniad bod yr Ombwdsmon yn datrys cwynion. Mae'r Ombwdsmon yn amlwg yn annibynnol ar awdurdodau derbyn, a ddylai roi hyder i rieni a phobl ifanc yn ei benderfyniadau. Mae mantais hefyd mewn cael un pwynt cyswllt y gellir cyfeirio ato yn y Cod Derbyn; mae'n creu pwynt pwysig o undod mewn proses sydd fel arall yn digwydd yn rhanbarthol.

8.139 Serch hynny, roedd gennym bryderon (ac rydym yn parhau i bryderu) ynghylch priodoldeb dibynnu ar yr Ombwdsmon am bob cwyn sy'n ymwneud â phaneli apêl ysgolion. Yn benodol, nid ydym wedi ein hargyhoeddi bod rôl yr Ombwdsmon mewn perthynas â chwynion am ymddygiad yn foddhaol. Mae ei brosesau wedi eu cynllunio i werthuso effeithiolrwydd systemau gweinyddu, yn hytrach nag ymddygiad unigolyn. Er bod gan unigolion hawl i weld honiadau a wneir yn eu herbyn, nid yw'r amddiffyniadau mor fawr ag ar gyfer aelodau tribiwnlysoedd eraill (er enghraifft, os oes gan aelod hawl i banel disgyblu os oes bygythiad o ddiswyddo).

8.140 Nid yw'n glir ychwaith beth fyddai canlyniadau unrhyw ganfyddiad negyddol gan yr Ombwdsmon. Dim ond argymhellion y gall yr Ombwdsmon eu gwneud; mater i awdurdodau derbyn yw gweithredu'r rhain. Nid yw'r Cod Derbyn yn cynnig arweiniad ar y pwynt hwn.

8.141 Mae'n debygol bod materion sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau paneli yn codi mor anaml fel nad oes ymarfer sefydledig; yn sicr, mae dadansoddiad o waith yr Ombwdsmon dros y ddwy flynedd diwethaf yn awgrymu bod hyn yn wir. Mae'n bosibl hefyd nad yw aelodau'r panel ymarfer sy'n cael eu beirniadu yn cael eu disgyblu na'u diswyddo'n ffurfiol, dim ond nad ydynt yn cael eu gwahodd i eistedd ar baneli yn y dyfodol. Beth bynnag fo'r sefyllfa yn ymarferol, roedd y diffyg eglurder yn destun pryder. Fel y nodwyd uchod, mae cael prosesau tryloyw ar gyfer disgyblu a diswyddo yn bwysig er mwyn cynnal annibyniaeth tribiwnlysoedd. Gallai gadael awdurdod

---

207 Llywodraeth Cymru, *Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion* (Rhagfyr 2013), paragraff 6.14. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf

208 Llywodraeth Cymru, *Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion* (Rhagfyr 2013), paragraff A15. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf

209 Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apeliadau Derbyn) (Cymru) Offeryn Statudol 2005 Rhif 1398 (Cy 112), rheoliad 4.

derbyn i benderfynu pa ddull i'w ddilyn ar ôl adroddiad negyddol gan Ombwdsmon, heb unrhyw arweiniad gan y rheoliadau sylfaenol na'r Cod Apêl Derbyn i Ysgolion, effeithio ar annibyniaeth paneli apêl derbyn i ysgolion.

8.142 Gan hynny, fe wnaethom ofyn tri chwestiwn i'r ymgyngoreion. Gofynnodd y cyntaf (Cwestiwn Ymgynghori 47) a oedd angen polisi cwynion mewn perthynas â derbyn i ysgolion a phaneli gwahardd (os y cedwir nhw), yn ogystal â'r rôl mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei chwarae ar hyn o bryd. Roedd yr ail (Cwestiwn Ymgynghori 53) yn gofyn pwy ddylai ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau panel, ac roedd y trydydd (Cwestiwn Ymgynghori 58) yn gofyn am farn ynghylch a ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru allu arfer pwerau disgyblu dros aelodau paneli.

### Polisi cwynion ar gyfer paneli apêl derbyn i ysgolion

8.143 Roedd safbwyntiau'r ymatebwyr wedi eu rhannu ar Gwestiwn Ymgynghori 47. O'r 23 a ymatebodd, roedd naw o'r farn y dylid cael polisi cwynion, roedd chwech yn anghytuno ac roedd wyth yn cynnig atebion eraill. Roedd ambell un gynigiodd atebion eraill yn credu y dylai paneli apêl derbyn a gwahardd o'r ysgol ddod yn rhan o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf, ac o ganlyniad nad oedd angen polisi cwynion ychwanegol.

8.144 Mynegodd Syr Wyn Williams y farn:

> y dylai fod gan unrhyw gorff sydd â rôl gwneud penderfyniadau o'r fath arwyddocâd bolisi cwynion sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n hawdd ei ddeall.

8.145 Dylanwadwyd ar rai ymatebwyr gan y ffaith nad oes llwybr apêl penodol ar hyn o bryd o baneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion. Credai Hilary Moriarty a Patrick Moriarty, y ddau yn aelodau o baneli apêl derbyn, fod angen polisi cwynion oherwydd:

> ar hyn o bryd, ni all Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ystyried rhinweddau penderfyniad panel. Mae rhai rwyf wedi eu gweld bron â bod yn wrthnysig a dylid eu hailarchwilio.

8.146 Barn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei hun oedd:

> Pe bai apeliadau gwahardd a derbyn o'r ysgol yn cael eu cynnwys yn y system tribiwnlysoedd datganoledig, rwyf o'r farn y byddai newid o'r fath yn cyd-fynd â'r system mewn perthynas â chwynion sy'n ymwneud â materion Anghenion Addysgol Arbennig, lle y gallaf ystyried cwynion sydd y tu allan i faterion sy'n briodol i'w hystyried gan TAAAC. (Er enghraifft, cwynion am oedi ym mhroses asesu awdurdod lleol neu fethiant awdurdod lleol i weithredu penderfyniad tribiwnlys apêl TAAAC).

8.147 Ar y llaw arall, nid oedd llawer o'r rhai a oedd yn ymwneud â'r paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion yn rheolaidd (aelodau paneli ac awdurdodau lleol) yn gweld budd o gael polisi cwynion yn ogystal â'r rolau mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn eu chwarae ar hyn o bryd.

8.148 Roedd John Travers (sy'n clercio apeliadau derbyn ar gyfer ysgolion Catholig yn Archesgobaeth Caerdydd) ac aelod arall o'r panel o'r farn bod y rôl a chwaraeir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar hyn o bryd yn ddigonol. Gwelodd Alun Green, aelod annibynnol o'r panel apêl, ychwanegu polisi cwynion yn ogystal â'r

rôl a chwaraeir gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel 'rhagor o fiwrocratiaeth', tra ychwanegodd Nadia Alabere, sydd hefyd yn aelod annibynnol o'r panel apêl, y dylai 'un neu'r llall fod yn foddhaol'.

8.149 Roedd Cyngor Sir Penfro a Chyngor Dinas Caerdydd hefyd yn gwrthwynebu, gyda Chyngor Sir Penfro yn datgan 'os gweithredwyd polisi cwynion ychwanegol, roedd hynny'n debygol o olygu goblygiadau ychwanegol diangen o ran adnoddau".

### Pwy ddylai ymchwilio i gwynion a wneir ynghylch ymddygiad aelodau'r paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion?

8.150 Yn y Papur Ymgynghori, gofynnwyd am farn ynghylch pwy ddylai ymchwilio i gwynion a wneir ynghylch ymddygiad aelodau o baneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion. Buom yn ystyried nifer o bosibiliadau, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol eraill, Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (sydd bellach wedi ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru, term y byddwn yn ei ddefnyddio ar gyfer gweddill y Bennod hon) neu Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

8.151 Penderfynasom dros dro yn erbyn system lle'r ymchwiliwyd i gwynion gan awdurdodau lleol eraill, gan fod perygl i hyn greu dull gweithredu anghyson. Roeddem o'r farn dros dro bod swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn rhy uchel i ystyried cwynion am aelodau'r paneli apêl derbyn a gwahardd o ysgolion.

8.152 Cynigiodd un ar hugain o ymatebwyr eu barn ar Gwestiwn Ymgynghori 53, gyda rhai ohonynt yn awgrymu un unigolyn neu swyddfa ar y cyd ag un arall. Fel yr ymchwilir ymhellach ym Mhennod 3, roedd rhai ymatebwyr o blaid cyfuno awdurdodaeth y paneli apêl derbyn i ysgolion ag awdurdodaeth Tribiwnlys Addysg Cymru. Petai'r diwygio hwnnw'n digwydd, yna yn gyson â'n cynigion dros dro uchod, byddai Llywydd y Tribiwnlys Addysg yn ystyried cwynion a wneir ynghylch y modd y cynhaliwyd apelau derbyn i ysgolion. Roedd Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer yn cefnogi rhoi'r rôl i Lywydd Tribiwnlys Addysg Cymru ar y sail hon.

8.153 Rhoddodd eraill atebion a oedd yn fwy niwtral ar bwnc diwygio, gan awgrymu petai'r paneli'n dal i gael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol, mai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru oedd y dewis gorau, ond y byddai Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru yn well pe bai'r paneli'n cael eu dwyn o fewn Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru. Dyma farn Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Chymdeithas y Gyfraith.

8.154 Fodd bynnag, er nad yw Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru o blaid cyfuno'r paneli ysgolion i'r system dribiwnlysoedd unedig (a ddisgrifir uchod ym mharagraffau 3.91 i 3.111), roeddent yn cefnogi rhoi rôl i Lywydd Tribiwnlys Addysg Cymru wrth ymchwilio i gwynion. Eglurodd:

> ...ni ddylid tynnu'r paneli apêl i mewn i'r system dribiwnlysoedd unedig ar gyfer Cymru. Rydym o'r farn y dylai cwynion ynghylch ymddygiad y paneli hyn gael eu cynnal gan arweinydd barnwrol Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, a fyddai'n darparu annibyniaeth angenrheidiol y broses.

8.155 Roedd Cyngor Sir Penfro a Chyngor Dinas Caerdydd o'r farn mai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru oedd yr un gorau i asesu cwynion am ymddygiad, ac, yn wir, bod hyn eisoes yn dod o fewn y diffiniad o "gamweinyddu" ac felly yn rhywbeth y gallai Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ei ystyried.

8.156 Credai eraill y gallai'r dystiolaeth chwarae rhan yn yr achosion hyn. Roedd Keith Bush CF o blaid sefydlu system gwyno 'trwy gydweithrediad rhwng y cynghorau ond ar sail cyngor Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru'.

8.157 Gan edrych ar y darlun ehangach o baneli apelau derbyn a gwahardd o'r ysgol, awgrymodd Cyfraith Gyhoeddus Cymru y canlynol:

> Mae'n bosibl, yn y tymor byr o leiaf, y byddai rhywbeth nad yw wedi ei integreiddio'n llawn â phaneli apeliadau awdurdodau lleol i system tribiwnlysoedd Cymru yn gam cyntaf mwy diogel. Gallai eu gweinyddiaeth (paneli apêl ysgolion), er enghraifft, gael ei gadael yn nwylo'r awdurdod lleol tra gallai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Phwyllgor Rheolau Tribiwnlysoedd arfaethedig Cymru gaffael rolau statudol mewn perthynas â gweithdrefnau, cwynion a disgyblaeth (a hyd yn oed, yn achos Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, penodiadau).

### A ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion?

8.158 Yng Nghwestiwn Ymgynghori 58, gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru feddu ar y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau o baneli apêl derbyn i ysgolion ac (os cedwir nhw) paneli apêl gwaharddiadau. Atebodd ugain o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 14 o'r farn y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer hwn, un yn anghytuno a phump yn nodi "arall" fel ateb.

8.159 Mynegodd Syr Wyn Williams, sy'n nodi ei ateb fel "arall", y farn na ddylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru feddu ar y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau paneli apelio ysgolion oni bai eu bod yn dod yn dribiwnlysoedd datganoledig o fewn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017. Ychwanegodd, os na chawsant eu cynnwys yn y system dribiwnlysoedd unedig, y dylai'r awdurdodau lleol barhau i fod yn gyfrifol amdanynt.

8.160 Cefnogodd yr Athro Thomas Watkin a Roger Handy y cynnig, ar y sail y byddai'n sicrhau unffurfiaeth â'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill. Cytunodd Cymdeithas y Gyfraith a Chyngor Sir Ddinbych hefyd, i'r graddau mai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fyddai'r awdurdod penodi hefyd, gan sicrhau cysondeb.

8.161 Roedd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru o blaid rhoi'r pŵer i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ddisgyblu a diswyddo aelodau, er nad oedd o blaid cynnwys paneli apêl derbyn neu wahardd o fewn system unedig. Esboniodd Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru:

> Mae'n ymddangos yn synhwyrol bod gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru bwerau goruchwylio mewn perthynas â phaneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion, er ein bod o'r farn y dylent aros y tu allan i'r system dribiwnlysoedd unedig arfaethedig ar gyfer Cymru.
>
> Yn absenoldeb arweinydd barnwrol ar gyfer y paneli hyn, byddai'n ymddangos yn briodol i'r Llywydd gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau'r paneli hyn.

8.162 Credai Bob Chapman (cyn aelod o Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, a Phwyllgor Cymreig y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd) y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer hwn, ond y dylid ei arfer ar argymhelliad gan Lywydd Tribiwnlys Addysg Cymru.

8.163 Keith Bush CF oedd yr unig ymatebydd a oedd yn anghytuno, gan fynegi'r farn y dylai'r ‘paneli aros o dan reolaeth cynghorau lleol’ ac felly y dylai'r pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelod ‘aros yn nwylo'r’ awdurdodau lleol.

8.164 Nododd Nadia Alabere ‘nad oes neb erioed wedi cael ei ddiswyddo o banel apêl ysgolion’ yn ei phrofiad hi.

### Ymatebion awdurdodau lleol

8.165 Er nad yw’n mynegi unrhyw farn bendant, eglurodd Cyngor Sir Penfro y gallai hyn olygu dyblygu pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai angen iddo fod yn glir pryd y gellid defnyddio’r pwerau. Credai Cyngor Caerdydd hefyd fod angen mwy o wybodaeth cyn llunio ateb - er enghraifft, beth fyddai strwythur y tribiwnlysoedd, yn ogystal â llinellau adrodd a rheoli.

8.166 Roedd Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Ddinbych o blaid Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn arfer y pŵer hwn, gyda Chyngor Sir Ddinbych yn dadlau y byddai’n sicrhau cysondeb rhwng yr awdurdodau penodi a diswyddo.

## Trafodaeth

8.167 Rydym yn cydnabod y bydd cwynion am ymddygiad paneli apêl derbyn i ysgolion yn anghyffredin, ac o bosibl yn gwynion nad ydynt yn codi o gwbl. Fodd bynnag, fel mae’r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn nodi, mae aelodau’r panel yn cyflawni swyddogaeth farnwrol. Mae’n ymddangos bod diffyg gweithdrefn ar gyfer delio â chwynion am eu hymddygiad yn anghyson o’i gymharu â thribiwnlysoedd adran 59, a’r sefyllfa rydym yn ei hargymell ar gyfer Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

8.168 Er bod yr ymatebwyr yn cefnogi rôl i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru wrth ddisgyblu, nid ydym o'r farn y byddai’n ymarferol rhoi rhan i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru yng ngwaith y paneli. Fodd bynnag, er mwyn bod yn gyson â’r sefyllfa yn y tribiwnlysoedd datganoledig eraill, rydym yn argymell y dylai’r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion ddarparu ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau’r panel. Nid ydym yn gwneud argymhellion o sylwedd ynghylch beth ddylai’r ddarpariaeth honno fod, o ystyried ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer paneli apêl (a amlinellir ym Mhennod 1). Fodd bynnag, byddem yn disgwyl iddo ystyried rôl briodol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Argymhelliad 50.**

8.169 Rydym yn argymell y dylai’r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion ddarparu ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau paneli apêl derbyn i ysgolion.

# Pennod 9: Gweinyddu tribiwnlysoedd

9.1 Ym Mhennod 3 fe wnaethom argymell creu Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, a fyddai'n cwmpasu'r tribiwnlysoedd adran 59 presennol a Thribiwnlys Prisio Cymru, a chreu Tribiwnlys Apêl i Gymru maes o law. Yn y bennod hon rydym yn ystyried sut dylid trefnu'r cymorth gweinyddol ar gyfer y tribiwnlysoedd hynny. Mae'r cwestiynau allweddol yn cynnwys pa mor annibynnol y dylai'r gefnogaeth honno fod gan Lywodraeth Cymru, a lefel cyfraniad y farnwriaeth ati.

9.2 Ar hyn o bryd, mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn darparu cymorth gweinyddol ar gyfer tribiwnlysoedd adran 59. Mae ei wreiddiau yn yr Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, a ffurfiwyd yn 2010 i greu canolbwynt ar gyfer cyfiawnder gweinyddol yn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n darparu cymorth gweinyddol i Dribiwnlys Prisio Cymru. Yn hytrach, mae'r ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer penodi Prif Weithredwr, ymysg materion gweinyddol eraill.[210]

9.3 Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru ac mae'n cael ei staffio gan weision sifil. Mae'r Uned yn gweithio'n agos gyda Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ond heb atebolrwydd ffurfiol. Nid oes perthynas statudol rhwng Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Er hynny, mae perthynas waith gref rhyngddynt.

9.4 Ym Mhennod 9 o'r Papur Ymgynghori, fe wnaethom dynnu sylw at ddiffyg annibyniaeth strwythurol Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn ei ffurf bresennol fel rhan o Lywodraeth Cymru. Yn ein barn dros dro, nid oedd y trefniant hwn yn sefydlu'r egwyddor o annibyniaeth farnwrol yn ddigonol. Buom yn ystyried modelau eraill o weinyddu tribiwnlysoedd a fabwysiadwyd mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, sef Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi ("GLIThEM"), sy'n un o asiantaethau gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, sy'n adran anweinidogol.

9.5 Er ein bod yn meddwl bod y ddau fodel yn welliant ar y sefyllfa bresennol, fe wnaethom gynnig dros dro y byddai newid i fod yn fodel adran anweinidogol yn rhoi mwy o annibyniaeth i Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Ar ôl ystyried y cwestiwn ymhellach yn ystod y cyfnod ymgynghori ac wrth ddadansoddi ymatebion, rydym yn dal o'r farn mai dyma'r model cywir ar gyfer gweinyddu'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol. O ystyried ein hargymhelliad ym Mhennod 3 y dylai Tribiwnlys Prisio Cymru ddod yn rhan o'r tribiwnlys unedig, rhagwelwn y byddai ei weinyddiaeth hefyd yn dod yn rhan o Wasanaeth Tribiwnlysoedd newydd i Gymru.

## Y MODELAU SY'N CYSTADLU YN ERBYN EI GILYDD

9.6 Yn fras, mae dau fodel sydd wedi eu mabwysiadu mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig ar gyfer gweinyddu tribiwnlysoedd. Y rhain yw'r model asiantaeth weithredol (a fabwysiadwyd gan GLIThEM) a'r model adran anweinidogol (a fabwysiadwyd gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban). Rydym yn crynhoi yma yn fyr brif

[210] Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru Offeryn Statudol 2010 Rhif 713 (Cy 69), rhan 3.

nodweddion y ddau fodel, yn ogystal â thrydydd posibilrwydd: Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.

9.7 Er bod y rhain yn dri model posibl, dylid cofio, hyd yn oed ymysg cyrff cyhoeddus sy'n disgyn i'r un categori, bod cryn amrywiaeth yn y ffordd maent yn gweithredu. Yn benodol, gall maint eu hannibyniaeth ariannol a gweithredol oddi wrth weinidog sy'n noddi amrywio'n sylweddol.

9.8 Mae rhywfaint o arweiniad ar sefydlu cyrff cyhoeddus newydd yng Nghymru ar gael yn y ddogfen "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru". Mae wedi ei seilio'n rhannol ar Managing Public Money (a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM) ond mae wedi ei addasu i gydymffurfio â Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a'r setliad datganoli yn fwy cyffredinol.

9.9 Mae'r ddogfen yn esbonio:

> Dylid cael mantais amlwg glir wrth sefydlu sefydliad newydd - er enghraifft, gwahanu gweithredu oddi wrth lunio polisïau; dangos cywirdeb asesu annibynnol; sefydlu hunaniaeth arbenigol ar gyfer sgil broffesiynol; neu gyflwyno mesur o ddisgyblaeth fasnachol. Mae'n ddoeth bod yn amheus ynghylch sefydlu corff cyhoeddus newydd, gan y bydd yn aml yn ychwanegu at gostau.

9.10 Mae hefyd yn nodi rhywfaint o gyfarwyddyd ynghylch pryd dylid dewis model penodol ar gyfer corff cyhoeddus, gan ychwanegu bod "arloesi yn aml yn gwneud synnwyr. Mae'r modelau safonol i gyd yn gallu cael eu teilwra i raddau helaeth'.[211]

## Yr asiantaeth weithredol

9.11 Fel arfer, mae asiantaethau gweithredol yn rhannau o adrannau'r llywodraeth sydd wedi cael eu gwahanu er mwyn canolbwyntio ar swyddogaethau gweinyddol penodol. Er mai Prif Swyddog Gweithredol sy'n eu harwain fel arfer, mae Gweinidogion yn cadw rheolaeth dros gyfeiriad yr asiantaeth ac yn gallu gwneud penderfyniadau allweddol. Yn achos Cymru, mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn nodi bod asiantaethau gweithredol fel arfer yn cyhoeddi cynlluniau a chyfrifon adnoddau fel rhan o gyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru. Y Prif Swyddog Gweithredol yw swyddog cyfrifo'r asiantaeth hefyd, ond mae'n amodol ar oruchwyliaeth y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Gweinidogion Cymru (swyddogaeth a gyflawnir gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru).[212]

9.12 Mae GLIThEM yn gyffredinol yn cael ei disgrifio fel asiantaeth weithredol, a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn wahanol i asiantaethau gweithredol eraill, fodd bynnag, mae'n gweithredu mewn partneriaeth rhwng yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd. Fe'i rheolir gan gytundeb fframwaith. Mae'r cytundeb hwnnw'n darparu ar gyfer Bwrdd, sy'n gyfrifol am gymeradwyo dyrannu'r gyllideb flynyddol a chymeradwyo'r fframwaith llywodraethu corfforaethol. Mae hefyd yn gyfrifol am oruchwylio arweinyddiaeth a chyfeiriad

---

[211] Llywodraeth Cymru, *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* (2016), paragraff 7.2.6. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru.pdf

[212] Llywodraeth Cymru, *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* (2016), atodiad 7 Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru.pdf

GLIThEM o ran ‘cyflawni’r nod a’r amcanion a bennwyd gan yr Arglwydd Ganghellor, yr Arglwydd Brif Ustus ac Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd’.[213]

9.13 Mae’r Bwrdd yn cynnwys:

(1) Cadeirydd anweithredol annibynnol (a benodir ar sail argymhelliad gan banel dethol gan gynnwys unigolyn a enwebwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac uwch farnwr a benodwyd gan yr Arglwydd Brif Ustus);

(2) Uwch Farnwr Llywyddol Cymru a Lloegr, a dau gynrychiolydd barnwrol arall (un wedi ei enwebu gan yr Arglwydd Brif Ustus a'r llall gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd);

(3) y Prif Weithredwr (a benodir gyda chyngor gan banel dethol gan gynnwys uwch farnwr a enwebir gan yr Arglwydd Brif Ustus);

(4) tri Chyfarwyddwr Gweithredol (a enwebir gan y Prif Weithredwr); a

(5) thri Chyfarwyddwr Anweithredol (penodiadau yn seiliedig ar argymhelliad gan banel yn cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, ac uwch farnwr a enwebir gan yr Arglwydd Brif Ustus).

9.14 Mae’r Prif Weithredwr yn gyfrifol am reoli GLIThEM yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Susan Acland-Hood yw deiliad presennol y swydd. Hi hefyd yw’r Swyddog Cyfrifyddu, sy’n golygu ei bod yn atebol i Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu’r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac, yn y pen draw, i Senedd y DU.

9.15 Dyrennir cyllideb GLIThEM o gyllideb ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder gan yr Arglwydd Ganghellor. Mae’r cytundeb fframwaith yn darparu y bydd yr Arglwydd Ganghellor ‘yn ceisio dod i gytundeb gyda’r Arglwydd Brif Ustus mewn perthynas â’r dyraniad’.[214]

### Yr adran anweinidogol

9.16 Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn crynhoi nodweddion yr adran anweinidogol fel a ganlyn:

> Nid yw adrannau anweinidogol yn ateb yn uniongyrchol i Weinidogion. Mae ganddynt eu Swyddogion Cyfrifyddu eu hunain, eu cyllideb eu hunain, maent yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol eu hunain ac maent yn cael eu staffio gan weision sifil. Fodd bynnag, mae Gweinidogion yn cadw golwg ar bob adran anweinidogol er mwyn iddynt allu ateb ar gyfer busnes yr adran anweinidogol, ac os

---

213 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21* (Gorffennaf 2021), tudalen 32. Gweler https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1002585/HMCTS_Annual_Report_and_Accounts_2020-21.pdf

214 GLIThEM, *Framework document* (Gorffennaf 2014) paragraff 7.2. https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/384922/hmcts-framework-document-2014.pdf

oes angen, cymryd camau i, e.e. addasu'r ddeddfwriaeth maent yn gweithredu oddi tani. Dylai dogfen fframwaith ddiffinio perthynas o'r fath.

Rhaid cyfiawnhau'r lefel gyfyngedig hon o atebolrwydd seneddol yn ofalus. Gall fod yn addas ar gyfer sefydliad sector cyhoeddus sydd â dyletswyddau proffesiynol lle byddai mewnbwn Gweinidogol yn amhriodol neu'n niweidiol i'w uniondeb. Fodd bynnag, yn anaml iawn mae'r angen am annibyniaeth yn ddigon i gyfiawnhau statws adran anweinidogol. Mae'n bosibl llunio trefniadau ar gyfer Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi annibyniaeth gadarn. Lle bo hyn yn bosibl, mae'n darparu gwell atebolrwydd seneddol ac felly dylid ei ffafrio.

### Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban

9.17 Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban yn adran anweinidogol, a sefydlwyd ym mis Ebrill 2015 dan Ddeddf y Farnwriaeth a'r Llysoedd (yr Alban) 2008. Ei bwrpas statudol yw darparu eiddo, gwasanaethau, swyddogion a staff eraill sydd eu hangen at ddibenion llysoedd a thribiwnlysoedd yr Alban a'u haelodau.[215]

9.18 Fel adran anweinidogol, mae gan Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban gyllideb ar wahân i'r gyllideb Cyfiawnder. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am baratoi'r gyllideb, a gymeradwyir gan Senedd yr Alban.

9.19 Nid yw Gweinidogion yr Alban yn atebol i Senedd yr Alban am weithredu Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban. Yn hytrach, y prif lwybr atebolrwydd yw drwy'r Prif Weithredwr. Gall Senedd yr Alban ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod neu swyddog anfarnwrol o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban fod yn bresennol, ond ni all fynnu bod aelod barnwrol yn bresennol; caiff hyn ei atal gan adran 23 o Ddeddf yr Alban 1998. Fodd bynnag, mae'r ddogfen fframwaith berthnasol yn darparu y bydd yr Arglwydd Lywydd yn ystyried unrhyw wahoddiad, ac ar ôl ymgynghori ag aelodau barnwrol a'r Pwyllgor perthnasol, yn penderfynu a fyddai'n briodol i aelod barnwrol fod yn bresennol. Fodd bynnag, nid oes disgwyl i aelodau barnwrol ateb cwestiynau ynghylch arfer eu swyddogaethau barnwrol.[216]

9.20 Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban dan fwy o reolaeth farnwrol na GLIThEM; mae'r rhan fwyaf o aelodau'r bwrdd yn farnwyr. Yr aelodau barnwrol yw'r Arglwydd Lywydd, Clerc yr Arglwydd Ustus, llywydd Tribiwnlysoedd yr Alban, prif siryf, dau siryf neu siryfion diannod, ynad heddwch ac un Llywydd Siambr o Dribiwnlys Haen Gyntaf yr Alban. Mae'r aelodau anfarnwrol yn cynnwys eiriolwr, cyfreithiwr (y ddau yn ymarfer yn yr Alban), Prif Weithredwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban a thri unigolyn arall.

9.21 Soniodd yr Arglwydd Lywydd am y symudiad tuag at fwy o gyfranogiad barnwrol yn y gwaith o redeg llysoedd a thribiwnlysoedd yn ei anerchiad ar ddechrau blwyddyn gyfreithiol 2009. Roedd yr Arglwydd Hamilton yn gweld y cam hwn fel un heriol, ond yn angenrheidiol yn gyfansoddiadol:

---

215 Deddf y Llysoedd a'r Farnwriaeth (Yr Alban) 2008, adran 60.

216 Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, *Framework document* (Ebrill 2015), paragraffau 4.1 i 4.4. Gweler https://www.scotcourts.gov.uk/docs/default-source/scs---taking-action/scts-framework-document---april-201549d5cea6898069d2b500ff0000d74aa7.pdf?sfvrsn=2

> Bydd y mwyafrif barnwrol yn sicrhau bod llais y rhai sydd â'r dasg ddyddiol o weinyddu cyfiawnder yn cael ei glywed ac yn cael dylanwad. Ni fydd y tasgau o'ch blaen yn hawdd. Bydd angen i unigolion sydd wedi eu hyfforddi yn y gyfraith ac mewn cymhwyso'r gyfraith gael meistrolaeth mewn meysydd newydd – mewn gweinyddiaeth ac yn enwedig mewn gweinyddiaeth ariannol. Bydd angen iddynt wneud hynny mewn cyfnod sy'n debygol o fod yn anodd yn economaidd. Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd a fydd, mewn rhai achosion, yn amhoblogaidd hefyd. Ond mae'r ffaith bod barnwyr yn chwarae rhan allweddol yn y broses o wneud y penderfyniadau hyn yn golygu eu bod yn derbyn cyfrifoldeb am y ffordd y rheolir y llysoedd. Gyda'r cyfrifoldeb hwnnw, daw cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y farnwriaeth fel trydedd cangen y llywodraeth.[217]

### Awdurdod Cyllid Cymru

9.22 Er bod *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn rhybuddio y dylid sefydlu adrannau anweinidogol yn anaml, nodwn fod y model hwn wedi cael ei fabwysiadu ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru (a sefydlwyd yn 2015). Mae ei ddogfen fframwaith yn rhoi rhywfaint o gefndir y corff, gan egluro:

> Wrth ddatganoli pwerau trethu i Gymru, sefydlwyd Awdurdod Cyllid Cymru yn unol ag arferion gorau rhyngwladol fel adran Anweinidogol lle bo'r staff yn weision sifil, ond lle nad yw Gweinidogion Cymru yn rhan o'r gwaith gweinyddu o ddydd i ddydd a lle na allant fod yn rhan o benderfyniadau am faterion trethdalwyr unigol o gwbl.[218]

## Cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

9.23 Trydydd model posibl, nad yw'n cael ei drafod yn ein Papur Ymgynghori, yw corff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Y tu allan i Gymru, cyfeirir at y rhain fel arfer fel cyrff cyhoeddus anadrannol.

9.24 Gall y rhain fod ar sawl ffurf gyfreithiol (gan gynnwys cyrff corfforaethol ac elusennau). Mae *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* yn nodi eu bod yn dangos amrywiaeth sylweddol o strwythurau a dulliau gweithio, gyda chyfle i arloesi ac addasu. Nid gweision sifil yw eu gweithwyr fel arfer. Mae'r cyrff hyn yn amrywio o ran maint, gan amrywio o Cyfoeth Naturiol Cymru (sy'n cyflogi 1,972 o aelodau staff),[219] i Cymwysterau Cymru (sy'n cyflogi 81 aelod o staff).[220]

9.25 Maent yn cael eu sefydlu mewn deddfwriaeth fel arfer. O ran annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru, maent yn disgyn rywle yn y canol rhwng asiantaeth weithredol ac

---

217 "Address on opening of the legal year", (2009) 32, *Scots Law Times*, 193 i 195.

218 Awdurdod Cyllid Cymru, *Dogfen Fframwaith* (Mawrth 2018) paragraff 1.4. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-08/cytundeb-rhwng-llywodraeth-cymru-ac-awdurdod-cyllid-cymru.pdf

219 Dadansoddi Cyllid Cymru, Prifysgol Caerdydd, *The Public Sector in Wales* (Mehefin 2019) tudalen 26. Gweler https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0019/1517041/public_sector_june_final2.pdf

220 Cymwysterau Cymru, *Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2019-2020* (2020), tudalen 51, Gweler https://www.qualificationswales.org/media/6474/qualifications-wales-annual-accounts-2019-2020-final-cym-260820.pdf

adran anweinidogol. Bydd ganddynt gangen noddi yn Llywodraeth Cymru, ac felly nid ydynt yn uniongyrchol atebol i'r Senedd. Eglurir yn *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*:

> Yn ymarferol, mae Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yn gweithredu gyda rhywfaint o annibyniaeth ac nid ydynt o dan reolaeth Gweinidogion o ddydd i ddydd. Er hynny, Gweinidogion Cymru sy'n atebol yn y pen draw i Senedd Cymru am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Y rheswm am hyn yw mai Gweinidogion Cymru: sy'n gyfrifol am ddeddfwriaeth sefydlu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; sy'n dylanwadu ar gyfeiriad strategol Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru; sy'n penodi aelodau eu byrddau (fel arfer); ac sydd â'r sancsiwn eithaf o ddirwyn Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru i ben os ydynt yn anfoddhaol.[221]

9.26 Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn enghraifft o Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru,[222] sy'n cael ei noddi gan yr Is-adran Polisi Cyllid Llywodraeth Leol.

## YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

9.27 Ein barn dros dro a fynegwyd yn y Papur Ymgynghori oedd mai'r model adrannol anweinidogol oedd yr un gorau i'w fabwysiadu ar gyfer gweinyddu tribiwnlysoedd yn y dyfodol. Roeddem yn meddwl y byddai asiantaeth weithredol ac adran anweinidogol yn welliannau i'r trefniadau presennol ar gyfer Uned Tribiwnlysoedd Cymru, nad yw'n strwythurol annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Buom yn ystyried dros dro, fodd bynnag, mai'r model a oedd yn cynnig mwy o annibyniaeth, sef adran anweinidogol, oedd y dewis gorau. Yng Nghwestiwn Ymgynghori 65, roeddem felly'n cynnig dros dro y dylid sefydlu'r Uned fel adran anweinidogol. Atebodd 23 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda mwyafrif o 21 yn cytuno â'r prif gynnig a dau yn cynnig atebion eraill.

9.28 Roedd naw ymateb yn cefnogi'r cynnig yn benodol ar y sail y byddai'n cynyddu annibyniaeth, didueddrwydd neu wahanu oddi wrth Lywodraeth Cymru.

9.29 Esboniodd Cyngor Llywodraethu'r Tribiwnlys Prisio:

> ... mae'n ymddangos bod y cynnig yn cryfhau annibyniaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru ac yn ei ymbellhau oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r gwahanu sefydliadol hwn yn elfen angenrheidiol wrth sefydlu system tribiwnlys wirioneddol annibynnol i Gymru yng ngolwg ei defnyddwyr. Byddai'r sefydliad cyfan, o safbwynt barnwrol a gweinyddol, mewn sefyllfa llawer gwell i honni nad yw o dan ddylanwad unrhyw sefydliad arall.

9.30 Gall hyn adlewyrchu profiad Tribiwnlys Prisio Cymru, sy'n gyfrifol am ei weinyddiaeth ei hun.

---

221 Llywodraeth Cymru, *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* (Ionawr 2016), paragraff 7.6.5. Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/rheoli-arian-cyhoeddus-cymru.pdf

222 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Dogfen Fframwaith*, Gweler https://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/publications/cy/Dogfen_Fframwaith.pdf

## Adran anweinidogol neu asiantaeth weithredol?

9.31 Nid oedd yr un ymatebydd o'r farn y byddai asiantaeth weithredol yn fodel mwy priodol ar gyfer Uned Tribiwnlysoedd Cymru diwygiedig. Eglurodd Cylchdaith Cymru a Chaer ei bod yn bwysig, yn eu barn nhw, i Uned Tribiwnlysoedd Cymru gael statws tebyg i fodel Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, fel yr argymhellwyd yn barod gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru,[223] tra bod Cymdeithas y Gyfraith o'r farn y byddai'n 'sicrhau lefel briodol o annibyniaeth oddi ar Lywodraeth Cymru'.

9.32 Mynegodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard eu cefnogaeth ar y sail ychwanegol y byddai'r cynnig yn ffurfioli'r berthynas rhwng Uned Tribiwnlysoedd Cymru a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

> Rydym yn cytuno y byddai model yr adran anweinidogol yn darparu'r lefel briodol o annibyniaeth a didueddrwydd gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn croesawu rôl ffurfiol ar gyfer Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fel rhan o strwythur llywodraethu ar gyfer Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

9.33 Cyfeiriasant hefyd at un o'u cyhoeddiadau blaenorol ar y mater, y cyfeirir ato yn y Papur Ymgynghori ac a ddyfynnir isod:

> Os caiff Uned Tribiwnlysoedd Cymru ei diwygio fel asiantaeth weithredol, mae'n ddigon posibl y bydd hyn yn fyrhoedlog, gyda'r Comisiwn Cyfiawnder (a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a oedd hefyd yn Gomisiynydd) yn awr yn ffafrio'n agored wasanaeth tribiwnlysoedd annibynnol dan gadeiryddiaeth y Llywydd (yn seiliedig ar fodel yr Alban). Byddai hyn yn ddymunol nid yn unig o ran y manteision uniongyrchol, ond hefyd o ran trosglwyddo swyddogaethau cyfiawnder ychwanegol i Gymru yn y tymor hwy.[224]

9.34 Yn ymateb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ei hun i'r cwestiwn hwn, ailadroddodd ei farn bod model yr adran anweinidogol yn 'sail fwy boddhaol i'r Uned fod yn annibynnol na chreu asiantaeth weithredol'.[225]

9.35 Roedd Huw Williams, Prif Gynghorydd Cyfreithiol y Senedd, a oedd yn ymateb yn bersonol, yn mynegi'r farn y byddai model adrannol anweinidogol nid yn unig yn sicrhau'r 'rhan fwyaf priodol o wahanu' ond y byddai hefyd yn sefydlu 'strwythur ar gyfer gweinyddu Tribiwnlysoedd Cymru yn y dyfodol'.

9.36 Cytunodd Richard Payne, Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru â'r cynnig dros dro, ac awgrymodd ymhellach 'y dylid cael adeilad ar wahân y tu allan i swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays i gartrefu Uned Tribiwnlysoedd Cymru'.

---

223 Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, *Cyfiawnder yng Nghymru dros bobl Cymru* (Hydref 2019) paragraff 6.59.1. Dylai fod gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru annibyniaeth strwythurol nad oes ganddi ar hyn o bryd, a dylai gael ei rhoi dan reolaeth farnwrol, sy'n debyg i'r ffordd mae Tribiwnlysoedd yr Alban yn cael eu trefnu.

224 S Nason a H Pritchard, "Administrative Justice and the Legacy of Executive Devolution: Establishing a Tribunals System for Wales" (2020) 26 *Australian Journal of Administrative Law* 240

225 I gael rhagor o drafodaeth am farn Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar y pwynt hwn, gweler paragraff 24 sesiwn tystiolaeth lafar Syr Wyn Williams a Rhian Davies Rees gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 13 Gorffennaf 2020 https://cofnod.senedd.cymru/Committee/6414

### Rhwymedigaethau o ran y Gymraeg

9.37 Amlinellodd un ymatebydd, a oedd yn dymuno aros yn ddienw, ganlyniadau posibl dod yn adran anweinidogol o ran dyletswyddau iaith Gymraeg yr Uned.

9.38 Ar hyn o bryd, mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn dod o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4).[226] Mae nodyn esboniadol y rheoliadau hynny yn esbonio:

> Nid yw'r Rheoliadau yn awdurdodi'r Comisiynydd i'w gwneud yn ofynnol i [Dribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru] gydymffurfio â'r safonau gweithredu yn Atodlen 3, a thrwy hyn safonau cadw cofnodion sy'n ymwneud â safonau gweithredu, a safonau atodol sy'n ymwneud â safonau gweithredu. Mae hyn oherwydd bod y sefydliadau'n cael eu gweinyddu gan staff Llywodraeth Cymru a bod y staff hynny'n dod o dan y safonau gweithredu mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â nhw.[227]

9.39 Pe bai gweinyddiaeth tribiwnlysoedd yn cael ei diwygio fel ei bod yn gyfrifoldeb adran anweinidogol, yna ni fyddai'r adran honno yn ddarostyngedig i'r safonau gweithredu sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru. Yn hytrach, byddai angen cymryd camau i sicrhau bod yr adran anweinidogol yn ddarostyngedig i safonau priodol o ran y Gymraeg.

## TRAFODAETH

### Annibyniaeth ac atebolrwydd

9.40 Prif atyniad model yr adran anweinidogol yw ei hannibyniaeth amlwg ar y llywodraeth. Fel arfer, nid yw gweinidogion yn ymwneud â gweinyddu adrannau anweinidogol o ddydd i ddydd. Gallant fod yn gysylltiedig â phennu cyfeiriad lefel uchel y sefydliad; yn achos Awdurdod Cyllid Cymru, er enghraifft, mae adran 15 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau o 'natur gyffredinol' i Awdurdod Cyllid Cymru, y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â nhw. Mae annibyniaeth weithredol adrannau anweinidogol fel arfer yn cael ei hategu gan fesur o annibyniaeth ariannol; mae cyllidebau ar gyfer adrannau anweinidogol fel arfer yn destun pleidlais uniongyrchol gan y Senedd berthnasol.

9.41 Mae'r berthynas bell hon â'r Llywodraeth yn golygu bod adrannau anweinidogol fel arfer yn atebol yn uniongyrchol i'r Senedd. Mae hyn fel arfer ar ffurf gosod dogfennau ac ymddangos gerbron pwyllgorau; naill ai'r rhai sy'n ymwneud yn benodol â chraffu ar gyllid cyhoeddus, neu'r rhai sydd â diddordeb yng ngwaith y corff dan sylw. Yn achos Awdurdod Cyllid Cymru, rhaid i'w gynllun corfforaethol, ei adroddiad blynyddol, ei gyfrifon ardystiedig a'i ddatganiad treth gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae gan Brif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru, yn rhinwedd ei swydd fel swyddog cyfrifyddu,

---

226 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) Offeryn Statudol 2016 Rhif 405 (Cy 125).

227 Nodyn esboniadol Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) Offeryn Statudol 2016 Rhif 405 (Cy 125) tudalen 3 https://senedd.wales/laid%20documents/sub-ld10586-em/sub-ld10586-em-w.pdf

gyfrifoldebau i'r Senedd hefyd.[228] Yn achos Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban, rhaid i'w adroddiad blynyddol, ei gyfrifon a'i gynllun corfforaethol gael eu cyflwyno gerbron Senedd yr Alban.[229]

9.42 Yn ein barn ni, mae model yr adran anweinidogol yn well na model yr asiantaeth weithredol a model Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru o safbwynt annibyniaeth ac atebolrwydd. Er ei bod yn bosibl, fel yn achos GLIThEM, sefydlu asiantaeth weithredol gydag annibyniaeth swyddogaethol, mae'n parhau i fod yn rhan ffurfiol o adran weinidogol er hynny. Yn achos adran anweinidogol, mae'r gwahanu'n fwy cyflawn. Mae Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ar y llaw arall, wedi'i gyfansoddi fel corff ar wahân ond mae'r syniad o nawdd gan y llywodraeth yn awgrymu dylanwad y llywodraeth.

9.43 Er bod y berthynas rhwng Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru yn amrywio, fel arfer mae gan Weinidogion Cymru ddylanwad dros gyfeiriad strategol Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys asesu perfformiad ariannol o ran cynlluniau ac ystyried a lwyddwyd i gyrraedd targedau ai peidio.[230] Mae Gweinidogion Cymru yn dal yn atebol i'r Senedd am berfformiad Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru.[231]

9.44 Mater ymarferol ychwanegol yw nad gweision sifil yw gweithwyr Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru fel arfer. Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru ar ei ffurf bresennol yn cael ei staffio gan weision sifil, ac mae'n bwysig bod yr arbenigedd sydd yn yr Uned ar hyn o bryd yn cael ei drosglwyddo i'r corff gweinyddu tribiwnlysoedd yn y dyfodol. Gallai sefydlu corff nad oedd ei aelodau staff yn weision sifil rwystro hyn os yw'r staff presennol yn dymuno aros yn y gwasanaeth sifil, gyda'i botensial ar gyfer datblygu gyrfa.

9.45 O ran atebolrwydd, credwn ei bod yn well i'r gwasanaeth tribiwnlysoedd fod yn uniongyrchol atebol i'r Senedd. Mae'n bosibl y bydd disgwyl i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus graffu ar wasanaeth tribiwnlysoedd newydd. Rydym yn rhagweld y byddai darpariaeth ar gyfer atebolrwydd i'r Senedd yn cael ei gwneud mewn perthynas â'r corff newydd, beth bynnag fo'i ffurf.

### Hyd a lled cyfranogiad barnwrol

9.46 Un cwestiwn allweddol yw i ba raddau y dylai barnwyr fod yn ymwneud â gweinyddiaeth tribiwnlysoedd. Fel yr eglurwyd uchod, mae lefel y cyswllt ffurfiol ar hyn o bryd yn isel. Mae gweinyddiaeth tribiwnlysoedd adran 59 yn cael ei chynnal gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru Llywodraeth Cymru, gyda chyfrifoldeb statudol gan

228 Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, adrannau 27(4), 28(1), 31(2), a 33(3)(d).

229 Deddf y Llysoedd a'r Farnwriaeth (Yr Alban) 2008, adrannau 18 a 66.

230 Gweler, er enghraifft, Dogfen Fframwaith Tribiwnlys Prisio Cymruhttps://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/publications/cy/Dogfen_Fframwaith.pdf, paragraff 2.2.8.

231 Gweler paragraff 9.25 uchod.

Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru dros hyfforddiant, arweiniad a lles aelodau'r tribiwnlys.[232]

9.47 Byddai unrhyw un o'r modelau'n cynnig mwy o gyfle i gynnwys y farnwriaeth nag sy'n bodoli ar hyn o bryd. Ar lefel is o ymwneud, gallai asiantaeth weithredol fod yn gyfrifol am weithredu amcanion y cytunwyd arnynt rhwng Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Gweinidogion Cymru. Byddai hyn yn debyg i'r dull partneriaeth a fabwysiadwyd gan GLIThEM. Gellid cael mwy o gyfranogiad barnwrol drwy gael aelodau barnwrol ar Fwrdd corff newydd. Unwaith eto, gallai hyn amrywio o gael un neu ddau aelod barnwrol, i gael mwyafrif o aelodau barnwrol. Disgrifiwyd cyfansoddiad Byrddau GLIThEM (asiantaeth weithredol) a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban (adran anweinidogol) ym mharagraffau 9.13 a 9.20 above. Nid ydym o'r farn mai ein lle ni yw gwneud argymhellion manwl ar gyfansoddiad Bwrdd newydd, er ein bod ni'n nodi rhai egwyddorion lefel uchel isod.

9.48 Yn y naill achos a'r llall, byddai'n rhaid i'r Bwrdd hefyd gynnwys aelodau anfarnwrol sydd ag arbenigedd ariannol ac arbenigeddau eraill. Rydym yn disgwyl y byddai unrhyw benodiad o'r fath yn cael ei wneud yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus.[233]

### Maint

9.49 Un cwestiwn a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori oedd a fyddai Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i Gymru yn ddigon mawr i gyfiawnhau creu adran anweinidogol. Byddai Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru yn sicr yn fach o'i gymharu ag adrannau eraill o'r fath. Fodd bynnag, nodwn fod gan adran anweinidogol arall o Lywodraeth Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, 69 aelod o staff ar gyfartaledd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, ac amcangyfrif gwreiddiol y Gweinidogion oedd rhwng 25 a 32 aelod o staff.[234] Mae'r ffigwr olaf hwn yn debyg i faint Uned Tribiwnlysoedd Cymru, a oedd, fel ag yr oedd pethau ar 15 Tachwedd 2021, yn cynnwys 34 aelod o staff (sy'n cyfateb i 31.09 aelod o staff amser llawn).

9.50 Nid yw ychwaith yn annhebyg o ran maint i'r Goruchaf Lys, sy'n adran anweinidogol arall. Ac eithrio ynadon a chynorthwywyr barnwrol, roedd 41 o unigolion cyfwerth ag amser llawn yn cael eu cyflogi yn y Goruchel Lys yn 2020-2021.[235]

---

232 Deddf Cymru 2017, adran 60(5)(a).

233 Swyddfa'r Cabinet, *Governance Code on Public Appointments* (Rhagfyr 2016) https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf

234 Awdurdod Cyllid Cymru, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-2021 (Gorffennaf 2021) https://llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru-adroddiad-blynyddol-chyfrifon-2020-hyd-2021-html , a Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (Tachwedd 2015) FIN(4)-26-15 P3 https://busnes.senedd.cymru/documents/s46133/FIN4-26-15%20P3%20Llythyr%20gan%20Weinidog%20Cyllid%20a%20Busnes%20y%20Llywodraeth%20ir%20Cadeirydd%20-%204%20Tachwedd%202015.pdf

235 Y Goruchel Lys, *Annual Report and Accounts 2020-21* (Mehefin 2021) tudalen 117. Gweler https://www.supremecourt.uk/docs/annual-report-2020-21.pdf

### Casgliad

9.51 O ystyried cefnogaeth gref y sawl a ymatebodd i'r ymgynghoriad, a'r rhesymau a roddwyd uchod, rydym wedi ein hargyhoeddi mai model yr adran anweinidogol yw'r un y dylid ei fabwysiadu ar gyfer gweinyddu'r system tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol.

9.52 Nid ydym yn gwneud argymhellion manwl ynghylch cyfansoddiad bwrdd adran anweinidogol o'r fath, ei threfniadau llywodraethu na staffio na'r ffyrdd y dylai ryngweithio â'r Senedd. Ni wnaethom ymgynghori ar y lefel hon o fanylder, a allai fod wedi peryglu crwydro i feysydd sydd i'w penderfynu'n briodol gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn y drafodaeth uchod, fodd bynnag, credwn fod rhai egwyddorion cyffredinol y dylid eu defnyddio i lywio'r gwaith o gynllunio a sefydlu'r gwasanaeth tribiwnlysoedd. Dyma'r egwyddorion hynny:

(1) Dylai'r gwasanaeth tribiwnlysoedd fod yn annibynnol yn weithredol ar Lywodraeth Cymru.

(2) Dylid cael lefel sylweddol o gyfranogiad barnwrol yng nghyfeiriad strategol a gweithrediad y gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys rhan i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

(3) Dylai Bwrdd y gwasanaeth tribiwnlysoedd gynnwys aelod (neu aelodau) sy'n cynrychioli defnyddwyr y tribiwnlysoedd. Dyma'r egwyddor sy'n sail i'r gofyniad yn yr Alban i fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban gynnwys adfocad a chyfreithiwr. Nid ydym o'r farn y byddai'n ddefnyddiol trawsosod y gofyniad hwn yn uniongyrchol i'r cyd-destun hwn, o gofio bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd yr Alban yn gweinyddu system lawer mwy, sy'n cynnwys llysoedd yr Alban. Fodd bynnag, credwn fod yr egwyddor gyffredinol yn berthnasol ac y byddai'r Bwrdd yn elwa ar arbenigedd defnyddwyr tribiwnlysoedd.

(4) Dylai'r gwasanaeth tribiwnlysoedd gael ei staffio gan weision sifil.

**Argymhelliad 51.**

9.53 Rydym yn argymell sefydlu Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i Gymru fel adran anweinidogol.

# Pennod 10: Annibyniaeth farnwrol

10.1 Cafodd yr angen i warchod annibyniaeth farnwrol ei gynnwys yn benodol yng Nghylch Gorchwyl y prosiect hwn, ac mae wedi dylanwadu'n fawr ar ein ffordd o feddwl drwy gydol yr adroddiad hwn. Mae'n ganolog i'n hargymhellion ar benodiadau, ac ar ddisgyblaeth a chwynion. Diogelu annibyniaeth farnwrol yw'r prif reswm hefyd rydym yn argymell (ym Mhennod 9) creu adran anweinidogol i weinyddu'r tribiwnlysoedd. Roedd Pennod 10 o'r Papur Ymgynghori yn canolbwyntio'n benodol ar a ellid gwneud mwy i amddiffyn annibyniaeth barnwriaeth y tribiwnlysoedd datganoledig.

10.2 Sefydlwyd tribiwnlysoedd i ddechrau gan adrannau'r Llywodraeth yn unol â'r angen, ac yn aml roeddent yn cael eu gweinyddu o fewn yr un adrannau hynny o'r Llywodraeth. Mor gynnar â 1957, tynnodd Pwyllgor Franks sylw at y ffaith bod cael adran sy'n gweinyddu'r apêl yn erbyn ei benderfyniad ei hun yn codi materion ynghylch canfyddiad o annibyniaeth.[236] Ers hynny, cymerwyd camau i gynyddu annibyniaeth strwythurol a barnwrol y tribiwnlysoedd.

10.3 Yn 2017, tynnodd y Cwnsler Cyffredinol, Mick Antoniw AS, sylw at rai o'r mecanweithiau sydd eisoes ar waith i gynnal annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi lle i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol a'r Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol wrth ddethol aelodau a delio â chwynion, a swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.[237]

10.4 Roedd ein Papur Ymgynghori yn cynnig dros dro ddau ddull arall i warchod annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig:

(1) cyflwyno dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru i barchu annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig; a

(2) mynnu bod arweinwyr barnwrol, aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill y tribiwnlysoedd datganoledig yn tyngu'r llw barnwrol.

## DYLETSWYDD STATUDOL I GYNNAL ANNIBYNIAETH Y TRIBIWNLYSOEDD DATGANOLEDIG

10.5 Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ("Deddf 2005") yn gwarantu annibyniaeth farnwrol barhaus ar lefel y Deyrnas Unedig:

---

236 Adroddiad y Pwyllgor ar Dribiwnlysoedd ac Ymholiadau Gweinyddol (Adroddiad Franks) (1957) Gorchymyn 218.

237 Mick Antoniw AS, Datganiad Ysgrifenedig gan Cabinet, "Annibyniaeth Tribiwnlysoedd Cymru" (Mawrth 2017) Gweler https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-annibyniaeth-tribiwnlysoedd-cymru

Rhaid i’r Arglwydd Ganghellor, Gweinidogion eraill y Goron a phawb sy’n gyfrifol am faterion sy’n ymwneud â’r farnwriaeth neu fel arall â gweinyddu cyfiawnder gynnal annibyniaeth barhaus y farnwriaeth.[238]

10.6 Mae Deddf 2005 wedyn yn mynd ymlaen i nodi na ddylai’r Arglwydd Ganghellor a Gweinidogion eraill y Goron geisio dylanwadu ar benderfyniadau barnwrol penodol drwy unrhyw fynediad arbennig at y farnwriaeth.[239]

10.7 Yn ogystal â’r ddyletswydd gyffredinol a osodir ar holl Weinidogion y Deyrnas Unedig, rhaid i’r Arglwydd Ganghellor hefyd ystyried:

(1) yr angen i amddiffyn yr annibyniaeth honno;

(2) yr angen i’r farnwriaeth gael y cymorth angenrheidiol i’w galluogi i arfer ei swyddogaethau;

(3) yr angen i fuddiannau’r cyhoedd mewn perthynas â materion sy’n ymwneud â’r farnwriaeth neu fel arall â gweinyddu cyfiawnder gael ei gynrychioli’n briodol mewn penderfyniadau sy’n effeithio ar y materion hynny. [240]

10.8 Mae dyletswyddau ychwanegol yr Arglwydd Ganghellor yn adlewyrchu nod ehangach o fewn Deddf 2005 i sicrhau bod pwerau’n cael eu gwahanu rhwng y weithrediaeth a’r farnwriaeth. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys rhannu dyletswyddau rhwng yr Arglwydd Ganghellor a’r Arglwydd Brif Ustus, a defnyddio’r Goruchaf Lys yn lle Pwyllgor Apeliadol Tŷ’r Arglwyddi .

### Ymestyn y warant annibyniaeth i aelodau o farnwriaeth y tribiwnlys

10.9 Yn dilyn deddfu Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, estynnwyd y ddyletswydd i amddiffyn annibyniaeth i gynnwys aelodau tribiwnlysoedd a ddynodwyd yn ‘ddeiliaid swydd’ o dan Atodlen 14 Deddf 2005.[241]

10.10 Mae Atodlen 14 i Ddeddf 2005 yn cynnwys yr aelodau a ganlyn o’r tribiwnlysoedd datganoledig:

(1) Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ac aelodau'r tribiwnlys hwnnw;

(2) Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru, ac aelodau panel cadeirydd cyfreithiol y tribiwnlys hwnnw;

(3) rhai aelodau o bwyllgorau asesu rhenti Cymru (penodir eraill gan Weinidogion Cymru); a

(4) Chadeirydd ac aelodau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru.

---

238 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, adran 3 (1).

239 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, adran 3 (5).

240 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, adran 3 (6).

241 Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, atodlen 14, rhan 3.

10.11 O ganlyniad, nid yw'r warant annibyniaeth yn berthnasol i bob aelod o'r tribiwnlysoedd datganoledig.

### Dyletswydd y weithrediaeth

10.12 Nid yw'r ddyletswydd a osodir gan Ddeddf 2005 yn gymwys yn benodol i Weinidogion Cymru. Yn ein barn ni, mae angen sicrhau bod Gweinidogion Cymru, ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder, yn ddarostyngedig i ddyletswydd debyg i ddyletswydd eu cymheiriaid yn y Deyrnas Unedig i amddiffyn annibyniaeth y tribiwnlysoedd. Mae ein hargymhelliad y dylai Gweinidogion Cymru gael mwy o bwerau mewn perthynas â phenodi a disgyblu barnwyr tribiwnlysoedd yn golygu bod yr angen am ddyletswydd o'r fath yn fwy.

10.13 Mae Gweinidogion Cymru eu hunain wedi cydnabod yr angen am ddarpariaeth o'r fath. Wrth ddrafftio'r rheoliadau penodi ar gyfer Tribiwnlys y Gymraeg yn 2013, ymatebodd Gweinidogion Cymru i bryderon a godwyd gan y farnwriaeth ynghylch yr angen i gryfhau annibyniaeth farnwrol drwy gynnwys y ddarpariaeth a ganlyn:

> Wrth benodi aelodau'r Tribiwnlys rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r angen i gynnal egwyddorion fel –
>
> (1) annibyniaeth y Tribiwnlys; a
>
> (2) rheol y gyfraith.[242]

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

10.14 Yn ein Papur Ymgynghori, fe wnaethom gynnig dros dro bod Gweinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd statudol i barchu annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig.

10.15 Atebodd 25 o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn, pob un yn cytuno â'r cynnig dros dro. Mynegodd Cyngor y Bar, Cylchdaith Cymru a Chaer, Syr Wyn Williams a Phanel Dyfarnu Cymru i gyd eu bod yn cytuno â'r rhesymeg a nodir ym Mhennod 10 y Papur Ymgynghori.

#### Cydraddoldeb â'r tribiwnlysoedd a gedwir

10.16 Roedd Keith Bush CF, o Ganolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, a Chyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru ill dau'n cytuno â'r cynnig dros dro gan y byddai'n cysoni'r tribiwnlysoedd datganoledig â'r ddyletswydd bresennol o dan Ddeddf 2005.

10.17 Roedd Dr Sarah Nason (uwch ddarlithydd ym Mhrifysgol Bangor) a Dr Huw Pritchard (darlithydd yn y gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd) hefyd yn cytuno â'n rhesymeg, gan ychwanegu:

> yn ogystal â phriodoldeb cyfansoddiadol, mae'n gam angenrheidiol i sicrhau cysondeb rhwng gwahanol awdurdodaethau ac felly mae'n gyson â datblygiad system dribiwnlysoedd yng Nghymru.

---

[242] Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) 2013, rheoliad 3.

10.18 Roedd Cyngor y Bar a Chylchdaith Cymru a Chaer yn cefnogi'r cynnig ar y sail y byddai'n sefydlu cydraddoldeb â'r tribiwnlysoedd a gedwir. Byddai hefyd yn gyson â dull gweithredu blaenorol y Senedd mewn perthynas â Thribiwnlys y Gymraeg, fel y dangoswyd yn Rheoliadau Tribiwnlys y Gymraeg (Penodi) 2013, a drafodwyd uchod ym mharagraff 10.13.

10.19 Am y rhesymau a amlinellwyd yn ein Papur Ymgynghori, a'r unfrydedd a fynegwyd yn yr ymatebion, rydym wedi ein hargyhoeddi y dylai'r Bil Tribiwnlysoedd osod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru i gynnal annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig.

## LLW BARNWROL

10.20 Yn hanesyddol yn y Deyrnas Unedig, mae'n ofynnol i farnwyr dyngu'r llw barnwrol, fel arwydd o ymrwymiad i gynnal annibyniaeth farnwrol. Mae'r llw wedi ei ffurfio o ddau lw ar wahân; y llw teyrngarwch a'r llw barnwrol. Mae'r llw teyrngarwch yn ymrwymo'r un sy'n ei dyngu i:

> fod yn ffyddlon a bod yn deyrngar i'w Mawrhydi y Frenhines Elisabeth yr Ail, ei hetifeddion a'i holynwyr, yn ôl y gyfraith.

10.21 Mae fersiwn o'r llw teyrngarwch hefyd yn cael ei dyngu gan y rhai sy'n dod yn ddinasyddion Prydeinig, clerigion Eglwys Loegr a seneddwyr.[243] Dim ond barnwyr sy'n tyngu'r llw barnwrol, sy'n darllen:

> Yr wyf i, _______ , yn tyngu i Dduw Hollalluog y byddaf yn gwasanaethu ein Harglwyddes Sofran y Frenhines Elisabeth yr Ail yn swydd ________ , ac y byddaf yn gwneud iawn i bob math o bobl yn unol â deddfau ac arferion y deyrnas hon, heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad.[244]

10.22 Ceir hefyd fersiynau seciwlar o'r llw barnwrol a'r llw teyrngarwch a elwir yn gadarnhad barnwrol a chadarnhad o deyrngarwch yn y drefn honno.[245] Mae ffurfiau eraill ar y llwon yn cynnwys llwon i aelodau o'r ffydd Hindŵaidd, Iddewig, Mwslemaidd a Sikh.

10.23 Mae'n ofynnol i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru dyngu'r llw barnwrol gerbron yr Arglwydd Brif Ustus.[246] Nid oes gofyniad statudol i'r aelodau (cyfreithiol neu fel arall) nac i arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig dyngu'r llw.

10.24 Mae'r Canllaw i Ymddygiad Barnwrol yn egluro bod y barnwr, drwy dyngu'r llw, yn cydnabod mai ef neu hi sy'n bennaf atebol i'r gyfraith y mae'n rhaid iddo ei

---

243 Ym mharagraff 10.20 o'r Papur Ymgynghori, bu i ni gyfeirio'n anghywir at "Glerigion Anglicanaidd" yn y rhestr o'r rhai sy'n tyngu'r llw teyrngarwch, yn hytrach na chlerigion Eglwys Loegr. Rydym yn ddiolchgar i'r Athro Thomas Watkin am dynnu ein sylw at y camgymeriad hwn.

244 Mae'r ddau lw yn ymddangos yn eu ffurfiau gwreiddiol yn Neddf Llwon Addewidiol 1868.

245 Mae'r ddau yn hepgor 'yn tyngu llw i Dduw Hollalluog' ac fe ddisodlir y geiriau gan 'yn datgan a chadarnhau'n ddifrifol ac yn ddiffuant'.

246 Deddf Cymru 2017, atodlen 5 paragraff 14(1)(a).

gweinyddu.[247] Mae'r canllaw yn cydnabod mai symbol yw hwn, gan nodi 'nad yw rhai barnwyr sy'n derbyn ffi yn tyngu'r llw barnwrol, ond maent hwythau hefyd yn bennaf atebol i'r gyfraith maent yn ei gweinyddu'. Mae hyn yn cynnwys aelodau ac arweinwyr barnwrol y tribiwnlysoedd datganoledig.[248]

10.25 Rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig yn cadarnhau'n gyhoeddus nad y weithrediaeth na'r Wladwriaeth sy'n gyfrifol am eu dyletswydd, ond y gyfraith a'r bobl. Yn ein Papur Ymgynghori, roeddem felly'n cynnig dros dro y dylai fod yn ofynnol i arweinwyr barnwrol ac aelodau cyfreithiol ac aelodau eraill tribiwnlysoedd datganoledig dyngu'r llw barnwrol. Atebodd 23 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, ac roedd 17 ohonynt yn cytuno, pedwar yn anghytuno a dewisodd dau ateb "arall".

10.26 Cytunodd Syr Wyn Williams â'r cynnig dros dro, gan fynegi'r farn:

> Bydd y gofyniad hwn yn gwella hyder y cyhoedd yn y broses o wneud penderfyniadau. Bydd hefyd yn cydnabod, heb unrhyw amheuaeth, fod tribiwnlysoedd yn gwneud penderfyniadau barnwrol.

10.27 Er nad oes gofyniad cyfreithiol arnynt i wneud hynny ar hyn o bryd, eglurodd Panel Dyfarnu Cymru yn ei ymateb fod "pob aelod o'r Panel wedi tyngu'r llw ac wedi cyfeirio'n benodol ato yn y penderfyniadau wrth gael eu herio ynghylch annibyniaeth ei aelodau".

### Cydraddoldeb â'r tribiwnlysoedd a gedwir

10.28 Mynegodd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru ei gefnogaeth gan fod y sefyllfa bresennol "yn ein gwneud ni (y Tribiwnlys) yn wahanol i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl)". Roedd yr ymateb yn egluro'r effaith a gaiff yr anghysondeb hwn ar drefniadau traws-docynnu:

> Mae hyn yn golygu mai dim ond aelodau sydd wedi tyngu'r llw mewn cysylltiad â swyddi barnwrol eraill fydd yn gallu elwa ar y trefniadau traws-docynnu arfaethedig, gan fod yn rhaid i unrhyw un sy'n eistedd yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Iechyd Meddwl) fod wedi tyngu'r llw.

10.29 Cytunodd Cylchdaith Cymru a Chaer, Cyngor y Bar, Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard gyda'r cynnig dros dro gan y byddai'n sicrhau cydraddoldeb a chysondeb â'r tribiwnlysoedd a gedwir. Ychwanegodd Dr Sarah Nason a Dr Huw Pritchard fod hyn yn berthnasol 'lle mae aelodau'n cael eu traws-docynnu a bod gofyn iddynt dyngu llw ar gyfer un tribiwnlys ond nid y llall'.

### Amheuon

10.30 Cyfeiriodd pedwar ymatebydd at fater tyngu llw o deyrngarwch i'r frenhines. Eglurodd un ymatebydd, nad oedd yn dymuno cael ei enwi:

---

[247] Y Farnwriaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd, *Guide to judicial conduct* (Mawrth 2018) tudalen 8 Gweler https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2016/07/judicial-conduct-v2018-final-2.pdf.

[248] Y Farnwriaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd, *Guide to judicial conduct* (Mawrth 2018) tudalen 8 Gweler https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2016/07/judicial-conduct-v2018-final-2.pdf.

> ... mae rhywfaint o fudd i arweinwyr barnwrol ac aelodau cyfreithiol ac eraill tribiwnlysoedd datganoledig sy'n tyngu llw barnwrol neu gadarnhad sy'n ymwneud ag annibyniaeth farnwrol, tegwch a didueddrwydd - er enghraifft, yr elfen o'r llw barnwrol sy'n datgan: 'Byddaf yn gwneud "iawn i bob math o bobl... heb ofn, na ffafr, hoffter na drwgdeimlad.' Nid wyf yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i aelodau neu arweinwyr dyngu llw teyrngarwch, na thyngu'r rhan o'r llw barnwrol sy'n addo bod yn deyrngar i'r Frenhines.

10.31 Rhoddodd yr atebydd y rhesymau a ganlyn:

> Gall y gofyniad cyfreithiol i dyngu llw o deyrngarwch eithrio rhai pobl. Mae'n debygol o arwain at rai aelodau cyfreithiol a chyffredinol profiadol a medrus yn cael eu heithrio rhag ymgymryd â rôl mewn tribiwnlys datganoledig, a gallai hyd yn oed arwain at golli rhai aelodau presennol. Mae perygl y gallai hyn gael effaith anghymesur ar bobl o gefndiroedd llai breintiedig, a/neu bobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig.
>
> …
>
> Os mai bwriad yr argymhelliad hwn yw gwella neu bwysleisio didueddrwydd, yna gellid cyflawni hyn yr un mor dda, neu well, drwy fersiwn diwygiedig o'r llw barnwrol nad yw'n cyfeirio at y frenhiniaeth, neu drwy gynnwys egwyddor bwysicach sy'n tanlinellu ac yn canolbwyntio sylw ar y pwynt hwn.

10.32 Dywedodd Dr Angela Ash, aelod lleyg o Dribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, wrthym y byddai'n ei chael hi'n anodd yn bersonol tyngu llw i'r frenhiniaeth, tra bod Roger Handy, cadeirydd Tribiwnlys Prisio Cymru, yn cydnabod:

> mae'n bosibl y bydd gan aelodau presennol a darpar aelodau, er eu bod yn fodlon cyflawni'r hyn maent yn ei ystyried yn ddyletswydd ddinesig arnynt, amheuon ynghylch 'gwasanaethu'r ... Frenhines' ac, o ganlyniad, byddant yn teimlo na allant dderbyn neu barhau ag aelodaeth o dribiwnlys.

10.33 Soniodd Keith Bush CF am ei brofiad fel cyn arweinydd barnwrol Tribiwnlys y Gymraeg, gan ddisgrifio achos lle gwnaed yr awgrym o dyngu'r llw rai blynyddoedd yn ôl.

> Ar hyn o bryd nid oes dyletswydd ar aelodau Tribiwnlys y Gymraeg i dyngu'r llw barnwrol / gwneud y datganiad barnwrol. Pan gwnaed awgrym, ychydig flynyddoedd yn ôl, y dylent wneud hynny er mwyn cysondeb ag aelodau'r tribiwnlysoedd hynny lle mae angen tyngu'r llw barnwrol yn ofynnol, cafwyd trafodaeth ymhlith yr aelodau. Teimlai rhai yn gryf fod geiriad y llw presennol, sy'n cynnwys llw o deyrngarwch i'r Goron, yn ffiwdal ei naws ac yn anghydnaws ag ethos tribiwnlys modern sy'n rhan o gymdeithas ddemocrataidd. Gan nad oedd unrhyw ddyletswydd gyfreithiol ar aelodau i dyngu'r llw (ac roedd y tribiwnlys wedi bod yn gweithredu ers sawl blwyddyn cyn i'r awgrym gael ei wneud), penderfynwyd peidio â gofyn i'r aelodau hynny nad oeddent eisoes wedi tyngu'r llw (ar gyfer swyddi barnwrol eraill) wneud hynny mewn perthynas â'r Tribiwnlys.

10.34 Roedd yr ymatebydd a oedd yn dymuno aros yn ddienw a Keith Bush CF o'r farn y byddai'n well cael llw diwygiedig na fyddai'n cyfeirio at y frenhiniaeth. Awgrymodd

Keith Bush CF eiriad adran 19 Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002, sef (o'i gyfieithu):

> "Rwyf i.................... yn tyngu y byddaf yn gwasanaethu'n gymwys ac yn ffyddlon yn swydd.................... ac y byddaf yn gwneud iawn i bob math o bobl heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad yn unol â chyfreithiau ac arferion y deyrnas hon."

## Trafodaeth

10.35 Mae'r ymatebion hyn wedi ein harwain i ystyried y sefyllfa yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill. Rydym yn crynhoi'r safbwyntiau hynny isod.

### Gogledd Iwerddon

10.36 Mae paragraff 1(i) o Gytundeb Belfast yn datgan y bydd Llywodraethau Prydain ac Iwerddon yn:

> cydnabod dilysrwydd pa bynnag ddewis sy'n cael ei arfer yn rhydd gan fwyafrif o bobl Gogledd Iwerddon o ran ei statws, pa un a yw'n well ganddynt barhau i gefnogi'r Undeb gyda Phrydain neu Iwerddon unedig sofran.[249]

10.37 Ar gefndir Cytundeb Belfast, comisiynwyd adolygiad o'r system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Iwerddon, a chyhoeddwyr yr argymhellion ym mis Mawrth 2000 ("yr Adolygiad").[250]

10.38 Roedd paragraff 6.44 yr Adolygiad yn cydnabod yr angen i gynyddu amrywiaeth barnwriaeth Gogledd Iwerddon er mwyn adlewyrchu cyfansoddiad ei chymdeithas yn well. Roedd yn amlinellu'r hyn a ddisgrifiodd fel 'strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw 'rwystr' o ran darpar ymgeiswyr a chael gwared ar 'ffactorau anghymell' tybiedig'.[251]

10.39 Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyhoeddi'r Adolygiad yn nodi bod angen teyrngarwch i'w Mawrhydi'r Frenhines, Arwyddluniau Brenhinol mewn llysoedd a defnyddio'r term "Brenhinol" fel 'rhwystrau' posibl a allai atal cenedlaetholwyr rhag ceisio swydd farnwrol.[252]

10.40 Daeth yr Adolygiad i'r casgliad a ganlyn:

> Mae elfen sylweddol o'r gymuned yng Ngogledd Iwerddon yn anelu at uno Iwerddon. Ni ddylai'r nod hwnnw effeithio o gwbl ar eu haddasrwydd neu fel arall ar gyfer swydd farnwrol, a gallwn ragweld amgylchiadau lle byddai aelodau o'r gymuned Genedlaethol yn teimlo'n anghyfforddus o orfod tyngu llw teyrngarwch i'w Mawrhydi y Frenhines neu ei gwasanaethu. Rydym hefyd yn nodi'r gydnabyddiaeth

---

249 Cytundeb Belfast 1998, paragraff 1(i).

250 Adolygiad o'r System Cyfiawnder Troseddol yng Ngogledd Iwerddon (Mawrth 2000) Gweler https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20010204060 8/http://www.nio.gov.uk:80/cjr/main_report.htm

251 Review of the Criminal Justice System in Northern Ireland (Mawrth 2000) paragraff 6.44 Gweler https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/200102040608/http://www.nio.gov.uk:80/cjr/main_report.htm

252 Adolygiad o'r System Cyfiawnder Troseddol yng Ngogledd Iwerddon (Mawrth 2000) paragraff 6.44 Gweler https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/200102040608/http://www.nio.gov.uk:80/cjr/main_report.htm

yn y rhagarweiniad i Gytundeb Belfast o gyfreithlondeb cyfartal gwahanol ddyheadau gwleidyddol.[253]

10.41 O ganlyniad, argymhellodd yr adolygiad y dylid disodli'r llwon (y llw teyrngarwch a'r llw barnwrol) ag un llw barnwrol gwleidyddol niwtral mewn iaith fodern heb gyfeirio at Ei Mawrhydi y Frenhines.

10.42 Mae'r llw barnwrol yng Ngogledd Iwerddon yn cynnwys y canlynol:

> 'Rwyf i ________ yn tyngu y byddaf yn gwasanaethu'n gymwys ac yn ffyddlon yn swydd _______ ac y byddaf yn gwneud iawn i bob math o bobl heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad yn unol â chyfreithiau ac arferion y deyrnas hon.'[254]

### Yr Alban

10.43 Mae aelodau o farnwriaeth yr Alban (gan gynnwys aelodau tribiwnlysoedd yr Alban) yn tyngu'r un llw â'r rhai o fewn barnwriaeth Cymru a Lloegr.[255] Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw enghraifft o farnwyr yn yr Alban yn gwrthod tyngu'r llw teyrngarwch ar sail wleidyddol.

## Casgliad

10.44 Rydym yn falch bod pob un ond dau o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'r egwyddor o gadarnhau ymrwymiad i annibyniaeth farnwrol, didueddrwydd a dyletswydd. Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon y gallai rhai aelodau o'r tribiwnlysoedd datganoledig eu cael o ran teyrngarwch i'r frenhiniaeth, fel y dangosir yn yr ymatebion a drafodwyd ym mharagraffau 10.30 i 10.34 uchod.

10.45 Rydym wedi ein hargyhoeddi ei bod yn bwysig i bob arweinydd barnwrol ac aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig dyngu llw. Rydym hefyd wedi ein hargyhoeddi, fel yn achos Gogledd Iwerddon,[256] y dylai pob arweinydd barnwrol ac aelodau'r tribiwnlysoedd datganoledig dyngu'r un llw, ac eithrio am amrywiant rhwng y llw a'r cadarnhad, ac amrywiol fersiynau crefyddol o'r llw.

10.46 Mae manteision i fabwysiadu'r llwon fel maent yn ymddangos yn Neddf Llwon Addewidiol 1868.[257] Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb ag aelodau tribiwnlysoedd y Deyrnas Unedig, yn ogystal â chydraddoldeb â'r holl swyddi barnwrol eraill y gellid penodi ymgeiswyr o Gymru iddynt. Byddai'n golygu y byddai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn tyngu'r un llw ag aelodau'r tribiwnlysoedd hynny. Gallai hefyd hwyluso traws-docynnu.

10.47 Ar y llaw arall, mae'n amlwg y byddai'n anffodus pe bai darpar aelodau o dribiwnlysoedd sydd fel arall â chymwysterau da ar gyfer y rôl yn teimlo bod yn rhaid iddynt ei wrthod oherwydd eu bod yn anghyfforddus â chynnwys y llw. Gallai llw tebyg

---

253 Adolygiad o'r System Cyfiawnder Troseddol yng Ngogledd Iwerddon (Mawrth 2000) paragraff 6.125 Gweler https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/200102040608/http://www.nio.gov.uk:80/cjr/main_report.htm

254 Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002, adran 19(2).

255 Deddf Llwon Addewidiol 1868, adrannau 2 a 4.

256 Deddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002, adran 19(1).

257 Deddf Llwon Addewidiol 1868, adrannau 2 a 4.

i'r un a fabwysiadwyd yng Ngogledd Iwerddon atal y broblem honno. Mae'n anodd dweud a fydd ymgeiswyr yn cael eu cymell i beidio â mynd am swydd yng Nghymru ai peidio. Nodwn wrth basio nad yw'n ymddangos bod y gofyniad i dyngu'r llw teyrngarwch wedi achosi problemau o fewn system tribiwnlysoedd yr Alban.

10.48 Credwn hefyd y gallai esiampl Gogledd Iwerddon fod yn nodedig. Yno, roedd diwygio'r llw barnwrol yn welliant angenrheidiol o ystyried cefndir hanesyddol hir o anesmwythder ac ymrannu yn y wlad. Er na ellir profi cyswllt uniongyrchol, ers diwygio'r llw barnwrol yn Neddf Cyfiawnder (Gogledd Iwerddon) 2002, mae amrywiaeth barnwriaeth Gogledd Iwerddon bellach yn adlewyrchu cyfansoddiad y gymdeithas y mae'n ei gwasanaethu yn well.[258]

10.49 Gan hynny, mae natur y llw yn gwestiwn anodd. Fodd bynnag, rydym wedi ein hargyhoeddi mai mater gwleidyddol ydyw, yn hytrach nag un cyfreithiol. A ninnau'n sefydliad anwleidyddol sy'n arbenigo mewn diwygio'r gyfraith, nid ydym mewn sefyllfa dda i wneud y penderfyniad yn yr achos hwn. Gan hynny, rydym wedi dod i'r casgliad bod ffurfio'r llw yn gwestiwn i Lywodraeth Cymru a'r Senedd.

10.50 Rydym yn argymell isod y dylai arweinwyr barnwrol ac aelodau tribiwnlysoedd datganoledig Cymru dyngu llw neu gadarnhad fel arwydd o'u hannibyniaeth a'u didueddrwydd. Dylai'r un llw neu gadarnhad gael ei gymryd gan bob arweinydd ac aelod barnwrol, ac eithrio ar gyfer dewisiadau seciwlar a chrefyddol.

**Argymhelliad 52.**

10.51 Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd statudol i barchu annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig.

**Argymhelliad 53.**

10.52 Rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i holl aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru (gan gynnwys Llywyddion Siambr a Dirprwy Lywyddion) ac aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru dyngu llw barnwrol neu gadarnhad.

[258] Ar 1 Awst 2011, datganodd 53% o swyddogion barnwrol gefndir cymunedol Protestannaidd, datganodd 41% gefndir Catholig a dywedodd 6% nad ydynt yn perthyn i'r naill a'r llall. Mae hyn yn adlewyrchu cymdeithas Gogledd Iwerddon yn fras - Proses Penodiadau Barnwrol, tystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad (Ionawr 2011) tudalennau 85 a 208 – gweler https://www.parliament.uk/globalassets/documents/lords-committees/constitution/JAP/Compiled-written-evidence131011.doc.pdf

# Pennod 11: Argymhellion

**Argymhelliad 1.**

11.1 Rydym yn argymell y dylai'r tribiwnlysoedd a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017 gael eu disodli gan un Tribiwnlys Haen Gyntaf i Gymru, y bydd modd wedyn ei isrannu'n siambrau.

**Paragraff 3.31**

**Argymhelliad 2.**

11.2 Rydym yn argymell y dylai siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu harwain gan Lywyddion siambr, gyda chefnogaeth Dirprwy Lywyddion lle bo angen.

**Paragraff 3.32**

**Argymhelliad 3.**

11.3 Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru gael y pŵer i isrannu Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn siambrau, ac i ddyrannu gwaith i'r siambrau hynny, drwy is-ddeddfwriaeth a wneir gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 3.33**

**Argymhelliad 4.**

11.4 Rydym yn argymell y dylid trosglwyddo awdurdodaethau Tribiwnlys Prisio Cymru i Siambr Brisio newydd Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Paragraff 3.54**

**Argymhelliad 5.**

11.5 Rydym yn argymell y dylid trosglwyddo apeliadau gwaharddiadau ysgolion i Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Paragraff 3.90**

**Argymhelliad 6.**

11.6 Rydym yn argymell y dylai paneli apeliadau derbyn i ysgolion yng Nghymru barhau i gael eu gweinyddu gan awdurdodau derbyn.

**Paragraff 3.111**

**Argymhelliad 7.**

11.7 Rydym yn argymell y dylai Gofal Cymdeithasol Cymru barhau i weinyddu paneli apêl gofal cymdeithasol.

**Paragraff 3.113**

**Argymhelliad 8.**

11.8 Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer i greu siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru er mwyn ffurfio Siambr Addysg i arfer awdurdodaeth Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig, Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig a Thribiwnlys Addysg Cymru.

**Paragraff 3.154**

**Argymhelliad 9.**

11.9 Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru yn arfer eu pŵer i greu siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru er mwyn ffurfio Siambr Eiddo Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru i arfer awdurdodaeth Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

**Paragraff 3.155**

**Argymhelliad 10.**

11.10 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu trefniadaeth siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, gan gynnwys y posibilrwydd o greu Siambr Reoleiddio Gyffredinol, wrth i awdurdodaethau tribiwnlysoedd newydd gael eu creu.

**Paragraff 3.156**

**Argymhelliad 11.**

11.11 Rydym yn argymell y dylai deddfwriaeth greu Tribiwnlys Apêl i Gymru.

**Paragraff 4.80**

**Argymhelliad 12.**

11.12 Rydym yn argymell y dylai Gweinidogion Cymru gael pŵer drwy offeryn statudol i sefydlu siambrau'r Tribiwnlys Apêl ac i drosglwyddo awdurdodaeth apeliadol iddo.

**Paragraff 4.81**

**Argymhelliad 13.**

11.13 Rydym yn argymell y dylai Tribiwnlys Apêl Cymru, yn niffyg rheswm cadarnhaol dros ddarpariaeth wahanol, fod yn ganolfan apelio ar gyfer apeliadau gan Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Paragraff 4.82**

**Argymhelliad 14.**

11.14 Rydym yn argymell y dylai apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti fod angen caniatâd.

**Paragraff 4.95**

**Argymhelliad 15.**

11.15 Rydym yn argymell y dylid trosglwyddo apeliadau o baneli apeliadau derbyn ysgolion fod ar gael ar bwynt y gyfraith i Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Paragraff 4.135**

**Argymhelliad 16.**

11.16 Rydym yn argymell y dylai apeliadau pellach o benderfyniadau'r Siambr Addysg ar apeliadau o baneli apeliadau derbyn ysgolion gael eu cyfyngu i achosion sy'n codi rhyw bwynt pwysig o egwyddor neu ymarfer, neu lle mae rheswm cryf arall dros wrando ar yr apêl.

**Paragraff 4.136**

**Argymhelliad 17.**

11.17 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr yn Nhribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Dylid gwneud darpariaeth i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru eistedd mewn rheolau trefniadol neu gyfarwyddiadau.

**Paragraff 5.26**

**Argymhelliad 18.**

11.18 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn farnwr llywyddol Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.

**Paragraff 5.27**

**Argymhelliad 19.**

11.19 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn unol ag adran 85(2) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

**Paragraff 5.52**

**Argymhelliad 20.**

11.20 Os yw Tribiwnlys Prisio Cymru yn parhau y tu allan i'r system tribiwnlysoedd unedig, dylai, serch hynny, fod yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 5.63**

**Argymhelliad 21.**

11.21 Rydym yn argymell y dylid sefydlu Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd ar gyfer Cymru.

**Paragraff 6.55**

**Argymhelliad 22.**

11.22 Rydym yn argymell y dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru allu sefydlu is-grwpiau i ganolbwyntio ar feysydd gwaith penodol.

**Paragraff 6.56**

**Argymhelliad 23.**

11.23 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru fod yn gyfrifol am gadeirio Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru a phenodi ei aelodau.

**Paragraff 6.57**

**Argymhelliad 24.**

11.24 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, wrth benodi aelodau o Bwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru, ystyried y ffactorau a nodir mewn deddfwriaeth, gan gynnwys yr angen i:

(1) fuddiannau pob un o Siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ac, yn y man, Tribiwnlys Apêl Cymru, i gael ei gynrychioli;

(2) bod gan y Pwyllgor fynediad at bobl sydd ag arbenigedd perthnasol; a

(3) bod y Pwyllgor yn cynnwys pobl sydd â phrofiad o ymddangos gerbron y tribiwnlys neu o gynghori'r rhai sy'n gwneud hynny.

**Paragraff 6.58**

**Argymhelliad 25.**

11.25 Rydym yn argymell bod y rheolau'n cael eu gwneud gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ar ffurf y cytunir arni gan fwyafrif o'r Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd, ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

**Paragraff 6.59**

**Argymhelliad 26.**

11.26 Rydym yn argymell y dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru ymgynghori â phwy bynnag mae'n ystyried sy'n briodol (gan gynnwys aelodau'r tribiwnlys, aelodau o'r farnwriaeth ehangach, ymarferwyr a defnyddwyr tribiwnlysoedd) cyn gwneud y rheolau.

**Paragraff 6.60**

**Argymhelliad 27.**

11.27 Dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru fabwysiadu rheolau gweithdrefnol cyffredin ar draws y tribiwnlysoedd i'r graddau y bo hynny'n briodol.

**Paragraff 6.78**

**Argymhelliad 28.**

11.28 Dylid cael set o reolau gweithdrefnol ar gyfer pob un o siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ac ar gyfer Tribiwnlys Apêl Cymru. Os rhennir Tribiwnlys Apêl Cymru yn siambrau, dylai Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru ystyried a ddylid gwneud set o reolau ar wahân ar gyfer pob siambr.

**Paragraff 6.79**

**Argymhelliad 29.**

11.29 Rydym yn argymell y dylai'r ddeddfwriaeth fynnu bod Pwyllgor Gweithdrefnau Tribiwnlysoedd Cymru yn ystyried pa mor ddymunol yw cysondeb o fewn rheolau gweithdrefnol y tribiwnlysoedd datganoledig a rhyngddynt hwy a rheolau llysoedd a thribiwnlysoedd eraill yn y Deyrnas Unedig.

**Paragraff 6.87**

**Argymhelliad 30.**

11.30 Dylai rheolau gweithdrefnol Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru gynnwys:

(1) prif amcan;

(2) dyletswydd ar y partïon i gydweithredu â'i gilydd ac â'r tribiwnlys;

(3) darparu ar gyfer cyflwyno dogfennau drwy ddulliau electronig;

(4) pŵer i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf adolygu ei benderfyniadau ei hun; a

(5) rheolau ar wrandawiadau o bell.

**Paragraff 6.166**

**Argymhelliad 31.**

11.31 Rydym yn argymell y dylai aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 7.55**

**Argymhelliad 32.**

11.32 Rydym yn argymell y dylai Llywyddion ac unrhyw Ddirprwy Lywyddion Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 7.56**

**Argymhelliad 33.**

11.33 Rydym yn argymell y dylai aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 7.57**

**Argymhelliad 34.**

11.34 Rydym yn argymell y dylai aelodau Tribiwnlys Prisio Cymru gael eu penodi gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 7.77**

**Argymhelliad 35.**

11.35 Rydym yn argymell y dylai'r Llywydd ac unrhyw Ddirprwy Lywydd Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael eu penodi gan Weinidogion Cymru, gyda chytundeb Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 7.78**

**Argymhelliad 36.**

11.36 Rydym yn argymell y dylai'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ddethol ymgeiswyr ar gyfer pob penodiad i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.

**Paragraff 7.122**

**Argymhelliad 37.**

11.37 Rydym yn argymell y dylai'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol ddethol ymgeiswyr ar gyfer pob penodiad i Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Paragraff 7.123**

**Argymhelliad 38.**

11.38 Rydym yn argymell y dylai polisi cwynion safonol fod yn berthnasol i holl siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, gan ganiatáu ar gyfer amrywiadau i siambrau unigol lle bo angen.

**Paragraff 8.32**

**Argymhelliad 39.**

11.39 Rydym yn argymell y dylai'r polisi cwynion sy'n berthnasol i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru fod ar gael ar-lein ac ar ffurf copi caled ar gais.

**Paragraff 8.33**

**Argymhelliad 40.**

11.40 Rydym yn argymell y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am weinyddiaeth Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 8.34**

**Argymhelliad 41.**

11.41 Rydym yn argymell y dylid cael gweithdrefn unffurf ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau, Llywyddion a Dirprwy Lywyddion Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Paragraff 8.35**

**Argymhelliad 42.**

11.42 Rydym yn argymell bod Llywydd y Siambr berthnasol yn ymchwilio i gwynion am ymddygiad aelodau tribiwnlysoedd Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Paragraff 8.75**

**Argymhelliad 43.**

11.43 Rydym yn argymell bod cwynion am ymddygiad Llywyddion a Dirprwy Lywyddion Siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn cael eu hymchwilio gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol.

**Paragraff 8.76**

**Argymhelliad 44.**

11.44 Rydym yn argymell bod cwynion am ymddygiad aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru yn cael eu hymchwilio gan y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol.

**Paragraff 8.77**

**Argymhelliad 45.**

11.45 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Paragraff 8.89**

**Argymhelliad 46.**

11.46 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo aelodau Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

**Paragraff 8.97**

**Argymhelliad 47.**

11.47 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo Llywyddion a Dirprwy Lywyddion siambrau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

**Paragraff 8.110**

**Argymhelliad 48.**

11.48 Rydym yn argymell y dylai Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gael y pŵer i ddisgyblu a diswyddo Llywydd Siambr Brisio Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

**Paragraff 8.118**

**Argymhelliad 49.**

11.49 Rydym yn argymell y dylai'r Prif Weinidog gael y pŵer i ddiswyddo barnwyr Tribiwnlys Apêl Cymru. Dylai'r Prif Weinidog osod sancsiynau nad ydynt yn cynnwys diswyddo gyda chydsyniad Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

**Paragraff 8.125**

**Argymhelliad 50.**

11.50 Rydym yn argymell y dylai'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion ddarparu ar gyfer cwynion am ymddygiad aelodau paneli apêl derbyn i ysgolion.

**Paragraff 8.169**

**Argymhelliad 51.**

11.51 Rydym yn argymell sefydlu Gwasanaeth Tribiwnlysoedd i Gymru fel adran anweinidogol.

**Paragraff 9.53**

**Argymhelliad 52.**

11.52 Rydym yn argymell bod Gweinidogion Cymru ac eraill sy'n gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yng Nghymru yn ddarostyngedig i ddyletswydd statudol i barchu annibyniaeth y tribiwnlysoedd datganoledig.

**Paragraff 10.51**

**Argymhelliad 53.**

11.53 Rydym yn argymell y dylai fod yn ofynnol i holl aelodau Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru (gan gynnwys Llywyddion Siambr a Dirprwy Lywyddion) ac aelodau Tribiwnlys Apêl Cymru dyngu llw barnwrol neu gadarnhad.

**Paragraff 10.52**

# Atodiad 1: Rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd y grŵp ymgynghorol

### YN BRESENNOL YNG NGHYFARFOD CYNTAF Y GRŴP CYNGHORI A GYNHALIWYD AR 1 HYDREF 2020, MICROSOFT TEAMS

Andrew Shipsides (Prif Weithredwr Tribiwnlys Prisio Cymru)

Claire Sharp (Llywydd Panel Dyfarnu Cymru)

Carol Cobert (Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru)

Carolyn Kirby OBE (Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru)

Christopher Warner (Llywodraeth Cymru)

Elizabeth Price (Llywodraeth Cymru)

Emma Morris (Llywodraeth Cymru)

James Gerard (Llywodraeth Cymru)

Dr Huw Pritchard (Prifysgol Caerdydd)

Huw Williams (Uned Tribiwnlysoedd Cymru)

Imogen Sherriff (Llywodraeth Cymru)

Iwan Jenkins (Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg)

Maria Payne (Uned Tribiwnlysoedd Cymru)

Rhian Davies Rees (Uned Tribiwnlysoedd Cymru)

Rhiannon Walker (Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sydd bellach wedi cael ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru)

Richard Payne (Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru)

Dr Sarah Nason (Prifysgol Bangor)

Syr Wyn Williams (Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru)

## YN BRESENNOL YN AIL GYFARFOD Y GRŴP CYNGHORI A GYNHALIWYD AR 08 MEHEFIN 2021, MICROSOFT TEAMS

Carolyn Kirby OBE (Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru)

Claire Sharp (Llywydd Panel Dyfarnu Cymru)

David Slade (Llywodraeth Cymru)

Dr Huw Pritchard (Prifysgol Caerdydd)

James Gerard (Llywodraeth Cymru)

Maria Payne (Uned Tribiwnlysoedd Cymru)

Merisha Hunt (Llywodraeth Cymru)

Nicola Charles (Llywodraeth Cymru)

Rhian Davies Rees (Pennaeth Uned Tribiwnlysoedd Cymru)

Rhiannon Walker (Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, sydd bellach wedi cael ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru)

Richard Payne (Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru)

Dr Sarah Nason (Prifysgol Bangor)

# Atodiad 2: Rhestr o ddigwyddiadau ymgynghori

(1) Y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol (5 Chwefror 2021),

(2) Pwyllgor Cynghori Cymru Comisiwn y Gyfraith (9 Chwefror 2021),

(3) Cyngor Sir Fynwy (11 Chwefror 2021),

(4) Sesiwn dystiolaeth Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (22 Chwefror 2021),

(5) Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig (22 Chwefror 2021),

(6) Cyngor Sir Penfro (23 Chwefror 2021),

(7) Gweminar gyhoeddus (a gynhaliwyd ar y cyd â Cyfraith Gyhoeddus Cymru) (24 Chwefror 2021),

(8) Cyngor Casnewydd (5 Mawrth 2021),

(9) Cyngor Dinas Caerdydd ac aelodau paneli apêl annibynnol (10 Mawrth 2021),

(10) Y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol (15 Mawrth 2021),

(11) Staff Uned Tribiwnlysoedd Cymru (17 Mawrth 2021);

(12) Cynhadledd Flynyddol Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru (19 Mawrth 2021).

# Atodiad 3: Rhestr o ymatebwyr[259]

Aelod(au) o baneli ysgolion Caerdydd

Angela Keller, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Alun Green

Bob Chapman

Claire Sharp ar ran Panel Dyfarnu Cymru

Cyfraith Gyhoeddus Cymru

Cyngor Abertawe

Cyngor Ceredigion

Cyngor Dinas Caerdydd

Cyngor Gwynedd

Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir Penfro

Cyngor y Bar

Cyngor Ynys Môn

Cylchdaith Cymru a Chaer

Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar yng Nghymru

Cymdeithas y Cyfreithwyr

Christopher McNall

Dr Angela Ash

Dr Calum Delaney

Dr Huw Pritchard a Dr Sarah Nason

Dr Sarah Nason ac Ann Sherlock

---

259 Cawsom hefyd dri ymateb pellach gan unigolion a ofynnodd i'w hymatebion gael eu cadw'n ddienw.

Hilary Moriarty

Huw Williams

John Travers, Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig

Keith Bush CF

Nadia Alabere

Noel Edwards

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Patrick Moriarty

Richard Payne

Roger Handy

Syr Wyn Williams

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y Gwir Barchedig Dr Barry Morgan

Yr Athro Thomas G Watkin

# Atodiad 4: Tribiwnlysoedd o fewn cwmpas y prosiect hwn

4.1 Mae’r atodiad hwn yn rhoi trosolwg byr o bob un o’r tribiwnlysoedd sy’n dod o fewn cwmpas y prosiect.

## TRIBIWNLYSOEDD ADRAN 59

4.2 Y tribiwnlysoedd a ganlyn yw tribiwnlysoedd Cymru a restrir yn adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017, ac felly maent yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.[260] Gellir trawsleoli aelodau un tribiwnlys yng Nghymru i dribiwnlys arall yng Nghymru ar gais arweinydd barnwrol yr ail dribiwnlys a chyda cymeradwyaeth Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.[261] Gweinyddir holl dribiwnlysoedd Cymru gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru Llywodraeth Cymru.

### Panel Dyfarnu Cymru

4.3 Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000,[262] a phenodwyd ei aelodau cyntaf yn 2002. Sefydlwyd y tribiwnlys cyfatebol yn Lloegr, Panel Dyfarnu Lloegr, hefyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Fe’i diddymwyd yn 2010.[263]

4.4 Mae Panel Dyfarnu Cymru yn gyfrifol am benderfynu ar achosion honedig o dorri codau ymddygiad awdurdodau gan aelodau o gynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned, ac awdurdodau tân a pharciau cenedlaethol Cymru. Mae ganddo ddwy swyddogaeth statudol. Y cyntaf yw ystyried atgyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ymchwiliad gan yr Ombwdsmon i honiad bod aelod o awdurdod wedi torri cod ymddygiad statudol. Mae’r cyfeiriadau hyn yn cael eu gwrando gan dribiwnlysoedd achosion neu dribiwnlysoedd achosion interim.[264] Mae’r Panel Dyfarnu hefyd yn penderfynu ar apeliadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol, sy’n cael eu gwrando gan dribiwnlysoedd apêl.[265]

4.5 Mae’r Panel Dyfarnu yn cael ei arwain gan Lywydd Tribiwnlys, sy’n aelod cyfreithiol. Mae gan y tribiwnlys Ddirprwy Lywydd hefyd. Mae panel gwrandawiad fel arfer yn cynnwys tri aelod; dau aelod lleyg a’r cadeirydd, sy’n aelod cyfreithiol. Gall mwy nag un aelod cyfreithiol eistedd ar y panel; rydym yn deall bod y dull hwn wedi cael ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddi, neu lle mae gwrthdaro rhwng buddiannau, neu brinder aelodau lleyg.

---

260 Deddf Cymru 2017, adran 60.

261 Deddf Cymru 2017, adran 62.

262 Deddf Llywodraeth Leol 2000 adran 75(2)

263 Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd, Offeryn Statudol 2010 Rhif 22, erthygl 1(1), atodlen 2 paragraff 57(b) ac atodlen 5.

264 Deddf Llywodraeth Leol 2000 adran 69 (4).

265 Deddf Llywodraeth Leol 2000 adran 80.

4.6 Llwyth achosion bach sydd gan Banel Dyfarnu Cymru, a dim ond pedwar cais a dderbyniwyd yn ystod cyfnod adrodd 2020-2021.[266] Arweiniodd pandemig COVID-19 at ddefnyddio gwrandawiadau fideo er mwyn hwyluso'r Panel Dyfarnu i weithio o bell. Ar hyn o bryd, mae'r Panel yn adolygu pob achos er mwyn penderfynu a ddylid cynnal y gwrandawiad o bell neu wyneb yn wyneb.[267]

4.7 Mae hawl i apelio o dribiwnlysoedd achos i'r Uchel Lys.[268]

## Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

4.8 Sefydlwyd tribiwnlysoedd amaethyddol gan Ddeddf Amaethyddiaeth 1947. Nid oedd y Ddeddf yn darparu'n wreiddiol ar gyfer Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, gan roi'r pŵer i'r Arglwydd Ganghellor wneud gorchmynion i sefydlu tribiwnlysoedd ar gyfer ardaloedd penodol yng Nghymru a Lloegr. Arferwyd y pŵer hwnnw mewn perthynas â Chymru dan Orchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Ardaloedd) 1982.[269] Roedd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd 2013 yn diddymu tribiwnlysoedd tir amaethyddol ar gyfer ardaloedd yn Lloegr, gan drosglwyddo eu swyddogaethau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf. Roedd y Gorchymyn hefyd yn darparu ar gyfer parhad Tribiwnlys Tir Amaethyddol i Gymru.[270]

4.9 Mae'r tribiwnlys yn gwrando ar anghydfodau a materion eraill sy'n codi rhwng partïon i gytundebau tenantiaeth amaethyddol a ddelir dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986,[271] er enghraifft, landlord yn darparu offer sefydlog y mae ei angen ar denant er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth statudol.[272] Mae Deddf Draenio Tir 1991 hefyd yn rhoi awdurdodaeth iddo dros anghydfodau sy'n ymwneud â draenio tir amaethyddol.

4.10 Penodir Cadeirydd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru gan yr Arglwydd Ganghellor a rhaid iddo fod yn fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr ag o leiaf saith mlynedd o brofiad. Caiff paneli eu cadeirio gan aelod cyfreithiol, ynghyd ag aelodau lleyg o'r panel sydd â gwybodaeth a phrofiad o ffermio, draenio a materion tirfeddianwyr yng Nghymru.[273]

4.11 Yn ystod cyfnod adrodd 2020-2021, cafodd Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru gyfanswm o 13 cais, sy'n ostyngiad o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol.[274] Yn Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, gwelwyd 'ei bod yn rhesymol

---

266 Panel Dyfarnu Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (2021) tudalen 8. https://paneldyfarnu.llyw.cymru/sites/adjudicationpanel/files/2021-06/pdc-adroddiad-%20blynyddol-2020-21.pdf

267 Fel yr uchod, tudalen 3.

268 Deddf Llywodraeth Leol 2000 adran 78 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd, Offeryn Statudol 2010 Rhif 22, erthygl 1(1), atodlen 2 paragraff 60(f) ac atodlen 5.

269 Offeryn Statudol 1982 Rhif 97, erthygl 2 ac atodlen 1, paragraff 1.

270 Deddf Amaethyddiaeth 1947 adran 73 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Tribiwnlysoedd, Offeryn Statudol 2013 Rhif 1036).

271 Deddf Daliadau Amaethyddol 1986, adran 1.

272 Fel yr uchod, adran 11.

273 Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, tudalen we "Amdanom", https://tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru/ysgrifenyddiaeth-ac-aelodau.

274 Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (2021), tudalen 9.

tybio bod y pandemig wedi bod yn ffactor pwysig yn y gostyngiad mewn gwaith'.[275] Gan fod gwaith y tribiwnlys yn dibynnu'n drwm ar ymweliadau safle, cynhelir ei wrandawiadau fel arfer mewn gwestai, neuaddau tref neu adeiladau cyngor yn ardal y tir dan sylw. Daeth yn anodd trefnu'r rhain yn ystod 2020-2021 o ganlyniad i bandemig COVID-19.[276] Yn ystod y cyfnod hwn, mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru wedi ceisio 'delio â chymaint o faterion â phosibl ar sail y papurau yn hytrach nag mewn gwrandawiadau'.[277] Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru yn gallu gwrando ar faterion o bell lle bo angen.

4.12 Gall Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru adolygu ei benderfyniadau ei hun, naill ai ar ei liwt ei hun neu ar gais gan barti, os bydd mwy o dystiolaeth ar gael, neu os bydd y penderfyniad yn cynnwys gwall clerigol.[278] Gellir hefyd apelio i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Tiroedd) ar unrhyw bwynt cyfreithiol.[279]

## Tribiwnlys Addysg Cymru

4.13 Sefydlwyd y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig gan Ddeddf Addysg 1996, gyda Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn cael ei sefydlu gan Ddeddf Addysg 2002.[280] Ym mis Medi 2021, cafodd y tribiwnlys ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.[281] Yr hyn sy'n cyfateb i Dribiwnlys Addysg Cymru yn Lloegr yw'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd) sy'n rhan o Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf.

4.14 Mae'r Tribiwnlys yn gwrando ar apeliadau gan blant, rhieni plentyn, neu bobl ifanc yn erbyn penderfyniadau a wneir gan awdurdod lleol ynghylch plentyn neu unigolyn ifanc a'i addysg.[282] Mae hefyd yn gwrando ar hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd o dan adran 116 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

4.15 Arweinir Tribiwnlys Addysg Cymru gan Lywydd, a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor ac mae'n rhaid iddo fod yn fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr sydd ag o leiaf saith mlynedd o brofiad. Mae paneli'n cynnwys cadeirydd, y mae'n rhaid iddo feddu ar gymhwyster cyfreithiol, ac aelodau lleyg sydd â phrofiad ym maes addysg neu bwnc cysylltiedig.

---

275 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru*, Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (Ebrill 2021), tudalen 11..

276 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (Ebrill 2021), tudalen 11

277 Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (2021) tudalen 3 https://tribiwnlystiramaethyddol.llyw.cymru/sites/agriculturalland/files/2021-07/adroddiad-blynyddol-tta-20-21.pdf

278 Gorchymyn Tribiwnlys Tiroedd Amaethyddol (Rheolau) Offeryn Statudol Rhif 3105 atodlen 1, paragraff 32.

279 Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1954 adran 6(1).

280 Deddf Addysg 2002, adran 195.

281 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, adran 91. Daethpwyd â'r adran honno i rym gan Orchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) Offeryn Statudol 2021 Rhif 373, rheoliad 8(h).

282 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), adrannau 70 a 72. Yn flaenorol, adrannau 325, 326, 328, 329 a 329A o Ddeddf Addysg 1996.

4.16 Mae'r Tribiwnlys Addysg yn gwrando ar achosion mewn adeiladau cyhoeddus sydd fel arfer o fewn awr o bellter teithio o gartref y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Arweiniodd y pandemig COVID-19 at gynnal gwrandawiadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru o bell. Fel y nodwyd gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru, mae'r adborth wedi dangos 'bod gwrandawiadau drwy gynhadledd fideo wedi bod yn llwyddiant mawr'.[283] Y rheswm am hyn yw bod y gwrandawiadau o bell yn galluogi rhieni plant ag anghenion addysgol arbennig i aros yn eu cartrefi, sy'n golygu eu bod nhw'n 'fwy hamddenol ac yn fwy abl i gymryd rhan'.[284]

4.17 Cafodd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 172 o geisiadau yn ystod y flwyddyn 2019 – 2020.[285] Gellir gwneud apeliadau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol) ar bwynt cyfreithiol.[286]

### Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

4.18 Sefydlwyd Tribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl ar sail ranbarthol i ddechrau dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1959. Darparwyd yn benodol ar gyfer Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru gan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.[287] Mae'r Tribiwnlys yn gwrando ar geisiadau gan neu ar ran y rhai sy'n cael eu cadw mewn ysbyty yng Nghymru o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, neu unigolyn sy'n byw yng Nghymru sy'n destun rhyddhad neu warcheidiaeth gymunedol amodol. Yn Lloegr, mae Siambr Addysg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn gwrando ar hawliadau cyfatebol.

4.19 Llywydd y Tribiwnlys, sef yr unig farnwr cyflogedig yn y tribiwnlysoedd adran 59, sy'n gyfrifol am yr aelodau ac am benderfyniadau'r tribiwnlys. Yn ddieithriad, mae tri aelod tribiwnlys ar banel y gwrandawiad: aelod cyfreithiol, aelod meddygol (seiciatrig) ac aelod lleyg.[288]

4.20 Yn benodol, mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn delio â'r nifer fwyaf o geisiadau o'r holl dribiwnlysoedd datganoledig sy'n dod o dan adran 59 o Ddeddf Cymru 2017, gan dderbyn 2016 o geisiadau a gwrando ar 913 o achosion yn 2020-21.[289]

4.21 Fel arfer, cynhelir gwrandawiadau naill ai yn yr ysbytai lle mae cleifion yn cael eu cadw, neu, yn achos cleifion cymunedol, mewn lleoliadau sy'n agos at eu cartref.[290]

---

283 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru*, Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (Ebrill 2021) tudalen 12.

284 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru*, Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (Ebrill 2021) tudalen 12.

285 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (Ebrill 2020) paragraff 2.1.

286 Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), adran 81(1).

287 Deddf Iechyd Meddwl 1959 adran 3 a Deddf Iechyd Meddwl 1983 adran 65.

288 Roedd darpariaeth dros dro a wnaed dan Ddeddf y Coronafeirws 2020, atodlen 98 paragraff 11 ac wedyn Cyfarwyddyd Ymarfer gan Lywydd y Tribiwnlys a Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, i baneli gynnwys aelod cyfreithiol yn eistedd ar ei ben ei hun neu gydag un aelod arall, yn ddarpariaeth na ddefnyddiwyd erioed a daeth y Cyfarwyddyd Ymarfer i ben yng ngwanwyn 2021.

289 Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020 – 2021* (Mehefin 2021) tudalennau 10-12.

290 Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020 – 2021* (Mehefin 2021) tudalen 16.

4.22 Mae hawl i apelio i’r Uwch Dribiwnlys (Siambr Apeliadau Gweinyddol) ar bwynt cyfreithiol sy’n codi o benderfyniad a wnaed gan Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.[291]

### Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a Thribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig

4.23 Roedd Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996 (a oedd yn gymwys i Gymru a Lloegr) yn darparu ar gyfer cofrestr o arolygwyr ysgolion. Cafodd cofrestr debyg o arolygwyr addysg feithrin ei chreu gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Mae pob darn o ddeddfwriaeth yn creu hawl i apelio i dribiwnlys mewn cysylltiad â phenderfyniad i dynnu arolygydd oddi ar y gofrestr neu i osod amodau ar ei gofrestriad. Yn dilyn hynny, diddymodd Deddf Addysg 2005 y gofyniad i gofrestru arolygwyr ysgolion ac arolygwyr addysg feithrin yn Lloegr.[292]

4.24 Cafodd darpariaeth ar gyfer cofrestru arolygwyr ysgolion ac ysgolion meithrin ei chadw ar gyfer Cymru gan adran 25 o Ddeddf 2005, ynghyd â hawl i wneud cais i dribiwnlys o dan adran 27 o'r Ddeddf; gwneir darpariaeth ynghylch cyfansoddiad tribiwnlysoedd gan atodlen 3, sydd ymhlith pethau eraill yn grymuso aelodau tribiwnlys adran 59 arall i eistedd arnynt.[293] Cyfeirir at y tribiwnlysoedd fel dau dribiwnlys ar wahân gan y rheoliadau sy'n llywodraethu eu gweithdrefnau: Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a Thribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig.[294]

4.25 Ni wnaed ceisiadau i’r tribiwnlysoedd er 2007/2008. Nodwyd yn adroddiad blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ar gyfer 2018/2019 fod aelodau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gymwys i ddelio ag unrhyw achos a gododd yn yr awdurdodaeth.[295]

4.26 Caiff tribiwnlys a sefydlir o dan adran 27 o Ddeddf 2005 adolygu, gosod o'r neilltu neu amrywio ei benderfyniad os: bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn anghywir o ganlyniad i gamgymeriad ar ran staff y tribiwnlys; bod parti yn methu ymddangos gydag achos rhesymol; bod tystiolaeth newydd yn dod ar gael; neu fod buddiannau cyfiawnder yn ei gwneud yn ofynnol.[296] Nid oes darpariaeth ar gyfer apelio o’r tribiwnlys; mae adolygiad barnwrol ar gael.

### Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

4.27 Mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn cynnwys tri thribiwnlys gwahanol, pob un wedi eu lleoli mewn gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth sylfaenol; pwyllgorau asesu

---

291 Deddf Iechyd Meddwl 1983, adran 78A.

292 Deddf Addysg 2005, adran 60 ac atodlen 7 paragraff 7.

293 Deddf Addysg 2005, adran 27 ac atodlen 3 paragraff 1(3A).

294 Rheoliadau Addysg (Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a Thribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig) (Gweithdrefn) Offeryn Statudol 1999 Rhif 265.

295 Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, *Adroddiad Blynyddol Cyntaf* (Mawrth 2019) tudalen 5. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-12/adroddiad-blynyddol-cyntaf-llywydd-tribiwnlysoedd-cymru.pdf

296 Rheoliadau Addysg (Tribiwnlys Apêl Arolygwyr Ysgolion Cofrestredig a Thribiwnlys Apêl Arolygwyr Addysg Feithrin Cofrestredig) (Gweithdrefn) Offeryn Statudol 1999 Rhif 265, rheoliad 29(1)(d).

rhenti, tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau a thribiwnlysoedd eiddo preswyl.[297] Mae'r darnau hynny o ddeddfwriaeth yn rhoi awdurdodaethau ychwanegol i bwyllgorau asesu rhenti a grëir gan atodlen 10 Deddf Rhenti 1977 ac yn darparu y dylid eu galw, wrth arfer yr awdurdodaethau hynny, naill ai yn 'dribiwnlys eiddo preswyl' neu 'dribiwnlys prisio lesddaliad', fel y bo'n briodol. Yn ymarferol, cyfeirir atynt fel arfer fel Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.

4.28 Mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn gwrando ar geisiadau am eiddo sy'n cael ei rentu'n breifat ac eiddo lesddaliadol dan nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth.[298] Yn Lloegr, gwneir ceisiadau tebyg i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Eiddo).

4.29 Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi cadeiryddion tribiwnlysoedd, sydd â chymwysterau cyfreithiol. Mae Gweinidogion Cymru yn penodi llywydd ac is-lywydd o blith y cadeiryddion hynny. Mae holl aelodau eraill y tribiwnlys yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru.[299] Cynhelir gwrandawiadau tribiwnlys gan gadeirydd sydd â chymwysterau cyfreithiol, aelod proffesiynol ac, mewn rhai achosion, aelod lleyg.[300]

4.30 Yn 2020/2021, cafodd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru 106 o geisiadau: Roedd 60 o'r rhain yn ymwneud â gwaith y tribiwnlysoedd prisio lesddaliadau, 19 i'r pwyllgorau asesu rhenti, a 27 i'r tribiwnlysoedd eiddo preswyl.[301] Cynhelir gwrandawiadau mewn neuaddau tref neu bentref neu westai yn ardal yr eiddo mae anghydfod yn ei gylch. Gwrandewir rhai achosion yn swyddfa'r tribiwnlys, yn Cleppa Park yng Nghasnewydd, ond mae'r rhain yn brin. Clywyd un achos mawr a oedd yn cynnwys rhwng 30 a 40 o gyfranogwyr yn Llys Sirol Caerdydd.

4.31 Arweiniodd pandemig COVID-19 at Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru a Llywydd Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn cyhoeddi Cyfarwyddyd Ymarfer ar y cyd, o dan y pwerau yn Neddf Cymru 2017,[302] er mwyn 'mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r Tribiwnlys o ganlyniad i'r pandemig.'[303] Roedd y Cyfarwyddyd Ymarfer yn galluogi Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru i ddefnyddio gwrandawiadau o bell ac i weithredu'n electronig.

4.32 Gan fod y Tribiwnlys yn cynnwys tri thribiwnlys gwahanol, mae'r darpariaethau sy'n rheoli ei apeliadau'n wahanol. Mae pob apêl yn mynd i'r Uwch Dribiwnlys (Siambr

---

297 Deddf Rhenti 1977, adran 65 ac atodlen 10; Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, adran 173; a Deddf Tai 2004, adran 229.

298 Yn cynnwys Deddf Tai 1985, Deddf Tai 2004, Deddf Landlord a Thenant 1985 ac 1987, Deddf Rhenti 1977 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

299 Deddf Rhenti 1977, atodlen 10 paragraffau 2 i 5.

300 Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, tudalen we "Amdanom", https://tribiwnlyseiddopreswyl.llyw.cymru/ysgrifenyddiaeth-ac-aelodau.

301 Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (2021) tudalen 9. https://tribiwnlyseiddopreswyl.llyw.cymru/sites/residentialproperty/files/2021-07/adroddiad-blynyddol-tep-2020-21.pdf

302 Deddf Cymru 2017, adran 61.

303 *Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (Ebrill 2021), tudalen 5.

Tiroedd), ond mae apeliadau o bwyllgorau asesu rhenti wedi eu cyfyngu'n benodol gan ddeddfwriaeth sylfaenol i apeliadau ar bwynt cyfreithiol.[304]

## Tribiwnlys y Gymraeg

4.33 Sefydlwyd Tribiwnlys y Gymraeg yn 2015 o dan adran 120 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Mae'n gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg.[305] Nid oes tribiwnlys cyfatebol yn Lloegr.

4.34 Ceir tri math o apêl.

(1) os yw'r Comisiynydd yn rhoi gwybod i rywun am ddyfarniad lle nad yw'r gofyniad i gydymffurfio â Safon yn afresymol neu'n anghymesur, gall y Tribiwnlys ddyfarnu a yw'r gofyniad yn afresymol neu'n anghymesur;[306]

(2) gall unigolyn sydd wedi gwneud cwyn i'r Comisiynydd fod unigolyn arall wedi methu â chydymffurfio â Safon apelio

(a) yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd nad yw'r unigolyn arall wedi methu â chydymffurfio â'r Safon;[307] neu

(b) yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad, peidio ag ystyried p'un ai i gynnal ymchwiliad neu i roi'r gorau i ymchwiliad.[308]

4.35 Cafodd y tribiwnlys 13 o geisiadau newydd yn 2020-2021,[309] y rhan fwyaf ohonynt (naw cais) yn dod o dan adran 103 y Mesur ac felly'n dod o dan gategori 2(b) uchod.[310]

4.36 Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg sy'n gyfrifol am drefnu gwaith yr aelodau, ac am wneud penderfyniadau mewn perthynas ag apeliadau a chwynion. Penodir y Llywydd gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo naill ai fod yn fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr gydag o leiaf ddeng mlynedd o brofiad. Gwrandewir ar achosion gan aelod cyfreithiol, a dau aelod lleyg.

---

304 Gweler Deddf Rhenti 1997, adran 65A; Deddf Tai 2004, adran 231(1); a Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, adran 175(1).

305 Rheoleiddir gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rhan 4.

306 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, adran 58.

307 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, adran 99.

308 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, adran 103. Ymdrinnir ag apêl o dan adran 103 yn unol ag egwyddorion adolygiad barnwrol.

309 Tribiwnlys y Gymraeg, *Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (Gorffennaf 2021) tudalen 10 https://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/sites/welshlanguage/files/2021-07/adroddiad-blynyddol-tyg-20-21.pdf

310 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, adran 103.

4.37 Roedd pandemig COVID-19 yn golygu bod Tribiwnlys y Gymraeg, yn debyg iawn i'r tribiwnlysoedd uchod, wedi symud i ddefnyddio rhith wrandawiadau er mwyn parhau i weithio.[311]

4.38 Gall Tribiwnlys y Gymraeg adolygu, amrywio neu ddiddymu ei benderfyniadau ei hun.[312] Mae hawl i apelio i'r Uchel Lys ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o benderfyniad a wnaed gan Dribiwnlys y Gymraeg.[313] Hyd yma, ni chafwyd apeliadau o Dribiwnlys y Gymraeg i'r Uchel Lys.[314]

## TRIBIWNLYSOEDD ERAILL

4.39 Nid "tribiwnlysoedd Cymru" yw'r tribiwnlysoedd a ganlyn a restrir yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017. Nid oes ganddynt berthynas ffurfiol â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac nid ydynt yn cael eu gweinyddu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru.

### Tribiwnlys Prisio Cymru

4.40 Mae hanes tribiwnlysoedd prisio yn un hir, a gellir ei olrhain yn ôl i Ddeddf Pwyllgorau Asesu'r Undeb 1862.[315] Mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn wahanol mewn sawl ffordd i'r tribiwnlysoedd adran 59. Yn hanesyddol, roedd cysylltiad agos rhyngddo â llywodraeth leol, gyda thribiwnlysoedd prisio ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae hefyd yn gwrando ar lawer mwy o achosion na'r tribiwnlysoedd datganoledig eraill. Yn 2019-20, rhestrodd Tribiwnlys Prisio Cymru 4,183 o achosion graddio, 687 o achosion prisio'r dreth gyngor ac 118 o fathau eraill o apêl (materion yn ymwneud ag atebolrwydd treth gyngor yn bennaf).[316]

4.41 Mae achosion yn cael eu gwrando gan gorff mawr o aelodau, sy'n wirfoddolwyr di-dâl. Ar hyn o bryd mae 85 o aelodau, o'i gymharu ag uchafswm statudol o 105. Mae tri aelod fel arfer yn gwrando ar apeliadau, gyda chlerc yn eu cynorthwyo. Mae clercod yn gyflogeion i'r Tribiwnlys Prisio, sydd ag arbenigedd a hyfforddiant manwl yn sylwedd gwaelodol yr apêl – rhai ohonynt hefyd yn meddu ar gymwysterau cyfreithiol. Eu rôl yw rhoi cyngor ar y gyfraith a'r drefn berthnasol.[317] Mae gan y Tribiwnlys Prisio chwe chlerc tribiwnlysoedd a dau uwch glerc tribiwnlysoedd.[318]

---

311 Tribiwnlys y Gymraeg, *Adroddiad Blynyddol 2020-2021* (Gorffennaf 2021) tudalen 3 https://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/sites/welshlanguage/files/2021-07/adroddiad-blynyddol-tyg-20-21.pdf

312 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, adran 123(4)(i).

313 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, adran 105(2).

314 Tribiwnlys y Gymraeg, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (Gorffennaf 2020) tudalen 12 https://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/sites/welshlanguage/files/2021-07/adroddiad-blynyddol-tyg-20-21.pdf

315 https://www.valuationtribunal.gov.uk/about-us/who-we-are/.

316 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (2020) paragraff 2.1. Mae Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru yn egluro ym mharagraff 3 bod ffigurau'r apeliadau a gofnodwyd yn 2019 – 2020 yn is nag arfer, gan fod y Swyddfa Brisio wedi bod yn gwneud gwaith arall, gan leihau ei gallu i ddelio ag apeliadau. Mae'r Llywydd yn rhagweld y bydd y ffigurau'n dychwelyd i'w lefel uwch arferol yn y cyfnod adrodd nesaf.

317 I gael rhagor o fanylion am rôl y clerc, gweler Cyfarwyddyd Ymarfer Gorau 2B: https://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/best-practice-protocols/cy/2021/2b_Rol_y_Clerc_-_2021.08_w_.pdf.

318 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad Blynyddol 2019-2020* (2020) tudalen 26.

4.42 Mae'r Tribiwnlys Prisio yn gallu adolygu ei benderfyniadau ei hun. Gwneir apeliadau pellach i'r Uchel Lys (ar bwynt cyfreithiol, ar gyfer achosion prisio'r dreth gyngor) neu i'r Tribiwnlys Tiroedd (mewn perthynas ag achosion ardrethu annomestig). Mae'r Tribiwnlys Prisio yn gwrando ar achosion yn lleol ledled Cymru.

4.43 Mae'r Tribiwnlys Prisio yn cynnal ei weinyddiaeth ei hun ac mae ganddo ei Brif Weithredwr ei hun. Fe'i rheolir gan Gyngor Llywodraethu, sy'n cynnwys Llywydd Tribiwnlys Prisio Cymru, tri chynrychiolydd cenedlaethol, a hyd at dri aelod a benodir gan Lywodraeth Cymru.[319] Lluniwyd y ddogfen fframwaith sy'n rheoleiddio'r berthynas rhwng y Tribiwnlys Prisio a Llywodraeth Cymru gan ei Chyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol.[320]

### Datblygiad hanesyddol y tribiwnlysoedd prisio

4.44 Cyrff rhanbarthol oedd tribiwnlysoedd prisio yn wreiddiol. Fe'u cyfnerthwyd yn Lloegr gan Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 a ddisodlodd y 56 tribiwnlys presennol yn Lloegr gydag un Tribiwnlys Prisio ar gyfer Lloegr. Roedd y Ddeddf yn cadw'r Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio a sefydlwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n darparu cymorth gweinyddol i Dribiwnlys Prisio Lloegr. Mae Deddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 hefyd wedi creu swyddi newydd fel Llywydd ac Is-lywyddion Tribiwnlys Prisio Lloegr. Gwneir penodiadau i'r swyddi hynny gan yr Arglwydd Ganghellor ar gyngor y Comisiwn Penodiadau Barnwrol.

4.45 Adeg y diwygiadau hyn yn Lloegr, roedd pedwar tribiwnlys prisio annibynnol yng Nghymru o hyd (Dwyrain, Gorllewin, De a Gogledd). Fe'u cefnogwyd gan wasanaeth gweinyddu canolog (Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru), a sefydlwyd yn 2006.[321] Disodlwyd y system honno gan Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 ("Rheoliadau 2010") a ddisodlodd y pedwar tribiwnlys presennol a Gwasanaeth Tribiwnlysoedd Prisio Gymru gyda Thribiwnlys Prisio presennol Cymru.[322]

### Diwygio Tribiwnlys Prisio Cymru yn 2017

4.46 Roedd adroddiad 2016 y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru ("Adroddiad 2016") wedi gwneud nifer o argymhellion pellach mewn perthynas â Thribiwnlys Prisio Cymru. Nododd fod strwythurau "Cymru gyfan" yn well na strwythur rhanbarthol. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn argymell y gallai Tribiwnlys Prisio Cymru gael ei weinyddu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru, gan nodi:

> Ymddengys nad oes unrhyw obaith realistig y gellid trosglwyddo'r Tribiwnlys Prisio i Uned Tribiwnlys Cymru a'i weinyddu o fewn y pum mlynedd nesaf. Mae rhwystrau

---

319 Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru Offeryn Statudol 2010 Rhif 713 (Cy 69), rheoliad 6.

320 https://www.valuationtribunal.wales/fileadmin/resources/docs/publications/cy/Dogfen_Fframwaith.pdf

321 Sefydlwyd gan Reoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Cymru) Offeryn Statudol 2005 Rhif 3364 (Cy 261) (sydd bellach wedi ei ddiddymu).

322 Offeryn Statudol 2010 Rhif 713 (Cy 69).

logistaidd sylweddol yn gysylltiedig, inter alia, â system TG y tribiwnlys sy'n gysylltiedig â'r VOA ac â threfniadau pensiwn staff Tribiwnlys Prisio Cymru.[323]

4.47 Fodd bynnag, roedd Adroddiad 2016 yn ystyried y gellid gwneud diwygiadau i reoliadau 2010 i ddileu rôl awdurdodau lleol wrth benodi aelodau, a oedd, yn marn yr awduron, yn tanseilio ymddangosiad annibyniaeth y tribiwnlys.[324] Roedd yr Adroddiad hefyd yn beirniadu'r system ar y pryd ar gyfer ethol aelodau, gan alw'r system o ethol cadeiryddion tribiwnlysoedd prisio, llywyddion ac aelodau'r Cyngor Llywodraethu yn 'anacroniaeth'. Argymhellodd yn hytrach system benodi ar sail teilyngdod.

4.48 Mewn ymateb i'r argymhellion hyn, fe wnaeth Gweinidogion Cymru Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru (Diwygio) 2017 ("Rheoliadau 2017").[325] Y prif newidiadau a wnaed oedd:

(1) dileu rôl awdurdodau lleol yn y broses benodi;

(2) disodli'r pedwar 'cynrychiolydd rhanbarthol' (a'u pedwar dirprwy) gyda thri 'cynrychiolydd cenedlaethol', i 'helpu Tribiwnlys Prisio Cymru i symud ymlaen o strwythur rhanbarthol i strwythur ar gyfer Cymru gyfan'[326]

(3) dileu'r broses ethol ar gyfer cadeiryddion, a darparu y dylai aelodau a chadeiryddion gael eu penodi gan baneli dethol, sy'n cynnwys aelodau o'r Cyngor Llywodraethu;

(4) cyflwyno uchafswm o aelodau, a fyddai'n gostwng yn raddol i 105 o 1 Ebrill 2020 ymlaen; a

(5) symleiddio'r drefn etholiadol ar gyfer y llywydd, a chynrychiolwyr cenedlaethol.

4.49 Er nad yw'n un o 'dribiwnlysoedd Cymru' fel y'i diffinnir gan adran 59(1) o Ddeddf Cymru 2017, mae Tribiwnlys Prisio Cymru yn awdurdod datganoledig Cymreig.[327]

4.50 Arweiniodd pandemig COVID-19 at staff tribiwnlysoedd yn gweithio o bell; newid a arweiniodd at ganslo rhai gwrandawiadau.[328] Dechreuodd Tribiwnlys Prisio Cymru gyhoeddi hysbysiadau ar gyfer gwrandawiadau wyneb yn wyneb ym mis Mehefin 2020,[329] ond gwrandawiadau fideo yw'r 'ffordd arferol o fynd i wrandawiad o hyd'.[330]

---

323 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru, *Cyfiawnder gweinyddol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* (2016) paragraff 42.

324 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru, *Cyfiawnder gweinyddol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* (2016) paragraff 43.

325 Offeryn Statudol 2017 Rhif 941 (Cy 234).

326 Memorandwm esboniadol, paragraff 43.

327 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 157A ac atodlen 9A.

328 Tribiwnlys Prisio Cymru, *Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Prisio Cymru 2019-2020* (2020) tudalen 4.

329 Protocol Arferion Gorau Tribiwnlys Prisio Cymru.

330 https://www.valuationtribunal.wales/cy/newiddion-diweddaraf/archive/article/video-hearings.html?cHash=e572d46111b7b3b9527051ed8bdb8794

## Paneli apelio annibynnol

4.51 Mae paneli derbyn ysgolion yn gwrando ar apeliadau gan awdurdodau derbyn, sy'n penderfynu pa ysgol y dylai plentyn ei mynychu. Mae paneli apêl gwaharddiadau yn gwrando ar apeliadau gan lywodraethwyr ysgol, sydd wedi penderfynu y dylid gwahardd disgybl o ysgol. Awdurdodau lleol sy'n gweinyddu'r ddau banel fel arfer. Yn ymarferol, mae'n gyffredin iddynt gael eu rhedeg gyda'i gilydd, dan y term cyffredinol 'panel apêl annibynnol'.

4.52 Er mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r panel fel arfer, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cod statudol ar apeliadau derbyn ("y Cod Apelau Derbyn").[331] Mae hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion ("y Canllawiau Gwahardd").[332]

4.53 Gan fod gweinyddiaeth y paneli hyn wedi ei datganoli, mae'n anodd cael gafael ar ddata dibynadwy am sut maent yn gweithredu. Mae rhai awdurdodau lleol yn rhyddhau manylion am nifer yr apeliadau derbyn i ysgolion maent yn eu gwrando, yn rhannol er mwyn cynorthwyo rhieni a all fod yn ystyried a ydynt am apelio ai peidio. Ond mae'r data hwn yn anghyson, ac nid ydym wedi gallu dod o hyd i unrhyw awdurdod lleol sy'n cyhoeddi manylion gwrandawiadau paneli gwahardd ysgolion.

4.54 Dylai gwrandawiadau paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion gael eu cynnal mewn lleoliadau niwtral, ac nid yn yr ysgol sy'n derbyn/eithrio. Mae adeiladau awdurdodau lleol yn fannau a ganiateir, ar yr amod bod y gwrandawiad yn cael ei gynnal mewn adeilad nad yw'n gysylltiedig â'r awdurdod addysg neu dimau derbyn neu wahardd yr awdurdod lleol.

4.55 Er nad yw paneli apêl derbyn a gwahardd ysgolion wedi eu rhestru fel rhai o dribiwnlysoedd Cymru yn adran 59(1) Deddf Cymru 2017, maent wedi eu rhestru fel awdurdodau datganoledig Cymreig yn atodlen 9A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Paneli apêl derbyn i ysgolion

4.56 Yng Nghymru, mae adran 94(5) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gwneud awdurdodau derbyn yn gyfrifol am weinyddu'r paneli apêl derbyn.[333] Awdurdodau lleol yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir (y mwyafrif o ysgolion yng Nghymru), tra mai cyrff llywodraethu yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Yng Nghymru, ysgolion ffydd yw'r rhain yn aml, sy'n cael eu rhedeg gan yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru.

---

331 Gwneir y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion o dan adran 84 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. Llywodraeth Cymru, *Y cod apelau derbyn i ysgolion* (2013). Gweler https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion.pdf

332 Llywodraeth Cymru, *Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion* (Tachwedd 2019). https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gwahardd-o-ysgolion-ac-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf

333 Mae adran 95(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 hefyd yn caniatáu i gorff llywodraethu apelio i banel yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i dderbyn plentyn sydd wedi ei wahardd o'r blaen o ddwy neu ragor o ysgolion.

4.57 Yn ymarferol, caiff cyrff llywodraethu benderfynu gofyn i'r awdurdod lleol drefnu'r paneli apêl mae'r corff llywodraethu yn gyfrifol amdanynt. Mae'r Cod Apelau Derbyn hefyd yn rhagweld y posibilrwydd o gydweithio rhwng awdurdodau lleol. Mewn perthynas ag aelodau'r panel, mae'r Cod Apelau Derbyn yn nodi y gall 'cronni adnoddau gydag awdurdodau derbyn cyfagos ac awdurdodau lleol helpu i sicrhau nad yw'r un aelodau'n eistedd ar baneli ar gyfer ysgol dro ar ôl tro'.[334]

4.58 Mae paneli apêl derbyn i ysgolion yn cynnwys tri neu bump o aelodau. Rhaid i un o'r aelodau hynny fod â phrofiad o fyd addysg, neu fod yn rhiant i ddisgybl sydd wedi ei gofrestru mewn ysgol arall. Rhaid i un arall fod yn "aelod lleyg": rhywun heb brofiad personol o reoli unrhyw ysgol na darparu addysg mewn unrhyw ysgol.[335] Mae'n ofynnol i awdurdodau derbyn ail-hysbysebu ar gyfer aelodau lleyg bob tair blynedd.

4.59 Gall y panel apêl roi cyfarwyddyd bod plentyn yn cael lle mewn ysgol benodol. Mae'r penderfyniad hwnnw'n rhwymo'r awdurdod derbyn a chorff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir lle mae'r panel yn penderfynu y dylid lleoli'r plentyn.[336]

4.60 Mae apeliadau derbyn i ysgolion yn llawer mwy cyffredin nag apeliadau gwahardd. Roedd Adroddiad 2016 yn adrodd ar amcangyfrif 2013 o 600 o apeliadau derbyn i ysgolion yng Nghymru bob blwyddyn.[337] Mae'r rhain yn amrywio rhwng awdurdodau lleol unigol. Yn ardal Cyngor Sir Caerdydd, er enghraifft, roedd 408 o apeliadau yn y flwyddyn 2018 i 2019, a 26 ohonynt yn llwyddiannus.[338] Ym Mro Morgannwg, cafwyd 132 o apeliadau, a llwyddodd chwech ohonynt.[339]

4.61 Mewn ymateb i bandemig COVID-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau anstatudol a oedd yn egluro mesurau dros dro a oedd wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r mesurau hyn wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn (Cymru) Coronafeirws (Diwygio) 2020 ac maent yn cael blaenoriaeth dros y cod Apelau lle mae'r ddau yn gwrthdaro.[340]

### Paneli apeliadau gwaharddiadau ysgolion

4.62 Darperir ar gyfer paneli gwahardd ysgolion gan Ddeddf Addysg 2002, ac maent yn gwrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau disgyblu cyrff llywodraethu

---

334 Llywodraeth Cymru, *Y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion* (2013), paragraffau A.7 a 2.9.

335 Rheoliadau'r Addysg (Trefniadau Apeliadau Derbyn) (Cymru) Offeryn Statudol 2005 Rhif 1398 (Cy 112), atodlen 1 paragraff 1.

336 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, adran 94(6).

337 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru, *Cyfiawnder gweinyddol: sylfaen cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru* (2016) paragraff 49.

338 Gweler https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Ysgolion-a-dysgu/Ysgolion/Gwneud-cais-am-le-mewn-ysgol/Apelio-penderfyniad-am-le-mewn-ysgol/Pages/default.aspx

339 Cyngor Bro Morgannwg, *Canllaw i Rieni ar Dderbyniadau i Ysgolion yn y Fro 2019/20, Addysgu Plant ym Mro Morgannwg*, tudalen 26.

340 https://llyw.cymru/newidiadau-i-reoliadau-apelau-derbyn-yn-ystod-argyfwng-y-coronafeirws-canllawiau-diwygiedig-medi

ynghylch gwaharddiadau parhaol.[341] Cânt eu trefnu gan yr awdurdod lleol.[342] Mae cyfansoddiad y paneli yn debyg i gyfansoddiad y paneli derbyn; mae panel yn cynnwys tri neu bum aelod, gan gynnwys aelodau lleyg, aelodau sy'n gweithio ym maes addysg neu reoli addysg, ac aelodau sydd wedi bod yn llywodraethwyr ysgolion a gynhelir neu sy'n llywodraethwyr ar hyn o bryd.[343]

4.63 Gall panel orchymyn:

(1) bod y gwaharddiad yn cael ei gadarnhau;

(2) bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl; neu

(3) mae'r achos yn un eithriadol lle nad yw ailsefydlu yn ffordd ymarferol ymlaen, ond fel arall byddai wedi bod yn gyfarwyddyd priodol.[344]

4.64 Mae llai o apeliadau gwahardd nag a geir o apeliadau derbyn. Nid yw gwybodaeth yn cael ei chasglu gan Lywodraeth Cymru, ac felly mae'n anodd gwybod faint sy'n digwydd bob blwyddyn. Mae Adroddiad 2016 yn cyfeirio at astudiaeth ddichonoldeb flaenorol a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn adrodd bod 21 o apeliadau yn 2011- 2012.[345] Mae ymchwil diweddar yn awgrymu y gallai'r cyfanswm fod ychydig yn uwch erbyn hyn. Mae awduron Public Administration and a Just Wales: Education (adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020) yn egluro eu bod wedi ceisio cael gafael ar wybodaeth drwy wneud ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gan ofyn faint o baneli gwahardd roeddent wedi eu cynnull yn ystod y flwyddyn flaenorol. Esbonnir yn yr adroddiad:

> O'r 12 awdurdod lleol a ymatebodd i'n cais rhyddid gwybodaeth yn gofyn faint o baneli apêl gwaharddiadau ysgol roeddent wedi eu cynnull dros y 12 mis diwethaf, gwrthododd 3 ddatgelu'r wybodaeth oherwydd y niferoedd isel dan sylw a'r risg o ddod i wybod pwy oedd y myfyrwyr. Roedd y 9 arall, rhyngddynt, wedi cynnull cyfanswm o 18 panel: nid oedd un awdurdod wedi cynnull paneli, roedd 4 wedi cynnull un yr un, roedd un wedi cynnull 3, roedd un wedi cynnull 4, ac roedd un wedi cynnull 7 yn ystod y cyfnod 12 mis.[346]

4.65 Mae'r canllawiau statudol gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i gyfarfodydd gwahardd gael eu cynnal ar-lein lle mae amodau penodol yn cael eu bodloni.[347] Yn eu mysg:

---

341 Deddf Addysg 2002, adran 52.

342 Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) Offeryn Statudol 2003 Rhif 3227 (Cy 308) rheoliad 7(1).

343 Uchod, atodlen 1 paragraff 2(2).

344 Uchod, rheoliad 7(5).

345 Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Cymru, *Administrative Justice: A Cornerstone of Social Justice in Wales* (2016) paragraff 50.

346 S Nason, A Sherlock, H Taylor a H Pritchard, *Public administration and a just Wales* (Mawrth 2020), tudalen 67.

http://adminjustice.bangor.ac.uk/documents/Public_Administration_and_a_Just_Wales_(Final_Full).pdf

347 https://llyw.cymru/gwahardd-or-ysgol-canllawiau-cyfarfodydd-html

(1) pan nad yw'n rhesymol ymarferol i'r cyfarfod gael ei gynnal wyneb yn wyneb a;

(2) phan fo'r pwyllgor disgyblu, yr awdurdod lleol neu'r awdurdod trefnu wedi eu bodloni

(a) bod yr holl gyfranogwyr yn cytuno i wrandawiadau mynediad o bell;

(b) bod yr holl gyfranogwyr yn gallu cael gafael ar y dechnoleg sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan;

(c) y gall yr holl gyfranogwyr gyflwyno eu barn ac;

(d) y gellir cynnal y cyfarfod yn deg ac yn dryloyw drwy fynediad o bell.

4.66 Yn ystod pandemig COVID-19, bu Llywodraeth Cymru yn drugarog at bwyllgorau disgyblaeth a phaneli apêl annibynnol wrth baratoi gwrandawiadau ar sail yr amserlenni a ddarparwyd.[348]

## Paneli Gofal Cymdeithasol Cymru

4.67 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, a elwid gynt yn Gyngor Gofal Cymru, yn gorff corfforaethol. Mae ei swyddogaethau statudol ar gael yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Un o'i ddyletswyddau yw cadw cofrestr o'r holl weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru.[349] Os bydd y cofrestrydd yn gwrthod cofrestru ceisydd neu'n gwrthod adnewyddu ei gofrestriad, caiff yr ymgeisydd apelio i'r panel apeliadau cofrestru, a sefydlir gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Caiff panel gorchmynion interim benderfynu a ddylid gosod gorchymyn interim ar gofrestriad os ydynt yn penderfynu bod risg i'r cyhoedd, neu os yw er budd y cyhoedd nes ceir canlyniad ymchwiliad. Yn olaf, mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gweinyddu paneli addasrwydd i ymarfer.[350]

4.68 Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn gyfrifol am lunio rheolau ynghylch cyfansoddiad y paneli, sy'n cynnwys tri neu bump o aelodau. Mae aelodau naill ai'n aelodau lleyg (a ddiffinnir fel aelod o'r cyhoedd nad yw'n weithiwr cymdeithasol, neu'n ymwneud â gwaith cymdeithasol) neu'n aelodau gofal cymdeithasol (unigolyn sy'n weithiwr cymdeithasol cofrestredig neu sydd fel arall yn ymwneud yn broffesiynol â gofal cymdeithasol).[351] Mae clerc, a gyflogir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, yn cynorthwyo'r panel. Cynorthwyir y panel hefyd gan gynghorydd cyfreithiol.

4.69 Mae apeliadau o'r paneli yn mynd i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Safonau Gofal), sy'n rhan o'r Siambr Iechyd, Addysg a Gofal Cymdeithasol.

---

348 Fel yr uchod

349 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, adran 80(2).

350 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, pwynt 8.

351 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, adrannau 174(2), (4), (8) a (9), Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Unigolion Rhagnodedig) Rheoliadau Offerynnau Statudol 2016 Rhif 1099 (Cy 263) rheoliadau 3, 4 a 5 ac atodlenni 1, 2 a 3, Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli) 2020 rheoliad 7.

4.70 Gwneir rheolau ar gyfer y gwahanol fathau o wrandawiadau gan Gofal Cymdeithasol Cymru, er y gall Llywodraeth Cymru hefyd gyhoeddi canllawiau ar eu cynnwys, gan gynnwys rheolau enghreifftiol.[352] Nid yw'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheolau enghreifftiol; ond pe bai'n gwneud hynny, byddai'n rhaid i Gofal Cymdeithasol Cymru gadw atynt.

352 Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) Offerynnau Statudol 2016 Rhif 1100 (Cy 264) rheoliadau 13 a 26.